Dogfen ir Cyhoedd

CYNGOR SIR
YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY
COUNTY COUNCIL

# GŴYS A RHAGLEN

ar gyfer

**CYFARFOD O GYNGOR SIR YNYS MÔN**

a gynhelir yn

**SIAMBR Y CYNGOR
SWYDDFA'R SIR
LLANGEFNI**

**DYDD MAWRTH,
10 MAWRTH 2020**

**am 2.00 o'r gloch yp**

# SUMMONS AND AGENDA

for a

**MEETING OF THE ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL**

to be held at the

**COUNCIL CHAMBER
COUNCIL OFFICES
LLANGEFNI**

**TUESDAY
10 MARCH 2020**

**at 2.00 pm**

***Nodwch os gwelwch yn dda fod cyfarfodydd y Pwyllgor yn cael eu ffilmio ar gyfer eu darlledu'n fyw a'u darlledu wedyn ar wefan y Cyngor. Mae'r Awdurdod yn Rheolydd Data dan y Ddeddf Diogelu Data a bydd data a gesglir yn ystod y gweddarllediad hwn yn cael ei gadw'n unol â pholisi cyhoeddedig yr Awdurdod.***

**R H A G L E N**

**1. COFNODION**

Cyflwyno i'w cadarnhau, gofnodion drafft y cyfarfod o'r Cyngor Sir a gynhaliwyd ar 10 Rhagfyr 2019.

**2. DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Derbyn unrhyw ddatganiad o ddiddordeb gan unrhyw Aelod neu Swyddog mewn perthynas ag unrhyw eitem ar y rhaglen.

**3. DERBYN UNRHYW DDATGANIADAU GAN Y CADEIRYDD, YR ARWEINYDD, NEU'R PRIF WEITHREDWR**

**4. CYFLWYNO DEISEBAU**

Derbyn unrhyw ddeiseb yn unol â Pharagraff 4.1.11 y Cyfansoddiad.

**5. RHYBUDD O GYNNIG YN UNOL Â RHEOL 4.1.13.1 Y CYFANSODDIAD**

Derbyn y Rhybudd o Gynnig isod gan y Cynghorydd J Arwel Roberts:-

Ym mis Ebrill y llynedd bu i Weinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig Llywodraeth Cymru, Lesley Griffiths AC, ddatgan argyfwng hinsawdd yng Nghymru.

Mae Cyngor Gwynedd eisoes wedi dilyn Llywodraeth Cymru ac wedi datgan argyfwng hinsawdd, ac mae awdurdodau eraill yn bwriadu cymryd camau cyffelyb.

Galwaf ar y Cyngor hwn i ddilyn yr un esiampl ac i gefnogi ymrwymiad i gyflawni Sector Cyhoeddus Carbon Niwtral erbyn 2030. Mae'n rhaid i ni gydnabod nad oes modd i'r cyngor hwn barhau â busnes fel arfer ac mae angen paratoi cynllun gweithredu y gellir ei fonitro a'i weithredu.

Mae'n rhaid i ni roi'r gorau i fuddsoddi mewn tanwydd ffosil, mae angen i ni ddefnyddio ein polisïau cynllunio i gyflawni datblygiadau a chymunedau sero net yn gyflymach.

Rydym mewn sefyllfa i wneud gwahaniaeth er budd cenedlaethau'r dyfodol ac mae dyletswydd foesol arnom i weithredu.

Gofynnaf i chi gefnogi'r cynnig hwn.

6. **RHEOLI TRYSORLYS - ADOLYGIAD CANOL BLWYDDYN 2019/20**

Cyflwyno adroddiad gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 fel y'i cyflwynwyd i'r Pwyllgor Gwaith ar 16 Rhagfyr 2019.

7. **DATGANIAD STRATEGAETH RHEOLI TRYSORLYS 2020/21**

Cyflwyno adroddiad gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 fel y'i cyflwynwyd i'r Pwyllgor Gwaith ar 2 Mawrth 2020.

8. **ARFERION RHEOLI TRYSORLYS**

Cyflwyno adroddiad gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 fel y'i cyflwynwyd i'r Pwyllgor Gwaith ar 2 Mawrth 2020.

9. **STRATEGAETH GYFALAF A RHAGLEN GYFALAF 2021 I 2022/23**

Cyflwyno adroddiad gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 fel y'i cyflwynwyd i'r Pwyllgor Gwaith ar 2 Mawrth 2020.

10. **Y CYNLLUN ARIANNOL TYMOR CANOL A'R GYLLIDEB AR GYFER 2020/21**

**(a) Strategaeth Ariannol Tymor Canol a Chyllideb 2020/21**

Cyflwyno adroddiad gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/ Swyddog fel y'i cyflwynwyd i'r Pwyllgor Gwaith ar 2 Mawrth 2020.

**(b) Cyllideb Gyfalaf 2020/21**

Cyflwyno adroddiad gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/ Swyddog Adran 151 fel y'i cyflwynwyd i'r Pwyllgor Gwaith ar 2 Mawrth 2020.

**(c) Gosod y Dreth Gyngor**

Cyflwyno adroddiad i'r Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 fel y'i cyflwynwyd i'r Pwyllgor Gwaith ar 2 Mawrth 2020.

**(ch) Diwygio'r Gyllideb**

Adrodd ar unrhyw newidiadau i'r Gyllideb yn unol â Pharagraff 4.3.2.2.11 y Cyfansoddiad.

11. **CYNLLUN CYDRADDOLDEB STRATEGOL 2020-2024**

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd, fel y'i cyflwynwyd i'r Pwyllgor Gwaith ar 17 Chwefror 2020.

12. **ADOLYGIAD O RANBARTHAU PLEIDLEISIO A LLEOLIADAU PLEIDLEISIO**

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd, fel y'i cyflwynwyd i'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd ar 31 Ionawr 2020.

**13.** **DIWYGIO CYFANSODDIAD Y CYNGOR I ADLEWYRCHU'R AILSTRWYTHURIAD MEWNOL I'R MODEL STAFFIO**

Cyflwyno adroddiad gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro, fel y'i cyflwynwyd i'r Pwyllgor Gwaith ar 16 Rhagfyr 2019.

**14.** **DATGANIAD POLISI TÂL 2020**

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Proffesiwn, AD a Thrawsnewid.

# CYNGOR SIR YNYS MÔN

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 10 Rhagfyr 2019

| | |
|---|---|
| **PRESENNOL:** | Y Cynghorydd Margaret Murley Roberts (Cadeirydd)<br>Y Cynghorydd Glyn Haynes (Is-Gadeirydd)<br><br>Y Cynghorwyr Lewis Davies, R Dew, John Griffith, Richard Griffiths, K P Hughes, T Ll Hughes MBE, Vaughan Hughes, Llinos Medi Huws, A M Jones, Carwyn Jones, Eric Wyn Jones, G O Jones, R Ll Jones, R Meirion Jones, Alun W Mummery, Bryan Owen, Bob Parry OBE FRAgS, Shaun Redmond, Dylan Rees, Alun Roberts, Dafydd Roberts, J A Roberts, Nicola Roberts, Dafydd Rhys Thomas, Ieuan Williams a Robin Williams. |
| **WRTH LAW:** | Prif Weithredwr,<br>Dirprwy Brif Weithredwr,<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151,<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro,<br>Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol,<br>Cyfarwyddwr Lle a Llesiant Cymunedol,<br>Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc,<br>Pennaeth Gwasanaeth (Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo),<br>Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd,<br>Swyddog Pwyllgor (MEH). |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Neb |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Y Cynghorwyr Richard Owain Jones a P S Rogers. |

**1. COFNODION**

Cadarnhawyd bod cofnodion y cyfarfodydd canlynol o'r Cyngor Sir yn gywir: -

- 10 Medi, 2019
- 7 Hydref, 2019 (Arbennig)
- 22 Hydref, 2019 (Arbennig)

**2. DATGANIADAU O DDIDDORDEB**

Ni dderbyniwyd yr un datganiad o ddiddordeb.

**3. DERBYN UNRHYW GYHOEDDIADAU GAN Y CADEIRYDD, ARWEINYDD Y CYNGOR NEU'R PRIF WEITHREDWR**

Gwnaeth y Cadeirydd y cyhoeddiadau a ganlyn: -

- Llongyfarchiadau i'r rheini a fu'n llwyddiannus yn y Ffair Aeaf ym Mona fis diwethaf a hefyd yn Llanfair ym Muallt;
- Llongyfarchiadau i'r Ffermwyr Ifanc o Ynys Môn a gystadlodd yn Eisteddfod Genedlaethol y Ffermwyr Ifanc yn Wrecsam yn ddiweddar;
- Llongyfarchiadau i'r Cynghorydd Dylan Rees a benodwyd yn ddiweddar yn Is-Gadeirydd Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru.

Estynnwyd dymuniadau gorau i'r Cynghorydd Peter Rogers am wellhad buan yn dilyn ei lawdriniaeth ddiweddar.

Diolchodd y Cadeirydd i staff a defnyddwyr Gerddi Blaen y Coed a Haulfre am addurno Coeden Nadolig y Cyngor Sir yn ardal y dderbynfa.

* * * *

Cydymdeimlwyd â Mr Marc Jones, Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151 yn dilyn marwolaeth ei dad yn ddiweddar.

Cydymdeimlwyd â Mrs Anwen Davies, Rheolwr Sgriwtini yn dilyn marwolaeth ei thad yn ddiweddar.

Cydymdeimlwyd ag unrhyw Aelod o'r Cyngor neu staff a oedd wedi dioddef profedigaeth.

Safodd yr Aelodau a'r Swyddogion mewn teyrnged dawel fel arwydd o'u parch a'u cydymdeimlad.

**4. RHYBUDD O GYNIGIAD YN UNOL Â RHEOL 4.1.13.1 O'R CYFANSODDIAD**

Cyflwynwyd – y Rhybudd o Gynigiad isod gan y Cynghorydd Robert Llewelyn Jones: -

*“Yn y gorffennol, gorchuddiwyd Ynys Môn gan goed Derw ond erbyn heddiw mae’n un o’r ardaloedd lleiaf coediog yng Nghymru. Rhoddwyd caniatâd i Goedwig Penrhos yng Nghaergybi gael ei throi’n Barc Chwarae ar gyfer Cabanau Gwyliau.*

*Mae angen i ni fel Cyngor wrthdroi’r dirywiad yn ein coetiroedd a chymryd camau pendant i annog plannu mwy o goed ar Ynys Môn.*

*Rydw i’n gofyn am ymgyrch ledled yr ynys gyda phob ysgol a’u disgyblion yn cymryd rhan yn y gwaith plannu coed ac i’n Cyngor a’n cwmnïau lleol eu noddi.”*

Eiliwyd y cynigiad gan y Cynghorydd Bryan Owen.

Cynigiodd Arweinydd y Cyngor welliant i baragraff olaf Rhybudd o Gynigiad y Cynghorydd R Ll Jones, sef bod y Cynghorau Tref a Chymuned yn ymwneud â’r gwaith o blannu’r coed. Nododd fod gohebiaeth wedi ei hanfon at bob Cyngor Tref

a Chymuned trwy Fforwm Cyswllt y Cynghorau Tref a Chymuned i godi ymwybyddiaeth o fenter Ymddiriedolaeth Coed Cymru i roi coed am ddim i grwpiau cymunedol i'w plannu'n lleol. Dywedodd ymhellach ei bod hi, fel Arweinydd, yn bwriadu mynd ar ôl cyllid cyfalaf a refeniw tymor hir gan Lywodraeth Cymru tuag at brosiect plannu coed ar yr Ynys.

Roedd aelodau'r Cyngor yn cefnogi'r angen i fynd i'r afael â'r gostyngiad yn nifer y coetiroedd a'r angen i annog busnesau a chymunedau lleol i gymryd rhan yn y fenter plannu coed.

**Yn y bleidlais ddilynol fe gafodd y gwelliant i'r Rhybudd o Gynigiad ei gario.**

**5. CYFLWYNO DEISEBAU**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddeisebau.

**6. CYFANSODDIAD Y CYNGOR – Y BROSES GOSOD CYLLIDEB**

Cyflwynwyd – penderfyniad gweithredol a wnaed gan yr Arweinydd fel a ganlyn:-

*'Bod y Cyngor yn cymeradwyo'r argymhellion yn yr adroddiad'.*

**PENDERFYNWYD cymeradwyo'r argymhellion yn yr adroddiad.**

Daeth y cyfarfod i ben am 2.30 pm

**Y CYNGHORYDD MARGARET M ROBERTS**
**CADEIRYDD**

This page is intentionally left blank

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **ADRODDIAD I:** | **CYNGOR SIR** |
| **DYDDIAD:** | **10 MAWRTH 2020** |
| **PWNC:** | **ADRODDIAD ADOLYGU CANOL BLWYDDYN - RHEOLI'R TRYSORLYS 2019/20** |
| **AELOD(AU) PORTFFOLIO** | **CYNGHORYDD ROBIN WILLIAMS** |
| **PENNAETH GWASANAETH:** | **MARC JONES, CYFARWYDDWR SWYDDOGAETH (ADNODDAU) A SWYDDOG ADRAN 151 (EST. 2601)** |
| **AWDUR YR ADRODDIAD:**<br>FFÔN:<br>E-BOST: | **GARETH ROBERTS / JEMMA ROBINSON**<br>01248 752675<br>JemmaRobinson@anglesey.gov.uk |
| **AELODAU LLEOL:** | **d/b** |

## 1. Cefndir

### 1.1 Strategaeth Gyfalaf

Yn Rhagfyr 2017, cyhoeddodd Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (CIPFA), Godau Rheoli'r Trysorlys a Darbodus diwygiedig. O 2019/20, bydd angen i bob awdurdod lleol baratoi Strategaeth Gyfalaf fydd yn darparu'r canlynol: -

- trosolwg lefel uchel o sut mae gwariant cyfalaf, cyllido cyfalaf a gweithgaredd rheoli'r trysorlys yn cyfrannu at ddarparu gwasanaethau;
- trosolwg o sut mae'r risg gysylltiedig yn cael ei rheoli; a
- goblygiadau ar gyfer cynaliadwyedd ariannol yn y dyfodol.

Cafodd adroddiad yn cynnwys ein Strategaeth Gyfalaf ei gyflwyno i'r Pwyllgor Gwaith ar 18 Chwefror 2019, a bydd Strategaeth ddiwygiedig ar gyfer 2020/21 yn mynd gerbron y Cyngor llawn cyn 31 Mawrth 2020.

### 1.2 Rheoli Trysorlys

Mae'r Cyngor yn gweithredu cyllideb gytbwys, sy'n golygu'n fras bod arian a godir yn ystod y flwyddyn yn talu am ei wariant ariannol. Mae rhan o weithrediadau rheoli'r trysorlys yn sicrhau bod y llif ariannol hwn yn cael ei gynllunio'n ddigonol, gydag arian dros ben yn cael ei fuddsoddi mewn gwrthbartïon risg isel, gan sicrhau hylifedd digonol i gychwyn cyn ystyried yr elw gorau posibl o'r buddsoddiadau.

Ail brif swyddogaeth y gwasanaeth rheoli'r trysorlys yw cyllido cynlluniau cyfalaf y Cyngor. Mae'r cynlluniau cyfalaf hyn yn arwydd o faint y bydd angen i'r Cyngor ei fenthyca, hynny yw, y gwaith o gynllunio llif arian yn y tymor hir i sicrhau bod y Cyngor yn gallu cyflawni ei weithgareddau gwariant cyfalaf. Gallai'r gwaith hwn o reoli arian yn y tymor hir gynnwys trefnu benthyciadau tymor hir neu dymor byr, neu ddefnyddio arian dros ben o'r llif arian tymor hir ac, ar adegau, gall unrhyw ddyled a drefnwyd yn flaenorol gael ei hailstrwythuro i gwrdd ag amcanion risg neu gost y Cyngor.

Yn unol â hyn, diffinnir rheoli'r trysorlys fel hyn:-

"*Rheoli benthyciadau, buddsoddiadau a llif arian yr awdurdod lleol, ei drefniadau bancio a thrafodion ar y farchnad arian a'r farchnad gyfalaf; rheolaeth effeithiol o'r risgiau sy'n gysylltiedig â'r gweithgareddau hynny; a cheisio'r perfformiad gorau posib sy'n gyson â'r risgiau hynny*."

## 2. Rhagarweiniad

Ysgrifennwyd yr adroddiad hwn yn unol â gofynion Côd Ymarfer CIPFA ar Reoli'r Trysorlys (diwygiwyd 2017). Dyma ofynion sylfaenol y Côd:-

**(i)** Creu a chynnal Datganiad ar y Polisi Rheoli'r Trysorlys sy'n amlinellu polisïau ac amcanion gweithgareddau rheoli trysorlys y Cyngor.

**(ii)** Creu a chynnal Arferion Rheoli'r Trysorlys sy'n amlinellu'r modd y bydd y Cyngor yn ceisio cyflawni'r polisïau a'r amcanion hynny.

**(iii)** Y Cyngor llawn yn derbyn Datganiad Blynyddol ar y Strategaeth Rheoli'r Trysorlys, sy'n cynnwys y Strategaeth Fuddsoddi Flynyddol a Pholisi y Ddarpariaeth Refeniw Isaf ar gyfer y flwyddyn i ddod, Adroddiad Adolygu Canol Blwyddyn (yr adroddiad hwn) ac Adroddiad Blynyddol, sy'n rhoi sylw i weithgareddau a gynhaliwyd yn ystod y flwyddyn flaenorol.

**(iv)** Y Cyngor llawn yn dirprwyo cyfrifoldebau am weithredu a monitro'r polisïau ac arferion rheoli'r trysorlys ac am weithredu a gweinyddu penderfyniadau rheoli'r trysorlys.

**(v)** Y Cyngor yn dirprwyo'r gwaith o graffu'r strategaeth a'r polisïau rheoli'r trysorlys i gorff penodol, sef y Pwyllgor Archwilio yn achos y Cyngor hwn.

Mae'r adroddiad canol blwyddyn hwn wedi'i baratoi yn unol â Chôd Ymarfer CIPFA ar Reoli'r Trysorlys, ac mae'n cynnwys y canlynol:-

- Diweddariad economaidd ar gyfer rhan gyntaf blwyddyn ariannol 2019/20;
- Adolygiad o'r Datganiad ar y Strategaeth Rheoli'r Trysorlys a'r Strategaeth Fuddsoddi Flynyddol;
- Gwariant cyfalaf y Cyngor fel y nodir yn y Strategaeth Gyfalaf, a dangosyddion darbodus;
- Adolygiad o bortffolio buddsoddi'r Cyngor ar gyfer 2019/20;
- Adolygiad o strategaeth fenthyca'r Cyngor ar gyfer 2019/20;
- Adolygiad o unrhyw ail drefnu dyledion yn ystod 2019/20;
- Crynodeb o weithgaredd ers Chwarter 2; ac
- Adolygiad o gydymffurfio â Therfynau Trysorlys a Darbodus ar gyfer 2019/20.

## 3. Diweddariad Economaidd

**3.1** Rhoddwyd diweddariad economaidd gan ymgynghorwyr trysorlys y Cyngor ac mae i'w weld yn Atodiad 1. Hefyd yn ddiweddar, maent wedi darparu'r rhagolwg cyfradd llog canlynol:-

| | Rhag 2019 | Mawrth 2020 | Mehefin 2020 | Medi 2020 | Rhag 2020 | Mawrth 2021 | Mehefin 2021 | Medi 2021 | Rhag 2021 | Mawrth 2022 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyfradd Banc (%) | 0.75% | 0.75% | 0.75% | 0.75% | 0.75% | 1.00% | 1.00% | 1.00% | 1.00% | 1.00% |
| Cyfradd 5 mlynedd PWLB (%) | 2.30% | 2.40% | 2.40% | 2.50% | 2.50% | 2.60% | 2.70% | 2.80% | 2.90% | 2.90% |
| Cyfradd 10 mlynedd PWLB (%) | 2.60% | 2.70% | 2.70% | 2.70% | 2.80% | 2.90% | 3.00% | 3.10% | 3.20% | 3.20% |
| Cyfradd 25 mlynedd PWLB (%) | 3.20% | 3.30% | 3.40% | 3.40% | 3.50% | 3.60% | 3.70% | 3.70% | 3.80% | 3.90% |
| Cyfradd 50 mlynedd PWLB (%) | 3.10% | 3.20% | 3.30% | 3.30% | 3.40% | 3.50% | 3.60% | 3.60% | 3.70% | 3.80% |

**3.2** Yn ddiweddar, darparodd ymgynghorwyr trysorlys y Cyngor sylwadau i gyd-fynd â'r rhagolwg cyfradd llog uchod. Mae'r sylwadau hyn i'w gweld yn Atodiad 2.

## 4. Datganiad ar y Strategaeth Rheoli'r Trysorlys a Diweddariad ar y Strategaeth Fuddsoddi Flynyddol

**4.1** Cymeradwywyd Datganiad ar y Strategaeth Rheoli'r Trysorlys (TMSS) ar gyfer 2019/20 gan y Cyngor llawn ar 27 Chwefror 2019. Nid oes unrhyw newidiadau polisi i'r TMSS; mae'r manylion yn yr adroddiad hwn yn diweddaru'r sefyllfa yn wyneb y sefyllfa economaidd ddiweddaraf a'r newidiadau cyllidebol a gymeradwywyd eisoes.

## 5. Portffolio Buddsoddi 2019/20

**5.1** Yn unol â'r Côd, blaenoriaeth y Cyngor yw sicrhau bod cyfalaf a hylifedd yn ddiogel, a chael lefel enillion briodol sy'n gyson ag awydd y Cyngor i gymryd risgiau. Fel y nodir yn Adran 3, mae'n farchnad fuddsoddi anodd iawn o ran cael y cyfraddau llog a welwyd yn gyffredin yn y degawdau blaenorol gan fod y cyfraddau yn isel iawn ac yn gyson â'r Gyfradd Banc gyfredol, sef 0.75%. Mae'r posibilrwydd parhaus o argyfwng dyled sofran ym mharth yr Ewro, a'i effaith ar fanciau, yn ein hannog i ddilyn strategaeth risg isel a thymor byr. O ystyried yr amgylchedd risg hwn a'r ffaith y bydd cynnydd yng Nghyfradd y Banc yn debygol o ddigwydd yn raddol ac yn annhebygol o ddychwelyd i'r lefelau a welwyd yn y degawdau gorffennol, mae'r incwm a geir o fuddsoddiadau yn debygol o barhau i fod yn isel.

**5.2** Roedd gan y Cyngor £18.551m o fuddsoddiadau ar 30 Medi 2019 (£14.333m ar 31 Mawrth 2019) a'r enillion o'r portffolio buddsoddiadau am chwe mis cyntaf y flwyddyn oedd 0.62%. Mae rhestr lawn o fuddsoddiadau ar 30 Medi 2019 i'w gweld yn Atodiad 3. Mae crynodeb o'r buddsoddiadau a'r cyfraddau i'w gweld yn Atodiad 4.

**5.3** Ni thorrwyd y terfynau a gymeradwywyd o fewn y Strategaeth Fuddsoddi Flynyddol yn ystod chwe mis cyntaf 2019/20.

**5.4** Yr incwm y mae'r Cyngor wedi cyllidebu y bydd yn ei dderbyn o'i fuddsoddiadau ar gyfer 2019/20 ar ei hyd yw £0.031m ac mae'r perfformiad am y flwyddyn hyd yma'n uwch na'r gyllideb, gyda £0.041m wedi'i dderbyn ar ddiwedd Chwarter 2. Y rheswm am hyn yw ein bod yn buddsoddi arian sydd dros ben mewn Awdurdodau Lleol eraill, sy'n rhoi gwell dychweliad ar fuddsoddiad na chyfrif galw mewn banc.

**5.5** Mae'r meini prawf gwrthbartïon buddsoddi presennol a gymeradwywyd yn y TMSS yn cwrdd â gofynion swyddogaeth rheoli'r trysorlys.

**5.6** Mae'r gwledydd a gymeradwywyd ar gyfer buddsoddiadau i'w gweld yn Atodiad 5.

**5.7** Dengys y tabl isod restr o fuddsoddiadau a wnaed i Awdurdodau Lleol eraill yn ystod hanner gyntaf y flwyddyn ariannol hon. Yn wyneb y ffaith fod diogelwch arian yn ddangosydd allweddol i'r Cyngor hwn, ystyrir mai Awdurdodau Lleol eraill yw'r llefydd mwyaf diogel i fuddsoddi arian ac mae'n rhoi gwell dychweliad na'r rhan fwyaf o gyfrifon galw mewn banciau.


| Llywodraeth Leol | Dyddiad Cychwyn | Dyddiad Gorffen | Cyfradd Llog% | Swm (£) |
|---|---|---|---|---|
| Central Bedfordshire Council | 04/04/19 | 05/07/2019 | 0.75% | 5,000,000.00 |
| Cheltenham Borough Council | 21/08/19 | 20/09/2019 | 0.68% | 5,000,000.00 |
| Cheltenham Borough Council | 20/09/19 | 25/10/2019 | 0.63% | 5,000,000.00 |
| Wirral Council | 31/07/19 | 30/08/2019 | 0.68% | 5,000,000.00 |
| Wirral Council | 30/08/19 | 30/09/2019 | 0.63% | 5,000,000.00 |
| Wirral Council | 30/09/19 | 29/10/2019 | 0.63% | 5,000,000.00 |
| Sutton London Borough Council | 29/08/19 | 25/09/2019 | 0.60% | 5,000,000.00 |
| Mid Suffolk District Council | 24/09/19 | 25/11/2019 | 0.65% | 3,000,000.00 |

## 6. Benthyca

**6.1** Y gofyniad cyllido cyfalaf (GCC) a ragamcanwyd ar gyfer 2019/20 yw £140.2m. Mae'r GCC yn dynodi angen sylfaenol y Cyngor i fenthyca at ddibenion cyfalaf. Os yw'r GCC yn gadarnhaol, gall y Cyngor fenthyca gan y Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus (PWLB) neu'r farchnad (benthyca allanol) neu o falansau mewnol ar sail dros dro (benthyca mewnol). Yn gyffredinol, mae'r cydbwysedd rhwng benthyciadau allanol a mewnol yn cael ei ysgogi gan amodau'r farchnad. Rhagwelir y bydd y Cyngor wedi benthyg £127.6m ar ddiwedd y flwyddyn a bydd wedi defnyddio £12.6m o gyllid llif arian yn lle benthyca. Mae hon yn ffordd ddarbodus a chost effeithiol yn yr hinsawdd economaidd bresennol ond bydd angen monitro'r sefyllfa'n barhaus os bydd yr enillion o giltiau yn uwch nag a ragwelwyd.

**6.2** Ni chafodd unrhyw arian ei fenthyca yn ystod hanner gyntaf y flwyddyn ariannol hon ac ni ragwelir y bydd angen unrhyw fenthyca allanol ychwanegol yn ystod ail hanner y flwyddyn ariannol. Bydd raid benthyca i gyllido rhan o raglen gyfalaf 2019/20, ond bydd hyn drwy fenthyca'n fewnol (tynnu i lawr y balansau ariannol).

Mae'r graff a'r tabl isod yn dangos y symudiad yng ngraddfeydd sicrwydd PWLB am chwe mis cyntaf y flwyddyn hyd yma. Mae cyfraddau PWLB wedi bod yn gostwng yn ystod y cyfnod hwn ac mae'r cyfraddau cyfnodau hirach bron wedi haneru gan olygu eu bod ar eu hisaf erioed. Gostyngodd targed cyfraddau (sicrwydd) 50 mlynedd PWLB ar gyfer benthyciadau newydd tymor hir o 2.50% i 2.00% yn ystod y cyfnod hwn: -




| | 1 Bl | 5 Ml | 10 Ml | 25 Ml | 50 Ml |
|---|---|---|---|---|---|
| Isel | 1.17% | 1.01% | 1.13% | 1.73% | 1.57% |
| Dyddiad | 03/09/19 | 03/09/19 | 03/09/19 | 03/09/19 | 03/09/19 |
| Uchel | 1.58% | 1.73% | 2.07% | 2.58% | 2.41% |
| Dyddiad | 15/04/19 | 17/04/19 | 17/04/19 | 17/04/19 | 17/04/19 |
| Cyfartaledd | 1.40% | 1.37% | 1.62% | 2.20% | 2.07% |

**6.3** Ar 9 Hydref 2019, cyhoeddodd y Trysorlys a PWLB gynnydd o 100 o bwyntiau sylfaen (1%) yn y gyfradd fenthyca. Ni chafwyd unrhyw rybudd ymlaen llaw y byddai hyn yn digwydd ac mae'n golygu bod raid i bob awdurdod lleol yn awr ail-asesu'n sylfaenol y modd y byddant yn cyllido eu hanghenion i fenthyca'n allanol a hyfywedd ariannol prosiectau cyfalaf yn eu rhaglenni cyfalaf oherwydd y cynnydd annisgwyl hwn yng nghost benthycia. Bwriedir cyflwyno sylwadau i Drysorlys EM yn awgrymu na ddylai meysydd gwariant cyfalaf y mae'r Llywodraeth yn dymuno gweld cynnydd ynddynt, e.e. tai, fod yn agored i gynnydd mor fawr yn y benthyciadau.

Er bod yr Awdurdod hwn wedi dibynnu yn y gorffennol ar PWLB fel ei brif ffynhonnell gyllido, mae'n rhaid iddo'n awr ystyried ffynonellau benthyca rhatach. Ar hyn o bryd, mae hwn yn faes sy'n datblygu oherwydd mae wedi bod yn sioc hefyd i'r diwydiant gwasanaethau ariannol. Rydym yn disgwyl i wahanol sefydliadau cyllido ddod i mewn i'r farchnad neu gynnig cynnyrch i awdurdodau lleol. Bydd Aelodau'n cael gwybod am unrhyw ddatblygiadau.

Mae'n bosibl y bydd y Municipal Bond Agency yn cynnig benthyciadau i awdurdodau lleol yn y dyfodol. Efallai y bydd yr Awdurdod yn gwneud defnydd o'r ffynhonnell newydd hon o fenthyciadau fel a phan fydd hynny'n briodol.

**6.4** Ychydig iawn o gyfle gafwyd i ail-drefnu dyledion oherwydd yr hinsawdd economaidd sydd ohoni, strwythur y cyfraddau llog yn sgil hynny a'r cynnydd yn y lwfans a ychwanegwyd at gynnyrch giltiau sydd wedi cael effaith ar gyfraddau benthyca newydd PWLB ers Hydref 2010. O'r herwydd, nid oes unrhyw ddyledion wedi cael eu hail-drefnu yn ystod y flwyddyn ariannol bresennol. Roedd y cynnydd 100bps yng nghyfraddau PWLB o 9 Hydref 2019 yn berthnasol i gyfraddau benthyca newydd yn unig ac nid i gyfraddau ad-dalu dyledion yn gynamserol.

## 7 Sefyllfa Gyfalaf y Cyngor (Dangosyddion Darbodus)

**7.1** Mae rhan hon o'r adroddiad wedi'i strwythuro i gyflwyno'r wybodaeth ddiweddaraf am:-

- Gynlluniau gwariant cyfalaf y Cyngor;
- Sut mae'r cynlluniau hyn yn cael eu cyllido;
- Effaith y newidiadau yn y cynlluniau gwariant cyfalaf ar y dangosyddion darbodus a'r angen sylfaenol i fenthyca; a
- Chydymffurfio â'r terfynau yn eu lle ar gyfer y gweithgaredd benthyca.

### 7.2 Dangosydd Darbodus ar gyfer y Rhaglen Gyfalaf

Mae'r tabl hwn yn dangos yr amcangyfrifon diwygiedig ar gyfer gwariant cyfalaf o'i gymharu â'r gyllideb gyfalaf:-

| Gwariant Cyfalaf | 2019/20 Amcangyfrif Gwreiddiol £'000 | Sefyllfa ar 30 Medi 2019 £'000 | 2019/20 Amcangyfrif Cyfredol £'000 |
|---|---|---|---|
| Cronfa'r Cyngor | 25,910 | 5,768 | 16,823 |
| CRT | 14,117 | 5,267 | 14,307 |
| **Cyfanswm** | **40,027** | **11,035** | **31,130** |

**7.2.1** Mae'r gwariant a ragamcanwyd yn dangos bod mwyafrif y prosiectau yn unol â'r targed ac y byddant yn cael eu cwblhau o fewn y gyllideb ond mae 3 prif brosiect (Safleoedd Sipsiwn a Theithwyr, Moderneiddio Band A - Ysgolion yr 21ain Ganrif ac Isadeiledd Strategol Caergybi) lle mae disgwyl tanwariant sylweddol yn y gyllideb yn 2019/20, a chaiff hyn ei adlewyrchu yn y tabl uchod. Ceir dadansoddiad llawn o'r gwariant cyfalaf a gynlluniwyd ar gyfer 2019/20 yn yr Adroddiad Monitro Cyllideb Gyfalaf Chwarter 2, a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Gwaith ar 25 Tachwedd 2019.

### 7.3 Newidiadau i Gyllido'r Rhaglen Gyfalaf

**7.3.1** Mae rhai newidiadau i gyllido'r rhaglen gyfalaf fel y gellir gweld yn y tabl isod. Mae'r prif reswm am y newid wedi'i nodi ym mharagraff 7.2.1, bydd tanwariant sylweddol ar dri chynllun cyfalaf yn 2019/20. Fodd bynnag, bydd y tri cynllun hyn yn cario drosodd i 2020/21 ynghyd â'u cyllid ac ni ragwelir, ar hyn o bryd, y collir unrhyw gyllid oherwydd yr oedi.

**7.3.2** Mae'r tabl isod yn dwyn ynghyd brif elfennau strategaeth y cynlluniau gwariant cyfalaf (uchod), gan bwysleisio trefniadau cyllido gwreiddiol y rhaglen gyfalaf, a threfniadau cyllido disgwyliedig y gwariant cyfalaf hwn. Mae elfen fenthyca'r tabl yn cynyddu dyled sylfaenol y Cyngor trwy'r Gofyniad Cyllido Cyfalaf (GCC), er y bydd hyn yn cael ei ostwng yn rhannol gan gostau refeniw ar gyfer ad-dalu'r ddyled (Darpariaeth Refeniw Isaf). Efallai yr ychwanegir at yr angen hwn i fenthyca yn sgil dyled sy'n aeddfedu a gofynion trysorlys eraill.

| Cyllido Cyfalaf | 2019/20 Amcangyfrif Gwreiddiol £'000 | 2019/20 Amcangyfrif Diwygiedig £'000 |
|---|---|---|
| Grantiau Cyfalaf | 22,684 | 14,381 |
| Derbyniadau Cyfalaf | 774 | 1,612 |
| Arian Wrth Gefn | 186 | 186 |
| Cyfraniad Refeniw | 9,952 | 10,142 |
| Benthyca â Chefnogaeth | 5,973 | 3,942 |
| Benthyca Di-gefnogaeth | 454 | 863 |
| Benthyciad | 4 | 4 |
| **Cyfanswm** | **40,027** | **31,130** |

## 7.4 Newidiadau i'r Dangosyddion Darbodus ar gyfer y Gofyniad Cyllido Cyfalaf (GCC), Dyled Allanol a'r Terfyn Gweithredol

**7.4.1** Mae tabl 7.4.3 isod yn dangos y GCC, sef yr angen allanol sylfaenol i fenthyca at ddibenion cyfalaf. Mae hefyd yn dangos y sefyllfa ddyled a ddisgwylir dros y cyfnod. Gelwir hyn y Terfyn Gweithredol, sy'n cael ei osod yn flynyddol gan y Cyngor fel rhan o'r Datganiad ar Strategaeth Rheoli'r Trysorlys.

### 7.4.2 Dangosydd Darbodus – Y Gofyniad Cyllido Cyfalaf

| | 2019/20 Y Terfyn Gweithredol yn unol â'r TMSS 2018/19 £000 | 2019/20 Sefyllfa Fenthyca Ddechreuol £000 | Swm o fewn y Terfyn £000 | 2019/20 Amcangyfrif o'r Sefyllfa Fenthyca £000 | Swm o fewn y Terfyn £000 |
|---|---|---|---|---|---|
| ***Dangosydd Pwyllog – Dyled Allanol / Y Terfyn Gweithredol*** | | | | | |
| Benthyca | 170,000 | 132,549 | 37,451 | 126,404 | 43,596 |
| Ymrwymiadau tymor hir eraill | 3,000 | 1,133 | 1,867 | 1,214 | 1,786 |
| **Cyfanswm y Ddyled ar 31 Mawrth** | **173,000** | **133,682** | **39,318** | **127,618** | **45,382** |

### 7.4.3 Dangosydd Darbodus – Gofyniad Cyllido Cyfalaf (CFR)

**7.4.3.1** Ar hyn o bryd, rydym ychydig yn is na'r Gofyniad Cyllido Cyfalaf gwreiddiol a ragwelwyd oherwydd y tanwariant a ragwelir o ran benthyca, o ganlyniad yn bennaf i Raglen Ysgolion yr 21ain Ganrif.

| | 2019/20 Amcangyfrif Gwreiddiol £000 | 2019/20 Amcangyfrif Diwygiedig £000 |
|---|---|---|
| ***Dangosydd Pwyllog – Gofyniad Cyllido Cyfalaf*** | | |
| GCC – Cronfa'r Cyngor | 104,103 | 100,171 |
| GCC – CRT | 40,998 | 39,998 |
| Cyfanswm GCC | 145,101 | 140,169 |
| **Symudiad net yn y GCC** | **6,441** | **1,509** |

| **GCC Gwreiddiol a Ragwelwyd** | **145,101** |
|---|---|
| Gostyngiad yn yr Darpariaeth Refeniw oherwydd tanwariant o ran Benthyca yn 2018/19 | 154 |
| Tanwariant yn y Benthyca Di-gefnogaeth ar gyfer y CRT yn 2019/20 | -1,000 |
| Cynnydd yn y Benthyca Di-gefnogaeth yn 2018/19 a 2019/20 oherwydd bod mwy o fenthyciadau di-gefnogaeth wedi cael eu defnyddio ar gyfer Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif. Yn ogystal, cafodd 2 o gynlluniau hamdden ychwanegol eu cyllido drwy Fenthyciadau Di-gefnogaeth yn rhaglen gyfalaf 2018/19. | 915 |
| Tanwariant o ran Benthyca gyda Chefnogaeth yn 2018/19 oherwydd grant ychwanegol a dderbyniwyd yn 2018/19 yn lle arian arall gyda hynny'n lleihau'r angen am Fenthyca gyda Chefnogaeth. Hefyd cafodd llai o Fenthyciadau gyda Chefnogaeth eu defnyddio yn Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif. | -5,001 |
| **GCC Diwygiedig a Ragwelir** | **140,169** |

## 7.5 Terfynau ar Weithgaredd Benthyca

**7.5.1** Y dull rheoli allweddol cyntaf ar gyfer gweithgareddau trysorlys yw dangosydd darbodus i sicrhau, dros y tymor canol, na fydd benthyca net (benthyciadau llai buddsoddiadau) ond yn cael ei wneud at ddibenion cyfalaf. Ni ddylai benthyciadau allanol gros, ac eithrio yn y tymor byr, fod yn fwy na chyfanswm y GCC yn y flwyddyn flaenorol ynghyd ag unrhyw GCC ychwanegol yr amcangyfrifir y bydd ei angen ar gyfer 2019/20 a'r ddwy flynedd ariannol ddilynol. Mae hyn yn caniatáu rhywfaint o hyblygrwydd ar gyfer benthyca cynnar ar raddfa gyfyngedig yn y blynyddoedd i ddod. Mae'r Cyngor wedi cymeradwyo polisi o fenthyca cyn i'r angen godi, a chedwir at y polisi hwnnw os gwelir bod hynny'n ddarbodus. Y sefyllfa gyfredol o ran benthyciadau yw £126.409m, sy'n is na'r GCC a ragwelwyd ar gyfer y flwyddyn hon a'r 2 flynedd ariannol nesaf (gweler y tabl isod) ac, o'r herwydd, glynwyd wrth ofynion yr dangosydd hwn.

| | **2019/20 £000** | **2020/21** | **2021/22 £000** |
|---|---|---|---|
| **GCC (y rhagamcan ar gyfer diwedd y flwyddyn)** | **140,169** | **158,469** | **174,821** |

| | **2019/20 Amcangyfrif Gwreiddiol £000** | **Y Sefyllfa Gyfredol ar 30 Medi 2019 £000** | **2019/20 Amcangyfrif Diwygiedig £000** |
|---|---|---|---|
| Benthyca Allanol | 132,549 | 126,409 | 126,404 |
| Benthyca Mewnol | 11,338 | 12,546 | 12,551 |
| Ynghyd ag ymrwymiadau tymor hir eraill | 1,214 | 1,214 | 1,214 |
| **GCC (y sefyllfa ar ddiwedd y flwyddyn)** | **145,101** | **140,169** | **140,169** |

**7.5.2** Ni ragwelir y bydd unrhyw anawsterau ar gyfer y flwyddyn bresennol i gydymffurfio â'r dangosydd darbodus yma.

**7.5.3** Mae dangosydd darbodus pellach yn rheoli'r lefel fenthyca gyffredinol. Hwn yw'r Terfyn Awdurdodedig ac ni chaniateir cymryd benthyg mwy na'r swm hwn. Mae angen i Aelodau osod ac adolygu'r swm, £178m ar hyn o bryd. Mae'n adlewyrchu faint o arian y gallwn fforddio ei fenthyca yn y tymor byr, er na fyddai'n ddymunol gwneud hynny, ond nid yw'n gynaliadwy yn y tymor hir. Hwn yw'r uchafswm y disgwylir y bydd angen ei fenthyca, gyda pheth hyblygrwydd ar gyfer symudiadau annisgwyl. Hwn yw'r terfyn statudol a bennir o dan Adran 3 (1) Deddf Llywodraeth Leol 2003.

| **Terfyn Awdurdodedig ar gyfer Dyled Allanol** | **2019/20 Dangosydd Gwreiddiol** | **Y Sefyllfa Gyfredol o ran Benthyciadau ar 30 Medi 2019<br>£'000** | **Y Sefyllfa a ragwelir o ran Benthyciadau ar 31 Mawrth 2020<br>£'000** |
|---|---:|---:|---:|
| Benthyciadau | 175,000 | 126,409 | 126,404 |
| Ymrwymiadau Tymor Hir Eraill | 3,000 | 1,214 | 1,214 |
| **Cyfanswm** | **178,000** | **127,623** | **127,918** |

## 8. Argymhelliad

**8.1** Ystyried cynnwys yr adroddiad.

**MARC JONES**
**CYFARWYDDWR SWYDDOGAETH (ADNODDAU) A SWYDDOG ADRAN 151 20 TACHWEDD 2019**

**Diweddariad ar yr Economi hyd yma a'r rhagolygon / Economic Update & Forecasts**

**United Kingdom -** This first half year has been a time of upheaval on the political front as Theresa May resigned as Prime Minister to be replaced by Boris Johnson on a platform of the UK leaving the EU on or 31 October, with or without a deal. However, in September, his proroguing of Parliament was overturned by the Supreme Court and Parliament carried a bill to delay Brexit until 31 January 2020 if there is no deal by 31 October. MPs also voted down holding a general election before 31 October, though one is likely before the end of 2019. So far, there has been no majority of MPs for any one option to move forward on enabling Brexit to be implemented. At the time of writing the whole Brexit situation is highly fluid and could change radically by the day. Given these circumstances and the likelihood of an imminent general election, any interest rate forecasts are subject to material change as the situation evolves. If the UK does soon achieve a deal on Brexit agreed with the EU then it is possible that growth could recover relatively quickly. The MPC could then need to address the issue of whether to raise Bank Rate at some point in the coming year when there is little slack left in the labour market; this could cause wage inflation to accelerate which would then feed through into general inflation. On the other hand, if there was a no deal Brexit and there was a significant level of disruption to the economy, then growth could weaken even further than currently and the MPC would be likely to cut Bank Rate in order to support growth. However, with Bank Rate still only at 0.75%, it has relatively little room to make a big impact and the MPC would probably suggest that it would be up to the Chancellor to provide help to support growth by way of a fiscal boost by e.g. tax cuts, increases in the annual expenditure budgets of government departments and services and expenditure on infrastructure projects, to boost the economy.

The first half of 2019/20 has seen UK **economic growth** fall as Brexit uncertainty took a toll. In its Inflation Report of 1 August, the Bank of England was notably downbeat about the outlook for both the UK and major world economies. The MPC meeting of 19 September reemphasised their concern about the downturn in world growth and also expressed concern that prolonged Brexit uncertainty would contribute to a build-up of spare capacity in the UK economy, especially in the context of a downturn in world growth. This mirrored investor concerns around the world which are now expecting a significant downturn or possibly even a recession in some major developed economies. It was therefore no surprise that the Monetary Policy Committee (MPC) left Bank Rate unchanged at 0.75% throughout 2019, so far, and is expected to hold off on changes until there is some clarity on what is going to happen over Brexit. However, it is also worth noting that the new Prime Minister is making some significant promises on various spending commitments and a relaxation in the austerity programme. This will provide some support to the economy and, conversely, take some pressure off the MPC to cut Bank Rate to support growth.

As for **inflation** itself, CPI has been hovering around the Bank of England's target of 2% during 2019, but fell to 1.7% in August. It is likely to remain close to 2% over the next two years and so it does not pose any immediate concern to the MPC at the current time. However, if there was a no deal Brexit, inflation could rise towards 4%, primarily as a result of imported inflation on the back of a weakening pound.

With regard to the **labour market**, despite the contraction in quarterly GDP growth of -0.2% q/q, (+1.3% y/y), in quarter 2, employment continued to rise, but at only a muted rate of 31,000 in the three months to July after having risen by no less than 115,000 in quarter 2 itself: the latter figure, in particular, suggests that firms are preparing to expand output and suggests there could be a return to positive growth in quarter 3. Unemployment continued at a 44 year low of 3.8% on the Independent Labour Organisation measure in July and the participation rate of 76.1% achieved a new all-time high. Job vacancies fell for a seventh consecutive month after having previously hit record levels. However, with unemployment continuing to fall, this month by 11,000, employers will still be having difficulty filling job vacancies with suitable staff. It was therefore unsurprising that wage inflation picked up to a high point of 3.9% in June before easing back slightly to 3.8% in July, (3 month average regular pay, excluding bonuses). This meant that in real terms, (i.e. wage rates higher than CPI inflation), earnings grew by about 2.1%. As the UK economy is very much services sector driven, an increase in household spending power is likely to feed through into providing some support to the overall rate of economic growth in the coming months. The latest GDP statistics also included a revision of the savings ratio from 4.1% to 6.4% which provides reassurance that consumers' balance sheets are not over stretched and so will be able to support growth going forward. This would then mean that the MPC will need to consider carefully at what point to take action to raise Bank Rate if there is an agreed Brexit deal, as the recent pick-up in wage costs is consistent with a rise in core services inflation to more than 4% in 2020.

In the **political arena**, if there is a general election soon, this could result in a potential loosening of monetary policy and therefore medium to longer dated gilt yields could rise on the expectation of a weak pound and concerns around inflation picking up although, conversely, a weak international backdrop could provide further support for low yielding government bonds and gilts.

**United States of America -** President Trump's massive easing of fiscal policy in 2018 fuelled a temporary boost in consumption in that year which generated an upturn in the rate of strong growth to 2.9% y/y. Growth in 2019 has been falling back after a strong start in quarter 1 at 3.1%, (annualised rate), to 2.0% in quarter 2. Quarter 3 is expected to fall further. The strong growth in employment numbers during 2018 has reversed into a falling trend during 2019, indicating that the economy is cooling, while inflationary pressures are also weakening The Fed finished its series of increases in rates to 2.25 – 2.50% in December 2018. In July 2019, it cut rates by 0.25% as a 'midterm adjustment' but flagged up that this was not to be seen as the start of a series of cuts to ward off a downturn in growth. It also ended its programme of quantitative tightening in August, (reducing its holdings of treasuries etc). It then cut rates again in September to 1.75% - 2.00% and is thought likely to cut another 25 bps in December. Investor confidence has been badly rattled by the progressive ramping up of increases in tariffs President Trump has made on Chinese imports and China has responded with increases in tariffs on American imports. This trade war is seen as depressing US, Chinese and world growth. In the EU, it is also particularly impacting Germany as exports of goods and services are equivalent to 46% of total GDP. It will also impact developing countries dependent on exporting commodities to China.

**Eurozone -** Growth has been slowing from +1.8 % during 2018 to around half of that in 2019. Growth was +0.4% q/q (+1.2% y/y) in quarter 1 and then fell to +0.2% q/q (+1.0% y/y) in quarter 2; there appears to be little upside potential to the growth rate in the rest of 2019. German GDP growth fell to -0.1% in quarter 2; industrial production was down 4% y/y in June with car production down 10% y/y. Germany would be particularly vulnerable to a no deal Brexit depressing exports further and if President Trump imposes tariffs on EU produced cars. The European Central Bank (ECB) ended its programme of quantitative easing purchases of debt in December 2018, which meant that the central banks in the US, UK and EU had all ended the phase of post financial crisis expansion of liquidity supporting world financial markets by purchases of debt. However, the downturn in EZ growth in the second half of 2018 and into 2019, together with inflation falling well under the upper limit of its target range of 0 to 2%, (but it aims to keep it near to 2%), has prompted the ECB to take new measures to stimulate growth. At its March meeting it said that it expected to leave interest rates at their present levels "at least through the end of 2019", but that was of little help to boosting growth in the near term. Consequently, it announced a third round of TLTROs; this provides banks with cheap borrowing every three months from September 2019 until March 2021 which means that, although they will have only a two-year maturity, the Bank is making funds available until 2023, two years later than under its previous policy. As with the last round, the new TLTROs will include an incentive to encourage bank lending, and they will be capped at 30% of a bank's eligible loans. However, since then, the downturn in EZ and world growth has gathered momentum so at its meeting on 12 September, it cut its deposit rate further into negative territory, from -0.4% to -0.5%, and announced a resumption of quantitative easing purchases of debt. It also increased the maturity of the third round of TLTROs from two to three years. However, it is doubtful whether this loosening of monetary policy will have much impact on growth and unsurprisingly, the ECB stated that governments will need to help stimulate growth by fiscal policy. On the political front, Austria, Spain and Italy are in the throes of forming coalition governments with some unlikely combinations of parties i.e. this raises questions around their likely endurance. The recent results of two German state elections will put further pressure on the frail German CDU/SDP coalition government.

**China -** Economic growth has been weakening over successive years, despite repeated rounds of central bank stimulus; medium term risks are increasing. Major progress still needs to be made to eliminate excess industrial capacity and the stock of unsold property, and to address the level of non-performing loans in the banking and credit systems. Progress also still needs to be made to eliminate excess industrial capacity and to switch investment from property construction and infrastructure to consumer goods production. The trade war with the US does not appear currently to have had a significant effect on GDP growth as some of the impact of tariffs has been offset by falls in the exchange rate and by transhipping exports through other countries, rather than directly to the US.

**Japan -** - has been struggling to stimulate consistent significant GDP growth and to get inflation up to its target of 2%, despite huge monetary and fiscal stimulus. It is also making little progress on fundamental reform of the economy.

**World Growth -** The trade war between the US and China is a major concern to financial markets and is depressing worldwide growth, as any downturn in China will spill over into impacting countries supplying raw materials to China. Concerns are focused on the synchronised general weakening of growth in the major economies of the world compounded by fears that there could even be a recession looming up in the US, though this is probably overblown. These concerns have resulted in government bond yields in the developed world falling significantly during 2019. If there were a major worldwide downturn in growth, central banks in most of the major economies will have limited ammunition available, in terms of monetary policy measures, when rates are already very low in most countries, (apart from the US), and there are concerns about how much distortion of financial markets has already occurred with the current levels of quantitative easing purchases of debt by central banks. The latest PMI survey statistics of economic health for the US, UK, EU and China have all been sub 50 which gives a forward indication of a downturn in growth; this confirms investor sentiment that the outlook for growth during the rest of this financial year is weak.

***Rhan o gyngor dderbyniwyd gan / An extract from advice received from: Link Asset Services***

**Sylwadau ar y rhagolygon diweddaraf ar raddfeydd llog /**
**Commentary on the latest interest rates forecasts**

It has been little surprise that the Monetary Policy Committee (MPC) has left Bank Rate unchanged at 0.75% so far in 2019 due to the ongoing uncertainty over Brexit. In its meeting on 1 August, the MPC became more dovish as it was more concerned about the outlook for both the global and domestic economies. That's shown in the policy statement, based on an assumption that there is an agreed deal on Brexit, where the suggestion that rates would need to rise at a "gradual pace and to a limited extent" is now also conditional on "some recovery in global growth". Brexit uncertainty has had a dampening effect on UK GDP growth in 2019, especially around mid-year. If there were a no deal Brexit, then it is likely that there will be a cut or cuts in Bank Rate to help support economic growth. The September MPC meeting sounded even more concern about world growth and the effect that prolonged Brexit uncertainty is likely to have on growth.

**Bond yields / PWLB rates** - There has been much speculation recently that we are currently in a bond market bubble. However, given the context that there are heightened expectations that the US could be heading for a recession, and a general background of a downturn in world economic growth, together with inflation generally at low levels in most countries and expected to remain subdued, conditions are ripe for low bond yields. While inflation targeting by the major central banks has been successful over the last thirty years in lowering inflation expectations, the real equilibrium rate for central rates has fallen considerably due to the high level of borrowing by consumers: this means that central banks do not need to raise rates as much now to have a major impact on consumer spending, inflation, etc. This has pulled down the overall level of interest rates and bond yields in financial markets over the last thirty years. We have therefore seen over the last year, many bond yields up to ten years in the Eurozone actually turn negative. In addition, there has, at times, been an inversion of bond yields in the US whereby ten year yields have fallen below shorter term yields. In the past, this has been a precursor of a recession. The other side of this coin is that bond prices are elevated as investors would be expected to be moving out of riskier assets i.e. shares, in anticipation of a downturn in corporate earnings and so selling out of equities. However, stock markets are also currently at high levels as some investors have focused on chasing returns in the context of dismal ultra-low interest rates on cash deposits.

What we saw during the last half year up to 30 September is a near halving of longer term PWLB rates to completely unprecedented historic low levels. (*See paragraph 7 for comments on the increase in margin over gilt yields of 100bps introduced on 9.10.19*.) There is though, an expectation that financial markets have gone too far in their fears about the degree of the downturn in US and world growth. If, as expected, the US only suffers a mild downturn in growth, bond markets in the US are likely to sell off and that would be expected to put upward pressure on bond yields, not only in the US, but due to a correlation between US treasuries and UK gilts, which at various times has been strong but at other times weaker, in the UK. However, forecasting the timing of this and how strong the correlation is likely to be, is very difficult to forecast with any degree of confidence.

One potential danger that may be lurking in investor minds is that Japan has become mired in a twenty year bog of failing to get economic growth and inflation up off the floor, despite a combination of massive monetary and fiscal stimulus by both the central bank and government. Investors could be fretting that this condition might become contagious.

Another danger is that unconventional monetary policy post 2008, (ultra-low interest rates plus quantitative easing), may end up doing more harm than good through prolonged use. Low interest rates have encouraged a debt fuelled boom which now makes it harder for economies to raise interest rates. Negative interest rates could damage the profitability of commercial banks and so impair their ability to lend and / or push them into riskier lending. Banks could also end up holding large amounts of their government's bonds and so create a potential doom loop. (A doom loop would occur where the credit rating of the debt of a nation was downgraded which would cause bond prices to fall, causing losses on debt portfolios held by banks and insurers, so reducing their capital and forcing them to sell bonds – which, in turn, would cause further falls in their prices etc.). In addition, the financial viability of pension funds could be damaged by low yields on holdings of bonds.

**The balance of risks to the UK**

- The overall balance of risks to economic growth in the UK is probably to the downside due to the weight of all the uncertainties over Brexit, as well as a softening global economic picture.
- The balance of risks to increases in Bank Rate and shorter term PWLB rates are broadly similarly to the downside.

One risk that is both an upside and downside risk is that all central banks are now working in very different economic conditions than before the 2008 financial crash. There has been a major increase in consumer and other debt due to the exceptionally low levels of borrowing rates that have prevailed for eleven years since 2008. This means that the neutral rate of interest in an economy, (i.e. the rate that is neither expansionary nor deflationary), is difficult to determine definitively in this new environment, although central banks have made statements that they expect it to be much lower than before 2008. Central banks could, therefore, over or under-do increases in central interest rates.

**Downside risks to current forecasts for UK gilt yields and PWLB rates currently include**:

- **Brexit –** if it were to cause significant economic disruption and a major downturn in the rate of growth.
- **Bank of England** takes action too quickly, or too far, over the next three years to raise Bank Rate and causes UK economic growth, and increases in inflation, to be weaker than we currently anticipate.
- A resurgence of the **Eurozone sovereign debt** crisis. In 2018, Italy was a major concern due to having a populist coalition government which made a lot of anti-austerity and anti-EU noise. However, in September 2019 there was a major change in the coalition governing Italy which has brought to power a much more EU friendly government; this has eased the pressure on Italian bonds. Only time will tell whether this new unlikely alliance of two very different parties will endure.
- Weak capitalisation of some European banks, particularly Italian banks.
- **German minority government**. In the German general election of September 2017, Angela Merkel's CDU party was left in a vulnerable minority position dependent on the fractious support of the SPD party, as a result of the rise in popularity of the anti-immigration AfD party. Then in October 2018, the results of the Bavarian and Hesse state elections radically undermined the SPD party and showed a sharp fall in support for the CDU. As a result, the SPD had a major internal debate as to whether it could continue to support a coalition that is so damaging to its electoral popularity. After the result of the Hesse state election, Angela Merkel announced that she would not stand for re-election as CDU party leader at her party's convention in December 2018. However, this makes little practical difference as she has continued as Chancellor, though more recently concerns have arisen over her health.
- **Other minority EU governments**. Austria, Sweden, Spain, Portugal, Netherlands and Belgium all have vulnerable minority governments dependent on coalitions which could prove fragile.
- **Italy, Austria, the Czech Republic and Hungary** now form a strongly anti-immigration bloc within the EU. There has also been rising anti-immigration sentiment in Germany and France.
- There are concerns around the level of **US corporate debt** which has swollen massively during the period of low borrowing rates in order to finance mergers and acquisitions. This has resulted in the debt of many large corporations being downgraded to a BBB credit rating, close to junk status. Indeed, 48% of total investment grade corporate debt is rated at BBB. If such corporations fail to generate profits and cash flow to reduce their debt levels as expected, this could tip their debt into junk ratings which will increase their cost of financing and further negatively impact profits and cash flow.
- **Geopolitical risks**, for example in North Korea, but also in Europe and the Middle East, which could lead to increasing safe haven flows.

**Upside risks to current forecasts for UK gilt yields and PWLB rates**

- **Brexit –** if agreement was reached all round that removed all threats of economic and political disruption between the EU and the UK.
- **The Bank of England** is too slow in its pace and strength of increases in Bank Rate and, therefore, allows inflationary pressures to build up too strongly within the UK economy, which then necessitates a later rapid series of increases in Bank Rate faster than we currently expect.

**UK inflation**, whether domestically generated or imported, returning to sustained significantly higher levels causing an increase in the inflation premium inherent to gilt yields.

**Crynodeb Benthyca a Buddsoddi – Chwarteroedd 1 a 2 2019/20**
**Borrowing and Investment Summary – Quarters 1 and 2 2019/20**

| | **30 Medi / Sept 2019** | | **30 Mehefin / June 2019** | |
|---|---|---|---|---|
| | **£m** | **% (paid on borrowing and received on investment)** | **£m** | **% (paid on borrowing and received on investment)** |
| Benthyca – graddfa sefydlog<br>Borrowing – fixed rate | 126.4 | 4.73 | 126.4 | 4.73 |
| Benthyca – graddfa amrywiol<br>Borrowing – variable rate | Dim / Nil | d/b / n/a | Dim / Nil | d/b / n/a |
| Adneuon – galw hyd at 30 diwrnod<br>Deposits – Call to 30 days | 8.5 | 0.57 | 12.3 | 0.49 |
| Adneuon – Tymor sefydlog < 1 bl.<br>Deposits – Fixed Term < 1 year | 10.0 | 0.64 | 5.0 | 0.75 |
| Adneuon – Tymor sefydlog 1 bl. +<br>Deposits – Fixed Term 1 year + | Dim / Nil | d/b / n/a | Dim / Nil | d/b / n/a |
| Cyfanswm Adneuon<br>Total Deposits | 18.5 | 0.61 | 17.3 | 0.57 |
| Adneuon Uchaf yn y Chwarter<br>Highest Deposits in the Quarter | 26.1 | d/b / n/a | 27.1 | d/b / n/a |
| Adneuon Isaf yn y Chwarter<br>Lowest Deposits in the Quarter | 14.0 | d/b / n/a | 13.7 | d/b / n/a |
| Cyfartaledd Adneuon yn y Chwarter<br>Average Deposits in the Quarter | 20.9 | 0.54 | 22.9 | 0.54 |

Ni dorwyd unrhyw un o’r dangosyddion trysorlys yn ystod hanner cyntaf y flwyddyn.
None of the treasury indicators were breached during the first half of the year.

**ATODIAD / APPENDIX 4**

## Graddfeydd Credyd Gwrthbartïon buddsoddi a'r adneuon a ddelir gyda phob un ar 30 Medi 2019*
## Credit ratings of investment counterparties and deposits held with each as at 30 September 2019*

| Grŵp Bancio/ Banking Group | Sefydliad/ Institution | Adneuon / Deposit £'000 | Hyd (Galw/ tymor sefydlog) / Duration (Call / Fixed Term**) | Cyfnod (O / I) / Period (From / To) | Graddfa Dychweliad/ Rate of Return % | Graddfa Tymor Hir Fitch Long Term Rating | Graddfa Tymor Byr Fitch Short Term Rating | Graddfa Tymor Hir Moody's Long Term Rating | Graddfa Tymor Byr Moody's Short Term Rating | Graddfa Tymor Hir Standard & Poor's Long Term Rating | Graddfa Tymor Byr Standard & Poor's Short Term Rating | Lliw Sector/Hyd Awgrymiedig/ Sector Colour / Suggested Duration |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Lloyds Banking Group plc | Bank of Scotland plc | **7.494** | **Galw/ Call** | **n/a** | **0.65** | **A+** | **F1** | **Aa3** | **P-1** | **A+** | **A-1** | **Glas – 12 mis/ Blue -12m months** |
| Santander Group plc | Santander UK plc | **0.001** | **Galw/ Call** | **n/a** | **0.40** | **A+** | **F1** | **Aa3** | **P-1** | **A** | **A-1** | **Coch – 6 mis/ Red - 6 months** |
| The Royal Bank of Scotland Group plc | The Royal Bank of Scotland plc (Part / Nationalised) | **0.002** | **Galw/ Call** | **n/a** | **0.20** | **A+** | **F1** | **A1** | **P-1** | **A** | **A-1** | **Glas - 12 mis / Blue - 12 months** |
| The Royal Bank of Scotland Group plc | National Westminster Bank Deposit | **1.055** | **Galw/ Call** | **n/a** | **0.30** | **A+** | **F1** | **A1** | **P-1** | **A** | **A-1** | **Glas - 12 mis / Blue - 12 months** |
| Cheltenham Council | Cheltenham Council | **5.000** | **Sefydlog/ Fixed** | **20/09/19 - 25/10/19** | **0.63** | **n/a** | **n/a** | **n/a** | **n/a** | **n/a** | **n/a** | **n/a** |
| Mid Suffolk Council | Mid Suffolk Council | **3.000** | **Sefydlog/ Fixed** | **24/09/19 – 25/11/19** | **0.65** | **n/a** | **n/a** | **n/a** | **n/a** | **n/a** | **n/a** | **n/a** |
| Wirral Council | Wirral Council | **2.000** | **Sefydlog/ Fixed** | **30/09/19 – 29/10/19** | **0.63** | **n/a** | **n/a** | **n/a** | **n/a** | **n/a** | **n/a** | **n/a** |

* Ceir y Rhestr Benthyca Cymeradwyedig yn Atodiad 6 o'r Datganiad Strategaeth Rheoli Trysorlys 2019/20/Strategaeth Buddsoddi Blynyddol/ The Approved Lending List can be found at Appendix 6 of the 2019/20 Treasury Management Strategy Statement / Annual Investment Strategy

** Sef tymor ar pwynt y buddsoddi/Being term at the point of investment.

**Approved countries for investments**

*Based upon lowest available sovereign credit rating*

AAA
- Australia
- Canada
- Denmark
- Germany
- Luxembourg
- Netherlands
- Norway
- Singapore
- Sweden
- Switzerland


AA+
- Finland
- U.S.A.


AA
- Abu Dhabi (UAE)
- France
- Hong Kong
- U.K.

AA-
- Belgium
- Qatar

**Graffiau Ychwanegol / Additional Graphs**

Comparison of borrowing parameters to actual external borrowing



| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **ADRODDIAD I:** | **CYNGOR SIR** |
| **DYDDIAD:** | **10 MAWRTH 2020** |
| **PWNC:** | **DATGANIAD AR STRATEGAETH RHEOLI'R TRYSORLYS 2020/21** |
| **SWYDDOG ARWEINIOL:** | **MARC JONES, CYFARWYDDWR SWYDDOGAETH (ADNODDAU) A SWYDDOG ADRAN 151** |
| **SWYDDOG CYSWLLT:** | **JEMMA ROBINSON, UWCH GYFRIFYDD (FFÔN: EST. 2675)** |
| **Natur a rheswm dros adrodd**<br>Ar gyfer sgriwtini – yn gyson â chyfarwyddyd proffesiynol. | |

**1.** Cyflwynir yr adroddiad hwn i sicrhau bod y Cyngor yn gweithredu arferion gorau yn unol â Chod Ymarfer y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (CIPFA) ar Reoli Trysorlys. Mae'r côd yn argymell y dylai'r Aelodau graffu y Datganiad Strategaeth Rheoli'r Trysorlys (sy'n cynnwys y Strategaeth Fuddsoddi Flynyddol, Datganiad Polisi MRP Blynyddol, y Datganiad ar y Polisi Rheoli Trysorlys a'r Cynllun Dirprwyo ar Reoli Trysorlys) cyn iddo gael ei fabwysiadu. Yn unol â chynllun dirprwyo'r Awdurdod, y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu sy'n gyfrifol am y swyddogaeth hon.

**2.** Mae Côd Ymarfer CIPFA ar Reoli Trysorlys (Adran 7) yn argymell y dylid cymeradwyo, dogfennu a monitro Arferion Rheoli Trysorlys (ART) yr Awdurdod. Mae'n dweud hefyd mai mater ar gyfer penderfyniad lleol yw natur a maint ymwneud corff cyfrifol unrhyw sefydliad o ran cymeradwyo a monitro ei Bolisïau Rheoli Trysorlys a'r atodlenni cysylltiedig ac mae'n cydnabod hefyd y gellir dirprwyo'r swyddogaeth hon mewn rhai sefydliadau i'r swyddog cyfrifol. Ym mhob achos, dylai fod yn destun sgriwtini gan y corff cyfrifol yn dilyn argymhellion gan y swyddog cyfrifol. Mae'r Awdurdod hwn wedi creu ART wedi'i ddogfennu, a gafodd ei awdurdodi gan y Pwyllgor Archwilio ar 6 Rhagfyr 2016.

**3.** O ran diweddariadau i'r Datganiad ar y Strategaeth Rheoli Trysorlys, does dim newidiadau yn cael eu hargymell i egwyddorion a pholisïau craidd Datganiad 2019/20.

**4.** O dan y Côd Ymarfer diwygiedig, mae'n ofyniad bod y Cyngor yn paratoi Strategaeth Gyfalaf, sy'n cymryd golwg tymor hirach ar y buddsoddiad cyfalaf angenrheidiol a sut y bydd y buddsoddiad hwnnw'n cael ei gyllido. Bydd y Pwyllgor Gwaith yn cymeradwyo'r Strategaeth hon, ynghyd â chynigion cyllideb eraill. Mae'r Strategaeth Rheoli Trysorlys hon yn eistedd o dan y Strategaeth Gyfalaf ac yn ystyried effaith y strategaeth honno ar fenthyca a buddsoddiadau'r Cyngor. Mae'n nodi sut bydd y ddau strategaeth yn cael eu hymgymryd â nhw mewn dull a reolir, sy'n unol â lefel y risg y mae'r Cyngor yn dymuno ei chymryd, gan ystyried yr arweiniad a nodir yng Nghôd Ymarfer CIPFA ar Reoli Trysorlys.

**5. Argymhellion**

- Nodi cynnwys yr adroddiad: a
- Chymeradwyo y Strategaeth Rheoli Trysorlys ar gyfer 2020/21 (sydd yn cynnwys y Strategaeth Fuddsoddi Flynyddol, Polisi'r MRP, Polisi Flynyddol Rheoli Trysorlys ar Dangosyddion Darbodus a Thrysorlys) (Annex A i'r adroddiad yma).

**ATODIAD A**

**DATGANIAD STRATEGAETH RHEOLI TRYSORLYS**

**STRATEGAETH FUDDSODDI FLYNYDDOL, Y DATGANIAD POLISI AR Y DDARPARIAETH REFENIW ISAF (DRI) A'R DATGANIAD POLISI RHEOLI TRYSORLYS AR GYFER 2020/21**

## 1. CEFNDIR

**1.1.** Mae CIPFA yn diffinio rheoli trysorlys fel:-
"*The management of the local authority's borrowing, investments and cash flows, its banking, money market and capital market transactions; the effective control of the risks associated with those activities; and the pursuit of optimum performance consistent with those risks*."

Mae'r Datganiad Polisi Rheoli Trysorlys yn diffinio polisïau ac amcanion gweithgareddau rheoli trysorlys (gweler **Atodiad 1**).

**1.2.** Rhaid i'r Cyngor weithredu cyllideb gytbwys, sy'n golygu yn gyffredinol y bydd cyfanswm yr incwm a godir yn ystod y flwyddyn yn cwrdd â gwariant. Rhan o'r gweithgareddau rheoli trysorlys yw sicrhau bod y llif arian hwn wedi ei gynllunio'n ddigonol a bod arian ar gael pan mae ei angen. Caiff arian sydd dros ben ei fuddsoddi mewn gwrthbartïon sy'n cwrdd â'r meini prawf o ran diogelwch, hylifedd a dychweliad ar fuddsoddiadau fel y nodir yn y strategaeth hon.

**1.3.** Ail brif swyddogaeth y gwasanaeth rheoli trysorlys yw cyllido cynlluniau cyfalaf y Cyngor. Mae'r cynlluniau cyfalaf hyn yn darparu arweiniad ar gyfer anghenion benthyca'r Cyngor, sef cynllunio llif arian ar gyfer y tymor hwy mewn gwirionedd, er mwyn sicrhau fod y Cyngor yn gallu cwrdd â'i oblygiadau o ran gwariant cyfalaf. Gall rheoli'r arian tymor hwy olygu trefnu benthyciadau ar gyfer y tymor hir neu'r tymor byr neu ddefnyddio gwargedion llif arian am dymor hwy. O bryd i'w gilydd, pan fo'n ddarbodus ac yn economaidd, gellir ailstrwythuro dyledion i gwrdd â risgiau neu amcanion cost y Cyngor.

**1.4.** Mae'r cyfraniad a wna'r swyddogaeth rheoli trysorlys i'r Awdurdod yn hollbwysig oherwydd mae balans dyled a gweithgareddau buddsoddi'n sicrhau hylifedd neu'r gallu i gwrdd ag ymrwymiadau o ran gwariant pan mae angen, naill ai ar gyfer refeniw dydd i ddydd neu brosiectau cyfalaf mwy. Bydd y gweithgareddau trysorlys yn gweld balans y costau llog ar ddyledion a'r incwm buddsoddi sy'n codi o adneuon ariannol a'r effaith a gânt at y gyllideb sydd ar gael. Gan fod balansau ariannol fel rheol yn codi o gronfeydd wrth gefn a balansau, mae'n hanfodol bwysig sicrhau diogelwch digonol ar gyfer y symiau sy'n cael eu buddsoddi oherwydd gall colli prifsymiau arwain at golled yng nghronfeydd wrth gefn ariannol y Cyngor.

## 2. CÔD YMARFER CIPFA AR REOLI TRYSORLYS

**2.1.** Yn unol â Chôd Ymarfer CIPFA ar Reoli Trysorlys, rhaid i'r Cyngor baratoi a chymeradwyo'r dogfennau isod:-

- Datganiad ar Strategaeth Gyfalaf sy'n nodi trosolwg lefel uchel, tymor hir o wariant a chyllido cyfalaf, ynghyd â manylion ar unrhyw risgiau sy'n gysylltiedig a'r modd y byddant yn cael eu rheoli.
- Strategaeth Rheoli Trysorlys a fydd yn nodi strategaeth y Cyngor o ran benthyciadau a buddsoddiadau sy'n dilyn ymlaen o'r Strategaeth Gyfalaf ac sy'n nodi'r cyfyngiadau ar fenthyca, yn penderfynu ar gyfres o ddangosyddion pwyllog ac yn penderfynu ar awch a strategaeth y Cyngor o ran risg mewn perthynas â buddsoddiadau.

**2.2.** Nodir prif egwyddorion Côd Ymarfer CIPFA ar Reoli Trysorlys yn **Atodiad 2**.

## 3. CYD-DESTUN ALLANOL

**3.1.** Ni fedrir gosod y Strategaeth Rheoli Trysorlys fel ymarfer ar ei ben ei hun, rhaid ystyried y sefyllfa economaidd oherwydd mae'n cael effaith ar gyfraddau llog ar fuddsoddiadau, costau benthyca a chadernid ariannol y gwrthbartïon. Mae crynodeb llawn o'r rhagolygon economaidd ar gael yn **Atodiad 3**, ond dyma'r prif bwyntiau y mae angen eu hystyried:-

- Twf economaidd sy'n gwahanu yn yr Unol Daleithiau, Tsieina a'r Parth Ewropeaidd.
- Lefelau chwyddiant yn y DU sy'n debygol o barhau ar neu'n agos i 2% dros y ddwy flynedd nesaf.
- Posibilrwydd y bydd cyfraddau llog yn codi o fis Mawrth 2021 ymlaen.
- Yr ansicrwydd parhaus ynghylch Brexit a'i effaith a'r economi'r DU a'r Parth Ewropeaidd.
- Mae dychweliadau ar fuddsoddiadau'n debygol o barhau i fod yn isel yn ystod 2020/21 llawer o gynnydd yn y ddwy flynedd dilynol.

**3.2.** Wedi ystyried y wybodaeth sydd ar gael ac wedi ystyried y cyngor gan Ymgynghorwyr Rheoli Trysorlys y Cyngor, mae'r tabl isod yn nodi barn y sefyllfa'r Cyngor ar lefelau cyfraddau llog am y tair blynedd nesaf:-

**Tabl 1**
**Rhagolygon ar gyfer Cyfraddau Llog hyd at fis Mawrth 2023**

| Cyfartaledd Blynyddol | Cyfradd Banc (%) | Cyfraddau Benthyca PWLB (yn cynnwys addasiad ar gyfer graddfa sicrwydd) | | |
|---|---|---|---|---|
| | | 5 mlynedd | 25 mlynedd | 50 mlynedd |
| Rhagfyr 2019 | 0.75 | 2.30 | 3.20 | 3.10 |
| Mawrth 2020 | 0.75 | 2.40 | 3.30 | 3.20 |
| Mehefin 2020 | 0.75 | 2.40 | 3.40 | 3.30 |
| Medi 2020 | 0.75 | 2.50 | 3.40 | 3.30 |
| Rhagfyr 2020 | 0.75 | 2.50 | 3.50 | 3.40 |
| Mawrth 2021 | 1.00 | 2.60 | 3.60 | 3.50 |
| Mehefin 2021 | 1.00 | 2.70 | 3.70 | 3.60 |
| Medi 2021 | 1.00 | 2.80 | 3.70 | 3.60 |
| Rhagfyr 2021 | 1.00 | 2.90 | 3.80 | 3.70 |
| Mawrth 2022 | 1.00 | 2.90 | 3.90 | 3.80 |
| Mehefin 2022 | 1.25 | 3.00 | 4.00 | 3.90 |
| Medi 2022 | 1.25 | 3.10 | 4.00 | 3.90 |
| Rhagfyr 2022 | 1.25 | 3.20 | 4.10 | 4.00 |
| Mawrth 2023 | 1.25 | 3.20 | 4.10 | 4.00 |

Mae gwybodaeth a gafwyd gan Link Asset Services ynghlwm yn **Atodiad 4**.

**3.3.** Yn wyneb y rhagolygon ar gyfer cyfraddau sylfaenol y banciau, disgwylir y dychweliadau a ganlyn ar fuddsoddiadau yn ystod y blynyddoedd ariannol a nodir:-

2019/20: 0.75%;
2020/21: 0.75%;
2021/22: 1.00%;
2022/23: 1.25%;
2023/24: 1.50%;
2024/25: 1.75%;
2025/26 Ymlaen: 2.25%.

## 4. SEFYLLFA GYFREDOL Y CYNGOR

### 4.1. Benthyca

**4.1.1** Nodir benthyciadau allanol cyfredol y Cyngor yn Nhabl 2 isod. Ceir dadansoddiad llawn yn **Atodiad 5**.

**Tabl 2**
**Crynodeb o'r Benthyciadau sydd gan y Cyngor ar hyn o bryd**

| **BENTHYCIADAU PWLB** | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | **PWLB / PWLB Maturity** | **PWLB EIP Blwydd-dal** | **Benthyciadau Marchnad** | **PWLB Amrywiol** | **Cyfanswm Aeddfedu** |
| Benthyciad sy'n weddill | **£126.184m** | £0.22m | £0.00m | £0.00m | **£126.404m** |
| Oes ar gyfartaledd (blynyddoedd) | 25.48 | 6.94 | 0.00 | 0.00 | 25.44 |
| Cyfradd ar gyfartaledd (%) | 5.15 | 9.44 | 0.00 | 0.00 | 4.73 |

| **BENTHYCIADAU ERAILL** | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Llywodraeth** | **Salix Benthyciad 1** | **Salix Benthyciad 2** | **Salix Benthyciad 3** | **Salix Benthyciad 4** | **Salix Benthyciad 5** | **Cyfanswm** |
| Balans sy'n Weddill | £44k | £74k | £274k | £572k | £251k | £1,178k | £2,393k |
| Dyddiad Ad-dalu | 2020/21 | 2024/25 | 2025/26 | 2028/29 | 2029/30 | 2030/31 | |
| Cyfradd Llog (%) | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | |

### 4.2. Buddsoddiadau

**4.2.1.** Mae unrhyw arian dros ben yn cael ei fuddsoddi ar hyn o bryd mewn cyfrifon adneuon tymor byr, cyfrifon 'ar alw' a chyda awdurdodau lleol eraill yn y DU. Mae'r balans a fuddsoddir yn y cyfrifon hyn yn newid bob dydd (y balans ar 31 Rhagfyr 2019 oedd £23.2m).

**4.2.2.** Dan y strategaeth rheoli trysorlys gyfredol, mae'r Cyngor yn buddsoddi unrhyw arian dros ben drwy sicrhau yn y lle cyntaf ddiogelwch yr adneuon, ei hylifedd yn yr ail le ac yna'r dychweliad ar y buddsoddiad. Mewn gwirionedd, mae cyfradd y dychweliadau ar fuddsoddiadau'n cael ei haberthu er mwyn sicrhau'r ddwy egwyddor gyntaf ac, ar hyn o bryd, mae'r dychweliad cyfartaleddol ar fuddsoddiadau yn 0.55% (fel ar 31 Rhagfyr 2019).

## 5. EFFAITH CYNLLUNIAU AR GYFER Y DYFODOL AR FENTHYCA

**5.1.** Caiff gwariant cyfalaf ei gyllido'n rhannol o fenthyciadau ac mae'r rhaglen gyfalaf, fel a nodir yn y Strategaeth Gyfalaf, i'w gweld yn Nhabl 3 isod**:-**

**Tabl 3**
**Rhaglen Gwariant Cyfalaf Arfaethedig 2020/21 – 2022/23**

| | 2020/21 £'000 | 2021/22 £'000 | 2022/23 £'000 |
|---|---|---|---|
| **Gwariant nad yw'n ymwneud â'r CRT** | **19,765** | **21,662** | **14,675** |
| **Cyfrif Refeniw Tai (CRT)** | **17,138** | **17,704** | **14,402** |
| **Gweithgareddau Masnachol / Buddsoddiadau na ydynt yn rhai Ariannol** | **0** | **0** | **0** |
| **CYFANSWM Y GWARIANT** | **36,903** | **39,366** | **29,077** |
| **Yn cael eu cyllido drwy** | | | |
| **Grantiau Cyfalaf** | **12,286** | **9,856** | **8,090** |
| **Derbyniadau Cyfalaf** | **245** | **250** | **250** |
| **Arian Wrth Gefn** | **0** | **750** | **0** |
| **Refeniw** | **14,728** | **9,294** | **10,642** |
| **Y Balans a Gyllidir o Fenthyciadau** | **9,644** | **19,216** | **10,095** |

**5.2.** Ffactor pwysig i'w hystyried yw effaith benthyca ar Ofyniad Cyllido Cyfalaf y Cyngor (GCC). Y GCC yw'r mesur o angen sylfaenol y Cyngor i fenthyca. Nid yw benthyca wedi'i gyfyngu i fenthyciadau allanol gan BBGC (PWLB), mae hefyd yn cynnwys y gallu i ddefnyddio balansau ariannol y Cyngor ei hun (benthyca mewnol) ac mae'r rhain wedi cael eu defnyddio i gyllido gwariant cyfalaf.

**5.3.** Bydd gwariant cyfalaf yn cynyddu'r GCC ond dim ond gan y swm nad yw'n cael ei gyllido o grantiau, derbyniadau cyfalaf, arian wrth gefn neu refeniw. Bydd y GCC hefyd yn gostwng yn flynyddol gan swm y Ddarpariaeth Refeniw Isaf (DRI) sy'n cael ei roi yn erbyn refeniw. Mae lefel y GCC yn fesur pwysig er mwyn sicrhau nad yw'r Cyngor yn ymrwymo ei hun i lefelau anfforddiadwy o fenthyca.

**5.4.** Er mwyn sicrhau bod gan y Cyngor ddigon o gyllid i ad-dalu dyledion ar yr adeg briodol, rhaid i'r Cyngor wneud taliad i'r cyfrif refeniw bob blwyddyn a'r enw ar y taliad hwn yw'r Ddarpariaeth Refeniw Isaf. Yn unol â'r Rheoliadau, rhaid i'r Cyngor gymeradwyo datganiad DRI cyn pob blwyddyn ariannol. Ceir y polisi ar gyfer 2020/21 yn **Atodiad 6**. The Cafodd DRI y Cyngor ei ddiwygio'n sylweddol yn 2018 ond nid oes unrhyw newidiadau i'r polisi diwygiedig hwnnw ar gyfer 2020/21. Drwy wneud y taliad DRI bob blwyddyn, mae balansau ariannol y Cyngor yn cael eu hailgyflenwi gyda hynny'n ei dro yn lleihau'r lefel o fenthyca mewnol.

**5.5.** Bydd y polisi'n darparu ar gyfer taliad cyfartal ar fenthyciadau hyd at 31 Mawrth 2018 ac, yn achos yr holl fenthyciadau ar ôl y dyddiad hwnnw, bydd y taliad DRI yn seiliedig ar oes ddefnyddiol yr ased sydd wedi cael ei gyllido o'r benthyciad, e.e. os cafodd £1m ei fenthyca i gyllido gwariant cyfalaf ar ased sydd ag oes o 20 mlynedd, byddai'r DRI blynyddol ar y benthyciad hwnnw'n £50k y flwyddyn. Wrth i ni gymryd benthyciadau newydd, bydd y taliad DRI yn cynyddu dros amser a chaniatawyd ar gyfer y cynnydd hwn mewn costau yng nghyllidebau'r Cyngor.

**5.6.** Caiff effaith cynlluniau gwariant cyfalaf y Cyngor a'r taliad DRI ar y GCC a lefel y benthyca allanol a mewnol ei ddangos yn Nhabl 4 isod:-

**Tabl 4**
**Gofyniad Cyllido Cyfalaf a Benthyciadau 2019/20 i 2022/23**

| | 2019/20 £'000 | 2020/21 £'000 | 2021/22 £'000 | 2022/23 £'000 |
|---|---|---|---|---|
| **Gofyniad Cyllido Cyfalaf** | | | | |
| **Balans Agoriadol y GCC** | **138,662** | **142,034** | **147,985** | **163,265** |
| Gwariant Cyfalaf | 33,126 | 36,903 | 39,366 | 29,077 |
| Grantiau Cyfalaf Allanol | (14,380) | (12,286) | (9,856) | (8,090) |
| Derbyniadau Cyfalaf | (1,612) | (245) | (250) | (250) |
| Cyfraniad Refeniw ac Arian Wrth Gefn | (10,331) | (14,728) | (10,044) | (10,642) |
| Darpariaeth Refeniw Isaf | (3,431) | (3,693) | (3,936) | (4,391) |
| **BALANS CAU'R GCC** | **142,034** | **147,985** | **163,265** | **168,969** |
| **Benthyciadau Allanol** | | | | |
| **Balans Agoriadol y Benthyciadau Allanol** | **132,549** | **129,257** | **134,093** | **152,944** |
| Benthyca i Gyllido Gwariant Cyfalaf | 2,001 | 9,644 | 19,216 | 10,095 |
| Benthyca i Gyllido Ad-daliadau ar Fenthyciadau | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Benthyciadau yn lle Benthyca'n Fewnol | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Ad-dalu Benthyciadau | (5,293) | (4,808) | (365) | (2,651) |
| **Balans Cau Benthyciadau Allanol** | **129,257** | **134,093** | **152,944** | **160,388** |
| **Benthyciadau Mewnol** | | | | |
| **Balans Agoriadol Benthyciadau Mewnol** | **6,113** | **12,777** | **13,892** | **10,321** |
| Amnewid Benthyca Mewnol | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Cyllido Ad-daliadau o Fenthyciadau Allanol | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Ad-dalu Benthyciadau Allanol | 5,293 | 4,808 | 365 | 2,651 |
| Benthyca i Gyllido Gwariant Cyfalaf | 4,802 | 0 | 0 | 0 |
| Darpariaeth Refeniw Isaf | (3,431) | (3,693) | (3,936) | (4,391) |
| **Balans Cau Benthyciadau Mewnol** | **12,777** | **13,892** | **10,321** | **8,581** |
| **CYFANSWM Y BENTHYCIADAU** | **142,034** | **147,985** | **163,265** | **168,969** |

## 6. STRATEGAETH FENTHYCA

**6.1.** Ar hyn o bryd, mae'r Cyngor yn parhau i gynnal sefyllfa o dan-fenthyca. Mae hyn yn golygu bod yr angen am fenthyciadau cyfalaf (sef y Gofyniad Cyllido Cyfalaf) heb ei gyllido'n llawn ac mae dyledion benthyca wedi cael eu defnyddio fel mesur dros dro i gefnogi arian wrth gefn, balansau a llif arian y Cyngor. Mae'r driniaeth hon yn un ddarbodus oherwydd bod dychweliadau ar fuddsoddiadau yn isel ac mae risg gwrthbartïon yn fater sy'n parhau i fod angen sylw. Fel rhan o'r strategaeth hon, mae'r gallu i fenthyca'n allanol i ad-dalu'r arian wrth gefn a balansau, petai raid, yn bwysig. Mae Tabl 4 yn dangos y byddai o bosib angen benthyca £12.777m yn allanol petai angen brys amdano. Dyma'r swm a ddefnyddiwyd o arian wrth gefn a balansau'r Cyngor yn y gorffennol i gyllido'r rhaglen gyfalaf yn lle cymryd benthyciadau.

**6.2.** Yn erbyn y cefndir hwn a'r risgiau o fewn y rhagolygon economaidd, mabwysiedir dull darbodus o ran gweithgareddau trysorlys 2020/21. Bydd y Swyddog Adran 151 yn monitro cyfraddau llog yn y marchnadoedd ariannol ac yn mabwysiadu dull pragmatig mewn perthynas ag amgylchiadau sy'n newid:-

- Os ceir teimlad bod risg sylweddol o GWYMP sydyn yn y cyfraddau tymor byr a thymor hir (e.e. oherwydd mwy o risg o ddisgyn yn ôl i ddirwasgiad neu risgiau datchwyddiant), yna bydd benthyciadau tymor hir yn cael eu gohirio ac ystyrir newid o gyllido cyfradd sefydlog i fenthyca tymor byr os bydd yn gost-effeithiol i wneud hynny.
- Os ceir teimlad bod risg sylweddol o GYNNYDD llawer mwy yn y cyfraddau tymor hir a thymor byr na'r rhagolygon cyfredol, efallai oherwydd cyflymu'r dyddiad cychwyn a lefel y cynnydd mewn cyfraddau canolog yn yr UDA a'r DU, cynnydd mewn gweithgareddau economaidd byd-eang neu gynnydd sydyn mewn risgiau chwyddiant, yna byddai sefyllfa'r portffolio yn cael ei hailasesu gyda'r tebygolrwydd o gyllido tymor sefydlog tra byddai cyfraddau llog yn is nac y rhagwelir dent yn yr ychydig flynyddoedd nesaf.
- Adroddir ar unrhyw benderfyniadau i'r Pwyllgor hwn ar y cyfle cyntaf.

### 6.3. Benthyca Mewnol yn erbyn Benthyca Allanol

**6.3.1.** Mae'r amodau cyfredol yn nodi bod angen agwedd hyblyg o ran y dewis rhwng benthyca mewnol ac allanol. Mae llawer o'r ffactorau a oedd wrth wraidd y polisi blaenorol i allanoli'r holl fenthyca yn parhau i fod yn ddilys, er enghraifft:-

- Gan fod y Gyfradd Banc a chyfraddau'r BBGC yn parhau i fod yn anarferol o isel yn hanesyddol, erys cyfle unigryw i awdurdodau lleol reoli eu strategaeth o gymryd benthyciadau allanol newydd.

**6.3.2.** Fodd bynnag, mae rhai cyfyngiadau yn parhau mewn perthynas â'r dull hwn o weithredu, fel y dywedwyd eisoes, er enghraifft:-

- Gall y polisi olygu bod yn agored i risg credyd (e.e. risg y bydd y banc yn methu ar y ddyled), felly bydd raid rheoli'r elfen hon yn ofalus iawn;
- Rhaid parhau i roi sylw manwl i'r gwahaniaeth rhwng y cyfraddau benthyca a'r cyfraddau buddsoddi i sicrhau bod y Cyngor yn cael gwerth am arian unwaith y mae lefel briodol o reolaeth risg wedi ei chyrraedd i sicrhau diogelwch ei fuddsoddiadau.

**6.3.3.** O blaid mewnoli, dros y tymor canol, disgwylir y bydd cyfraddau buddsoddi yn is na'r cyfraddau benthyca tymor hir. Mae hynny'n golygu bod ystyriaethau gwerth am arian yn awgrymu y gellid cael gwerth gorau trwy osgoi benthyca allanol newydd a thrwy ddefnyddio balansau arian parod mewnol i gyllido gwariant cyfalaf newydd, neu yn lle dyled allanol sy'n aeddfedu (cyfeirir at hyn fel benthyca mewnol). Byddai hynny'n sicrhau'r arbedion tymor byr mwyaf posib.

**6.3.4.** Fodd bynnag, rhaid pwyso a mesur arbedion tymor byr a geid trwy osgoi benthyca allanol tymor hir yn 2020/21 yn erbyn y posibilrwydd o gael costau tymor hir ychwanegol, trwy ohirio cymryd benthyciadau allanol newydd nad oes modd eu hosgoi tan yn hwyrach ymlaen pan ragwelir y bydd cyfraddau tymor hir y BBGC yn sylweddol uwch. Yn ychwanegol at hyn, bydd angen parhau i adolygu'n rheolaidd oblygiadau benthyciadau mewnol ar lif arian a bydd hynny'n cyfyngu ar lefel bosib y benthyca mewnol.

## 6.4. Benthyca ymlaen llawn i gwrdd ag Anghenion

**6.4.1** Ni fydd y Cyngor yn benthyca mwy nag y mae ei angen, na chyn bod angen gwneud hynny, dim ond er mwyn elwa o fuddsoddi'r symiau ychwanegol a fenthycir. Bydd unrhyw benderfyniad i fenthyca ymlaen llaw o fewn amcangyfrifon Gofynion Cyllido Cyfalaf a gymeradwywyd ymlaen llaw a bydd penderfyniadau o'r fath yn cael eu hystyried yn ofalus i sicrhau bod modd dangos gwerth am cyllid a bod y Cyngor yn gallu sicrhau diogelwch arian o'r fath.

**6.4.2** Wrth benderfynu a ddylid benthyca cyn bod angen gwneud hynny, bydd y Cyngor yn:-

1. sicrhau bod cyswllt clir rhwng y rhaglen gyfalaf a phroffil aeddfedrwydd y portffolio dyled cyfredol sy'n cefnogi'r angen i fenthyca cyn i'r angen godi;
2. sicrhau bod cyfrifoldebau refeniw parhaus sy'n cael eu creu, a'r goblygiadau ar gyfer cynlluniau a chyllidebau'r dyfodol, wedi eu hystyried;
3. pwyso a mesur y ffactorau economaidd a marchnad a allai gael dylanwad ar ddull ac amseriad unrhyw benderfyniad i fenthyca;
4. ystyried manteision ac anfanteision dulliau cyllido eraill;
5. ystyried y cyfraddau llog eraill sydd ar gael, y cyfnodau mwyaf priodol i gyllido a'r proffiliau ad-dalu i'w defnyddio; ac
6. ystyried effaith benthyca ymlaen llaw ar falansau arian buddsoddi sy'n cynyddu dros dro (hyd nes y bydd angen cyllido gwariant cyfalaf) a'r ffaith y byddir yn fwy agored yn sgil hynny i risg gwrthbarti, a risgiau eraill, a lefel risgiau o'r fath o gofio'r trefniadau sydd wedi eu sefydlu i'w cyfyngu i'r eithaf.

**6.4.3.** Bydd y risgiau sy'n gysylltiedig ag unrhyw weithgaredd benthyca cyn bod angen yn amodol ar werthusiad o flaen llaw ac adroddiadau dilynol drwy'r mecanwaith adrodd canol-blwyddyn neu flynyddol.

## 6.5. Aildrefnu Dyledion

**6.5.1** Mae'n annhebygol y bydd aildrefnu ein portffolio dyledion yn digwydd gan fod y cynnydd 100 bps mewn cyfraddau BBGC ym mis Tachwedd 2019 ond yn berthnasol i fenthyca newydd ac nid i gyfraddau ad-dalu dyledion yn fuan.

**6.5.2** Bydd y rhesymau dros unrhyw ad-drefnu yn cynnwys:-

- cynhyrchu arbedion arian parod ac/neu arbedion llif arian gyda disgownt;
- cynorthwyo i gwrdd â'r strategaeth trysorlys; a
- gwella balans y portffolio (diwygio'r proffil aeddfedu ac/neu falans yr anwadalrwydd ariannol).

**6.5.3.** Rhoddir ystyriaeth hefyd i nodi a oes unrhyw bosibilrwydd o gwbl o wneud arbedion trwy adael i falansau buddsoddi ostwng trwy ad-dalu dyled yn gynnar oherwydd bod cyfraddau tymor byr ar fuddsoddiadau yn debygol o fod yn is na chyfraddau a delir ar ddyledion cyfredol.

**6.5.4.** Rhoddir gwybod i'r Pwyllgor Archwilio am yr holl weithgareddau ad-drefnu dyled yn y cyfarfod nesaf ymarferol bosib wedi i hynny ddigwydd.

### 6.6. Proffil Dyledion

**6.6.1.** Fel y gwelir yn **Atodiad 5**, bydd y benthyciadau presennol yn cael eu had-dalu yn wahanol flynyddoedd hyd at 2068/69. Fel rhan o unrhyw benderfyniad ar fenthyca yn y dyfodol, bydd y Cyngor yn anelu at sicrhau bod y dyddiad ad-dau'n cael ei drefnu er mwyn gwastatau'r ad-daliadau i'r graddau y mae hynny'n bosibl, ond rhoddir blaenoriaeth i'r gyfradd llog sy'n daladwy wrth benderfynu ar y math o fenthyciad (aeddfedrwydd neu flwydd-dal) a chyfnod y benthyciad.

## 7. STRATEGAETH FUDDSODDI

**7.1** Cyllid mewnol: Bydd buddsoddiadau'n cael eu gwneud gan gyfeirio at y balans craidd a'r gofynion llif arian a'r rhagolygon o ran cyfraddau llog tymor byr (h.y. graddfeydd buddsoddi hyd at 12 mis). Fel arfer, mae modd cael dychweliadau uwch drwy fuddsoddi am gyfnodau hirach. Er bod angen y rhan fwyaf o falansau ariannol i reoli cynnydd a gostyngiadau mewn llif arian, lle gellir dod o hyd i symiau ariannol y gellid eu buddsoddi am gyfnodau hirach, bydd y gwerth a geir o fuddsoddiadau tymor hir yn cael ei asesu'n ofalus.

- Os tybir bod y Gyfradd Banc yn debygol o godi'n sylweddol yn ystod y cyfnod amser dan sylw, yna rhoddir ystyriaeth i gadw'r rhan fwyaf o fuddsoddiadau fel rhai tymor byr neu amrywiadwy.

- Ar y llaw arall, os tybir bod y Gyfradd Banc yn debygol o ostwng o fewn y cyfnod hwnnw, ystyrir manteisio ar yr cyfraddau uwch sydd ar gael ar y pryd a chadw'r buddsoddiadau i mewn am gyfnodau hwy.

### 7.2 Rheoli Risg

**7.2.1.** Mae CIPFA wedi ymestyn ystyr 'buddsoddiadau' i gynnwys buddsoddiadau ariannol ac anariannol. Mae'r adroddiad hwn yn delio â buddsoddiadau ariannol yn unig (fel y cânt eu rheoli gan y tîm rheoli trysorlys). Caiff buddsoddiadau anariannol, yn ei hanfod prynu asedau sy'n cynhyrchu incwm, eu cynnwys yn y Strategaeth Gyfalaf (adroddiad ar wahân).

**7.2.2.** Mae polisi buddsoddi'r Cyngor yn cymryd i ystyriaeth yr isod:-

- Canllawiau Llywodraeth Cymru ar Fuddsoddiadau Llywodraeth Leol ("y Canllawiau");
- Côd Ymarfer a Nodiadau Canllaw Traws-Sector CIPFA ar Reoli Trysorlys yn y Sector Gyhoeddus 2017 ("y Côd");
- Nodiadau Canllaw Rheoli Trysorlys CIPFA 2018;
- Blaenoriaethau buddsoddi'r Cyngor fydd diogelwch gyntaf, hylifedd y portffolio yn ail ac yna'r cynnyrch (y dychweliad).

**7.2.3.** Mae'r canllawiau uchod gan Lywodraeth Cymru a CIPFA'n rhoi blaenoriaeth uchel i reoli risg. Mae'r Awdurdod hwn wedi mabwysiau ymagwedd bwyllog tuag at reoli risg ac mae'n diffinio fel a ganlyn ei awch o ran risg: -

1. Defnyddir **meini prawf o ran lleiafswm y credyd sy'n dderbyniol** er mwyn cynhyrchu rhestr o wrthbartïon sydd â lefel uchel iawn o deilyngdod credyd. Mae hyn hefyd yn caniatáu i ni arallgyfeirio ac osgoi dwysedd risg y prif raddfeydd a ddefnyddir i fonitro gwrthbartion yw'r graddfeydd tymor byr a thymor hir.

2. **Gwybodaeth arall**: nid graddfeydd yn unig fydd yn penderfynu ar ansawdd sefydliad; mae'n bwysig asesu a monitro'n barhaus y sector ariannol ar sail micro a macro ac mewn perthynas â'r amgylcheddau economaidd a gwleidyddol y mae sefydliadau'n gweithredu ynddynt. Bydd yr asesiad hefyd yn cymryd i ystyriaeth wybodaeth sy'n adlewyrchu barn y marchnadoedd. I gyflawni hyn, bydd y Cyngor yn ymgysylltu gyda'i ymgynghorwyr i gadw golwg ar brisiau'r farchnad megis yswirio colledion credyd ("**credit default swaps**") ac yn ychwanegu'r wybodaeth honno at y cydraddau credyd.

3. Bydd ffynonellau gwybodaeth arall a ddefnyddir yn cynnwys y wasg ariannol, prisiau cyfranddaliadau ac unrhyw wybodaeth arall sy'n ymwneud â'r sector bancio er mwyn sefydlu'r broses sgriwtini fwyaf cadarn mewn perthynas ag addasrwydd gwrthbartïon y byddir o bosib yn buddsoddi ynddynt.

4. Mae'r Awdurdod hwn wedi diffinio'r rhestr o'r **mathau o offerynnau buddsoddi** y mae'r tîm rheoli trysorlys â'r awdurdod i'w defnyddio. Mae dwy restr yn **Atodiad 7** dan y categorïau 'penodol' ac 'amhenodol'.

   - Mae **buddsoddiadau penodol** yn golygu'r rheini sydd â lefel uchel o ansawdd credyd ac a fydd yn aeddfedu o fewn blwyddyn.
   - **Buddsoddiadau amhenodol** yw'r rheini â lefel is o ansawdd credyd, gallant fod am gyfnodau sydd dros flwyddyn ac/neu maent yn offerynnau mwy cymhleth y bydd angen i'r Aelodau a'r swyddogion roddi mwy o ystyriaeth iddynt cyn cael eu hawdurdodi ar gyfer eu defnyddio.

5. **Terfyn buddsoddiadau amhenodol**. Mae'r Cyngor wedi penderfynu y bydd yn cyfyngu cyfanswm y defnydd o fuddsoddiadau amhenodol drwy sicrhau na wneir unrhyw fuddsoddiad amhenodol heb ganiatâd ymlaen llaw gan y Cyngor. Nid yw'r Cyngor yn dal unrhyw fuddsoddiadau amhenodol, nac yn meddwl am wneud hynny yn ystod 2020/21 (gweler **Atodiad 7**).

6. Bydd **cyfyngiadau benthyca** (symiau ac aeddfedrwydd) ar gyfer pob gwrthbarti yn cael eu gosod drwy ddefnyddio'r tabl matrics fel y mae'n ymddangos yn y rhan o'r strategaeth hon sy'n ymwneud â Theilyngdod Credyd.

7. Caiff **cyfyngiadau trafodion** ar gyfer pob math o fuddsoddiad eu nodi yn **Atodiad 8**.

8. Bydd yr Awdurdod hwn yn gosod cyfyngiad ar gyfer swm y buddsoddiadau y mae'n eu buddsoddi am **fwy na 365 diwrnod** (gweler **Atodiad 11**).

9. Bydd buddsoddiadau ond yn cael eu gosod â gwrthbartion o wledydd sydd ag isafcwm graddfa sofraniaeth (gweler **Atodiad 9**).

10. Mae'r Awdurdod hwn wedi penodi **ymgynghorwyr allanol** i ddarparu cyngor arbenigol ynghylch sut i sicrhau'r balans priodol gorau rhwng diogelwch, hylifedd a chynnyrch yn wyneb awch yr Awdurdod hwn i gymryd risg yng nghyd-destun lefel ddisgwyliedig y balansau ariannol a'r angen am hylifedd drwy'r flwyddyn.

11. Bydd yr holl fuddsoddiadau'n cael eu dynodi mewn **sterling.**

12. O ganlyniad i'r newid yn y safonau cyfrifo ar gyfer 2019/20 dan **IFRS 9,** bydd yr awdurdod hwn yn ystyried goblygiadau buddsoddi a allai arwain ar symudiad andwyol yng ngwerth yr arian a fuddsoddir a'r newidiadau i'r Gronfa Gyffredinol ar ddiwedd y flwyddyn o ganlyniad i hynny.

### 7.3 Polisi Teilyngdod Credyd

**7.3.1.** Y brif egwyddor sy'n rheoli meini prawf buddsoddi'r Cyngor yw diogelwch ei fuddsoddiadau, er bod cynhyrchion neu ddychweliad ar fuddsoddiad hefyd yn ystyriaeth allweddol. Wedi rhoi sylw i hynny, bydd y Cyngor yn sicrhau:-

- Bod ganddo bolisi sy'n amlinellu'r categorïau o fuddsoddiadau y bydd yn buddsoddi ynddynt, y meini prawf ar gyfer dewis gwrthbartïon buddsoddi a chanddynt ddiogelwch digonol a monitro eu diogelwch. Nodir hyn yn yr adrannau isod sy'n ymwneud â buddsoddiadau penodedig ac amhenodedig; a

- Bod ganddo hylifedd digonol yn ei fuddsoddiadau. I'r perwyl hwn, bydd yn gosod allan y gweithdrefnau ar gyfer penderfynu am ba hyd y byddai'n ddoeth ymrwymo arian. Mae'r gweithdrefnau hyn hefyd yn berthnasol i ddangosyddion darbodus y Cyngor sy'n ymwneud ag uchafswm y symiau y gellir eu buddsoddi.

**7.3.2** Bydd y Swyddog Adran 151 yn cynnal rhestr gwrthbartïon yn unol â'r meini prawf a osodir allan yn **Atodiad 8** a bydd yn adolygu'r meini prawf a'u cyflwyno i'r Cyngor eu cymeradwyo pan fo'r angen. Mae'r meini prawf hyn yn wahanol i'r rhai sy'n penderfynu ar y mathau o offerynnau buddsoddi sy'n benodedig neu'n amhenodedig oherwydd mae'n darparu cronfa gyffredinol o wrthbartïon yr ystyrir eu bod o safon uchel ac y gall y Cyngor eu defnyddio yn hytrach na diffinio'r math o offerynnau buddsoddi y dylid eu defnyddio.

**7.3.3** Caiff gwybodaeth am y graddfeydd credyd ei darparu gan Link Asset Services, ein hymgynghorwyr trysorlys, yn achos yr holl wrthbartïon sy'n cydymffurfio gyda'r meini prawf isod. Bydd unrhyw wrthbarti sy'n methu â bodloni'r meini prawf yn cael eu tynnu oddi ar y rhestr gwrthbartïon. Bydd manylion y duedd tymor hwy newidiadau i'r graddfeydd (Watches), gwybodaeth ynghylch y duedd tymor hwy y tu allan i'r farn graddfeydd ganolog (Outlook) yn cael eu darparu i swyddogion bron ar unwaith wedi iddynt ddigwydd a rhoddir sylw i'r wybodaeth hon cyn delio. Er enghraifft, os ceir gwybodaeth y bydd graddfa negyddol yn berthnasol i wrthbarti sydd yn cwrdd â lleiafswm meini prawf y Cyngor, gwaherddir eu defnyddio a bydd y cyfan o'r lleill yn cael eu hadolygu yn wyneb amodau'r farchnad.

**7.3.4** Fel haen ychwanegol i'r meini prawf isafswm graddfa credyd a ddisgrifir uchod, mae'r Cyngor hwn hefyd yn defnyddio'r gwasanaeth teilyngdod credyd a ddarperir gan Link Asset Services. Mae'r gwasanaeth hwn yn defnyddio dull modelu soffistigedig gan ddefnyddio graddfeydd credyd gan y tair prif asiantaeth graddfeydd credyd - Fitch, Moody's a Standard and Poor's. Yn ychwanegol at hynny, cymerir y camau isod i asesu graddfeydd credyd gwrthbartïon:-

- Ystyrir rhagolygon credyd (Watches) a gweithgareddau monitro credyd (Outlook) gan asiantaethau graddfeydd credyd;
- Trosglwyddo Risgiau Credyd (credit default swaps) i roi rhybudd buan am newidiadau tebygol mewn graddfeydd credyd;
- Graddfeydd sofran i ddewis gwrthbartïon o'r gwledydd sydd fwyaf teilwng i gredyd yn unig.

**7.3.5** Mae'r dull modelu hwn yn cyfuno graddfeydd credyd, gweithgareddau monitro credyd (Watches) a rhagolygon credyd (Outlook) mewn system sgorio sydd wedi ei phwysoli ac sydd wedi ei chyfuno wedyn gyda throshaen o TRC (credit default swaps) a fydd, yn y pen draw, yn cynhyrchu cyfres o godau lliw i nodi pa mor deilwng o gredyd yw gwrthbartïon. Mae'r codau lliw hyn yn cael eu defnyddio gan y Cyngor, gyda disgresiwn y Swyddog Adran 151, i gynorthwyo i benderfynu ar gyfnod amser y buddsoddiadau. Bydd y Cyngor, felly, fel arfer yn defnyddio gwrthbartïon o fewn y cyfnodau canlynol:-

| | |
|---|---|
| Melyn: | 5 mlynedd * |
| Pinc tywyll: | 5 mlynedd – ar gyfer cronfeydd marchnad arian uwch (EMMFs) gyda sgôr credyd o 1.25 |
| Pinc golau: | 5 mlynedd – ar gyfer cronfeydd marchnad arian uwch (EMMFs) gyda sgôr credyd o 1.5 |
| Piws: | 2 flynedd |
| Glas: | 1 flwyddyn (ond yn berthnasol i Fanciau DU a wladolwyd neu a led wladolwyd) |
| Oren: | 1 flwyddyn |
| Coch: | 6 mis |
| Gwyrdd: | 100 diwrnod |
| Dim Lliw: | Dim i'w ddefnyddio |

**7.3.6** Mae gwasanaeth teilyngdod credyd Link Asset Services yn defnyddio amrywiaeth ehangach o wybodaeth na'r graddfeydd sylfaenol yn unig a, thrwy ddefnyddio system sgorio pwysoliad risg, nid yw'n rhoi pwysau gormodol ar raddfeydd un asiantaeth yn unig.

**7.3.7** Fel arfer, bydd y meini prawf y bydd y Cyngor yn eu defnyddio fel lleiafswm credyd yn raddfa Tymor Byr (Fitch neu gyfatebol) o F1 ac yn raddfa Tymor Hir o A-. Efallai y bydd achlysuron pan fydd graddfeydd un asiantaeth raddio ychydig yn is na'r graddfeydd hyn, ond gellir parhau i'w defnyddio. Ar yr achlysuron hyn, rhoddir ystyried i'r amrediad cyfan o raddfeydd sydd ar gael, neu wybodaeth berthnasol arall ar y farchnad, er mwyn cefnogi eu defnydd.

**7.3.8** Bydd yr holl raddfeydd credyd yn cael eu monitro'n ddyddiol. Caiff y Cyngor wybod am unrhyw newidiadau i raddfeydd y tair asiantaeth oherwydd ei fod yn defnyddio gwasanaeth teilyngdod credyd Link Asset Services.

- Os bydd cwymp yn y raddfa'n golygu na fydd y gwrthbarti/cynllun buddsoddi'n cwrdd â lleiafswm meini prawf y Cyngor, ni fyddant yn cael eu defnyddio eto ar gyfer buddsoddiadau newydd a bydd hynny'n dod i rym yn syth.
- Yn ychwanegol at ddefnyddio graddfeydd credyd, bydd y Cyngor yn cael gwybodaeth yn ddyddiol am symudiadau yn nhaeniad y 'credit default swap' yn erbyn y meincnod iTraxx a data arall ynghylch y farchnad drwy ei wefan Pasport, a ddarperir yn benodol ar ei ran gan Link Asset Services. Gall symudiadau eithafol yn y farchnad arwain at israddio sefydliad neu ei dynnu oddi ar restr benthycwyr y Cyngor.

**7.3.9** Ni fyddir yn dibynnu'n gyfan gwbl ar y gwasanaeth allanol hwn. Bydd y Cyngor hefyd yn defnyddio data'r farchnad a gwybodaeth am y farchnad a gwybodaeth am unrhyw gymorth allanol i fanciau i helpu i gefnogi ei broses gwneud penderfyniadau.

**7.3.10** Yn unol â chyfraith y DU, mae angen i fanciau mwyaf y DU (y rhai sydd â gwerth mwy na £25bn o adneuon adwerthu / Mentrau Bach a Chanolig eu Maint (SME)) wahanu gwasanaethau bancio adwerthu craidd oddi wrth eu gweithgareddau buddsoddi a bancio rhyngwladol erbyn 1 Ionawr 2019. Yr ymadrodd am hyn yw "arian clustnodedig" ("ring-fencing"). Er bod banciau llai gyda llai na £25bn mewn adneuon yn cael eu heithrio, gallant ddewis optio i mewn. Mae nifer o fanciau'n agos iawn i'r trothwy yn barod ac efallai y byddant yn rhan o'r sgôp yn y dyfodol beth bynnag.

**7.3.11** Mae neilltuo arian i bwrpas clustnodedig yn fenter reoleiddiol a grëwyd er mwyn ymateb i'r argyfwng ariannol byd-eang. Mae'n gorfodi gwahanu adneuon adwerthu ac SME oddi wrth fancio buddsoddiadau, er mwyn gwella cadernid banciau a'u gallu i ymateb i broblemau drwy newid eu strwythur. Yn gyffredinol, bydd y gweithgareddau symlach a gynigir gan fanc "arian clustnodedig" yn canolbwyntio ar drafodion dydd i ddydd, risg is, tra bydd angen cadw gweithgareddau mwy cymhleth sydd â mwy o risg mewn endid ar wahân, sef banc nad yw'n clustnodi arian i bwrpas penodol. Bwriad hyn yw sicrhau nad yw gweithgareddau craidd yr endid yn cael eu heffeithio'n andwyol gan weithred neu anweithred aelodau eraill o'i grŵp.

**7.3.12** Er y bydd strwythurau'r banciau sydd wedi eu cynnwys yn y broses hon wedi newid efallai, nid yw egwyddorion sylfaenol asesiadau credyd wedi newid. Bydd y Cyngor yn parhau i asesu'r endidau newydd yn yr un modd ag y mae'n asesu eraill a bydd y rhai â chyfraddau digon uchel (ac unrhyw fesurau eraill a fydd yn berthnasol) yn cael eu hystyried i ddibenion buddsoddiad.

### 7.4 Cyfyngiadau Gwlad

**7.4.1.** Mae'r Cyngor wedi penderfynu na fydd ond yn defnyddio gwrthbartïon cymeradwy o wledydd gyda graddfa credyd sofran isaf o AA- yn ôl Graddfeydd Fitch (neu asiantaethau cyfatebol eraill os na fydd Fitch yn eu darparu). Fe welir rhestr o'r gwledydd sy'n gymwys trwy ddefnyddio'r meini prawf credyd hyn ar ddyddiad yr adroddiad yn **Atodiad 9**. Bydd swyddogion yn ychwanegu neu'n tynnu oddi ar y rhestr pe bai'r graddfeydd yn newid yn unol â'r polisi hwn.

## 8 LLYWODRAETHIANT A RHEOLAETH

**8.1** Mae'r Côd Darbodus yn adlewyrchu symudiad tuag at hunanreoleiddio ar gyfer awdurdodau lleol ac mae llywodraethiant corfforaethol effeithiol yn un o elfennau allweddol gweithrediad llwyddiannus y Côd.

**8.2** Mae Llywodraethiant Corfforaethol yn cynnwys yr elfennau isod:-

- Rôl ffurfiol ar gyfer y Swyddog Adran 151;
- Gosod a monitro Dangosyddion Pwyllog a Thrysorlys;
- Cynllun dirprwyo a phroses gymeradwyo ffurfiol;
- Adrodd ar faterion Rheoli Trysorlys i Aelodau.

### 8.3 Rôl y Swyddog Adran 151 a'r Aelodau

**8.3.1** Y Swyddog Adran 151 sy'n gyfrifol am sicrhau bod materion sy'n ymwneud â Rheoli Trysorlys a Chyllido Cyfalaf yn cael eu cymryd i ystyriaeth a'u hadrodd i'r Pwyllgor Gwaith / Cyngor llawn i'w hystyried a bod gweithdrefnau'n cael eu sefydlu i fonitro perfformiad.

**8.3.2** Rhaid i'r Swyddog Adran 151 sicrhau bod dangosyddion darbodus yn cael eu gosod a'u monitro er mwyn arddangos cydymffurfiaeth â'r gofyniad deddfwriaethol bod cynlluniau'r Cyngor yn fforddiadwy.

**8.3.3** Mae Aelodau hefyd yn chwarae rôl bwysig, nid yn unig o ran awdurdodi'r penderfyniadau perthnasol ond hefyd wrth graffu prosesau, penderfyniadau a pherfformiad sy'n gysylltiedig â rheoli trysorlys. Er mwyn ymgymryd â'r rôl hon, rhaid i'r swyddog cyfrifol, yn unol â Chôd CIPFA, sicrhau bod Aelodau sydd â chyfrifoldeb am reoli trysorlys yn derbyn hyfforddiant digonol mewn rheoli trysorlys. Mae hyn yn arbennig o berthnasol i Aelodau sy'n gyfrifol am sgriwtini. Er mwyn cefnogi rôl sgriwtini aelodau'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu, cafodd aelodau'r Pwyllgor hyfforddiant mewn rheoli trysorlys gan yr ymgynghorwyr rheoli penodedig ar 7 Tachwedd 2019. Trefnir hyfforddiant pellach yn ôl yr angen. Caiff anghenion hyfforddiant swyddogion rheoli trysorlys eu hadolygu a'u hystyried yn rheolaidd.

**8.3.4** Mae'r Cynllun Dirprwyo ar gyfer Rheoli Trysorlys ac eglurhad llawnach o rôl y Swyddog Adran 151 ar gael yn **Atodiad 10**.

## 8.4 Cyngor Rheoli Trysorlys

**8.4.1.** Mae'r Cyngor yn defnyddio Link Asset Services fel ei ymgynghorwyr allanol ar gyfer rheoli trysorlys. Yn unol â rheoliadau caffael, hysbysebwyd tendr ar gyfer y gwasanaeth ymgynghorol Rheoli Trysorlys am y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2016 a 31 Mawrth 2019 gydag opsiwn i ymestyn am 2 flynedd, a Link Asset Services (Capita Asset Services gynt) gyflwynodd y tendr llwyddiannus. Mae'r Cyngor wedi cymeryd yr opsiwn i ymestyn am ddwy flynedd.

**8.4.2.** Mae'r Cyngor yn cydnabod fod y cyfrifoldeb am benderfyniadau rheoli trysorlys yn gorwedd gyda'r sefydliad bob amser a bydd yn sicrhau na fydd dibyniaeth afresymol yn cael ei rhoi ar ein darparwyr gwasanaeth allanol. Bydd yr holl benderfyniadau'n cael eu cymryd gan ystyried yr holl wybodaeth sydd ar gael, gan gynnwys gwybodaeth gan ein hymgynghorwyr trysorlys, ond ni fyddir yn dibynnu arnyn nhw yn unig. Y Cyngor sy'n parhau i fod hefo'r cyfrifoldeb terfynol am unrhyw benderfyniadau rheoli trysorlys.

**8.4.3.** Mae hefyd yn cydnabod gwerth cyflogi cwmnïau allanol i ddarparu gwasanaethau rheoli trysorlys er mwyn sicrhau mynediad i sgiliau ac adnoddau arbenigol. Bydd y Cyngor yn sicrhau bod telerau eu penodiad a'r dulliau o asesu eu gwerth yn cael eu cytuno a'u dogfennu'n briodol a'u hadolygu'n rheolaidd.

## 8.5 Dangosyddion Pwyllog a Thrysorlys

**8.5.1** Mae'r Dangosyddion Pwyllog a Thrysorlys a nodir yn **Atodiad 11** yn sôn am fforddiadwyedd, pwyll ac yn gosod cyfyngiadau ar gyfer gwariant cyfalaf, dyled allanol a strwythur y ddyled. Mater i'r Cyngor yw gosod Dangosyddion Pwyllog ac mae'n bwysig ystyried y dangosyddion ar gyfer pob blwyddyn unigol ar wahân ond hefyd i ystyried perfformiad y gorffennol a rhagolygon y dyfodol. Ceir eglurhad llawnach o bwrpas pob dangosydd yn **Atodiad 12.**

## 8.6 Adrodd

**8.6.1.** Mae angen i'r Cyngor dderbyn a chymeradwyo o leiaf dri prif adroddiad bob blwyddyn, sy'n cynnwys amrywiaeth o bolisïau, amcangyfrifon a ffigyrau gwirioneddol. Mae angen i'r adroddiadau hyn gael eu craffu'n ddigonol gan bwyllgor cyn cael eu hargymell i'r Cyngor. Y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethant sy'n gyfrifol am y rôl hon.

**8.6.2.** Dangosyddion Pwyllog a Rheoli Trysorlys a Strategaeth Trysorlys – mae'r adroddiad cyntaf a'r pwysicaf (sef yr adroddiad hwn) yn cyffwrdd ar yr isod:-

- y Strategaeth Rheoli Trysorlys (y modd y bydd buddsoddiadau a benthyciadau'n cael eu trefnu) gan gynnwys dangosyddion rheoli trysorlys;
- Strategaeth Fuddsoddi (y cyfyngiadau o ran rheoli buddsoddiadau);
- Polisi Darpariaeth Isafswm Refeniw (y modd y mae gwariant cyfalaf gweddilliol yn cael ei roi yn erbyn refeniw dros gyfnod o amser);
- Datganiad ar y Polisi Rheoli Trysorlys (diffiniad o bolisïau ac amcanion y swyddogaeth rheoli trysorlys); a
- cynlluniau cyfalaf (gan gynnwys y dangosyddion pwyllog cysylltiedig).

**8.6.3** Adroddiad Rheoli Trysorlys Canol Blwyddyn – bydd hwn yn rhoi diweddariad i'r aelodau ar gynnydd o ran y sefyllfa gyfalaf, yn diwygio dangosyddion pwyllog yn ôl ar angen ac yn nodi a yw'r strategaeth trysorlys yn cwrdd â'i amcanion ta oes angen adolygu unrhyw bolisïau.

**8.6.4** Adroddiad Blynyddol ar Reoli Trysorlys – dogfen adolygu sy'n edrych yn ôl ac yn darparu manylion am ddetholiad o ddangosyddion pwyllog a thrysorlys gwirioneddol a'r gweithgareddau trysorlys gwirioneddol o'u cymharu â'r amcangyfrifon yn y strategaeth.

**ATODIADAU**

1 Datganiad Polisi Rheoli Trysorlys
2 Egwyddorion Allweddol Rheoli Trysorlys
3 Cefndir economaidd
4 Rhagolygon o ran Cyfraddau Llog
5 Proffil aeddfedrwydd benthyciadau
6 Datganiad Polisi DRI
7 Buddsoddiadau Penodol ac Amhenodol
8 Meini Prawf Gwrthbartïon
9 Gwledydd sy'n cael eu cymeradwyo ar gyfer buddsoddiadau
10 Cynllun dirprwyo rheoli trysorlys a rôl y Swyddog Adran 151.
11 Dangosyddion Pwyllog a Thrysorlys
12 Eglurhad o'r Dangosyddion Pwyllog
13 Geirfa a gwybodaeth ynghylch dangosyddion Pwyllog a Thrysorlys

**Datganiad Polisi Rheoli'r Trysorlys**

1 Mae CIPFA yn diffinio ei weithgareddau rheoli'r trysorlys fel : "Rheoli buddsoddiadau'r Awdurdod a llif arian, ei fancio, trafodion marchnad arian a marchnad gyfalaf; rheolaeth effeithiol o'r risgiau sy'n gysylltiedig â'r gweithgareddau hynny, a mynd ar drywydd y perfformiad gorau posibl sy'n gyson â'r risgiau hynny".

2 Mae'r sefydliad hwn o'r farn mai nodi, monitro a rheoli risg yn llwyddiannus yw'r prif feini prawf ar gyfer mesur effeithlonrwydd ei weithgareddau rheoli'r trysorlys. Yn unol â hynny, bydd dadansoddi ac adrodd ar weithgareddau rheoli'r trysorlys yn canolbwyntio ar eu goblygiadau risg i'r sefydliad, ac unrhyw offerynnau ariannol a wnaed i reoli'r risgiau hyn.

3 Mae'r sefydliad hwn yn cydnabod y bydd rheolaeth effeithiol o'r trysorlys yn ei gefnogi wrth gyflawni ei amcanion busnes a gwasanaeth. Mae felly wedi ymrwymo i egwyddorion cyflawni gwerth am arian y maes rheoli'r trysorlys, a defnyddio technegau mesur perfformiad cynhwysfawr ac addas, o fewn cyd-destun rheoli risg yn effeithiol.

**Côd Ymarfer : Rheoli Trysorlys CIPFA yn y Gwasanaethau Cyhoeddus**

Egwyddorion allweddol CIPFA ***Rheoli'r Trysorlys yn y Gwasanaethau Cyhoeddus : Côd Ymarfer (Cyfrol 2011),*** fel y disgrifir yn Adran 4 o'r Côd hwnnw yw:-

**Egwyddor Allweddol 1:**
Dylai sefydliadau gwasanaethau cyhoeddus roi ar waith amcanion ffurfiol a chynhwysfawr, polisïau ac arferion, strategaethau a threfniadau adrodd ar gyfer rheolaeth effeithiol a rheoli eu gweithgareddau rheoli trysorlys.

**Egwyddor Allweddol 2:**
Dylai eu polisïau a'u harferion ei gwneud yn glir bod rheolaeth effeithiol a rheoli risgiau yn brif amcanion eu gweithgareddau rheoli trysorlys a bod cyfrifoldeb am y rhain yn gorwedd yn glir o fewn eu sefydliadau. Dylai eu harchwaeth am risg ffurfio rhan o'u strategaeth flynyddol, gan gynnwys unrhyw ddefnydd o offerynnau ariannol ar gyfer y rheolaeth bwyllog o'r risgiau hynny, a dylai sicrhau y rhoddir blaenoriaeth i ddiogelwch a hylifedd wrth fuddsoddi arian.

**Egwyddor Allweddol 3:**
Dylent gydnabod bod mynd ar drywydd gwerth am arian ym maes rheolaeth trysorlys a'r defnydd o fesurau perfformiad addas yn arfau dilys ac yn bwysig i sefydliadau cyfrifol i gyflogi i gefnogi eu busnes ac amcanion y gwasanaeth; a bod, o fewn cyd-destun rheoli risg yn effeithiol eu polisïau rheoli trysorlys a'i arferion yn adlewyrchu hyn.

Aiff y Côd ymlaen i ddweud bod:

"Wrth lunio'r argymhellion hyn mae CIPFA yn cydnabod yr anawsterau o ymdrechu i gael rheolaeth effeithiol ar risg, tra ar yr un pryd yn anelu at sicrhau gwerth am arian. Nid yw'r Côd yn ceisio bod yn rhagnodol ynghylch sut y dylai'r mater hwn gael ei drin, yn enwedig gan ei fod yn cynnwys amrywiaeth mor eang o sefydliadau. Fodd bynnag, lle bo hynny'n briodol, mae nodiadau cyfarwyddo sector benodol yn rhoi cyngor addas. Mae CIPFA yn cydnabod nad oes unrhyw ddau sefydliad yn y gwasanaethau cyhoeddus yn debygol o fynd i'r afael â'r mater hwn yn union yr un modd, ond mae llwyddiant yn y maes rheoli'r trysorlys yn debygol o gael ei weld, yn enwedig yn nhermau gwerth am arian fel dangosydd o swyddogaeth rheoli'r trysorlys sy'n perfformio'n gryf".

"Er ei fod yn dyddio'n ôl i 1991, mae CIPFA yn ystyried bod yr adroddiad gan y Trysorlys a Phwyllgor y Gwasanaeth Sifil o Dŷ'r Cyffredin ar gau'r BCCI yn dal yn berthnasol, ac yn yr adroddiad fe ddywedwyd :

*"Wrth gydbwyso'r risg yn erbyn dychweliad, dylai awdurdodau lleol fod yn fwy pryderus i osgoi risgiau nag i wneud yr elw mwyaf."*

"Yn wir, cefnogwyd y farn hon gan adroddiad y Pwyllgor Dethol Cymunedau a Llywodraeth Leol i fuddsoddiadau awdurdodau lleol yn 2009."

"Barn CIPFA yw trwy'r holl wasanaethau cyhoeddus y flaenoriaeth yw diogelu cyfalaf yn hytrach na gwneud yr elw mwyaf. Nid yw osgoi pob risg yn briodol nac yn bosibl. Fodd bynnag, mae'n rhaid cael cydbwysedd gyda chyfrifoldeb brwd am arian cyhoeddus."

Felly, bydd yr Awdurdod yn mabwysiadu'r pedwar cymal canlynol fel rhan o'r rheolau sefydlog;

**1.** Bydd yr Awdurdod yn creu ac yn cynnal, fel conglfeini ar gyfer rheolaeth effeithiol o'r trysorlys:-

- Datganiad polisi ar reoli'r trysorlys, sy'n datgan y polisïau, amcanion a'r dull o reoli risg ei weithgareddau rheoli trysorlys; a

- Arferion rheoli trysorlys addas (ARhT) yn nodi'r modd y bydd yr Awdurdod yn ceisio cyflawni'r polisïau a'r amcanion hynny, ac yn rhagnodi sut y bydd yn trin ac yn rheoli'r gweithgareddau hynny.

Bydd cynnwys y Datganiad Polisi ac ARhT yn dilyn yr argymhellion a gynhwysir yn Adrannau 6 a 7 o'r Côd, yn amodol yn unig i newid lle bo angen adlewyrchu amgylchiadau penodol yr Awdurdod. NI fydd newidiadau o'r fath yn golygu y bydd yr Awdurdod yn gwyro'n sylweddol oddi wrth egwyddorion allweddol y Côd.

**2.** Bydd y Cyngor Sir, Pwyllgor Gwaith a'r Pwyllgor Archwilio yn derbyn adroddiadau ar bolisïau, ymarferion a gweithgareddau Rheoli Trysorlys yr Awdurdod, yn cynnwys Strategaeth Blynyddol a Chynllun o flaen llaw y flwyddyn, adroddiadau chwarterol (yn cynnwys adroddiad adolygu canol blwyddyn) a hefyd adroddiad blynyddol ar ôl cau lawr, mewn ffurf sydd wedi ei ragnodi gan y TMPs.

**3.** Mae'r Cyngor Sir/Pwyllgor Gwaith yn gyfrifol am weithredu ar Bolisïau ac ymarferion Rheoli Trysorlys yr Awdurdod yn unol â chynllun Dirprwyo Rheolaeth Trysorlys. Mae'r Swyddog Cyllid 151 yn gyfrifol am weithredu a gweinyddu penderfyniadau Rheoli Trysorlys, fydd yn gweithio yn unol hefo Datganiad Polisi'r Awdurdod a'r TMPs ac os ydi hi/fo yn aelod o CIPFA, CIPFA Standard of Professional Practice on Treasury Management.

**4.** Mae'r Awdurdod yn enwebu'r Pwyllgor Archwilio i fod yn gyfrifol am sicrhau y ceir craffu effeithiol ar y polisïau rheoli'r trysorlys, yr ymarferion a'r perfformiad.

## ECONOMIC BACKGROUND

**UK. Brexit.** 2019 has been a year of upheaval on the political front as Theresa May resigned as Prime Minister to be replaced by Boris Johnson on a platform of the UK leaving the EU on 31 October 2019, with or without a deal. However, MPs blocked leaving on that date and the EU agreed an extension to 31 January 2020. In late October, MPs approved an outline of a Brexit deal to enable the UK to leave the EU on 31 January. Now that the Conservative Government has gained a large overall majority in the **general election** on 12 December, this outline deal will be passed by Parliament by that date. However, there will still be much uncertainty as the detail of a trade deal will need to be negotiated by the current end of the transition period in December 2020, which the Prime Minister has pledged he will not extend. This could prove to be an unrealistically short timetable for such major negotiations that leaves open two possibilities; one, the need for an extension of negotiations, probably two years, or, a no deal Brexit in December 2020.

**GDP growth** has taken a hit from Brexit uncertainty during 2019; quarter three 2019 surprised on the upside by coming in at +0.4% q/q, +1.1% y/y. However, the peak of Brexit uncertainty during the final quarter appears to have suppressed quarterly growth to probably around zero. The economy is likely to tread water in 2020, with tepid growth around about 1% until there is more certainty after the trade deal deadline is passed.

While the Bank of England went through the routine of producing another **quarterly Inflation Report,** (now renamed the Monetary Policy Report), on 7 November, it is very questionable how much all the writing and numbers were worth when faced with the uncertainties of where the UK will be after the general election. The Bank made a change in their Brexit assumptions to now include a deal being eventually passed. Possibly the biggest message that was worth taking note of from the Monetary Policy Report, was an increase in concerns among MPC members around weak global economic growth and the potential for Brexit uncertainties to become entrenched and so delay UK economic recovery. Consequently, the MPC voted 7-2 to maintain Bank Rate at 0.75% but two members were sufficiently concerned to vote for an immediate Bank Rate cut to 0.5%. The MPC warned that if global growth does not pick up or Brexit uncertainties intensify, then a rate cut was now more likely. Conversely, if risks do recede, then a more rapid recovery of growth will require gradual and limited rate rises. The speed of recovery will depend on the extent to which uncertainty dissipates over the final terms for trade between the UK and EU and by how much global growth rates pick up. The Bank revised its inflation forecasts down – to 1.25% in 2019, 1.5% in 2020, and 2.0% in 2021; hence, the MPC views inflation as causing little concern in the near future.

The **MPC meeting of 19 December** repeated the previous month's vote of 7-2 to keep Bank Rate on hold. Their key view was that there was currently 'no evidence about the extent to which policy uncertainties among companies and households had declined' i.e. they were going to sit on their hands and see how the economy goes in the next few months. The two members who voted for a cut were concerned that the labour market was faltering. On the other hand, there was a clear warning in the minutes that the MPC were concerned that "domestic unit labour costs have continued to grow at rates above those consistent with meeting the inflation target in the medium term".

If economic growth were to weaken considerably, the MPC has relatively little room to make a big impact with Bank Rate still only at 0.75%. It would therefore, probably suggest that it would be up to the Chancellor to provide help to support growth by way of a **fiscal boost** by e.g. tax cuts, increases in the annual expenditure budgets of government departments and services and expenditure on infrastructure projects, to boost the economy. The Government has already made moves in this direction and it made significant promises in its election manifesto to increase government spending by up to £20bn p.a., (this would add about 1% to GDP growth rates), by investing primarily in infrastructure. This is likely to be announced in the next Budget, probably in February 2020. The Chancellor has also amended the fiscal rules in November to allow for an increase in government expenditure.

As for **inflation** itself, CPI has been hovering around the Bank of England's target of 2% during 2019, but fell again in both October and November to a three-year low of 1.5%. It is likely to remain close to or under 2% over the next two years and so, it does not pose any immediate concern to the MPC at the current time. However, if there was a hard or no deal Brexit, inflation could rise towards 4%, primarily because of imported inflation on the back of a weakening pound.

With regard to the **labour market,** growth in numbers employed has been quite resilient through 2019 until the three months to September where it fell by 58,000. However, there was an encouraging pick up again in the three months to October to growth of 24,000, which showed that the labour market was not about to head into a major downturn. The unemployment rate held steady at a 44-year low of 3.8% on the Independent Labour Organisation measure in October. Wage inflation has been steadily falling from a high point of 3.9% in July to 3.5% in October (3-month average regular pay, excluding bonuses). This meant that in real terms, (i.e. wage rates higher than CPI inflation), earnings grew by about 2.0%. As the UK economy is very much services sector driven, an increase in household spending power is likely to feed through into providing some support to the overall rate of economic growth in the coming months. The other message from the fall in wage growth is that employers are beginning to find it easier to hire suitable staff, indicating that supply pressure in the labour market is easing.

**USA.** President Trump's massive easing of fiscal policy in 2018 fuelled a temporary boost in consumption in that year which generated an upturn in the rate of growth to a robust 2.9% y/y. **Growth** in 2019 has been falling after a strong start in quarter 1 at 3.1%, (annualised rate), to 2.0% in quarter 2 and then 2.1% in quarter 3. The economy looks likely to have maintained a growth rate similar to quarter 3 into quarter 4; fears of a recession have largely dissipated. The strong growth in employment numbers during 2018 has weakened during 2019, indicating that the economy had been cooling, while inflationary pressures were also weakening. However, CPI inflation rose from 1.8% to 2.1% in November, a one year high, but this was singularly caused by a rise in gasoline prices.

**The Fed** finished its series of increases in rates to 2.25 – 2.50% in December 2018. In July 2019, it cut rates by 0.25% as a 'midterm adjustment' but flagged up that this was not intended to be seen as the start of a series of cuts to ward off a downturn in growth. It also ended its programme of quantitative tightening in August, (reducing its holdings of treasuries etc.). It then cut rates by 0.25% again in September and by another 0.25% in its October meeting to 1.50 – 1.75%.. At its September meeting it also said it was going to **start buying Treasuries again**, although this was not to be seen as a resumption of quantitative easing but rather an exercise to relieve liquidity pressures in the repo market. Despite those protestations, this still means that the Fed is again expanding its balance sheet holdings of government debt. In the first month, it will buy $60bn, whereas it had been reducing its balance sheet by $50bn per month during 2019. As it will be buying only short-term (under 12 months) Treasury bills, it is technically correct that this is not quantitative easing (which is purchase of long term debt). The Fed left rates unchanged in December. However, the accompanying statement was more optimistic about the future course of the economy so this would indicate that further cuts are unlikely.

Investor confidence has been badly rattled by the progressive ramping up of increases in tariffs President Trump has made on Chinese imports and China has responded with increases in tariffs on American imports. This **trade war** is seen as depressing US, Chinese and world growth. In the EU, it is also particularly impacting Germany as exports of goods and services are equivalent to 46% of total GDP. It will also impact developing countries dependent on exporting commodities to China.

However, in November / December, progress has been made on agreeing a phase one deal between the US and China to roll back some of the tariffs; this gives some hope of resolving this dispute.

**EUROZONE. Growth** has been slowing from +1.8 % during 2018 to around half of that in 2019. Growth was +0.4% q/q (+1.2% y/y) in quarter 1, +0.2% q/q (+1.2% y/y) in quarter 2 and then +0.2% q/q, +1.1% in quarter 3; there appears to be little upside potential in the near future. German GDP growth has been struggling to stay in positive territory in 2019 and fell by -0.1% in quarter 2; industrial production was down 4% y/y in June with car production down 10% y/y. Germany would be particularly vulnerable to a no deal Brexit depressing exports further and if President Trump imposes tariffs on EU produced cars.

**The European Central Bank (ECB)** ended its programme of quantitative easing purchases of debt in December 2018, which then meant that the central banks in the US, UK and EU had all ended the phase of post financial crisis expansion of liquidity supporting world financial markets by quantitative easing purchases of debt. However, the downturn in EZ growth in the second half of 2018 and into 2019, together with inflation falling well under the upper limit of its target range of 0 to 2%, (but it aims to keep it near to 2%), has prompted the ECB to take new measures to stimulate growth. At its March meeting it said that it expected to leave interest rates at their present levels "at least through the end of 2019", but that was of little help to boosting growth in the near term. Consequently, it announced a **third round of TLTROs**; this provides banks with cheap borrowing every three months from September 2019 until March 2021 that means that, although they will have only a two-year maturity, the Bank was making funds available until 2023, two years later than under its previous policy. As with the last round, the new TLTROs will include an incentive to encourage bank lending, and they will be capped at 30% of a bank's eligible loans. However, since then, the downturn in EZ and world growth has gathered momentum; at its meeting on 12 September it cut its deposit rate further into negative territory, from -0.4% to -0.5%, and announced a **resumption of quantitative easing purchases of debt for an unlimited period.** At its October meeting it said these purchases would start in November at €20bn per month - a relatively small amount compared to the previous buying programme. It also increased the maturity of the third round of TLTROs from two to three years. However, it is doubtful whether this loosening of monetary policy will have much impact on growth and, unsurprisingly, the ECB stated that governments would need to help stimulate growth by 'growth friendly' fiscal policy.

There were no policy changes in the December meeting, which was chaired for the first time by the new President of the ECB, Christine Lagarde. However, the outlook continued to be down beat about the economy; this makes it likely there will be further monetary policy stimulus to come in 2020. She did also announce a thorough review of how the ECB conducts monetary policy, including the price stability target. This review is likely to take all of 2020.

On the political front, Austria, Spain and Italy have been in the throes of **forming coalition governments** with some unlikely combinations of parties i.e. this raises questions around their likely endurance. The latest results of German state elections has put further pressure on the frail German CDU/SDP coalition government and on the current leadership of the CDU. The results of the Spanish general election in November have not helped the prospects of forming a stable coalition.

**CHINA.** Economic growth has been weakening over successive years, despite repeated rounds of central bank stimulus; medium term risks are increasing. Major progress still needs to be made to eliminate excess industrial capacity and the stock of unsold property, and to address the level of non-performing loans in the banking and shadow banking systems. In addition, there still needs to be a greater switch from investment in industrial capacity, property construction and infrastructure to consumer goods production.

**JAPAN** - has been struggling to stimulate consistent significant GDP growth and to get inflation up to its target of 2%, despite huge monetary and fiscal stimulus. It is also making little progress on fundamental reform of the economy.

**WORLD GROWTH.** Until recent years, world growth has been boosted by increasing **globalisation** i.e. countries specialising in producing goods and commodities in which they have an economic advantage and which they then trade with the rest of the world. This has boosted worldwide productivity and growth, and, by lowering costs, has also depressed inflation. However, the rise of China as an economic superpower over the last thirty years, which now accounts for nearly 20% of total world GDP, has unbalanced the world economy. The Chinese government has targeted achieving major world positions in specific key sectors and products, especially high tech areas and production of rare earth minerals used in high tech products. It is achieving this by massive financial support, (i.e. subsidies), to state owned firms, government directions to other firms, technology theft, restrictions on market access by foreign firms and informal targets for the domestic market share of Chinese producers in the selected sectors. This is regarded as being unfair competition that is putting western firms at an unfair disadvantage or even putting some out of business. It is also regarded with suspicion on the political front as China is an authoritarian country that is not averse to using economic and military power for political advantage. The current trade war between the US and China therefore needs to be seen against that backdrop. It is, therefore, likely that we are heading into a period where there will be a **reversal of world globalisation and a decoupling of western countries** from dependence on China to supply products. This is likely to produce a backdrop in the coming years of weak global growth and so weak inflation. **Central banks are, therefore, likely to come under more pressure to support growth by looser monetary policy measures and this will militate against central banks increasing interest rates**.

The trade war between the US and China is a major concern to **financial markets** due to the synchronised general weakening of growth in the major economies of the world, compounded by fears that there could even be a recession looming up in the US, though this is probably overblown. These concerns resulted in **government bond yields** in the developed world falling significantly during 2019. If there were a major worldwide downturn in growth, central banks in most of the major economies will have limited ammunition available, in terms of monetary policy measures, when rates are already very low in most countries, (apart from the US). There are also concerns about how much distortion of financial markets has already occurred with the current levels of quantitative easing purchases of debt by central banks and the use of negative central bank rates in some countries. The latest PMI survey statistics of economic health for the US, UK, EU and China have all been predicting a downturn in growth; this confirms investor sentiment that the outlook for growth during the year ahead is weak.

**INTEREST RATE FORECASTS**

The interest rate forecasts provided by Link Asset Services in paragraph 3.3 are **predicated on an assumption of an agreement being reached on Brexit between the UK and the EU.** On this basis, while GDP growth is likely to be subdued in 2019 and 2020 due to all the uncertainties around Brexit depressing consumer and business confidence, an agreement on the detailed terms of a trade deal is likely to lead to a boost to the rate of growth in subsequent years. This could, in turn, increase inflationary pressures in the economy and so cause the Bank of England to resume a series of gentle increases in Bank Rate. Just how fast, and how far, those increases will occur and rise to, will be data dependent. The forecasts in this report assume a modest recovery in the rate and timing of stronger growth and in the corresponding response by the Bank in raising rates.

- In the event of an **orderly non-agreement exit in December 2020**, it is likely that the Bank of England would take action to cut Bank Rate from 0.75% in order to help economic growth deal with the adverse effects of this situation. This is also likely to cause short to medium term gilt yields to fall.
- If there were a **disorderly Brexit**, then any cut in Bank Rate would be likely to last for a longer period and also depress short and medium gilt yields correspondingly. Quantitative easing could also be restarted by the Bank of England. It is also possible that the government could act to protect economic growth by implementing fiscal stimulus.

**The balance of risks to the UK**

- The overall balance of risks to economic growth in the UK is probably even, but dependent on a successful outcome of negotiations on a trade deal.
- The balance of risks to increases in Bank Rate and shorter term PWLB rates are broadly similarly to the downside.
- In the event that a Brexit deal was agreed with the EU and approved by Parliament, the balance of risks to economic growth and to increases in Bank Rate is likely to change to the upside.

One risk that is both an upside and downside risk, is that all central banks are now working in very different economic conditions than before the 2008 financial crash as there has been a major increase in consumer and other debt due to the exceptionally low levels of borrowing rates that have prevailed since 2008. This means that the neutral rate of interest in an economy, (i.e. the rate that is neither expansionary nor deflationary), is difficult to determine definitively in this new environment, although central banks have made statements that they expect it to be much lower than before 2008. Central banks could therefore either over or under do increases in central interest rates.

Downside risks to current forecasts for UK gilt yields and PWLB rates currently include:

- **Brexit** – if it were to cause significant economic disruption and a major downturn in the rate of growth.
- **Bank of England** takes action too quickly, or too far, over the next three years to raise Bank Rate and causes UK economic growth, and increases in inflation, to be weaker than we currently anticipate.
- A resurgence of the **Eurozone sovereign debt crisis.** In 2018, Italy was a major concern due to having a populist coalition government which made a lot of anti-austerity and anti-EU noise. However, in September 2019 there was a major change in the coalition governing Italy which has brought to power a much more EU friendly government; this has eased the pressure on Italian bonds. Only time will tell whether this new coalition based on an unlikely alliance of two very different parties will endure.
- Weak capitalisation of some **European banks**, particularly Italian banks.
- **German minority government.** In the German general election of September 2017, Angela Merkel's CDU party was left in a vulnerable minority position dependent on the fractious support of the SPD party, as a result of the rise in popularity of the anti-immigration AfD party. The CDU has done badly in recent state elections but the SPD has done particularly badly and this has raised a major question mark over continuing to support the CDU. Angela Merkel has stepped down from being the CDU party leader but she intends to remain as Chancellor until 2021.
- **Other minority EU governments.** Austria, Finland, Sweden, Spain, Portugal, Netherlands and Belgium also have vulnerable minority governments dependent on coalitions which could prove fragile.
- **Austria, the Czech Republic, Poland and Hungary** now form a strongly anti-immigration bloc within the EU. There has also been rising anti-immigration sentiment in Germany and France.
- In October 2019, the IMF issued a report on the World Economic Outlook which flagged up a synchronised slowdown in world growth. However, it also flagged up that there was **potential for a rerun of the 2008 financial crisis**, but his time centred on the huge debt binge accumulated by corporations during the decade of low interest rates. This now means that there are corporates who would be unable to cover basic interest costs on **some $19trn of corporate debt in major western economies,** if world growth was to dip further than just a minor cooling. This debt is mainly held by the shadow banking sector i.e. pension funds, insurers, hedge funds, asset managers etc., who, when there is $15trn of corporate and government debt now yielding negative interest rates, have been searching for higher returns in riskier assets. Much of this debt is only marginally above investment grade so any rating downgrade could force some holders into a fire

sale, which would then depress prices further and so set off a spiral down. The IMF's answer is to suggest imposing higher capital charges on lending to corporates and for central banks to regulate the investment operations of the shadow banking sector. In October 2019, the deputy Governor of the Bank of England also flagged up the dangers of banks and the shadow banking sector lending to corporates, especially highly leveraged corporates, which had risen back up to near pre-2008 levels.

- **Geopolitical risks,** for example in North Korea, but also in Europe and the Middle East, which could lead to increasing safe haven flows.

**Upside risks to current forecasts for UK gilt yields and PWLB rates**

- **Brexit** – if agreement was reached all round that removed all threats of economic and political disruption between the EU and the UK.
- The **Bank of England is too slow** in its pace and strength of increases in Bank Rate and, therefore, allows inflationary pressures to build up too strongly within the UK economy, which then necessitates a later rapid series of increases in Bank Rate faster than we currently expect.
- **UK inflation,** whether domestically generated or imported, returning to sustained significantly higher levels causing an increase in the inflation premium inherent to gilt yields.

*Rhan o gyngor dderbyniwyd gan / An extract from advice received from: Link Asset Services*

## Rhagolygon Graddfeydd Llog 2020/2023

## Interest Rate Forecasts 2020/2023

PWLB rates and forecast shown below have taken into account the 20 basis point certainty rate reduction effective as of the 1st November 2012.

| Link Asset Services Interest Rate View | Mar-20 | Jun-20 | Sep-20 | Dec-20 | Mar-21 | Jun-21 | Sep-21 | Dec-21 | Mar-22 | Jun-22 | Sep-22 | Dec-22 | Mar-23 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Bank Rate View | 0.75 | 0.75 | 0.75 | 0.75 | 1.00 | 1.00 | 1.00 | 1.00 | 1.00 | 1.25 | 1.25 | 1.25 | 1.25 |
| 3 Month LIBID | 0.70 | 0.70 | 0.80 | 0.90 | 1.00 | 1.00 | 1.00 | 1.10 | 1.20 | 1.30 | 1.30 | 1.30 | 1.30 |
| 6 Month LIBID | 0.80 | 0.80 | 0.90 | 1.00 | 1.10 | 1.10 | 1.20 | 1.30 | 1.40 | 1.50 | 1.50 | 1.50 | 1.50 |
| 12 Month LIBID | 1.00 | 1.00 | 1.10 | 1.20 | 1.30 | 1.30 | 1.40 | 1.50 | 1.60 | 1.70 | 1.70 | 1.70 | 1.70 |
| 5yr PWLB Rate | 2.40 | 2.40 | 2.50 | 2.50 | 2.60 | 2.70 | 2.80 | 2.90 | 2.90 | 3.00 | 3.10 | 3.20 | 3.20 |
| 10yr PWLB Rate | 2.70 | 2.70 | 2.70 | 2.80 | 2.90 | 3.00 | 3.10 | 3.20 | 3.20 | 3.30 | 3.30 | 3.40 | 3.50 |
| 25yr PWLB Rate | 3.30 | 3.40 | 3.40 | 3.50 | 3.60 | 3.70 | 3.70 | 3.80 | 3.90 | 4.00 | 4.00 | 4.10 | 4.10 |
| 50yr PWLB Rate | 3.20 | 3.30 | 3.30 | 3.40 | 3.50 | 3.60 | 3.60 | 3.70 | 3.80 | 3.90 | 3.90 | 4.00 | 4.00 |
| **Bank Rate** | | | | | | | | | | | | | |
| Link Asset Services | 0.75% | 0.75% | 0.75% | 0.75% | 1.00% | 1.00% | 1.00% | 1.00% | 1.00% | 1.25% | 1.25% | 1.25% | 1.25% |
| Capital Economics | 0.75% | 0.75% | 0.75% | 0.75% | 0.75% | 1.00% | 1.00% | 1.00% | - | - | - | - | - |
| **5yr PWLB Rate** | | | | | | | | | | | | | |
| Link Asset Services | 2.40% | 2.40% | 2.50% | 2.50% | 2.60% | 2.70% | 2.80% | 2.90% | 2.90% | 3.00% | 3.10% | 3.20% | 3.20% |
| Capital Economics | 2.40% | 2.50% | 2.50% | 2.60% | 2.60% | 2.80% | 2.80% | 2.90% | - | - | - | - | - |
| **10yr PWLB Rate** | | | | | | | | | | | | | |
| Link Asset Services | 2.70% | 2.70% | 2.70% | 2.80% | 2.90% | 3.00% | 3.10% | 3.20% | 3.20% | 3.30% | 3.30% | 3.40% | 3.50% |
| Capital Economics | 2.70% | 2.70% | 2.80% | 2.80% | 2.90% | 3.00% | 3.00% | 3.10% | - | - | - | - | - |
| **25yr PWLB Rate** | | | | | | | | | | | | | |
| Link Asset Services | 3.30% | 3.40% | 3.40% | 3.50% | 3.60% | 3.70% | 3.70% | 3.80% | 3.90% | 4.00% | 4.00% | 4.10% | 4.10% |
| Capital Economics | 3.10% | 3.10% | 3.20% | 3.20% | 3.20% | 3.30% | 3.30% | 3.40% | - | - | - | - | - |
| **50yr PWLB Rate** | | | | | | | | | | | | | |
| Link Asset Services | 3.20% | 3.30% | 3.30% | 3.40% | 3.50% | 3.60% | 3.60% | 3.70% | 3.80% | 3.90% | 3.90% | 4.00% | 4.00% |
| Capital Economics | 3.10% | 3.10% | 3.20% | 3.20% | 3.30% | 3.40% | 3.40% | 3.50% | - | - | - | - | - |

*Rhan o gyngor dderbyniwyd gan / An extract from advice received from: Link Asset Services*

## ATODIAD 5 /APPENDIX 5

| DADANSODDIAD BENTHYCIADAU PWLB YN AEDDFEDU 2020/21 YMLAEN / PWLB LOANS MATURITY ANALYSIS 2020/21 ONWARDS | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Aeddefedu PWLB Maturity £'000** | **Blwydd-dal PWLB EIP/ Annuity £'000** | **Benthyciadau Marchnad/ Market Loans £'000** | **Amrywiol/ PWLB Variable £'000** | **Cyfanswm yn Aeddfedu/ Total Maturing £'000** | **%Yn Aeddfedu o'r Cyfran yn sefyll/ Maturing of Total Outstanding %** |
| 2020/21 | 4,500 | 12 | 0 | 0 | 4,512 | 3.6 |
| 2021/22 | 0 | 14 | 0 | 0 | 14 | 0.0 |
| 2022/23 | 2,285 | 15 | 0 | 0 | 2,300 | 1.8 |
| 2023/24 | 1,854 | 16 | 0 | 0 | 1,870 | 1.5 |
| 2024/25 | 0 | 18 | 0 | 0 | 18 | 0.0 |
| 2025/26 | 0 | 20 | 0 | 0 | 20 | 0.0 |
| 2026/27 | 1,381 | 22 | 0 | 0 | 1,403 | 1.1 |
| 2027/28 | 2,165 | 24 | 0 | 0 | 2,189 | 1.7 |
| 2028/29 | 263 | 26 | 0 | 0 | 289 | 0.2 |
| 2029/30 | 1,538 | 21 | 0 | 0 | 1,559 | 1.2 |
| 2030/31 | 451 | 15 | 0 | 0 | 466 | 0.4 |
| 2031/32 | 1,941 | 9 | 0 | 0 | 1,950 | 1.5 |
| 2032/33 | 315 | 8 | 0 | 0 | 323 | 0.3 |
| 2033/34 | 637 | 0 | 0 | 0 | 637 | 0.5 |
| 2034/35 | 624 | 0 | 0 | 0 | 624 | 0.5 |
| 2035/36 | 611 | 0 | 0 | 0 | 611 | 0.5 |
| 2036/37 | 599 | 0 | 0 | 0 | 599 | 0.5 |
| 2037/38 | 587 | 0 | 0 | 0 | 587 | 0.5 |
| 2038/39 | 225 | 0 | 0 | 0 | 225 | 0.2 |
| 2039/40 | 5,000 | 0 | 0 | 0 | 5,000 | 4.0 |
| 2040/41 | 3,500 | 0 | 0 | 0 | 3,500 | 2.8 |
| 2042/43 | 1,000 | 0 | 0 | 0 | 1,000 | 0.8 |
| 2043/44 | 1,020 | 0 | 0 | 0 | 1,020 | 0.8 |
| 2044/45 | 1,010 | 0 | 0 | 0 | 1,010 | 0.8 |
| 2045/46 | 11,464 | 0 | 0 | 0 | 11,464 | 9.1 |
| 2050/51 | 2,000 | 0 | 0 | 0 | 2,000 | 1.6 |
| 2052/53 | 28,238 | 0 | 0 | 0 | 28,238 | 22.3 |
| 2054/55 | 3,000 | 0 | 0 | 0 | 3,000 | 2.4 |
| 2055/56 | 3,500 | 0 | 0 | 0 | 3,500 | 2.8 |
| 2056/57 | 5,000 | 0 | 0 | 0 | 5,000 | 4.0 |
| 2057/58 | 8,513 | 0 | 0 | 0 | 8,513 | 6.7 |
| 2059/60 | 1,763 | 0 | 0 | 0 | 1,763 | 1.4 |
| 2064/65 | 10,000 | 0 | 0 | 0 | 10,000 | 7.9 |
| 2066/67 | 6,200 | 0 | 0 | 0 | 6,200 | 4.9 |
| 2068/69 | 15,000 | 0 | 0 | 0 | 15,000 | 11.9 |
| | **126,184** | **220** | **0** | **0** | **126,404** | **100.0** |
| Cyfartaledd bywyd (blynyddoedd)/ Average life (years) | 25.48 | 6.94 | 0.00 | 0.00 | 25.44 | |
| Cyfartaledd graddfa (%)/ Average rate (%) | 5.15 | 9.44 | 0.00 | 0.00 | 4.73 | |

| PROFFIL AD-DALU BENTHYCIADAU ERAILL 2020/21 YMLAEN / OTHER LOANS REPAYMENT PROFILE 2020/21 ONWARDS | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Llywodraeth Cymru / Welsh Government £'000** | **Benthyciad Salix Loan 1 £'000** | **Benthyciad Salix Loan 2 £'000** | **Benthyciad Salix Loan 3 £'000** | **Benthyciad Salix Loan 4 £'000** | **Benthyciad Salix Loan 5 £'000** | **Cyfanswm / Total £'000** |
| 2020/21 | 44 | 16 | 46 | 64 | 26 | 100 | 296 |
| 2021/22 | 0 | 16 | 46 | 64 | 26 | 199 | 351 |
| 2022/23 | 0 | 17 | 46 | 63 | 26 | 199 | 351 |
| 2023/24 | 0 | 17 | 46 | 64 | 26 | 200 | 353 |
| 2024/25 | 0 | 8 | 45 | 64 | 26 | 200 | 343 |
| 2025/26 | 0 | 0 | 45 | 64 | 27 | 200 | 336 |
| 2026/27 | 0 | 0 | 0 | 63 | 27 | 200 | 290 |
| 2027/28 | 0 | 0 | 0 | 63 | 27 | 200 | 290 |
| 2028/29 | 0 | 0 | 0 | 63 | 27 | 200 | 290 |
| 2029/30 | 0 | 0 | 0 | 0 | 13 | 200 | 213 |
| 2030/31 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 99 | 99 |
| **Cyfanswm / Total** | **44** | **74** | **274** | **572** | **251** | **1,997**[1] | **3,212** |

[1] Cyfanswm i'w ad-dalu'n wahanol i'r cyfanswm dyledus yn Nhabl 4.1.1 gan mai ond £1,178k sydd wedi ei dderbyn hyd yma, ond mi fydd £1,997k yn cael ei dderbyn.

**Datganiad Polisi Darpariaeth Refeniw Isafswm 2020/21**

Rhaid i'r Cyngor dalu elfen o wariant cyfalaf y Cyngor sydd wedi cronni bob blwyddyn (y GAC) drwy daliad refeniw (y ddarpariaeth refeniw isaf) (DRI), er y caniateir iddo hefyd wneud taliadau gwirfoddol ychwanegol os yw'n dymuno (darpariaeth refeniw wirfoddol) (DRW).

Yn unol â rheoliadau Llywodraeth Cymru, rhaid i'r Cyngor llawn gymeradwyo Datganiad GAC ymlaen llaw bob blwyddyn. Rhoddir nifer o opsiynau i gynghorau ar yr amod bod darpariaeth bwylloch. Argymhellir fod y Cyngor yn cymeradwyo'r Datganiad DRI isod:-

Ar gyfer gwariant cyfalaf a ddigwyddodd rhwng 1 Ebril 2008 a 31 Mawrth 2018, a gafodd ei gyllido trwy fenthyca gyda chymorth, polisi DRI fydd i godi tâl DRI ar y dull rhandaliad cyfartal, ar Sail Oes Ased dros 50 mlynedd. Mae'r DRI ar wariant cyfalaf sydd wedi ei gyllido drwy fenthyca di-gefnogaeth yn ystod y cyfnod hwn wedi cael codi tâl yn defnyddio dull rhandaliad cyfartal, Sail Oes Ased gan ddefnyddio rhagdybiaeth o oes yr ased, yn seiliedig ar wybodaeth oedd ar gael ar yr amser. Mae'r newid yn y polisi yn adlinio y polisiau DRI ar gyfer asedau wedi eu cyllido drwy fenthyca a chefnogaeth ac asedau wedi eu cyllido drwy fenthyciadau di-gefnogaeth.

O'r 1af Ebrill 2018 am yr holl fenthyca gyda cefnogaeth a di-gefnogaeth (gan gynnwys PFI a Lês Cyllid), bydd polisi DRI hefyd yn Ddull Rhandaliad Blwydd-dal Cyfartal, sail oed yr ased. Fodd bynnag, bydd amcangyfrif o gyfnod oes, yn cael ei osod gan y Swyddog Adran 151 yn seiliedig a chyngor a dderbynwyd gan y swyddogion perthnasol a bydd yn ystyried cyfarwyddid Llywodraeth Cymru mewn perthynas a DRI a oes yr ased. Pan fo tir yn cael ei brynnu, bydd oed yr ased yn ddibynnol ar oes yr ased sydd yn cael ei roi ar y tir, yn rhan fwyaf o'r achosion, bydd rhain yn 50 mlynedd yn unol â oed ased adeiladau.

Ni fydd costau DRI yn seiliedig ar oed yr ased yn cael ei godi hyd nes fod blwyddyn yr ased yn dod yn weithredol. Gallai'r Swyddog Adran 151 ohirio cost DRI tan y flwyddyn gyllidol yn dilyn pan mae'r ased yn dod yn weithredol. Bydd amcangyfrif oes yr ased yn cael ei benderfynu yn y flwyddyn bydd y DRI yn dechrau ac ni fydd tâl ar oes yr ased. Bydd amcangyfrif o gyfnod oes yr ased, yn cael ei osod gan y Swyddog Adran 151 yn seiliedig a chyngor a dderbynwyd gan y swyddogion perthnasol a bydd yn talu sylw at Gofynion Statudol a cyfarwyddiadau Llywodraeth Cymru mewn perthynas â DRI a oes yr ased. Pan fo tir yn cael ei brynnu, bydd oed yr ased yn ddibynnol ar oes yr ased sydd yn cael ei roi ar y tir, yn rhan fwyaf o'r achosion, bydd rhain yn 50 mlynedd yn unol â oed ased adeiladau.

Oherwydd nad yw rhai mathau o wariant cyfalaf a wneir gan y Cyngor yn rhai y gellir eu cysylltu ag ased unigol, bydd bywydau ased yn cael eu hasesu ar sail sydd yn adlewyrchu'n fwyaf rhesymol y cyfnodau o fudd y rhagwelir y byddant yn codi o'r gwariant. Hefyd, pa fath bynnag o wariant ydyw, bydd yn cael ei grwpio gyda'i gilydd mewn dull sy'n adlewyrchu natur prif elfen y gwariant ac ni fydd yn cael ei rannu ond mewn achosion lle ceir dwy neu fwy o brif elfennau gyda bywydau economaidd defnyddiol sy'n sylweddol wahanol.

Mae'r Cyngor yn cadw'r hawl i wneud taliadau gwirfoddol ychwanegol i leihau dyled os yn ddoeth i wneud hynny.

Mae rhan y Cyfrif Refeniw Tai o'r Gofyniad o ran Ariannu Cyfalaf yn gyffredinol yn destun taliad 2% DRI yn seiliedig ar y GAC ar ddiwedd y flwyddyn flaenorol a hynny'n unol â'r cynllun busnes 30 blynedd a gymeradwywyd.

Bydd unrhyw ad-daliadau eraill sydd wedi eu cynnwys yn y PFI blynyddol neu brydlesau arian yn rhai GAC.

**ATODIAD 7**

**Buddsoddiadau Penodedig ac Amhenodedig**

Mae Canllawiau Llywodraeth Cymru ar Fuddsoddiadau Llywodraeth Leol (a ddaeth i rym ar 1 Ebrill 2010) yn rhoi diffiniad o fuddsoddiadau penodedig ac amhenodedig.

Mae paragraff 5.1 y Canllawiau yn dweud bod buddsoddiad yn un penodedig os yw'n cwrdd â phob un o'r isod:-

*"**(a)** the investment is denominated in sterling and any payments or repayments in respect of the investment are payable only in sterling; and*

***(b)** the investment is not a long-term investment (*); and*

***(c)** the making of the investment is not defined as capital expenditure by virtue of regulation 20(1)(d) of the Local Authorities (Capital Finance and Accounting) (Wales) Regulations 2003 [SI 3239 as amended]; and*

***(ch)** the investment is made with a body or in an investment scheme of high credit quality (**); or with one of the following public-sector bodies:*

- ***(i)** the United Kingdom Government*
- ***(ii)** a local authority in England or Wales (as defined in section 23 of the 2003 Act) or a similar body in Scotland or Northern Ireland*
- **(iii)** *a parish or community council."*

Mae'r Canllawiau hefyd yn dweud bod unrhyw fuddsoddiad nad yw'n cwrdd â'r diffiniad ym mharagraff 5.1 yn cael ei gyfrif fel buddsoddiad amhenodedig.

Yn ystod 2020/21 nid yw'r Cyngor yn bwriadu gwneud unrhyw fuddsoddiadau mewn arian gwledydd tramor, na gyda chyrff credyd isel, nac unrhyw fuddsoddiadau a ddiffinnir fel gwariant cyfalaf gan y ddeddfwriaeth (megis cyfranddaliadau mewn cwmnïau). Bydd buddsoddiadau amhenodedig felly yn cael eu cyfyngu i (i) buddsoddiadau tymor hir; a (ii) adneuon gyda banciwr y Cyngor i ddibenion trafodaethol os yw'n methu a chwrdd â'r meini prawf sylfaenol ar gyfer y credyd; yn yr achos hwn, caiff balansau eu cyfyngu i'r eithaf lle mae hynny'n bosib.

Mae'r tabl yn Atodiad 8 yn nodi'r meini prawf a'r cyfyngiadau buddsoddi ar gyfer y gwahanol gategorïau o fuddsoddiadau y bwriedir eu defnyddio yn ystod 2020/21 ac sydd felly'n sail ar gyfer y rhestr benthyca a gymeradwyir.

Bydd raid i'r Cyngor Sir gymeradwyo unrhyw newidiadau arfaethedig yn ystod y flwyddyn i gategorïau o fuddsoddiadau penodedig ac amhenodedig a ddefnyddir ac/neu i'r meini prawf graddfeydd credyd / cyfyngiadau buddsoddi.

"* *Section 2.4 of the 'Guidance' defines a long term investment as ''any investment other than (a) one which is due to be repaid within 12 months of the date on which the investment was made or (b) one which the local authority may require to be repaid within that period."*

** *For the purposes of high credit quality the 'Guidance' states that ''for the purposes of paragraph 5.1(d), Welsh ministers recommend that the Strategy should define high credit quality (and where this definition refers to credit ratings, paragraph 6.1 (***) is relevant).'*

*** *Paragraph 6.1 of the 'Guidance' recommends that ''the Strategy should set out the authority's approach to assessing the risk of loss of investments, making clear in particular:*

- ***(a)** to what extent, if any, risk assessment is based upon credit ratings issued by one or more credit rating agencies;*
- ***(b)** where credit ratings are used, how frequently credit ratings are monitored and what action is to be taken when ratings change; and*
- ***(c)** what other sources of information on credit risk are used, additional to or instead of credit ratings."*

*The table in Appendix 6 of this strategy sets out what this Council defines as high credit quality and the associated investment criteria and limits and section 4.2 of this strategy sets out the Council's creditworthiness approach.*

**Meini Prawf Gwrthbartïon**

| Categori | Graddfa Credyd Tymor Byr (Fitch) | Graddfa Credyd Tymor Byr (Moody's) | Graddfa Credyd Tymor Byr (Standard & Poor's) | Graddfa Credyd Tymor Hir (Fitch) | Graddfa Credyd Tymor Hir (Moody's) | Graddfa Credyd Tymor Hir (Standard & Poor's) | Terfyn Arian | Terfyn Amser |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Banciau a Chymdeithasau Adeiladu (sydd heb eu gwladoli neu sydd wedi eu gwladoli'n rhannol) | **F1+** | **P-1** | **A-1+** | **AAA** | **Aaa** | **AAA** | **£10m** | **5 mlynedd** |
| | **F1+** | **P-1** | **A-1+** | **AA** | **Aa2** | **AA** | **£10m** | **3 mlynedd** |
| | **F1+** | **P-1** | **A-1+** | **AA-** | **Aa3** | **AA-** | **£10m** | **364 diwrnod** |
| | **F1** | **P-1** | **A-1** | **A** | **A2** | **A** | **£7.5m** | **6 mis** |
| Banciau'r Deyrnas Gyfunol sydd wedi eu Gwladoli / wedi eu Gwladoli'n Rhannol | **d/b** | **d/b** | **d/b** | **d/b** | **d/b** | **d/b** | **£10m** | **364 diwrnod** |
| Llywodraeth Ganolog y Deyrnas Gyfunol (waeth beth fo'r raddfa credyd) | **d/b** | **d/b** | **d/b** | **d/b** | **d/b** | **d/b** | **Dim uchafswm** | **Dim uchafswm** |
| Awdurdodau Lleol y Deyrnas Gyfunol ** | **d/b** | **d/b** | **d/b** | **d/b** | **d/b** | **d/b** | **£5m** | **364 diwrnod** |
| Cronfeydd Marchnad Arian | **d/b** | **d/b** | **d/b** | **AAA** | **AAA** | **AAA** | **£5m** | **6 mis** |

* *fel y diffinnir yn Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cyllid a Chyfrifo Cyfalaf) (Cymru) 2003*

****** *fel y diffinnir yn Neddf Llywodraeth Leol 2003*

**Nodiadau ac Eglurhad**

**(1) Terfyn Arian Parod**

**(i)** Mae'r terfynau arian yn berthnasol i'r gwrthbarti unigol ac i'r grŵp cyffredinol y mae'n perthyn iddo. (e.e. ar gyfer y banciau o fewn Grŵp Bancio Lloyds plc (sef Bank of Scotland plc a Lloyds Bank plc), terfyn buddsoddi yn berthnasol i fanciau hynny yn unigol a'r grŵp bancio yn ei gyfanrwydd);

**(ii)** Y terfyn arian cyffredinol ar gyfer adneuon dros 364 o ddyddiau yw £15m.

**(2) Terfyn Amser**

**(i)** I fyny at, a chan gynnwys y cyfnod a nodwyd.

**(3) Arian Gwledydd Tramor**

**(i)** Bydd buddsoddiadau mewn gwledydd tramor wedi eu cyfyngu i'r rheini a chanddynt raddfa credyd sofran AA- (Fitch) neu gyfatebol (o'r asiantaethau a gyfeirwyd atynt yn adain 4.3 or strategaeth hon) graddfa gredyd sofran (yn seiliedig ar y cyfenwadur lleiaf) a hyd at uchafswm o £10 miliwn fesul gwlad dramor.

**(ii)** Ni chaniateir buddsoddi mewn gwledydd pan mae ei raddfa sofran is ddim yn AA- neu'n uwch. Ni fydd unrhyw gyfyngiad gan wlad yn berthnasol i fuddsoddiadau yn y Deyrnas Gyfunol waeth beth fo'r raddfa credyd sofran.

**(iii)** Ni fydd Is-gwmnïau grwpiau bancio tramor fel arfer yn cael eu hasesu yn unol â mamwlad y sefydliad rhiant. Fodd bynnag, bydd Santander UK plc (is-gwmni Bancio Santander yn Sbaen) yn cael ei gyfrif fel banc yn y Deyrnas Gyfunol oherwydd eu masnach freintiau sylweddol yn y Deyrnas Gyfunol a natur hyd fraich y berthynas rhwng y rhiant a'r is-gwmni.

**(iv)** Ni fydd meini prawf graddfeydd credyd sofran a chyfyngiadau gwledydd tramor yn berthnasol i fuddsoddiadau mewn banciau datblygu amlochrog (e.e. Banc Buddsoddi Ewrop a Banc y Byd) na sefydliadau rhyngwladol (e.e. yr Undeb Ewropeaidd).

**4. Graddfa Credyd yn Gostwng**

Os bydd graddfa credyd yn gostwng ac yn golygu bod y gwrthbarti yn is na'r meini prawf y mae'n rhaid cwrdd â nhw ar gyfer buddsoddi, rhoddir y gorau i ddefnyddio'r gwrthbarti cyn gynted ag y bydd yn ymarferol.

Os bydd y Swyddog Adran 151 yn dymuno parhau i fuddsoddi gyda'r gwrthbarti hwnnw gofynnir am ganiatâd gan Gadeirydd y Pwyllgor Archwilio ac un aelod arall o ddewis y Cadeirydd a bydd raid i'r ddau ohonynt gymeradwyo. Adroddir ar hynny fel sy'n briodol ar yr adeg gyfleus nesaf.

**Gwledydd wedi eu cymeradwyo ar gyfer buddsoddi [yn gywir fel ar 3 Ionawr 2020]**

*This list is based on those countries which have sovereign ratings of AA- or higher (we show the lowest rating from Fitch, Moody's and S&P) and also, (except - at the time of writing - for Norway and Luxembourg), have banks operating in sterling markets which have credit ratings of green or above in the Capita Asset Services credit worthiness service.*

**AAA**

- Awstralia
- Canada
- Denmarc
- Yr Almaen
- Lwcsembwrg
- Yr Iseldiroedd
- Norwy
- Singapore
- Sweden
- Y Swistir

**AA+**

- Y Ffindir
- U.D.A

**AA**

- Abu Dhabi
- Ffrainc
- Hong Kong
- Y D.U

**AA-**

- Gwlad Belg
- Qatar

**Cynllun Dirprwyo Rheoli Trysorlys**

**(i) Cyngor Sir**

- Cymeradwyo'r Gyllideb;
- Cymeradwyo Datganiad Strategaeth Rheoli Trysorlys Blynyddol, Strategaeth Buddsoddi Blynyddol a Polisi MRP, Datganiad Polisi Rheoli Trysorlys Blynyddol a diwygiadau;
- Cymeradwyo diwygiadau i'r cymalau a fabwysiadwyd gan y Cyngor;
- Derbyn ac adolygu adroddiadau monitro ar bolisïau Rheoli Trysorlys, arferion a gweithgareddau; ac
- Gweithredu ar argymhelliad a dderbyniwyd gan y Pwyllgor Archwilio a/neu'r Pwyllgor Gwaith.

**(ii) Pwyllgor Gwaith**

- Ystyried y gyllideb;
- Cymeradwyo rhannu'r cyfrifoldebau;
- Cymeradwyo dewis o ddarparwyr gwasanaeth allanol a chytuno ar dermau'r apwyntiad;
- Derbyn ac adolygu adroddiadau monitro ar bolisïau Rheoli Trysorlys, arferion a gweithgareddau a gwneud argymhellion i'r Cyngor Sir fel yn briodol;
- Gweithredu ar argymhellion a dderbyniwyd gan y Pwyllgor Archwilio.

**(iii) Pwyllgor Archwilio**

- Sgriwtini o faterion Rheoli Trysorlys, fel sy'n ofynnol dan Gôd Ymarfer CIPFA ar Reoli Trysorlys a Pholisi'r Cyngor a'r Rheoli Trysorlys. Mae'n cynnwys:-
  - sgriwtineiddio Datganiad Strategaeth Blynyddol ar Reoli Trysorlys, Strategaeth Buddsoddi Blynyddol, Polisi Blynyddol MRP, Polisi Rheoli Trysorlys Blynyddol ac Arferion Rheoli Trysorlys a gwneud argymhellion i'r Pwyllgor Gwaith a'r Cyngor Sir fel bo'n briodol;
  - sgriwtineiddio cynigion am ddiwygiadau i'r Datganiad Strategaeth Rheoli Trysorlys Blynyddol, Strategaeth Buddsoddi Blynyddol, Polisi Blynyddol MRP, Polisi Rheoli Trysorlys Blynyddol ac Arferion Rheoli Trysorlys a'r diwygiadau i'r cymalau a fabwysiadwyd a gwneud argymhellion i'r Pwyllgor Gwaith a'r Cyngor Sir fel bo'n briodol;
  - derbyn a sgriwtineiddio unrhyw gynigion yn ymwneud â Rheoli Trysorlys sydd angen penderfyniad gan y Pwyllgor Gwaith neu'r Cyngor Sir;
  - derbyn a sgriwtineiddio adroddiadau monitro polisïau Rheoli Trysorlys, arferion a gweithgareddau a gwneud argymhellion i'r Pwyllgor Gwaith a'r Cyngor Sir fel bo'n briodol.

**Rôl Rheoli Trysorlys y Swyddog Adran 151**

**Mae rôl y Swyddog (cyfrifol) Adran 151 yn cynnwys:**

- argymell cymalau, polisi/arferion rheoli trysorlys i'w cymeradwyo, gan eu hadolygu'n rheolaidd, a monitro cydymffurfiaeth;
- cyflwyno adroddiadau polisi rheoli trysorlys rheolaidd;
- cyflwyno cyllidebau ac amrywiaethau cyllideb;
- derbyn ac adolygu adroddiadau gwybodaeth rheoli;
- adolygu perfformiad y swyddogaeth rheoli trysorlys;
- sicrhau digonolrwydd adnoddau a sgiliau rheoli trysorlys, a'r rhannu effeithiol o gyfrifoldebau o fewn y swyddogaeth rheoli trysorlys;
- sicrhau digonolrwydd archwilio mewnol, a chysylltu ag archwilwyr allanol; ac
- argymell apwyntio darparwyr gwasanaeth allanol.
- Cyfrifoldeb ar gyfer gweithredu a gweinyddu'r penderfyniadau trysorlys, yn cynnwys y penderfyniadau ar fenthyca, buddsoddi ac ariannu, wedi cael ei ddirprwyo i'r Swyddog Adran 151, a fydd yn gweithredu yn unol â datganiadau polisi'r Cyngor ac Arferion Rheoli Trysorlys.

- Paratoi strategaeth gyfalaf i gynnwys gwariant cyfalaf, cyllid cyfalaf, buddsoddiadau anariannol a rheoli trysorlys o fewn llinell amser tymor hir.

**6.** Sicrhau bod y strategaeth gyfalaf yn bwyllog, yn gynaliadwy, yn fforddiadwy ac yn bwyllog yn y tymor hir ac yn darparu gwerth am arian.

**7.** Sicrhau diwydrwydd dyladwy mewn perthynas â'r holl fuddsoddiadau trysorlys ac anariannol a'u bod yn unol ag awch yr awdurdod o ran risg.

**8.** Sicrhau bod gan yr awdurdod y pwerau cyfreithiol priodol i wario ar a chyllido asedau anariannol.

**9.** Sicrhau cymesuredd yr holl fuddsoddiadau fel nad yw'r awdurdod yn buddsoddi ar lefel sy'n golygu bod yr awdurdod yn agored i lefel ormodol o risg o gymharu â'i adnoddau ariannol.

**10.** Sicrhau bod proses lywodraethu ddigonol yn ei lle ar gyfer cymeradwyo, monitro a rheoli'r risg sy'n gysylltiedig ag unrhyw fuddsoddiadau anariannol a rhwymedigaethau tymor hir.

**11.** Rhoi i aelodau restr o'r holl fuddsoddiadau nad ydynt yn rhai trysorlys gan gynnwys buddsoddiadau sylweddol mewn is-gwmnïau, mentrau ar y cyd, benthyciadau a gwarantau ariannol.

**12.** Sicrhau bod aelodau'n cael gwybodaeth ddigonol a'u bod yn deall y risgiau y mae'r awdurdod yn agored iddynt.

**13.** Sicrhau bod gan yr awdurdod yr arbenigedd ddigonol, naill ai'n fewnol neu'n allanol, i wneud yr uchod.

***14.*** Creu Arferion Rheoli Trysorlys sy'n delio'n benodol â'r modd y bydd buddsoddiadau nad ydynt yn rhai trysorlys yn cael eu trin a'u rheoli, gan gynnwys yr isod:-

- Rheoli risg (TMP1 a'r atodlenni), gan gynnwys meini prawf buddsoddi a rheoli risg ar gyfer unrhyw bortffolios buddsoddiad sylweddol nad ydynt yn ymwneud â thrysorlys;

- Mesur a rheoli perfformiad (TMP2 a'r atodlenni, gan gynnwys methodoleg a meini prawf ar gyfer asesu perfformiad a llwyddiant buddsoddiadau nad ydynt yn rhai trysorlys;

- Gwneud penderfyniadau, llywodraethiant a threfniadaeth (TMP5 a'r atodlenni), gan gynnwys datganiad o ofynion llywodraethiant ar gyfer gwneud penderfyniadau ar fuddsoddiadau nad ydynt yn rhai trysorlys; a threfniadau i sicrhau diwydrwydd dyladwy er mwyn cefnogi'r broses gwneud penderfyniadau;

- Gwybodaeth adrodd a rheoli (TMP6 a'r atodlenni), gan gynnwys ble a pha mor aml y cynhyrchir adroddiadau monitro;

- Hyfforddiant a chymwysterau (TMP10 ac atodlenni), gan gynnwys y modd y bydd gwybodaeth a sgiliau perthnasol mewn perthynas â buddsoddiadau nad ydynt yn rhai trysorlys yn cael eu trefnu.

**DANGOSYDDION PWYLLOG A THRYSORLYS** **ATODIAD 11**
**GOSOD Y GYLLIDEB 2020/21**

| Rhif | Dangosydd | 2018/19 Alldro | 2019/20 Amcangyfrif | 2020/21 Cynnig | 2021/22 Cynnig | 2022/23 Cynnig |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Fforddiadwyaeth** | | | | | | |
| **1,2** | Amcangyfrif o [neu wir] gymhareb costau dyled i ffrwd refeniw net: | | | | | |
| | Cronfa’r Cyngor | 4.92% | 5.03% | 5.15% | 5.40% | 5.91% |
| | Cyfrif Refeniw Tai (gan gynnwys y setliad) | 16.88% | 18.78% | 17.16% | 14.57% | 14.18% |
| | Cyfanswm | 6.34% | 6.68% | 6.62% | 6.57% | 7.01% |
| **Pwyll** | | | | | | |
| **3** | Dyled gros a'r Gofyniad Cyllido Cyfalaf (CFR) | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| | *Ydy dyled allanol gros yn llai na'r CFR am y flwyddyn flaenorol ynghyd ag amcangyfrifon unrhyw gynnydd am y flwyddyn gyfredol a'r ddwy flynedd ddilynol?* | | | ✓ | ✓ | ✓ |
| **Gwariant Cyfalaf** | | | **£000** | **£000** | **£000** | **£000** |
| **4,5** | Amcangyfrif o [neu wir] Wariant Cyfalaf | | | | | |
| | Cronfa'r Cyngor | 21,650 | 18,820 | 19,765 | 21,662 | 14,675 |
| | Cyfrif Refeniw Tai | 9,028 | 14,307 | 17,138 | 17,704 | 14,402 |
| | Cyfanswm | 30,678 | 33,127 | 36,903 | 39,366 | 29,077 |
| **6,7** | Amcangyfrif o [neu wir] Gofyniad Cyllido Cyfalaf | | | | | |
| | Cronfa'r Cyngor | 97,847 | 102,036 | 108,536 | 118,856 | 124,349 |
| | Cyfrif Refeniw Tai | 40,815 | 39,998 | 39,449 | 44,410 | 44,621 |
| | Cyfanswm | 138,662 | 142,034 | 147,985 | 163,266 | 168,970 |
| Dyled Allanol | | | **£000** | **£000** | **£000** | **£000** |
| **8** | Terfyn Awdurdodedig | | | | | |
| | : Benthyca Cyffredinol | 174,000 | 175,000 | 178,000 | 193,000 | 199,000 |
| | : Ymrwymiadau tymor hir eraill | 3,000 | 3,000 | 5,000 | 5,000 | 5,000 |
| | : Cyfanswm | 177,000 | 178,000 | 183,000 | 198,000 | 204,000 |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **9** | Ffin Ymarferol | | | | | |
| | : Benthyca Cyffredinol | 161,000 | 170,000 | 173,000 | 188,000 | 194,000 |
| | : Ymrwymiadau tymor hir eraill | 3,000 | 3,000 | 5,000 | 5,000 | 5,000 |
| | : Cyfanswm | 164,000 | 173,000 | 178,000 | 193,000 | 199,000 |
| **10** | Gwir Ddyled Allanol | 132,549 | | | | |
| **Rheoli'r Trysorlys** | | **2018/19 Alldro** | **2019/20 Amcangyfrif** | **2020/21 Cynnig** | **2021/22 Cynnig** | **2022/23 Cynnig** |
| **11** | Fod yr Awdurdod Lleol wedi mabwysiadu Cod Ymarfer CIPFA ar Reoli'r Trysorlys yn y Gwasanaethau Cyhoeddus. | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| | | **£000** | **£000** | **£000** | **£000** | **£000** |
| **12** | Dyled Gros a Net | 100% | 100% | 100% | 100% | 100% |
| | *Terfyn uchaf ar y ddyled net fel cyfran o'r ddyled gros* | | | | | |
| **13** | Y terfyn uchaf ar raddfeydd sefydlog : | 157,000 | 155,000 | 158,000 | 173,000 | 179,000 |
| | *(prifswm net neilltuol)* | | | | | |
| **14** | Y terfyn uchaf ar raddfeydd amrywiol: | 20,000 | 20,000 | 20,000 | 20,000 | 20,000 |
| | *(prifswm net neilltuol)* | | | | | |
| **15** | Terfyn cyfanswm y prifsymiau a fuddsoddir am gyfnodau dros 364 diwrnod: | 15,000 | 15,000 | 15,000 | 15,000 | 15,000 |
| | *(bydd unrhyw fuddsoddiadau tymor hir a ddygir ymlaen o flynyddoedd blaenorol yn cael eu cynnwys yn nherfyn bob blwyddyn)* | | | | | |
| | | | **2020/21 Terfyn uchaf** | | **2020/21 Terfyn isaf** | |
| **16** | Terfyn uchaf ac isaf ar gyfer strwythur aeddfedu'r benthyca graddfa sefydlog | | | | | |
| | • dan 12 mis | | 20% | | 0% | |
| | • 12 mis ac o fewn 24 mis | | 20% | | 0% | |
| | • 24 mis ac o fewn 5 mlynedd | | 50% | | 0% | |
| | • 5 mlynedd ac o fewn 10 mlynedd | | 75% | | 0% | |
| | • 10 mlynedd a throsodd | | 100% | | 0% | |
| | | | Dim newid | | Dim newid | |

**Gwybodaeth am Ddangosyddion Pwyllog a Rheoli Trysorlys**

## A) Fforddiadwyaeth

### 1 & 2. Cymhareb y costau cyllido i'r ffrwd refeniw net

Mae'r dangosydd hwn yn nodi'r tueddiad o ran cost cyfalaf (costau benthyca a chostau ymrwymiadau tymor hir eraill net o'r incwm buddsoddi) yn erbyn y ffrwd refeniw net.

Mae'r amcangyfrifon ynghylch costau cyfalaf yn cynnwys ymrwymiadau cyfredol a'r cynigion yn yr adroddiad hwn ar y gyllideb.

## B) Bod yn ddarbodus

### 3. Dyled gros a'r GCC

Mae angen i'r Cyngor sicrhau nad yw'r ddyled gros, heblaw yn y tymor byr, yn mynd yn uwch na'r GCC yn y flwyddyn flaenorol ynghyd â'r amcangyfrifon am unrhyw GCC ychwanegol ar gyfer 2019/20 a'r ddwy flynedd ariannol ddilynol. Rhoddir hyn peth hyblygrwydd ar gyfer benthyca buan cyfyngedig yn y dyfodol, ond yn sicrhau ni ymgymerir ag unrhyw fenthyca ar gyfer dibenion refeniw.

## C) Gwariant cyfalaf

### 4 & 5 Amcangyfrif o Wariant Cyfalaf

Dyma'r Gwariant Cyfalaf a ragamcenir o 2018/19 i 2021/22 ac mae'n seiliedig ar y Rhaglen Gyfalaf 2018/19 a'r Strategaeth Cyfalaf ar gyfer 2019/20.



### 6 & 7 Anghenion benthyca'r Cyngor (y Gofyniad Cyllido Cyfalaf)

Yr ail ddangosydd darbodus yw Gofyniad Cyllido Cyfalaf y Cyngor (GCC). Yn syml, y GCC yw cyfanswm y gwariant cyfalaf hanesyddol gweddilliol nad ydyw hyd yma wedi cael ei dalu amdano o adnoddau refeniw neu gyfalaf. Yn sylfaenol, mesur ydyw o anghenion benthyca sylfaenol y Cyngor. Bydd unrhyw wariant cyfalaf nad ydyw wedi ei dalu amdano ar unwaith, yn cynyddu lefel y GCC.

Nid yw'r GCC yn cynyddu i lefel amhenodol, oherwydd mae'r ddarpariaeth refeniw isaf (DRI) yn dâl refeniw blynyddol statudol sydd, yn gyffredinol, yn gostwng yr angen benthyca yn unol ag oes pob ased.

Mae'r GCC yn cynnwys unrhyw ymrwymiadau tymor hir eraill (e.e. cynlluniau PFI, prydlesau ariannol). Er bod y rhain yn cynyddu'r GCC ac o'r herwydd, yn cynyddu angen y Cyngor i fenthyca, mae'r mathau hyn o gynllun yn cynnwys cyfleuster benthyca ac o'r herwydd, nid oes raid i'r Cyngor fenthyca ar wahân ar gyfer y cynlluniau hyn. Ar hyn o bryd, mae gan y Cyngor £dim o gynlluniau o'r fath yn y GCC.

## CH) Dyled Allanol

**8.** **Y terfyn a awdurdodir ar gyfer dyled allanol**. Mae dangosydd pwyllog allweddol arall yn rheoli uchafswm lefel y benthyca. Gwaherddir dyledion allanol y tu draw i'r terfyn hwn ac mae angen i'r Cyngor llawn osod neu ddiwygio'r terfyn. Mae'n adlewyrchu'r lefel o ddyled allanol y gellid, er nad yw hynny'n beth a ddeisyfir, ei fforddio yn y tymor byr ond nid yw'n gynaliadwy yn y tymor hwy. Dyma'r terfyn statudol y penderfynir arno dan adran 3 (1) Deddf Llywodraeth Leol 2003. Mae'r Llywodraeth yn cadw'r opsiwn i reoli naill ai'r cyfan o holl gynlluniau'r cyngor neu gynlluniau cyngor penodol er nad ydyw hyd yma wedi defnyddio'r pŵer hwnnw.

Dywed y Swyddog Adran 151 Cyfarwyddwr Cyllid bod y Cyngor wedi cydymffurfio gyda'r dangosydd pwyllog hwn yn y flwyddyn gyfredol ac nid yw'n gweld anawsterau yn y dyfodol. Mae'r farn hon yn cymryd i ystyriaeth yr ymrwymiadau cyfredol, y cynlluniau presennol, a'r cynigion sydd yn yr adroddiad hwn ar y gyllideb.

9. **Y ffin weithredol**. Ffin yw hon na fyddir fel arfer yn disgwyl i ddyled allanol fynd yn uwch na hi. Yn y rhan fwyaf o achosion, byddai'n ffigwr tebyg i GCC ond gall fod yn is neu'n uwch gan ddibynnu ar lefelau'r ddyled wirioneddol.

## Geirfa

**GWARIANT CYFALAF**
Gwariant ar brynu ased nad yw'n gyfredol, a ddefnyddir i ddarparu gwasanaethau tu draw i'r flwyddyn ariannol gyfredol, neu wariant sy'n ychwanegu at, ac nid cynnal yn unig, werth ased presennol nad yw'n gyfredol. Mae enghreifftiau'n cynnwys : adeiladu ysgol newydd, prynu offer TG, adnewyddu sylweddol cartref gofal.

**CYLLIDO CYFALAF**
Arian sydd ar gael i dalu am wariant cyfalaf. Mae nifer o ffyrdd o gyllido gwariant cyfalaf yn cynnwys benthyca, prydlesu, cyllido refeniw uniongyrchol, derbyniadau cyfalaf defnyddiadwy, grantiau cyfalaf, cyfraniadau cyfalaf, cronfeydd wrth gefn refeniw a chronfeydd wrth gefn a glustnodwyd.

**GOFYNIAD CYLLIDO CYFALAF**
Mae cyfanswm gwariant cyfalaf hanesyddol sy'n ddyledus a heb eu talu'n barod nall a'i o adnoddau refeniw neu gyfalaf. Yn hanfodol, dyma fesuriad o fenthyca angenrheidiol y Cyngor.

**RHAGLEN GYFALAF**
Y cynlluniau cyfalaf mae'r Cyngor yn bwriadu eu cynnal dros gyfnod penodol o amser.

**DERBYNIADAU CYFALAF**
Yr elw o waredu tir neu asedau eraill nad ydynt yn gyfredol eraill. Gellir defnyddio cyfrannau o dderbyniadau cyfalaf i gyllido gwariant cyfalaf newydd, o fewn y rheolau a osodir i lawr gan y llywodraeth, ond ni ellir eu defnyddio i gyllido gwariant refeniw.

**CIPFA**
Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifo. Y prif gorff proffesiynol a rheoleiddiol ar gyfer cyfrifon llywodraeth leol.

**CYFRIF REFENIW TAI (CRT)**
Cyfrif ar wahân i Gronfa'r Cyngor, sy'n cynnwys yr incwm a gwariant sy'n deillio o'r ddarpariaeth llety tai gan y Cyngor.

**LLOG A DDERBYNNIR NEU A DELIR**
Defnyddir y dull gyfradd log sydd mewn grym gweithredol i fesur beth yw gwerth cludadwy ased ariannol neu rwymedigaethau a fesurir yn ôl y gost lai amorteiddio cronedig, ac i ddyrannu incwm neu dreuliau cysylltiedig i'r cyfnod perthnasol. Y gyfradd log sydd mewn grym yw hwnnw sy'n rhoddi disgownt cysáct ar y taliadau arian parod neu'r derbyniadau amcangyfrifiedig yn y dyfodol dros oes yr offeryn ariannol yn ôl y swm a gafodd ei gydnabod iddo'n y lle cyntaf. Mae'r gyfradd log sydd mewn grym yn cael ei diwygio yn ôl y tâl llog neu'r derbyniadau gwirioneddol trwy'r Datganiad Symudiadau yn y Cronfeydd wrth Gefn i sicrhau mai dim ond llog gwirioneddol a godir yn erbyn y Dreth Gyngor. Yn achos asedau a rhywymedigaethau ariannol a gludwyd yn ôl y gost, gan fod y llog sydd mewn grym yr un faint â'r llog cludo, mae'r gwerth cludo'n cael ei ddiwygio ar gyfer llog cronnus.

**ISAFSWM DARPARIAETH REFENIW (MRP)**
Yr isafswm sydd raid ei godi ar y cyfrif refeniw bob blwyddyn er mwyn darparu ar gyfer ad-daliad benthyciadau a symiau eraill a fenthycir gan y Cyngor.

**DYLED NET**
Benthyciadau'r Cyngor llai arian parod ac adnoddau hylifol.

**BWRDD BENTHYCIADAU GWEITHIAU CYHOEDDUS (PWLB)**
Asiantaeth Llywodraeth Ganolog sy'n rhoi benthyciadau am flwyddyn a/neu fwy i awdurdodau ar raddfeydd llog sydd ond ychydig yn uwch na'r rheini y gall y llywodraeth fenthyca ei hun.

**GWARIANT REFENIW A ARIENNIR O GYFALAF O DAN STATUD (REFCUS)**
Gwariant y gellir ei ohirio'n gywir (h.y. ei drin fel cyfalaf o ran natur) ond nad yw'n arwain at, neu'n parhau i gydweddu ag, ased diriaethol. Enghreifftiau o daliadau gohiriedig yw grantiau o natur cyfalaf i sefydliadau gwirfoddol.

**GRANT CYNNAL REFENIW**
Grant a delir gan Lywodraeth Ganolog i awdurdodau, yn cyfrannu tuag at gost gyffredinol eu gwasanaethau.

**BENTHYCA GYDA CHEFNOGAETH**
Mae'r Cyngor yn benthyca arian i ariannu rhan o'i raglen cyfalaf. Fe adnabyddir y benthycaid gan Lywodraeth Ganolog yn ei glandriad ariannu ar gyfer y Cyngor.

**BENTHYCA DROS DRO**
Arian a fenthycir am gyfnod o lai na blwyddyn.

**BENTHYCA DI-GEFNOGAETH**
Gall y Cyngor fenthyca arian ychwanegol i'r benthyca â chefnogaeth y Llywodraeth i ariannu ei wariant cyfalaf cyn belled a'i fod yn fforddiadwy a chynaliadwy. Fe lywodraethir y pŵer yma gan Gôd Pwyllog CIPFA, a mae'r Cyngor yn lwyr gydymffurfio â hwn.

This page is intentionally left blank

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **ADRODDIAD I:** | **CYNGOR SIR YNYS MÔN** |
| **DYDDIAD:** | **10 MAWRTH 2020** |
| **PWNC:** | **ARFERION RHEOLI TRYSORLYS (TMP)** |
| **SWYDDOG ARWEINIOL:** | **MARC JONES** |
| **SWYDDOG CYSWLLT:** | **CLAIRE KLIMASZEWSKI**<br>**(FFÔN: 2663)** |
| **Natur a rheswm am adrodd**<br>Ar gyfer sgriwtini - yn gyson â chanllawiau proffesiynol. | |

**1.** Cyflwynir yr adroddiad hwn er mwyn sicrhau bod y Cyngor yn gweithredu arfer orau yn unol â Chôd Ymarfer y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (CIPFA) ar gyfer Rheoli Trysorlys. Mae'r Côd yn argymell bod y Cyngor yn dogfennu ei gweithdrefnau rheoli trysorlys fel Arferion Rheoli Trysorlys (TMP). Cwblhawyd a chymeradwywyd y TMP cyfredol yn 2016. Maent wedi cael eu hadolygu a'u diweddaru ac maent yn cynnwys adran y TMP13) ar fuddsoddiadau sydd ym meddiant y Cyngor nad ydynt yn fuddsoddiadau rheoli trysorlys, yn unol â gofynion Côd Rheoli Trysorlys diwygiedig CIPFA. Buddsoddiadau nad ydynt yn fuddsoddiadau rheoli trysorlys y Cyngor yw'r eiddo buddsoddi y mae'r Gwasanaethau Eiddo yn eu rheoli.

**2.** Mae Côd Ymarfer CIPFA ar Reoli Trysorlys (Adran 7) yn argymell y dylai Arferion Rheoli Trysorlys yr Awdurdod (TMP) gael eu cymeradwyo, eu dogfennu a'u monitro. Mae'n mynd ymlaen i ddweud bod natur a lefel cyfranogiad corff cyfrifol sefydliad wrth gymeradwyo a monitro ei TMP ac atodlenni cysylltiedig yn fater i'w benderfynu'n lleol ac yn cydnabod y bydd hyn, mewn rhai sefydliadau, efallai'n cael ei ddirprwyo i'r swyddog cyfrifol. Ym mhob achos, dylai fod yn destun sgriwtini gan y corff cyfrifol yn dilyn argymhellion gan y swyddog cyfrifol. Cyflwynir TMP yr Awdurdod yn Atodiad 1.

**3.** Argymhellion:

- Nodi cynnwys yr adroddiad eglurhaol hwn;
- Cymeradwyo'r Arferion Rheoli Trysorlys (TMP) sydd wedi eu cynnwys yn Atodiad 1.

**Cyngor Sir Ynys Môn**

# Arferion Rheoli Trysorlys

## Cyflwyniad

Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i weithredu arferion gorau ac i gydymffurfio â Chôd Ymarfer CIPFA ar Reoli Trysorlys (2017) ym mhob agwedd ar ei waith Rheoli Trysorlys.

Rheoli Trysorlys yw'r modd y caiff llif arian a buddsoddiadau'r Cyngor ei reoli er mwyn sicrhau bod digon o arian ar gael i dalu biliau'r Awdurdod o ddydd i ddydd. Caiff unrhyw arian sydd dros ben ei fuddsoddi'n unol â Datganiad yr Awdurdod ar y Strategaeth Rheoli Trysorlys (TMSS).

Agwedd arall bwysig o Reoli Trysorlys yw rheolaeth o bortffolio dyledion y Cyngor er mwyn sicrhau nad yw benthyciadau ond yn cael eu codi i gyllido gwariant cyfalaf a bod yr holl fenthyciadau;n fforddiadwy. Amcanion allweddol y TMSS yw bod gweithgareddau Rheoli Trysorlys yn risg isel ac yn sicrhau bod gan yr Awdurdod yr arian I gwrdd â'I anghenion llif arian.

Mae'r Côd yn datgan ei bod yn ofynnol i bob awdurdod gynhyrchu datganiad o Arferion Rheoli Trysorlys (TMP). Mae Adran 7 ac Atodlen 2 o'r côd yn cynnwys awgrymiadau ar yr hyn y dylid ei gynnwys yn Arferion Rheoli Trysorlys awdurdodau. Er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â'r Côd ac arferion da, mae'r Arferion Rheoli Trysorlys hyn yn ategu ac yn cynnwys llawer o'r awgrymiadau sydd wedi eu cynnwys yng Nghôd CIPFA. Mae'r Arferion Rheoli Trysorlys hyn hefyd yn cymryd i ystyriaeth ac yn ategu'r Datganiad Strategaeth Rheoli Trysorlys yr Awdurdod.

## TMP1 Rheoli Risg

Bydd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151 yn dylunio, yn gweithredu ac yn monitro'r holl drefniadau ar gyfer nodi, rheoli a rheoli risg mewn perthynas â rheoli trysorlys. Bydd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151 yn adrodd o leiaf unwaith y flwyddyn ar ddigonolrwydd / addasrwydd arferion rheoli risg trysorlys, a bydd yn adrodd, fel mater o frys, unrhyw anhawster gwirioneddol neu debygol o ran cyflawni amcanion y sefydliad yn y cyswllt hwn, a hynny'n unol â'r gweithdrefnau a nodir yn Adrodd Gofynion TMP6 a Threfniadau Rheoli Gwybodaeth. Mewn perthynas â phob un o'r risgiau canlynol, mae'r trefniadau a sefydlwyd er mwyn ceisio sicrhau cydymffurfiad â'r amcanion hyn wedi'u nodi isod.

### 1.1 Rheoli Risg Credyd a Gwrthbarti

Mae rheoli risg credyd a gwrthbartion yn ymwneud â lleihau'r risgiau i'r Cyngor rhag colli arian buddsoddi neu dorri trefniant benthyca gan gymryd i ystyriaeth unrhyw leihad yn nheilyngdod credyd y gwrthbartion. I'r Cyngor, diogelwch ei adneuon a'i fuddsoddiadau yw amcan allweddol ei TMSS. Bydd y Cyngor yn sicrhau bod y sefydliadau y gellir adneuo arian neu fuddsoddi gyda hwy yn cael eu dewis ar sail ddarbodus h.y. gyda gofal a chan gadw mewn cof ddiogelwch y buddsoddiad yn hytrach na chyfradd y dychweliadau. Mae'r Datganiad Strategaeth Rheoli Trysorlys yn rhestru'r meini prawf sylfaenol y mae'n rhaid i sefydliad eu bodloni ar gyfer adneuon a buddsoddiadau. Mae hyn yn cynnwys cyfyngiadau o ran arian parod, cyfyngiadau amser a rhestr o'r gwledydd a gymeradwywyd ar gyfer buddsoddi ynddynt. Mae'r rhain yn darparu rheolaethau ychwanegol er mwyn lleihau'r risgiau (gweler Tabl 1).

**Tabl 1 Detholiad o TMSS 2020/21 - Meini Prawf Gwrthbarti**

| Categori | Graddfa Credyd Tymor Byr (Fitch) | Graddfa Credyd Tymor Byr (Moody's) | Graddfa Credyd Tymor Byr (Standard & Poor's) | Graddfa Credyd Tymor Hir (Fitch) | Graddfa Credyd Tymor Hir (Moody's) | Graddfa Credyd Tymor Hir (Standard & Poor's) | Terfyn Arian | Terfyn Amser |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Banciau a Chymdeithasau Adeiladu (sydd heb eu gwladoli neu sydd wedi eu gwladoli'n rhannol) | F1+ | P-1 | A-1+ | AAA | AAA | AAA | £10m | 5 mlynedd |
| | F1+ | P-1 | A-1+ | AA | AA2 | AA | £10m | 3 mlynedd |
| | F1+ | P-1 | A-1+ | AA- | AA3 | AA- | £10m | 364 diwrnod |
| | F1 | P-1 | A-1 | A | A2 | A | £7.5m | 6 mis |
| Banciau'r DU sydd wedi eu Gwladoli / wedi eu Gwladoli'n Rhannol | d/b | d/b | d/b | d/b | d/b | d/b | £10m | 364 diwrnod |
| Llywodraeth Ganolog y DU Gyfunol (waeth beth fo'r raddfa Credyd) | d/b | d/b | d/b | d/b | d/b | d/b | Dim uchafswm | Dim uchafswm |
| Awdurdodau Lleol y Deyrnas Gyfunol ** | d/b | d/b | d/b | d/b | d/b | d/b | £5m | 364 diwrnod |
| Cronfeydd y Farchnad Ariannol | d/b | d/b | d/b | AAA | AAA | AAA | £5m | 6 mis |

** fel y diffinnir yn Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cyllid a Chyfrifo Cyfalaf) (Cymru) 2003*

****** *fel y diffinnir yn Neddf Llywodraeth Leol 2003*

**** Mae gwrthbarti'n cyfeirio at sefydliadau y mae'r Cyngor yn buddsoddi ei falansau dros ben ynddynt*

| | |
|---|---|
| **Meini prawf ar gyfer creu a rheoli rhestrau gwrthbarti/ trothwyon a gymeradwywyd** | • Mae'r Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151 yn gyfrifol am osod meini prawf darbodus, gyda chyngor gan ymgynghorwyr Trysorlys y Cyngor;<br>• Bydd y meini prawf yn cael eu cynnwys yn y Datganiad blynyddol ar y Strategaeth Rheoli Trysorlys (TMSS);<br>• Bydd y meini prawf yn cael eu craffu arnynt gan y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethiant a byddant yn cael eu cymeradwyo gan y Pwyllgor Gwaith a'r Cyngor llawn;<br>• Bydd ymgynghorwyr Rheoli Trysorlys y Cyngor yn cynghori ar bolisi credyd a theilyngdod credyd. |
| **Gweithdrefnau ar gyfer newid Trothwyon a Newidiadau i wrthbartion** | • Bydd yr holl newidiadau mewn perthynas â throthwyon gwrthbartïon a / neu feini prawf o fewn y TMSS yn cael eu cyflwyno i'r Cyngor i'w cymeradwyo. |
| **Rhestrau gwrthbartïon a Throthwyon** | • Bydd gwrthbartïon a chyflwr y farchnad yn cael eu monitro'n rheolaidd. Mae'r Cyngor yn derbyn gwybodaeth a chyngor gan Ymgynghorydd Rheoli Trysorlys arbenigol y Cyngor i helpu i fonitro gwrthbartïon;<br>• Cedwir rhestrau llawn o'r gwrthbartïon unigol a'u trothwyon. Bydd y rhain yn cydymffurfio gyda'r meini prawf a'r trothwyon a nodir yn y TMSS. Bydd y Swyddog Adran 151 yn cymeradwyo unrhyw newidiadau i'r rhestr o wrthbartion i'r graddau y maent yn gyson â'r TMSS a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn. Bydd angen diwygio'r TMSS os bydd unrhyw newidiadau, nad ydynt yn cydymffurfio gyda'r rhain ac os yw'r newid yn angenrheidiol i gyflawni nodau allweddol y TMSS, h.y. i sicrhau buddsoddiadau diogel. Yna, bydd y TMSS a'r rhestr yn mynd gerbron y Cyngor llawn i'w cymeradwyo;<br>• Bydd unrhyw fuddsoddiad mewn unrhyw wrthbarti nad yw'n cydymffurfio gyda'r meini prawf gofynnol sylfaenol a gymeradwywyd gan y Cyngor yn cael ei alw'n ôl a'i fuddsoddi mewn gwrthbartion sy'n bodloni'r gofynion sylfaenol ac sydd ar y rhestr. Lle mae'r Cyngor wedi cael ei ymrwymo i drefniant tymor penodol, bydd yn rhaid cadw'r buddsoddiad yno tan ddiwedd y cyfnod hwnnw, ond yna bydd yn cael ei ddychwelyd a'i fuddsoddi mewn gwrthbartion sy'n bodloni'r meini prawf ac sydd ar y rhestr;<br>• Bydd y buddsoddiadau'n cael eu harallgyfeirio i'r graddau y mae hynny'n bosib o fewn y cyfyngiadau o sicrhau bod y buddsoddiad yn ddiogel. |

## 1.2 Rheoli Risg Hylifedd

Amcan rheoli risg hylifedd yw gwarchod y Cyngor rhag rhedeg allan o arian parod er mwyn sicrhau y gall dalu ei gostau o ddydd i ddydd. Bydd y Cyngor hwn yn sicrhau bod ganddo ddigon - ond nid gormod - o adnoddau ariannol, trefniadau benthyca, gorddrafft neu gyfleusterau wrth gefn fel bod ganddo bob amser y lefel angenrheidiol o gyllid ar gyfer cyflawni ei amcanion busnes / gwasanaeth. Ni fydd y Cyngor ond yn benthyca ymlaen llaw lle mae achos busnes clir dros wneud hynny a bydd ond yn gwneud hynny ar gyfer y rhaglen gyfalaf bresennol neu i gyllido dyledion a fydd yn aeddfedu yn y dyfodol. Yn ogystal, mae'n bosib y bydd y sefydliad yn benthyca er mwyn allanoli benthyciadau mewnol lle mae benthyca mewnol yn cael effaith andwyol ar hylifedd y sefydliad.

| | |
|---|---|
| **Rhagolygon llif arian a rheoli llif arian o ddydd i ddydd** | • Cynhelir rhagolwg blynyddol o falansau llif arian sy'n cwmpasu cyfnod o ddeuddeng mis. Mae hyn er mwyn helpu i siapio penderfyniadau ynghylch buddsoddi yn y tymor canol a'r tymor hir;<br>• Bydd y tîm Rheoli Trysorlys yn sicrhau bod y balans ar y prif gyfrifon banc yn ddigonol i leihau'r risg o unrhyw orddrafft ac i sicrhau cymaint o log ag sy'n bosibl;<br>• Mae'r trefniadau bancio wedi'u gweithredu fel bod yr holl gyfrifon banc o dan y contract corfforaethol gyda NatWest yn cael eu hystyried wrth benderfynu ar falans y Cyngor. Felly, os bydd gormod o arian wedi cael ei godi o unrhyw gyfrif a hynny'n creu dyled, bydd y swm cyfatebol yn cael ei gymryd o gyfrifon eraill sydd mewn credyd gan olygu na fydd y Cyngor â gorddrafft. Nid oes cyfleuster gorddrafft wedi ei gymeradwyo, fodd bynnag, bydd NatWest, am dâl bychan, yn anrhydeddu'r holl daliadau petai'r cyngor yn mynd i orddrafft (annhebygol);<br>• Bydd isafswm o £5m yn cael ei gadw mewn buddsoddiadau y gellir cael atynt yn syth. Dan amgylchiadau lle mae'n ddarbodus i ddal llai na'r swm hwn, er enghraifft, lle byddai'n creu costau Rheoli Trysorlys ychwanegol, caniateir hyn am ddim mwy na 10 diwrnod gwaith a dim ond lle mae sicrwydd diamheuol na fydd angen yr arian parod yn ystod y cyfnod hwn. Mae hyn fwyaf tebygol o ddigwydd ar ôl talu cyflogau misol (o gwmpas y 25ain o bob mis) a'r Grant Cynnal Refeniw gan Lywodraeth Cymru, a delir i'r Cyngor yn ystod yr wythnos gyntaf bob mis. |
| **Cyfnod y buddsoddiadau** | • Yn gyffredinol, mae balansau'n cael eu cadw mewn buddsoddiadau tymor byr yn unol ag amcanion hylifedd y TMSS. Mae hyn yn sicrhau bod gan y Cyngor fynediad i arian parod yn ôl yr angen;<br>• Bydd balansau yn cael eu trosglwyddo o'r cyfrif cyffredinol i fuddsoddiadau tymor byr pan fydd y llog / incwm yn fwy na chost trosglwyddo'r balans gan gymryd i ystyriaeth gostau'r trafodyn, e.e. ffioedd CHAPS. Bydd balans a fydd o leiaf £200k yn cael ei gadw ar drawnyn yr holl gyfrifon NatWest er mwyn lleihau'r risg o ffioedd gorddraft a llog;<br>• Mae cyfnod amser a swm ariannol penodol yn cael ei osod ar gyfer pob buddsoddiad / adneuon i leihau risgiau. Gweler Tabl 1 uchod. |

| | |
|---|---|
| **Trefniadau wrth gefn eraill** | • Mae'r Awdurdod wedi defnyddio benthyca mewnol dros nifer o flynyddoedd i gyllido ei raglen gyfalaf. Mae hyn wedi lleihau balansau arian y Cyngor er mwyn arbed ar gostau y mae'n rhaid talu llog arnynt. Os oes risg o ddiffyg arian parod, bydd y Cyngor yn allanoli benthyca mewnol at y swm sydd ei angen i sicrhau hylifedd a chan gymryd i ystyriaeth y targed arian parod y gellir cael ato'n syth o £5m a nodir uchod;<br>• Gall y Cyngor hefyd fenthyca arian am gyfnod dros dro o hyd at 364 diwrnod gan awdurdodau lleol eraill neu'r farchnad arian petai prinder llif arian yn ystod y flwyddyn. |
| **Benthyca cyn bod angen** | • Yn gyffredinol, ni fydd y Cyngor yn benthyca cyn i'r angen godi. Fodd bynnag, mewn achosion eithriadol, gellir ystyried hyn gyda chymeradwyaeth y Swyddog Adran 151 a'r deilydd Portffolio Cyllid ar yr amod y cyflwynir achos busnes llawn. |

## 1.3 Rheoli Risg Cyfraddau Llog

Mae rheoli risg cyfraddau llog yn ymwneud â'r camau a gymerir gan y Cyngor i leihau'r risg o gynnydd mewn costau llog ac i fanteisio i'r eithaf ar y llog sydd ar gael a hynny gan gadw mewn golwg y cyfyngiad bod angen i'r holl fuddsoddiadau fod yn hynod ddiogel ac yn gymharol hylifol. Bydd yr Awdurdod yn rheoli pa mor agored ydyw i'r amrywiadau mewn cyfraddau llog drwy ffrwyno ei gostau llog, neu sicrhau ei dderbyniadau llog, yn unol â'r symiau a ddarparwyd yn ei drefniadau cyllidebol fel y'u diwygiwyd yn unol â TMP6 - Trefniadau o ran y gofynion adrodd a rheoli gwybodaeth.

| | |
|---|---|
| **Y trothwyon a gymeradwyir o ran cyfraddau llog** | • Bydd y Cyngor yn defnyddio cyfuniad o fuddsoddiadau cyfradd llog amrywiol a llog sefydlog i sicrhau'r dychweliadau gorau posib tra'n lleihau'r risgiau. Bydd y buddsoddiadau / adneuon yn fuddsoddiadau gwrthbartïon risg isel yn hytrach na buddsoddiadau llog uchel. Bydd buddsoddiadau cyfradd llog sefydlog yn rhai tymor byr diogel, sydd yn uwch na'r cyfraddau amrywiol a gynigir;<br>• Yn yr un modd, mae portffolio dyledion y Cyngor yn cynnwys rhai benthyciadau cyfradd llog sefydlog a rhai cyfradd amrywiol. Fodd bynnag, mae'r mwyafrif sylweddol o'r buddsoddiadau yn y portffolio presennol yn rhai llog cyfradd sefydlog er mwyn sicrhau eu bod yn ddiogel ac er mwyn gwneud y mwyaf o'r cyfraddau llog is;<br>• Bydd y Swyddog Adran 151 a'r tîm Rheoli Trysorlys yn monitro cyfraddau llog a bydd yn gwneud y penderfyniadau mwyaf cost-effeithiol ar y pryd o ran buddsoddi a benthyca gan ddefnyddio'r wybodaeth ddiweddaraf a geir gan Ymgynghorwyr Rheoli Trysorlys y Cyngor. |
| **Pwyntiau sbardun a chanllawiau ar gyfer rheoli newidiadau i gyfraddau llog** | • Mae y mwyafrif sylweddol o bortffolio dyledion yr Awdurdod yn rhai llog sefydlog er mwyn sicrhau diogelwch a sefydlogrwydd taliadau ac i osgoi bod yn agored i unrhyw gynnydd posibl mewn costau;<br>• Bydd penderfyniadau i ail-gyllido a phenderfyniadau i fenthyca digefnogaeth hefyd yn cymryd i ystyriaeth y cyfraddau llog ar y pryd. |

| | |
|---|---|
| **Cyfraddau uchaf / isaf y dyledion /llogau cyfradd amrywiol a'r dyledion / llogau cyfradd sefydlog** | • Mae'r trothwyon uchaf o ran cyfraddau sefydlog a chyfraddau amrywiol yn cael eu hadolygu bob blwyddyn a'u cofnodi yn y TMSS. |
| **Defnyddio deilliannau ariannol** | • Ni fydd y Cyngor yn defnyddio Deilliannau Ariannol oherwydd ystyrir bod y risgiau sydd ynghlwm yn rhy uchel ar gyfer amcanion TMSS y Cyngor. |

### 1.4 Rheoli'r Risg sydd ynghlwm wrth y Gyfradd Gyfnewid

Bydd y Cyngor yn rheoli pa mor agored ydyw i amrywiadau yn y cyfraddau cyfnewid er mwyn lleihau unrhyw effaith niweidiol ar y lefelau incwm / gwariant y cyllidebwyd ar eu cyfer.

| | |
|---|---|
| **Trothwyon o ran y gyfradd gyfnewid** | • Bydd yr holl fuddsoddiadau / dyledion yn cael eu gwneud mewn sterling. Fel rhai o'i arferion Rheoli Trysorlys, ni fydd y Cyngor yn buddsoddi mewn arian cyfred arall oherwydd byddai hynny'n gwneud y Cyngor yn agored i risg ormodol a gallai effeithio'n andwyol ar hylifedd. Yr unig amser y bydd y Cyngor yn agored i risgiau o ran y gyfradd gyfnewid yw achosion lle mae grant yn cael ei dalu i'r Cyngor mewn arian cyfred arall neu fod rhaid i'r Cyngor dalu cyflenwr mewn arian cyfred arall. Bydd unrhyw arian cyfred tramor a delir i'r Cyngor yn cael ei newid i sterling cyn gynted ag y bo modd. |

### 1.5 Ail-gyllido Rheoli Risg

Mae ail-gyllido rheoli risg yn gysylltiedig â rheoli portffolio dyledion y Cyngor mewn modd sy'n lleihau'r risg o gynnydd mewn costau o weithgareddau ail-gyllido. Bydd y Cyngor yn sicrhau bod ei drefniadau benthyca, gyllido preifat a phartneriaeth yn cael eu negodi, eu strwythuro a'u cofnodi. Caiff proffil aeddfedrwydd yr arian a fenthycwyd ei reoli gyda'r bwriad o gael cynnig y telerau adnewyddu neu ail-gyllido mwyaf cystadleuol a ffafriol i'r Cyngor petai eu hangen ac fel sy'n rhesymol o ystyried amodau'r farchnad ar y pryd. Bydd y Cyngor yn mynd ati i reoli ei berthnasau â gwrthbartion a bydd yn osgoi gorddibyniaeth ar unrhyw un ffrwd o gyllido petai hyn yn peryglu cyflawni'r uchod.

| | |
|---|---|
| **Risg ail-gyllido** | • Bydd y Cyngor yn ceisio rheoli ei bortffolio dyledion a ffynonellau cyllido cyfalaf eraill yn y ffordd fwyaf cost-effeithiol. Bydd y Cyngor yn y lle cyntaf yn defnyddio'r ffynonellau rhataf o gyllido cyfalaf sydd ar gael a bydd benthyca digefnogaeth yn cael ei ddefnyddio i gyllido'r rhaglen gyfalaf pan fydd pob opsiwn arall wedi methu;<br>• Bydd y Cyngor yn defnyddio balansau arian parod a chronfeydd wrth gefn y Cyngor ar gyfer benthyca'n fewnol i leihau ei gostau cyllido cyfalaf os yw hyn yn gost effeithiol. Fodd bynnag, bydd terfyn ar faint y gall y Cyngor ddefnyddio benthyca mewnol. Ni fydd y Cyngor yn defnyddio balansau ariannol i fenthyca'n fewnol os bydd hynny'n risg i hylifedd. Ni ddylid benthyca'n fewnol i'r graddau y byddai hynny'n golygu bod llai na £5m ym malansau arian parod y Cyngor;<br>• Wrth fenthyca ar gyfer y tymor hwy, dylid cydymffurfio gyda'r Côd Darbodus sy'n golygu y bydd yn fforddiadwy;<br>• Bydd benthyciadau tymor hwy yn cydymffurfio gyda'r Datganiad Strategaeth Rheoli Trysorlys a'r dangosyddion darbodus, er enghraifft, bydd benthyca yn cael ei gadw o fewn y terfyn benthyca awdurdodedig; |

| | |
|---|---|
| | • Ni fydd dyled yn cael eu haildrefnu oni bai y bydd hynny'n gost effeithiol. Byddai hyn yn cael ei wneud er mwyn elwa ar gyfraddau llog is ac i osgoi gorfod talu nifer o fenthyciadau yn ôl ar yr un pryd os byddai hynny'n rhy gostus. Bydd y Cyngor yn cymryd cyngor gan ei Ymgynghorwyr Rheoli Trysorlys ar fanteision a chostau aildrefnu dyledion;<br>• Bydd y portffolio dyled yn cael ei reoli mewn modd a fydd yn osgoi unrhyw broblemau sylweddol gydag ail-gyllido yn y dyfodol. Yn ddelfrydol, ni ddylai fod angen ad-dalu mwy na £5m mewn unrhyw un flwyddyn. Wrth ystyried benthyca o'r newydd, rhaid asesu pryd y bydd dyledion y portffolio presennol yn aeddfedu er mwyn osgoi problemau yn y dyfodol;<br>• Cyn cymryd unrhyw fenthyciadau newydd, rhaid gwerthuso'r opsiynau er mwyn penderfynu ar y cyfnod amser mwyaf cost effeithiol a fforddiadwy ar gyfer benthyca. Bydd y gwerthusiad hefyd yn cymryd i ystyriaeth y proffil dyledion presennol ac unrhyw ofynion o ran ail-gyllido. Dylid ystyried y gwahanol fathau o fenthyciadau er mwyn penderfynu pa rai fydd orau i'r Cyngor. Er enghraifft, ystyried llog a MRP yn erbyn llog ac ad-daliad o'r prifswm;<br>• Mae Ymgynghorwyr Rheoli Trysorlys y Cyngor yn rhoi rhagamcanion o'r cyfraddau llog i'r Cyngor er mwyn cefnogi penderfyniadau rheoli trysorlys ar fuddsoddiadau a benthyciadau. Caiff y rhagamcanion eu cynnwys yn y TMSS bob blwyddyn. |
| **Y gofynion buddsoddi cyfalaf a ragwelir** | • Mae'r TMSS blynyddol yn rhoi manylion am y gwariant cyfalaf a'r cyllid gwirioneddol ar gyfer y flwyddyn ariannol ddiwethaf a archwiliwyd. Mae hefyd yn cynnwys rhagamcanion ar gyfer y flwyddyn cyn y cyfnod TMSS, blwyddyn y TMSS a'r ddwy flynedd ddilynol. Mae hyn o gymorth i nodi'r anghenion ar gyfer cyllido rhaglen gyfalaf bob blwyddyn;<br>• Mae gofynion y Cyngor ar gyfer benthyca yn y tymor hir wedi'i gysylltu â Gofynion Cyllido Cyfalaf (GCC);<br>• Bydd y Cyngor yn gwerthuso opsiynau er mwyn sicrhau ei fod yn dewis y dulliau mwyaf cost effeithiol o gyllido cyfalaf a bod y ffynonellau rhataf o gyllido cyfalaf yn cael eu defnyddio yn y lle cyntaf. |
| **Y polisi mewn perthynas â therfynau ariannu cyfalaf ar ganlyniadau refeniw** | • Mae'r Cyngor wedi'i ymrwymo gan y côd Darbodus a'r angen i sicrhau bod benthyciadau yn fforddiadwy, yn gynaliadwy ac yn ddarbodus;<br>• Ni ddylai dyledion y Cyngor, ac eithrio yn y tymor byr, fod yn uwch na chyfanswm y Gofyniad Cyllido Cyfalaf yn y flwyddyn flaenorol ynghyd â'r ddwy flynedd ariannol nesaf;<br>• Mae cysylltiad rhwng y cyllidebau cyfalaf a refeniw. Mae cyllid cyfalaf allanol yn arwain at gostau ariannol sy'n effeithio ar y gyllideb refeniw drwy gostau llog a'r MRP;<br>• Amcangyfrifir y bydd costau cyllido cyfalaf pob blwyddyn sydd i ddod yn cael eu cynnwys ar adeg gosod y gyllideb flynyddol;<br>• Mae costau cyllido cyfalaf yn y tymor hwy hefyd yn cael eu hystyried yn y Strategaeth Tymor Canol ar gyfer y Cyngor sy'n ymwneud â chyfnod o dair blynedd;<br>• Mae Strategaeth Gyfalaf y Cyngor yn argymell y dylid cyfyngu prosiectau cyfalaf newydd i lefel o gyllido cyfalaf na fydd yn arwain at gostau refeniw ychwanegol. Dywed y strategaeth na ddylid ystyried benthyca digefnogaeth ond mewn achos lle gellir gostwng cyllideb y gwasanaeth perthnasol gan swm sy'n uwch na'r MRP a chostau llog. Nid yw hyn yn cynnwys rhaglen Ysgolion y 21ain Ganrif gyda Llywodraeth Cymru oherwydd mae ymrwymiad wedi'i wneud yn barod. Fodd bynnag, byddai unrhyw arbedion o'r rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif yn cael eu defnyddio i cyfrannu at gostau cyllido cyfalaf. |

## 1.6 Rheoli Risgiau Cyfreithiol a Rheoleiddiol

Mae risgiau cyfreithiol a rheoleiddiol yn ymwneud â'r risg y bydd y Cyngor, neu drydydd partïon sy'n ymdrin â Rheoli Trysorlys ar ran y Cyngor, yn methu â gweithredu yn unol â phwerau cyfreithiol yr Awdurdod neu ofynion rheoleiddiol. Bydd y Cyngor yn sicrhau bod ei holl weithgareddau rheoli trysorlys yn cydymffurfio â'i bwerau statudol a'r gofynion rheoleiddiol. Bydd yn profi ei gydymffurfiaeth, petai raid, i'r holl bartïon y mae'n ymwneud â nhw mewn gweithgareddau o'r fath. Wrth lunio ei bolisi rheoli credyd a gwrthbarti dan TMP[1], rheoli risg credyd a gwwrthbarti, bydd yn sicrhau bod tystiolaeth ar gael o bwerau, awdurdod a chydymffurfiaeth gwrthbartion mewn unrhyw drafodion y byddant efallai'n eu cyflawni gyda'r sefydliad, yn enwedig o ran dyletswydd gofal a ffioedd a godir. Mae'r sefydliad hwn yn cydnabod y gallai newidiadau deddfwriaethol neu reoleiddiol yn y dyfodol effeithio ar ei weithgareddau rheoli trysorlys ac, i'r graddau y mae'n rhesymol i wneud hynny, bydd yn ceisio lleihau'r risg y bydd hyn yn cael effaith andwyol ar y sefydliad.

| | |
|---|---|
| **Deddfwriaeth sy'n effeithio ar Weithgareddau Rheoli'r Trysorlys** | • Deddf Llywodraeth Leol 2003;<br>• Deddf Llywodraeth Leol (Cymru) 1994;<br>• Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014;<br>• Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cyllid Cyfalaf a Chyfrifyddu) (Cymru) 2003 Rhif 3239 (W 319) a newidiadau a wnaed wedyn gan gynnwys y rhai diweddaraf;<br>• Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cyllid Cyfalaf a Chyfrifyddu) (Cymru) (Diwygiad) 2016;<br>• Rheoliadau 3362 W337 Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014;<br>• Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cyllid Cyfalaf a Chyfrifyddu) (Cymru) (Diwygio) 2018;<br>• CIPFA, Côd Rheoli Trysorlys 2017;<br>• CIPFA, Côd Darbodus 2017;<br>• Côd Ymarfer CIPFA ar gyfer Cadw Cyfrifon Awdurdodau Lleol 2019/20;<br>• Côd Rheolaeth Ariannol CIPFA, 2019;<br>• Datganiad Strategaeth Rheoli Trysorlys Ynys Môn 2020/21;<br>• Rheolau Gweithdrefnau Cyllid Ynys Môn;<br>• Rheolau Gweithdrefn Contract Ynys Môn. |
| **Gweithdrefnau ar gyfer dangos tystiolaeth o bwerau / awdurdod y Cyngor i wrthbartion** | • Mae pwerau a dyletswyddau'r Awdurdod wedi cael eu hymgorffori yn y gyfraith. Mae Deddf Llywodraeth Leol 1972 yn ddeddfwriaeth allweddol mewn perthynas â swyddogaethau cynghorau. Mae Deddf Llywodraeth Leol (Cymru) 1994 yn ddeddfwriaeth bwysig a arweiniodd at greu'r awdurdodau unedol yng Nghymru y mae Cyngor Sir Ynys Môn yn un ohonynt ac mae'n cynnwys y gyfraith ar gyfer trosglwyddo swyddogaethau o'r hen awdurdodau;<br>• Mae Adran 3.5.3.5 o gyfansoddiad y Cyngor yn amlinellu awdurdod dirprwyedig y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151. Mae 3.5.3.5.3 yn cydnabod mai deilydd y swydd hon fydd swyddog cyllid cyfrifol y Cyngor o dan Adran 151 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972. Caiff cyfrifoldeb y Swyddog Adran 151 am Fuddsoddi a Chynllunio Cyfalaf ei nodi yn 3.5.3.5.8. Yn ogystal, mae 3.5.3.5.17 yn amlinellu cyfrifoldeb y Swyddog Adran 151 i reoli trefniadau benthyca a bancio'r Awdurdod;<br>• Mae 4.3 yn y cyfansoddiad, sef y rheolau gweithdrefn ar gyfer y gyllideb a'r fframwaith polisi, yn amlinellu'r cyfrifoldebau yn y Cyngor mewn perthynas â Cyllidebu a Pholisi;<br>• Mae 4.8 yn y cyfansoddiad yn amlinellu rheolau gweithdrefn ariannol yr Awdurdod;<br>• Mae 4.9 yn y cyfansoddiad yn nodi'r rheolau gweithdrefn contract y mae'r Cyngor yn ymrwymo iddynt;<br>Gellir rhannu'r rhain i gyd gyda gwrthbartion ac maent ar gael hefyd ar wefan y Cyngor. |

| | |
|---|---|
| **Gwybodaeth sydd ei hangen gan wrthbartïon mewn perthynas â'u pwerau / awdurdod** | • Ni fydd y Cyngor ond yn gwneud buddsoddiadau / adneuon mewn sefydliadau sydd wedi cael eu harchwilio'n annibynnol gan nifer o ffynonellau. Rhaid i'r graddau hyn fod yn uwch na'r statws credyd sylfaenol a nodir yn y TMSS. Mae Ymgynghorwyr Rheoli Trysorlys y Cyngor yn darparu gwybodaeth yn rheolaidd i gynorthwyo'r Awdurdod;<br>• Bydd benthyca i sefydliadau trydydd parti yn eithriad ac ni fydd yn cael ei wneud ond i sefydliadau sydd wedi cael gwerthusiad ariannol trylwyr. |
| **Datganiad ar risgiau gwleidyddol y Cyngor a rheoli'r risgiau hyn** | • Mae deddfwriaeth yn ei lle i reoleiddio unrhyw risgiau gwleidyddol mewnol. Mae Deddf Llywodraeth Leol 2000 yn deddfu ar ymddygiad Aelodau a swyddogion;<br>• Mae cyfansoddiad y Cyngor a chynlluniau dirprwyo o gymorth i leihau risgiau gwleidyddol;<br>• Mae’r ffaith bod y Cyngor yn mabwysiadu bob TMSS blynyddol a Chôd Ymarfer CIPFA ar gyfer Rheoli'r Trysorlys yn lleihau’r risg ymhellach;<br>• Mae’r codau ymddygiad i Aelodau a'r swyddogion hefyd yn darparu fframwaith sy’n lleihau’r risg;<br>• Fframwaith Llywodraethu Corfforaethol y sefydliad ac, yn benodol, cydymffurfiaeth gyda TMP12;<br>• Mae risgiau gwleidyddol allanol yn cael eu lliniaru drwy gael TMSS ac Arferion Rheoli Trysorlys (TMP) cadarn. Bydd diweddariadau dyddiol gan Ymgynghorydd Rheoli Trysorlys y Cyngor yn cefnogi’r camau gweithredu sydd eu hangen i liniaru risgiau. |

## 1.7 Twyll, Camgymeriad a Llygredd a Threfniadau Rheoli Wrth Gefn

Bydd y Cyngor yn sicrhau ei fod wedi nodi’r amgylchiadau a allai ei adael yn agored i'r risg o golled trwy dwyll, camgymeriad, llygredd neu ddigwyddiadau eraill yn ei drafodion rheoli trysorlys. Yn unol â hynny, bydd yn defnyddio systemau a gweithdrefnau addas, a bydd yn cynnal trefniadau rheoli wrth gefn effeithiol, i'r dibenion hyn.

| | |
|---|---|
| **Systemau a gweithdrefnau i leihau’r risg o golled trwy dwyll a llygredd** | • Mae yna sawl lefel o wahaniad dyletswyddau ac fe’u hamlinellir yn TMP5 isod. Mae'r tîm Rheoli Trysorlys yn monitro llif arian ac yn argymell trosglwyddiadau. Caiff y trefniadau buddsoddi / adneuo cychwynnol eu cwblhau gan y tîm Rheoli Trysorlys gyda chymeradwyaeth y swyddog Swyddog Adran 151 neu ei ddirprwyon. Nid yw'r tîm Rheoli Trysorlys yn ymwneud o gwbl â phrosesu trafodion rheoli trysorlys;<br>• Caiff yr holl drafodion rheoli trysorlys eu prosesu drwy CHAPS gan ddefnyddio system fancio ar-lein y NatWest. Mae hon yn system ddiogel sydd, yn ogystal â chyfrineiriau, yn gofyn am ddefnyddio darllenwyr cerdyn i awdurdodi trafodion. Gwahenir dyletswyddau fel nad oes gan unrhyw aelod o'r tîm sydd â chyfrifoldeb uniongyrchol am Reoli Trysorlys fynediad i brosesu taliadau / trosglwyddiadau. Nid yw’r swyddogion yn y tîm technegol sy'n prosesu'r taliadau / trosglwyddiadau yn ymwneud ag awdurdodi taliadau / trosglwyddiadau;<br>• Mae system Bankline NatWest wedi cael ei sefydlu i sicrhau gwahaniad dyletswyddau ac mae’n caniatáu mynediad at y lefel briodol, er enghraifft, hawliau ‘view only’ sydd gan y tîm Rheoli Trysorlys i Bankline;<br>• Caiff mandadau banc eu sefydlu gyda’r banciau y mae gan y Cyngor adneuon ynddynt, yn unol â’r rhestr awdurdodedig o swyddogion awdurdodi. Mae hyn yn cynorthwyo gyda gwahanu dyletswyddau hefyd ac yn helpu i gadw adneuon y Cyngor yn fwy diogel; |

| | |
|---|---|
| | • Mae gan y Cyngor restr o swyddogion penodedig sydd â'r awdurdod i ddelio gyda benthyciadau a thrafodion. Caiff y broceriaid a'r gwrthbartïon y mae'r Cyngor yn delio'n uniongyrchol â nhw, gopi o'r swyddogion a enwir;<br>• Caiff cysoniadau rheoli trysorlys eu cwblhau bob mis fel rhan o'r broses rheoli ansawdd;<br>• Mae tîm Rheoli'r Trysorlys yn defnyddio meddalwedd arbenigol ar gyfer rheoli trysorlys, sef Logotech, i gefnogi'r gwaith o fonitro gweithgareddau rheoli trysorlys;<br>• Bydd archwilio mewnol yn cynnal archwiliadau rheolaidd o'r swyddogaeth Rheoli Trysorlys. |
| **Cynllunio ar gyfer argyfwng a digwyddiadau annisgwyl** | • Mae copïau caled ar gael o'r holl benderfyniadau a gweithgareddau rheoli trysorlys;<br>• Mae'r holl systemau TG, gan gynnwys y systemau Rheoli Trysorlys yn cael eu cefnogi gan y swyddogaeth TGCh a gellir eu hadfer;<br>• Mae gan bob gwasanaeth / swyddogaeth yn y Cyngor gynllun Parhad Busnes;<br>• Petai system Bankline NatWest yn methu, gellir cael y balansau o gangen y NatWest yn Llangefni. Mae'r rhan fwyaf o drafodion rheoli trysorlys yn mynd i gyfeiriad bancio ar-lein. Os nad yw cyfleuster bancio ar-lein gwrthbarti ar gael, byddid yn cysylltu gyda'r rheolwr perthynas i gael gwybodaeth am eu gweithdrefnau amgen. Mae hyn yn golygu y byddai'r banc yn cysylltu gyda llofnodwr awdurdodedig ar gyfer cymeradwyaeth. Os na fydd rhyngrwyd y Cyngor ar gael, gellir defnyddio ffynhonnell rhyngrwyd fel rhan o'r rhaglen gweithio'n gallach. |
| **Manylion Yswiriant** | • Mae'r Cyngor yn cymryd Yswiriant Fidelity Guarantee er mwyn amddiffyn ei hun yn erbyn unrhyw weithgaredd twyllodrus o fewn y gweithgareddau Rheoli Trysorlys. Mae'n gwarantu swm o £10m petai unrhyw un o'r swyddogion enwebedig sy'n ymwneud yn uniongyrchol â rheoli trysorlys yn achosi colled i'r Awdurdod ac £1m ar gyfer unrhyw weithiwr arall. |

## 1.8 Rheoli Risg y Farchnad

Bydd y Cyngor yn ceisio sicrhau na fydd ei bolisïau a'i amcanion rheoli trysorlys yn cael eu peryglu gan unrhyw amrywiadau anffafriol yn y farchnad o ran gwerth y prif symiau y mae'n eu buddsoddi, a bydd felly'n ceisio ei amddiffyn ei hun rhag effeithiau amrywiadau o'r fath.

| | |
|---|---|
| **Y gweithdrefnau a'r trothwyon a gymeradwywyd ar gyfer rheoli risg i fuddsoddiadau y gall eu cyfalaf amrywio** | • Nid yw'r Datganiad Strategaeth Rheoli Trysorlys (TMSS) yn caniatáu buddsoddiadau risg uchel sy'n debygol o amrywio. Ni fedrir ond buddsoddi yn unol â'r meini prawf a nodir yn y TMSS a gymeradwywyd gan y Cyngor. Lle mae'r Cyngor yn buddsoddi neu'n benthyca dros o farchnadoedd ariannol, rhaid iddo fenthyca o gronfeydd gradd AAA sy'n cael eu harallgyfeirio dros nifer o fuddsoddiadau sydd yn lleihau y perygl o risg ac amrywiadau cyfalaf. |

## TMP2 – Rheoli Perfformiad

Mae'r Awdurdod yn ymrwymo i geisio sicrhau gwerth am arian yn ei weithgareddau rheoli trysorlys ac i ddefnyddio methodoleg perfformiad i gefnogi'r nod hwnnw. Rhaid i werth am arian fod yn rhan o’r fframwaith a nodir yn y TMSS. Yn unol â hynny, bydd y swyddogaeth rheoli trysorlys yn cael ei dadansoddi’n barhaus o ran y gwerth y mae'n ei ychwanegu i gefnogi’r amcanion busnes neu wasanaeth a nodwyd gan y sefydliad. Ymchwilir yn rheolaidd i ddulliau amgen o ddarparu’r gwasanaeth, o argaeledd grantiau cymhorthdal neu fathau eraill o anogaeth ariannol a’r sgôp ar gyfer gwelliannau posibl eraill.

| | |
|---|---|
| **Methodoleg i werthuso effaith penderfyniadau rheoli trysorlys** | • Amcanion craidd y TMSS yw y bydd y gweithgareddau Rheoli Trysorlys yn rhoi blaenoriaeth i ddiogelwch, hylifedd ac enillion yn y drefn honno. Felly, nid yw'r swyddogaeth yn cael ei barnu ar yr enillion yn unig. Caiff penderfyniadau rheoli trysorlys eu gwerthuso yn erbyn ei amcanion craidd;<br>• Mae’r adroddiadau canol blwyddyn ac alldro ar Reoli Trysorlys yn galluogi craffu ar berfformiad o ran amcanion allweddol y gweithgareddau Rheoli Trysorlys;<br>• Caiff enillion a gweithgareddau Rheoli Trysorlys eu monitro hefyd bob chwarter yn y Cardiau Sgorio Corfforaethol. |
| **Methodoleg ar gyfer profi gwerth am arian wrth reoli trysorlys** | • Mae'r swyddogaeth rheoli trysorlys yn cael ei darparu’n fewnol ar hyn o bryd. Gellid profi'r farchnad ar unrhyw adeg drwy gwerthwchigymru;<br>• Caiff y gwasanaeth Ymgynghori arbenigol ar Reoli Trysorlys ei hysbysebu ar gwerthwchigymru ar ddiwedd pob cyfnod contract. Roedd y contract presennol yn ganlyniad proses dendro y llynedd drwy gwerthwchigymru. Capita Asset Services gyflwynodd y tendr llwyddiannus, ac wedyn daeth yn Link Asset Services ac mae'r contract ar gyfer y cyfnod o 1 Ebrill 2016 hyd 31 Mawrth 2019 gydag opsiwn i ymestyn am hyd at ddwy flynedd; ac mae wedi ei ymestyn;<br>• Gwahoddir tendrau am y gwasanaethau bancio bob pum mlynedd drwy gwerthwchigymru. NatWest sydd â’r contract ar hyd o bryd a hynny ers 3 Chwefror, 2016;<br>• Ceir rhestr gymeradwy o wasanaethau broceriaeth ariannol a gofynnir am gyngor gan 3 brocer wrth lunio opsiynau ar gyfer buddsoddiadau rheoli trysorlys;<br>• Nid yw'r Cyngor yn defnyddio gwasanaethau rheoli arian / cronfeydd fel rhan o'i weithgareddau rheoli trysorlys. Fodd bynnag, mae rheolwyr y gronfa yn cael eu defnyddio ar gyfer nifer o ymddiriedolaethau elusennol y mae'r Cyngor yn ymddiriedolwr ar eu cyfer. |

## TMP3 – Gwneud penderfyniadau a dadansoddiadau

Bydd y Cyngor yn cadw cofnodion llawn o'i benderfyniadau rheoli trysorlys a'r prosesau ac arferion a ddefnyddiwyd wrth wneud y penderfyniadau hynny. Bydd y Cyngor yn dysgu o'i brofiadau a'i benderfyniadau a bydd yn adeiladu ar ei lwyddiannau ac yn cymryd camau i osgoi unrhyw faterion negyddol a allai godi. Bydd y Cyngor yn cofnodi penderfyniadau fel y gall y Cyngor ddangos bod camau rhesymol yn cael eu cymryd i sicrhau bod yr holl faterion sy'n berthnasol i'r penderfyniadau hynny wedi cael eu cymryd i ystyriaeth ar y pryd.

| | |
|---|---|
| **Pwerau dirprwyedig a chadw cofnodion** | • Bydd y Cyngor llawn yn cymeradwyo'r Datganiad Strategaeth Rheoi Trysorlys (TMSS) bob blwyddyn wedi iddo gael ei graffu gan y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethiant a'i ystyried gan y Pwyllgor Gwaith a rhaid cofnodi'r penderfyniadau hyn yn ffurfiol;<br>• Y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151 sydd â'r awdurdod dirprwyedig ar gyfer pob agwedd o reoli trysorlys. Rhaid i bob penderfyniad gydymffurfio â'r TMSS. Bydd y tîm rheoli trysorlys yn darparu opsiynau ac argymhellion i'r Swyddog Adran 151 eu hystyried pan fydd angen buddsoddiad neu fenthyciad newydd. Bydd hyn yn cael ei gofnodi a'i lofnodi gan y Swyddog Adran 151. Y tîm rheoli trysorlys sydd yn gwneud penderfyniadau dydd i ddydd gyda gwrthbartïon presennol, gydag un aelod o'r tîm yn argymell trafodiad ac aelod arall o'r tîm, sydd â swydd uwch, yn cymeradwyo'r argymhelliad hwnnw. |
| **Gwelliant parhaus** | • Bydd y Cyngor yn gwerthuso gweithgareddau rheoli trysorlys a cheisio osgoi unrhyw ganlyniadau negyddol ac adeiladu ar arferion a chanlyniadau da o ran rheoli trysorlys. Gwneir hyn ar sail ymarferol o ddydd i ddydd;<br>• Ar lefel fwy ffurfiol, bydd rheoli trysorlys yn cael ei werthuso drwy'r adroddiadau rheoli trysorlys canol a diwedd blwyddyn a bydd yr adroddiadau hyn yn cael eu craffu gan y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethiant a'u hystyried gan y Pwyllgor Gwaith a'r Cyngor;<br>• Mae perfformiad hanesyddol y dangosyddion darbodus a'r rhagolygon o'u perfformiad yn cael eu cynnwys yn y TMSS blynyddol a gaiff ei craffu gan y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethiant, ei ystyried gan y Pwyllgor Gwaith a'i gymeradwyo gan y Cyngor. |

## TMP 4 – Offerynnau, dulliau a thechnegau a gymeradwywyd

Wrth ymgymryd â'i weithgareddau rheolaeth trysorlys, ni fydd y Cyngor ond yn defnyddio'r offerynnau, y dulliau a'r technegau hynny y manylir arnynt isod ac o fewn y terfynau a'r paramedrau a ddiffinnir yn TMP1 Rheoli Risg a TMSS y Cyngor. Bydd yr holl offerynnau, dulliau a thechnegau yn canolbwyntio ar y rhai sy'n cynnig y diogelwch a'r hylifedd mwyaf. Bydd y Cyngor yn anelu at sicrhau'r cynhyrchiant mwyaf posibl o fewn y ddwy brif flaenoriaeth hyn. Bydd yr Awdurdod yn ceisio cyngor priodol gan yr ymgynghorwyr rheoli trysorlys arbenigol a gomisiynwyd ganddo a bydd yn ystyried y cyngor hwnnw wrth wneud trefniadau i ddefnyddio cynhyrchion o'r fath er mwyn sicrhau ei fod yn deall yn llawn y cynhyrchion hynny.

| | |
|---|---|
| **Offerynnau, dulliau a thechnegau cyllido cyfalaf a gymeradwywyd** | **<u>Allanol:-</u>**<br><br>• Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus (PWLB);<br>• Benthyciadau marchnad arian dros dro (hyd at 364 diwrnod);<br>• Benthyciadau marchnad arian tymor hir;<br>• Gorddrafft banc (dim ond mewn amgylchiadau eithriadol ac os mai hwn yw'r opsiwn rhataf ar gyfer angen tymor byr iawn);<br>• Benthyciadau masnachol;<br>• Benthyciadau gan sefydliadau eraill os yw'r telerau ac amodau'n ffafriol. Bydd angen i'r sefydliadau fod wedi eu hawdurdodi i fenthyca a dylent gael eu rheoleiddio;<br>• Prydlesau ariannol;<br>• Prydlesau gweithredol;<br>• Grantiau cyfalaf gan y Llywodraeth a grantiau Ewropeaidd;<br>• Grantiau cyfalaf gan sefydliadau eraill, er enghraifft, y Loteri Genedlaethol;<br>• PFI / PPP.<br><br>**<u>Mewnol:-</u>**<br><br>• Derbyniadau cyfalaf;<br>• Cyfraniadau refeniw;<br>• Defnydd o gronfeydd wrth gefn. |
| **Offerynnau, dulliau a thechnegau a gymeradwywyd ar gyfer buddsoddi** | • Mae polisi buddsoddi'r Cyngor yn cymryd i ystyriaeth Ganllawiau Llywodraeth Cymru ar Fuddsoddiadau Llywodraeth Leol ("y Cyfarwyddyd") a Chôd Ymarfer a Nodiadau Canllaw Traws-Sector CIPFA ar Reoli Trysorlys mewn Gwasanaethau Cyhoeddus ("Côd RT CIPFA"). Blaenoriaethau buddsoddi'r Cyngor fydd diogelwch yn gyntaf, hylifedd yn ail ac enillion yn drydydd;<br>• Yn unol â'r canllawiau uchod gan Lywodraeth Cymru a CIPFA, ac er mwyn lleihau'r risg i fuddsoddiadau, mae'r Cyngor yn defnyddio meini prawf o ran yr isafswm credyd derbyniol er mwyn cynhyrchu rhestr o wrthbartïon sy'n hynod deilwng o gredyd ac sydd hefyd yn caniatáu arallgyfeirio sydd, yn ei dro, yn osgoi crynhoi risg. Y sgorau allweddol a ddefnyddir i fonitro gwrthbartïon yw'r sgorau Byr Dymor a Hir Dymor; |

| | |
|---|---|
| | • Yn unol ag arferion blaenorol, nid sgorau yn unig fydd yn cael eu cymryd i ystyriaeth wrth benderfynu ar ansawdd sefydliad ac mae'n bwysig asesu a monitro'r sector ariannol yn barhaus ar sail micro a macro a chan gymryd i ystyriaeth yr amgylchiadau economaidd a gwleidyddol y mae sefydliadau yn gweithredu ynddynt. Bydd yr asesiad hefyd yn cymryd i ystyriaeth wybodaeth sy'n adlewyrchu barn y marchnadoedd. I'r perwyl hwn, bydd y Cyngor yn ymgysylltu â'i ymgynghorwyr i gadw golwg ar brisiau'r farchnad megis "credit default swaps" a throshaenu'r wybodaeth honno ar ben y statws credyd;<br>• Bydd ffynonellau gwybodaeth eraill a ddefnyddir yn cynnwys y wasg ariannol, prisiau cyfranddaliadau ac unrhyw wybodaeth tebyg arall sy'n ymwneud â'r sector bancio er mwyn sefydlu'r proses graffu gadarnaf bosib ar addasrwydd gwrthbartïon posib y gellid buddsoddi ynddynt.<br><br>Mae'r isod yn fuddsoddiadau a gymeradwywyd yn unol â'rTMSS :-<br><br>• Buddsoddiadau mewn banciau a chymdeithasau adeiladu sy'n bodloni'r meini prawf sylfaenol yn Atodiad 8 y TMSS (gweler hefyd Tabl 1 uchod);<br>• Banciau yn y DU sydd wedi eu gwladoli neu eu gwladoli'n rhannol yn unol â'r TMSS;<br>• Llywodraeth Ganolog y DU;<br>• Awdurdodau lleol yn y DU;<br>• Cronfeydd marchnad arian sydd â statws AAA yn unol â'r TMSS. |

## TMP5 – Trefniadaeth eglurder gwahaniad cyfrifoldebau a threfniadau delio


Mae'r Cyngor yn ystyried ei fod yn hanfodol, ar gyfer rheoli a monitro effeithiol o'i weithgareddau rheoli trysorlys i leihau'r risg o dwyll neu gamgymeriad, ac i fynd ar drywydd y perfformiad gorau posibl. Mae'r gweithgareddau hyn wedi'u strwythuro a'u rheoli mewn modd cwbl integredig a cheir eglurder bob amser mewn perthynas â chyfrifoldebau rheoli trysorlys. Bydd hyn yn seiliedig ar yr egwyddor bod gwahaniad clir rhwng y rhai sy'n gyfrifol am bennu polisïau rheoli trysorlys a'r rhai sy'n gyfrifol am weithredu a rheoli'r polisïau hynny, yn enwedig o safbwynt gweithredu a throsglwyddo arian, cofnodi a gweinyddu penderfyniadau rheoli trysorlys, ac archwilio ac adolygu'r swyddogaeth rheoli trysorlys.

Pan fydd yr Awdurdod, oherwydd diffyg adnoddau neu amgylchiadau eraill, yn bwriadu gwyro oddi wrth yr egwyddorion hyn, bydd y Swyddog Adran 151 yn sicrhau bod y rhesymau yn cael eu hadrodd yn gywir yn unol â Gofynion Adroddiad TMP6 a'r trefniadau rheoli gwybodaeth, a bydd y goblygiadau yn cael eu hystyried a'u gwerthuso'n iawn. Bydd y Swyddog Adran 151 yn sicrhau bod datganiadau ysgrifenedig clir o gyfrifoldebau ar gyfer pob swydd sy'n ymwneud â rheoli trysorlys, a'r trefniadau wrth gefn pan fydd staff yn absennol. Bydd y swyddog cyfrifol hefyd bob amser yn sicrhau y bydd y rhai sy'n gysylltiedig â rheoli trysorlys yn dilyn y polisïau a'r gweithdrefnau a bennwyd. Ceir manylion am y trefniadau presennol isod.

Bydd y swyddog cyfrifol yn sicrhau bod yna waith papur cywir ar gyfer yr holl gytundebau a thrafodion ariannol, a bod gweithdrefnau ar gael ar gyfer trosglwyddo arian yn effeithiol. Ceir manylion am y trefniadau presennol yn isod. Mae'r swyddogaethau a ddirprwyir i'r swyddog cyfrifol mewn perthynas â rheoli trysorlys hefyd wedi'u nodi isod. Bydd y swyddog cyfrifol yn cyflawni'r holl gyfrifoldebau yn unol â datganiad polisi, TMP y sefydliad ac, os yw'n aelod o CIPFA, gyda'r *Safon Ymarfer Proffesiynol ar Reoli Trysorlys.*

| | |
|---|---|
| **Cynllun dirprwyo** | • Mae'r Cyngor llawn yn cymeradwyo'r TMSS y TMP ac yn derbyn adroddiad ar yr adolygiad canol blwyddyn a diwedd y flwyddyn ariannol ar berfformiad y swyddogaeth rheoli trysorlys;<br>• Mae'r Pwyllgor Gwaith yn ystyried y TMSS, yr adroddiad canol blwyddyn a'r adroddiad diwedd blwyddyn y TMP ac yn gwneud argymhellion i'r Cyngor;<br>• Mae'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethiant yn craffu'r TMSS, yr adroddiadau rheoli trysorlys canol blwyddyn a diwedd blwyddyn a'r TMP.<br>• Dirprwywyd i'r Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151 yr awdurdod am reoli trysorlys;<br>• Mae'r Cyfarwyddwr Swyddogaeth / (Adnoddau) / Swyddog Adran 151 wedi dirprwyo'r dyletswyddau rheoli trysorlys o ddydd i ddydd i'r Rheolwr Cyllid –<br><br>Corfforaethol, Systemau a Thechnegol ac i'r tîm Rheoli Trysorlys a'r tîm Technegol. Dirprwywyd i'r Uwch Gyfrifwyr Gwasanaeth a swyddogion uwch yr hawl i awdurdodi trafodion rheoli trysorlys. |

| | |
|---|---|
| **Egwyddorion ac arferion sy'n ymwneud â gwahanu dyletswyddau** | • Ym marn y Cyngor, mae gwahanu dyletswyddau yn allweddol i sicrhau rheolaethau cadarn a lleihau'r risgiau yn ei weithgareddau rheoli trysorlys. Mae'r cynllun dirprwyaeth uchod mewn perthynas â rheoli'r trysorlys yn sicrhau bod gwiriadau digonol yn cael eu cynnal a bod dyletswyddau wedi eu gwahanu yn y swyddogaeth rheoli trysorlys;<br>• Mae'r balansau yn cael eu gwirio bob bore a'u hasesu yn erbyn incwm y gwyddys ei fod yn ddyledus a thaliadau a wneir gan aelod o dîm rheoli'r trysorlys (RT);<br>• Os disgwylir i'r taliadau fod yn uwch na'r balans yn y cyfrifon gyda'r NatWest, bydd aelod o'r tîm RT yn llenwi ffurflen drosglwyddo yn darparu'r holl fanylion ar gyfer trosglwyddiad i gyfrif cyffredinol NatWest er mwyn cwrdd ag anghenion llif-arian y dydd. Bydd y manylion yn cael eu gwirio gan reolwr llinell y swyddog RT neu Reolwr Cyllid neu swyddog uwch a'u hawdurdodi os ydynt yn gywir;<br>• Yna, caiff y ffurflen drosglwyddo ei phasio i'r tîm Technegol i brosesu'r trosglwyddiad;<br>• Caiff trosglwyddiadau wedyn eu cymeradwyo gan lofnodwyr awdurdodedig nad ydynt yn rhan o'r tîm Corfforaethol, Systemau a Thechnegol ac nad ydynt wedi awdurdodi'r ffurflen drosglwyddo er mwyn sicrhau gwahanu dyletswyddau cyn i'r trosglwyddiad ddigwydd;<br>• Caiff y balansau eu gwirio yn rheolaidd yn ystod y dydd er mwyn sicrhau bod y trosglwyddiadau yn cael eu cwblhau. Os nad yw trosglwyddiad wedi ei gwblhau erbyn 2pm y diwrnod hwnnw, dylai aelod o'r tîm Technegol gysylltu â'r banc o ble y mae'r trosglwyddiad yn cael ei wneud. Bydd hyn yn sicrhau bod y symiau yn cael eu trosglwyddo i'r NatWest erbyn diwedd y diwrnod gwaith. Bydd balansau hefyd yn cael eu hail-wirio tuag at ddiwedd y diwrnod gwaith. Bydd cofnod yn cael ei wneud ar daflen crynhoi llif arian y diwrnod hwnnw gyda balansau'r bore a'r prynhawn yn cael eu gwrth-lofnodi gan reolwr llinell y swyddog RT, Rheolwr Cyllid neu swyddog uwch;<br>• Bydd unrhyw falansau sy'n gost-effeithiol i'w trosglwyddo, h.y. mae'r llog ar gyfer cyfnod y buddsoddiad yn uwch na'r costau trosglwyddo (h.y. y ffioedd CHAPS), yn cael eu trosglwyddo i gwrthbarti yn unol â'r rhestr gymeradwy o wrthbartion a'r TMSS. Bydd y rhain ar y cyfraddau llog gorau posib o fewn y paramedrau, sef eu bod yn hynod ddiogel a bod modd cael atynt. Bydd yr un drefn â'r un a ddilynir wrth drosglwyddo i'r NatWest yn cael ei dilyn gyda phob un o'r pedwar cam o wahanu dyletswyddau. |

<table>
<tr>
<td>Siart Trefniadaeth Rheoli Trysorlys</td>
<td>
</td>
</tr>
<tr>
<td>Datganiad o ddyletswyddau / cyfrifoldebau pob swydd trysorlys</td>
<td>Dirprwywyd i'r Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151 drwy'r cyfansoddiad, y pwerau ar gyfer rheoli'r swyddogaeth Rheoli Trysorlys fel a ganlyn:-
<ul>
<li>argymell cymalau, polisïau / arferion rheoli trysorlys ar gyfer eu cymeradwyo, gan adolygu'r rhain yn rheolaidd, a monitro cydymffurfiaeth;</li>
<li>cyflwyno adroddiadau'n rheolaidd ar bolisïau rheoli trysorlys;</li>
<li>cyflwyno cyllidebau ac amrywiadau i'r cyllidebau;</li>
<li>derbyn ac adolygu adroddiadau ar wybodaeth reoli;</li>
<li>adolygu perfformiad y swyddogaeth rheoli trysorlys;</li>
<li>sicrhau bod digon o adnoddau a sgiliau rheoli trysorlys, a bod cyfrifoldebau wedi eu gwahanu'n effeithiol o fewn y swyddogaeth rheoli trysorlys;</li>
<li>sicrhau bod digon o adnoddau archwilio mewnol a chysylltu gyda'r archwilwyr allanol;</li>
<li>argymell penodi darparwyr gwasanaeth allanol;</li>
<li>mae'r cyfrifoldeb am weithredu a gweinyddu ei benderfyniadau Trysorlys, gan gynnwys penderfyniadau ar fenthyca, buddsoddi a chyllido, wedi eu dirprwyo i'r Swyddog Adran 151, a fydd yn gweithredu yn unol â datganiadau polisi a TMP y Cyngor;</li>
</ul></td>
</tr>
</table>

| | |
|---|---|
| | • Rheolwr y Gwasanaethau Cyfrifeg fydd yn dirprwyo ar gyfer y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151 mewn perthynas â'r dyletswyddau uchod;<br>• Y Rheolwr Cyllid - Corfforaethol, Systemau a Thechnegol fydd yn gyfrifol am reoli'r swyddogaeth rheoli trysorlys o ddydd i ddydd;<br>• Y tîm Cyfalaf, Rheoli Trysorlys ac Ymddiriedolaethau fydd yn gyfrifol am weithrediad y swyddogaeth Rheoli Trysorlys. Mae hyn yn cynnwys rhagamcan llif arian yn y dyfodol, monitro llif arian yn ddyddiol, ymchwilio i wahanol opsiynau ar gyfer buddsoddiadau ac, os bydd angen unrhyw fenthyciadau newydd, cwblhau'r ceisiadau trosglwyddo rheoli trysorlys a awdurdodwyd yn unol â'r pwerau a ddirprwywyd i'r tîm. Y tîm hwn hefyd fydd yn cynhyrchu'r TMSS, y TMP a'r adroddiadau rheoli trysorlys;<br>• Bydd y Tîm Technegol yn prosesu unrhyw drafodion rheoli trysorlys o fewn y systemau bancio. Bydd y tîm technegol yn gwirio'r wybodaeth ddwywaith cyn cwblhau'r trafodion;<br>• Bydd y Rheolwyr Cyllid Gwasanaethau ac Uwch Gyfrifwyr yn awdurdodi trafodion rheoli trysorlys ar sail y dystiolaeth ddogfennol bod y trafodion yn briodol. |
| **Trefniadau wrth gefn ar gyfer Absenoldeb** | • Bydd y Rheolwr Cyllid - Corfforaethol, Systemau a Thechnegol a'r Rheolwr Gwasanaethau Cyfrifeg yn darparu gwasanaeth wrth gefn petai'r ddau aelod o'r tîm rheoli trysorlys yn digwydd bod yn absennol. |
| **Trothwyon Delio** | • £5m fesul trafodiad ('deal'). |
| **Rhestr o Froceriaid Cymeradwy** | • Partneriaid BGC;<br>• Tullet Prebon;<br>• Tradition UK. |
| **Polisi ar Wasanaethau Broceriaid** | • Bydd y Cyngor yn defnyddio'r broceriaid a enwir uchod i ymchwilio i opsiynau rheoli trysorlys a'r camau gweithredu angenrheidiol. Bydd y Swyddog Adran 151 neu'r Rheolwr Gwasanaethau Cyfrifeg yn awdurdodi'r cais am drafodiad ('deal'). Bydd y Cyngor yn gofyn am wybodaeth gan ddau o'r broceriaid a enwir uchod ar gyfer unrhyw drafodiad rheoli trysorlys posibl. Bydd y tîm yn ceisio taenu'r busnes rhyngddynt er mwyn sicrhau gwerth am arian a chynnal cysylltiadau busnes;<br>• Caiff y Cyngor wneud trafodion uniongyrchol mewn perthynas â buddsoddi neu fenthyca i/gan awdurdodau lleol eraill neu gronfeydd pensiwn awdurdod lleol. |
| **Polisi ar recordio sgyrsiau** | • Caiff sgyrsiau gyda broceriaid eu recordio gan y sefydliadau broceriaeth. |

| | |
|---|---|
| **Arferion cyflawni busnes yn uniongyrchol** | • Bydd y tîm rheoli trysorlys yn ymchwilio i'r opsiynau delio a bydd argymhellion ar gyfer trafodion deal newydd yn cael eu gwneud i'r Swyddog Adran 151 neu ei ddirprwy;<br>• Bydd aelodau'r tîm rheoli trysorlys yn cadarnhau'r trafodyn a ddewiswyd gyda'r brocer unwaith y bydd y Swyddog Adran 151 wedi cytuno iddo;<br>• Bydd ffurflen gais rheoli trysorlys yn cael ei chwblhau gyda gwybodaeth i'w chefnogi gan y tîm rheoli trysorlys;<br>• Bydd aelod o'r tîm technegol yn rhoi'r trafodiad i mewn i Bankline a bydd yn gwirio'r manylion ac yn sicrhau bod y Swyddog Adran 151 wedi cymeradwyo'r trafodiad;<br>• Bydd y taliad ar-lein yn cael ei awdurdodi gan ddau lofnodwr awdurdodedig ar ôl gwirio'r manylion a bod y Swyddog Adran 151 wedi ei gymeradwyo;<br>• Caiff y taliad ar-lein ei brosesu gan CHAPS unwaith y bydd wedi'i awdurdodi;<br>• Rhoddir cadarnhad ysgrifenedig i'r gwrthbarti;<br>• Ceir cadarnhad ysgrifenedig o'r trafodiad gan y brocer a / neu'r gwrthbarti a chaiff ei wirio'n ofalus a'i lofnodi gan Reolwr Cyllid neu swyddog uwch;<br>• Bydd unrhyw wahaniaethau rhwng y cadarnhad a gafwyd gan y brocer a'r trafodyn a negodwyd yn cael eu hymchwilio a'u cywiro ar unwaith;<br>• Caiff y trafodiad ei gofnodi yn y llif arian dyddiol a'r cofnod o fuddsoddiadau / benthyciadau fel sy'n berthnasol. |
| **Gofynion o ran dogfennaeth** | • Ar gyfer pob cytundeb a wnaed, dylid cadw cofnod yn rhoi manylion am swm, y cyfnod, y gwrthbarti, y gyfradd llog cofnod, dyddiad delio, dyddiad(au) taliadau, brocer.<br><br>**Buddsoddiadau :-**<br><br>• tocyn trafodiad yn awdurdodi'r buddsoddiad;<br>• cadarnhad gan y brocer;<br>• cadarnhad gan y gwrthbarti;<br>• dogfen trosglwyddo taliad CHAPS.<br><br>**Benthyciadau:-**<br><br>• tocyn trafodiad gyda llofnod yn cytuno i'r benthyciad;<br>• cadarnhad gan y brocer;<br>• cadarnhad gan PWLB / gwrthbartion marchnad;<br>• dogfen trosglwyddo o daliadau CHAPS ar gyfer ad-dalu'r benthyciad. |

## TMP6 – Gofynion adrodd a threfniadau gwybodaeth reoli

Bydd y Cyngor yn sicrhau bod adroddiadau rheolaidd yn cael eu paratoi a'u hystyried ynglŷn â gweithredu ei bolisïau rheoli trysorlys. Bydd y rhain yn ystyried effeithiau penderfyniadau a wnaed a thrafodion a wnaed yn unol â'r polisïau hynny; goblygiadau unrhyw newidiadau, yn enwedig rhai cyllidebol, sy'n deillio o ffactorau rheoleiddiol, economaidd, marchnad neu ffactorau eraill sy'n effeithio ar ei weithgareddau rheoli trysorlys; ac ar berfformiad y swyddogaeth rheoli trysorlys.

O leiaf:-

Bydd y Cyngor yn derbyn:-

- Datganiad blynyddol ar y Strategaeth Rheoli Trysorlys yn adrodd ar y strategaeth a'r cynlluniau ar gyfer y flwyddyn i ddod;
- adolygiad canol blwyddyn;
- adroddiad blynyddol ar berfformiad y swyddogaeth rheoli trysorlys, effeithiau'r penderfyniadau a wnaed a'r trafodion a wnaed yn y flwyddyn ddiwethaf, ac ar unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfiaeth â'r datganiad ar bolisi rheoli trysorlys a TMP y sefydliad.

Mae'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethiant yn gyfrifol am graffu gweithgareddau a dangosyddion rheoli trysorlys. Manylir ar y trefniadau presennol a ffurf yr adroddiadau hyn isod:-

| | |
|---|---|
| **Cynnwys ac amlder yr adroddiadau a gyflwynir i'r bwrdd / pwyllgor** | • Bydd pob un o'r adroddiadau uchod yn mynd yn y lle cyntaf i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethiant ar gyfer eu craffu. Byddant wedyn yn mynd i'r Pwyllgor Gwaith gydag unrhyw gyngor gan y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethiant. Bydd y Pwyllgor Gwaith yn gwneud argymhellion a'r adroddiadau wedyn yn mynd gerbron y Cyngor i'w cymeradwyo. |

## TMP7 – Trefniadau cyllidebu, cyfrifo ac archwilio

Bydd y swyddog cyfrifol yn paratoi cyllideb flynyddol ar gyfer rheoli trysorlys ac yn ei diwygio o bryd i'w gilydd os bydd angen hynny a bydd y Cyngor yn ei gymeradwyo. Bydd y materion a gaiff eu hymgorffori yn y gyllideb yn cynnwys, fel gofyniad sylfaenol, y rhai hynny sy'n ofynnol trwy statud neu reoliad, ynghyd â gwybodaeth a fydd yn dangos cydymffurfiad â TMP1 Rheoli Risg, TMP2 Mesur Perfformiad a TMP4 Offerynnau, Dulliau a Thechnegau a Gymeradwywyd. Bydd y swyddog cyfrifol yn rheoli'r gyllideb hon yn effeithiol a bydd yn adrodd ar, ac yn argymell, unrhyw newidiadau y mae angen eu gwneud yn unol TMP6 Gofynion Adrodd a threfniadau gwybodaeth reoli.

Bydd y Cyngor yn rhoi cyfrif am ei weithgareddau rheoli trysorlys am y penderfyniadau a wnaed a'r trafodion ariannol a weithredwyd a hynny'n unol ag arferion cyfrifyddu priodol, safonau, gofynion statudol a rheoleiddiol sydd mewn grym am y pryd.

| | |
|---|---|
| **Gofynion statudol / rheoleiddiol** | • Bydd y Cyngor yn cydymffurfio â'r holl ofynion statudol a rheoleiddiol sy'n ymwneud â Rheoli Trysorlys (gweler 1.6 uchod). Mae Côd Rheoli Trysorlys CIPFA 2017 a Chôd Darbodus CIPFA 2017 yn ymgorffori'r gofynion cyfreithiol hyn ac yn eu atodi gyda chanllawiau ymarferol. Felly, mae'r Cyngor wedi mabwysiadu'r côd, a bydd yn rheoli ei swyddogaeth rheoli trysorlys yn unol â chodau CIPFA. |
| **Arferion a safonau cyfrifyddu** | • Fel y nodir uchod, bydd y Cyngor yn cydymffurfio â chodau canlynol CIPFA i sicrhau arferion cyfrifyddu priodol a chydymffurfiaeth â safonau mewn perthynas â'i swyddogaeth rheoli trysorlys:-<br>• Côd Ymarfer CIPFA ar Reoli'r Trysorlys 2017 ac arweiniad cysylltiedig;<br>• Côd Darbodus CIPFA 2017;<br>• CIPFA SerCOP;<br>• Côd Ymarfer CIPFA ar gyfer Cadw Cyfrifon mewn Awdurdodau Lleol a chanllawiau cysylltiedig i ymarferwyr. |

| | |
|---|---|
| **Rhestr o'r wybodaeth y bydd archwilwyr allanol yn gofyn amdani** | • Bydd adroddiad ar y trafodion, asedau a rhwymedigaethau Rheoli Trysorlys yn cael ei gynnwys yn Natganiad Cyfrifon blynyddol y Cyngor sy'n destun archwiliad allanol;<br>• Bydd y Cyngor yn caniatáu mynediad at yr holl wybodaeth rheoli trysorlys y mae'r tîm archwilio ei hangen i wirio bod y cyfrifon yn adlewyrchiad cywir a theg o faterion ariannol y Cyngor, gan gynnwys gweithgareddau rheoli trysorlys;<br>• Mae yna nifer o nodiadau penodol mewn perthynas â rheoli trysorlys. Bydd papurau gwaith cadarn, tystiolaeth o'r ffynonellau a thrafodion a balansau'r system ariannol mewn perthynas â'r flwyddyn ariannol yn cael eu cynnwys gyda'r nodiadau hyn;<br>• Dyma enghreifftiau o'r mathau o wybodaeth rheoli trysorlys y bydd eu hangen ar gyfer yr archwiliad:-<br>• Datganiad Strategaeth Rheoli Trysorlys;<br>• Adroddiad rheoli trysorlys blynyddol a chanol blwyddyn;<br>• Arferion Rheoli Trysorlys;<br>• Benthyciadau newydd a gymerwyd yn ystod y flwyddyn, dogfennaeth ffynhonnell;<br>• Rhestr lawn o'r benthyciadau y mae angen eu talu'n ôl a'r dyddiadau y maent yn aeddfedu;<br>• Benthyciadau a ailstrwythurwyd yn ystod y flwyddyn, gan gynnwys premiymau a gostyngiadau;<br>• Cydymffurfiaeth â gofynion cyfrifyddu;<br>• Amorteiddio enillion neu golledion ar ail-brynu benthyciadau;<br>• Dadansoddiad o fenthyca rhwng y tymor byr a'r tymor hir;<br>• Costau cyllido dyledion a chyllido, gan gynnwys cyfrifiadau a chlandriadau;<br>• Cyfrifiadau MRP a dadansoddiad o'r symudiad yn y CFR;<br>• Sefyllfa o ran gorddrafft banc (os oes un);<br>• Costau'n ymwneud â broceriaeth, comisiynau a thrafodion;<br>• Trafodion buddsoddi yn ystod y flwyddyn gan gynnwys unrhyw gostau trafodion;<br>• Balansau arian parod a banc ar ddiwedd y flwyddyn;<br>• Buddsoddiadau tymor byr a thymor hir ar ddiwedd y flwyddyn, gan gynnwys dogfennau ffynhonnell;<br>• Cyfrifo llog a llog sydd wedi cronni;<br>• Llog gwirioneddol a dderbyniwyd;<br>• Adroddiad Gwerth Teg Capita;<br>• Tystiolaeth o deitl i fuddsoddiadau;<br>• Cysoni'r symudiad mewn arian parod i'r symudiad yn y ddyled net;<br>• Arian sy'n llifo i mewn ac allan;<br>• Cynnydd / gostyngiad net yn y benthyciadau tymor byr, adneuon tymor-byr a ffynonellau hylifol eraill. |
| **Archwilio mewnol** | • Mae archwilio mewnol yn adolygu systemau ac yn profi trarfodion yn rheolaidd. Bydd unrhyw gais am wybodaeth gan yr archwilwyr mewnol yn cael ei ddarparu cyn gynted ag sy'n bosibl ac o fewn 3 diwrnod gwaith fan bellaf. |

## TMP8 – Rheoli Arian a Llif Arian

Oni bai bod gofynion statudol neu reoleiddiol yn mynnu fel arall, y Swyddog Adran 151 fydd yn rheoli'r holl arian sydd yn nwylo'r sefydliad hwn, a bydd yn cael ei agregu i bwrpas rheoli llif arian a buddsoddiadau. Bydd rhagamcanion o'r llif arian yn cael eu paratoi'n rheolaidd ac yn brydlon, a bydd y swyddog cyfrifol yn sicrhau bod y rhain yn ddigonol i ddibenion monitro cydymffurfiad â TMP1[1] *rheoli risg hylifedd.* Caiff y trefniadau presennol ar gyfer paratoi rhagamcanion llif arian, a'u ffurf, eu nodi yn yr atodlen i'r ddogfen hon.

| | |
|---|---|
| **Trefniadau ar gyfer paratoi / cyflwyno datganiadau llif arian** | • Caiff rhagolwg manwl o'r llif arian blynyddol ei baratoi ar gyfer cymeradwyo'r gyllideb bob blwyddyn ariannol;<br>• Bydd hyn yn cymryd i ystyriaeth y gyllideb a bydd yn edrych ar wybodaeth hanesyddol;<br>• Bydd y rhagolygon o'r llif arian yn darparu amcangyfrif am yr arian a fydd yn llifo i mewn ac allan bob mis a chaiff ei adolygu bob mis;<br>• Yn ogystal, cedwir cofnod o symudiadau a balansau'r llif arian a chaiff ei ddiweddaru bob bore a phrynhawn. Caiff ei lofnodi naill ai gan yr Uwch Gyfrifydd ar gyfer Cyfalaf, Rheoli Trysorlys neu, petai'r Uwch Gyfrifydd yn ei gwblhau, gan ei reolwr llinell neu Reolwr Cyllid arall nad yw'n rhan o'r broses o awdurdodi unrhyw drafodion rheoli trysorlys y diwrnod hwnnw,<br>• Mae'r rhagolygon llif arian a'r cofnod dyddiol o'r llif arian o gymorth i wneud penderfyniadau a nodi unrhyw brinder neu ormodedd o arian parod;<br>• Caiff trafodion a balansau rheoli trysorlys eu cofnodi ar feddalwedd Logotech rheoli trysorlys y Cyngor. |
| **Cynnwys ac amlder rheoli llif arian** | • Caiff llif arian ei fonitro yn y bore a'r prynhawn a chaiff y rhagolygon mewn perthynas â'r llif arian blynyddol eu hadolygu'n rheolaidd;<br>• Dyma'r wybodaeth sydd ei hangen mewn perthynas â llif arian:-<br>• Arian y gwyddys ei fod yn dod i mewn yn rheolaidd: RSG, derbyniadau TAC, derbyniadau'r Dreth Gyngor;<br>• Amcangyfrif o'r arian a ddaw i mewn: grantiau, incwm amrywiol (ffioedd a thaliadau ac ati), derbyniadau cyfalaf;<br>• Amcangyfrif o'r arian sy'n cael ei dalu allan: cyflogau, pensiynau, ac ati, budd-daliadau tai, credydwyr ac ati. |
| **Rhestru ffynonellau gwybodaeth** | • Mae systemau ar waith i sicrhau bod y tîm rheoli trysorlys yn cael eu hysbysu ynghylch llif arian sylweddol. Mae cyfrif ebost penodol ar gyfer Rheoli Trysorlys y mae credydwyr, y gyflogres ac ati yn anfon manylion iddo am symiau sydd i'w talu allan;<br>• Bydd credydwyr yn rhoi gwybod i'r tîm am swm taliadau pob credydwr ac mae hynny'n rhoi 2 ddiwrnod i sicrhau bod balans yr arian parod yn ddigonol;<br>• Mae'r gyflogres yn cadarnhau'r symiau 2 ddiwrnod cyn talu cyflogau;<br>• Mae'r gwasanaethau cyfreithiol ac eiddo yn hysbysu'r tîm am unrhyw dderbyniadau cyfalaf disgwyliedig;<br>• Mae'r rheolwr grantiau yn hysbysu'r tîm Rheoli Trysorlys am y grantiau a ddisgwylir a hynny fel arfer unwaith y bydd y ffurflenni hawliau grantiau wedi cael eu cwblhau;<br>• Mae'r tîm yn edrych ar yr incwm amrywiol cyfartalog yn y gorffennol i amcangyfrif hyn. |

| | |
|---|---|
| **Gweithdrefnau Datganiadau Banc** | • Mae datganiadau banc papur yn cael eu hanfon bob mis gan NatWest a'r gwrthbartïon y mae gennym adneuon ynddynt;<br>• Yn ogystal, mae mynediad amser gwirioneddol ar gael drwy Bankline neu gyfleusterau bancio ar-lein y gwrthbartïon. |
| **Amserlenni ar gyfer talu a chytuno telerau masnachu gyda chredydwyr** | • Mae'r Cyngor yn talu credydwyr ar y rhediad credydwr nesaf wedi i'r anfonebau gael eu hawdurdodi. Mae hyn yn debygol o ddigwydd cyn i'r telerau masnachu ddod i ben. Gwneir hyn er mwyn cefnogi'r economi leol a busnesau bach. Fodd bynnag, os oedd anawsterau o ran llif arian, byddai'r Cyngor yn ail-ystyried ac yn dychwelyd i'r drefn o dalu yn unol â'r telerau masnachu sydd, fel arfer, yn 30 diwrnod. |
| **Trefniadau ar gyfer monitro lefelau credydwyr / dyledwyr** | • Mae'r system ariannol Civica yn cynhyrchu adroddiadau rheolaidd er mwyn caniatáu i'r tîm rheoli fonitro lefelau credydwyr a dyledwyr. Bob chwarter, caiff y ddarpariaeth dyledion drwg ei hadolygu. |
| **Gweithdrefnau ar gyfer bancio arian** | • Fel arfer, caiff arian ei drosglwyddo yn electronig;<br>• Lle mae arian parod yn cael ei gasglu yn adeiladau'r Aawdurdod, er enghraifft, yn y canolfannau hamdden, bydd Securityplus yn ei gasglu ac yn talu'r arian parod a'r sieciau i ganolfan arian / arian parod NatWest;<br>• Bydd arian a delir yn swyddfeydd sirol y Cyngor a'r ysgolion yn cael ei dalu i mewn i'r banc NatWest agosaf ar y cyfle cyntaf yn unol â'r Rheolau Gweithdrefn Ariannol. |

## TMP9 – Gwyngalchu Arian

Mae'r sefydliad hwn yn effro i'r posibilrwydd y gallai ddod yn destun ymgais i'w gynnwys mewn trafodiad sy'n cynnwys gwyngalchu arian. Yn unol â hynny, bydd yn cynnal gweithdrefnau ar gyfer gwirio a chofnodi pwy yw'r gwrthbartïon ac adrodd ar unrhyw amheuon, a bydd yn sicrhau bod staff sy'n ymwneud â hyn yn cael eu hyfforddi'n briodol. Mae'r trefniadau presennol, gan gynnwys enw'r swyddog y dylid rhoi gwybod iddo/iddi, wedi eu cynnwys isod.

| | |
|---|---|
| **Polisi a gweithdrefnau i leihau'r risg o dwyll, llwgrwobrwyo a gwyngalchu arian** | • Bydd y gweithgareddau Rheoli Trysorlys yn dilyn polisïau'r Cyngor isod i leihau'r risg o dwyll, llwgrwobrwyo a gwyngalchu arian;<br>• Polisi Cyngor Sir Ynys Môn ar gyfer atal twyll a llygredd;<br>• Polisi a Gweithdrefnau Atal Gwyngalchu Arian Cyngor Sir Ynys Môn;<br>• Cynllun ymateb i dwyll. |
| **Gweithdrefnau ar gyfer sefydlu pwy yw benthycwyr a'u dilysrwydd** | • Ni fydd y Cyngor ond yn ymrwymo i drefniadau benthyca gyda sefydliadau sydd wedi cael eu gwirio gan yr Awdurdod Gwasanaethau Ariannol www.fsa.gov.uk a gyda chyngor gan ein Hymgynghorwyr Rheoli Trysorlys arbenigol. |
| **Methodoleg ar gyfer nodi ffynonellau adneuon** | • Bydd yr holl wrthbartïon ar y rhestr o wrthbartïon cymeradwy ac yn cydymffurfio â'r TMSS. Bydd yr holl wrthbartïon yn sefydliadau sydd wedi eu graddio ar y rhestr statws credyd a ddarparwyd gan Capita. Caiff y rhain raddfeydd tymor hir a thymor byr gan Fitch, Moodys a S&P. |
| **Trafodion Rheoli Trysorlys** | • Mae trefn y Cyngor o wahanu dyletswyddau y manylir arno uchod yn TMP5, yn lleihau'r risg o wyngalchu arian a thwyll. |

## TMP10 – Hyfforddiant a Chymwysterau

Mae'r Cyngor yn cydnabod pwysigrwydd sicrhau bod yr holl staff sy'n ymwneud â'r swyddogaeth rheoli trysorlys yn cael eu paratoi'n llawn i ymgymryd â'r dyletswyddau a'r cyfrifoldebau a ddyrannwyd iddynt. Felly, bydd yn ceisio penodi unigolion sydd yn fedrus ac yn brofiadol a bydd yn darparu hyfforddiant ar gyfer staff er mwyn eu galluogi i ennill a chynnal lefel briodol o arbenigedd, gwybodaeth a sgiliau. Bydd y Swyddog Adran 151 yn argymell ac yn gweithredu'r trefniadau angenrheidiol.

Bydd y Swyddog Adran 151 yn sicrhau bod Aelodau'r bwrdd/y Cyngor sydd yn gyfrifol am reoli trysorlys, gan gynnwys y rhai sy'n gyfrifol am graffu, yn cael hyfforddiant sy'n berthnasol i'w hanghenion a'r cyfrifoldebau hynny. Bydd y rhai sy'n gyfrifol am lywodraethiant yn cydnabod eu cyfrifoldeb unigol i sicrhau bod ganddynt y sgiliau angenrheidiol i gwblhau eu rôl yn effeithiol.

| | |
|---|---|
| **Manylion y cyrsiau hyfforddi cymeradwy** | • Cyrsiau Rheoli Trysorlys CIPFA a Capita. |
| **Manylion y cymwysterau cymeradwy** | • Cymwysterau cyfrifeg CCAB a CIMA, AAT, cymwysterau Rheoli Trysorlys achrededig penodol, cymwysterau achrededig sy'n darparu sgiliau trosglwyddadwy. |
| **Manylion am gymwysterau staff trysorlys** | • Mae'r Uwch Gyfrifydd - Cyfalaf, Rheoli Trysorlys ac Ymddiriedolaethau yn aelod cyswllt o CIPFA, ICAI (Institute of Chartered Accountants Ireland) rhannol gymwys ac â gradd mewn Astudiaethau Busnes;<br>• Mae'r Rheolwr Cyllid - Corfforaethol, Technegol a Systemau yn aelod cymwys o CIMA ac â gradd mewn Gwyddor Rheoli – Economeg, MA yn y gyfraith a'r NVQ ILM a OCR lefel 5 mewn Arweinyddiaeth a Rheolaeth. |
| **Cofnod o hyfforddiant y staff** | • Mae'r tîm yn mynychu cyrsiau rheoli trysorlys CIPFA a Capita yn rheolaidd er mwyn cadw i fyny gyda gofynion Rheoli Trysorlys;<br>• Caiff cofnodion hyfforddiant eu cadw gan Gydlynydd Hyfforddiant y swyddogaeth a chan Adnoddau Dynol. |
| **Cofnodion o hyfforddiant a dderbyniwyd gan y rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu** | • Rhoddir hyfforddiant i Aelodau bob blwyddyn gan Capita. Bydd y tîm rheoli trysorlys yn mynychu'r rhain. |

## TMP11 – Defnyddio darparwyr gwasanaeth allanol

Mae'r Cyngor yn cydnabod mai'r sefydliad sydd â chyfrifoldeb bob amser am benderfyniadau rheoli trysorlys. Mae'n cydnabod y gallai fod gwerth posibl i gyflogi darparwyr gwasanaethau rheoli trysorlys allanol er mwyn cael at sgiliau ac adnoddau arbenigol. Pan fydd yn cyflogi darparwyr gwasanaethau yn y modd hwn, bydd yn sicrhau ei fod yn gwneud hynny am resymau sydd wedi cael eu gwerthuso'n llawn o safbwynt y costau a'r buddion. Bydd hefyd yn sicrhau bod telerau eu penodiad a'r dulliau a ddefnyddir i asesu eu gwerth yn cael eu cytuno a'u dogfennu'n gywir a'u hadolygu'n rheolaidd. Bydd hefyd yn sicrhau, lle mae hynny'n ymarferol ac yn angenrheidiol, fod amrediad o ddarparwyr gwasanaeth yn cael eu defnyddio, er mwyn osgoi gorddibyniaeth ar un neu nifer fechan o gwmnïau. Lle mae rhaid tendro neu ail-dendro gwasanaethau, byddir yn glynu wrth ofynion deddfwriaethol bob amser. Y swyddog cyfrifol fydd yn monitro trefniadau o'r fath a chaiff manylion am y trefniadau cyfredol eu nodi yn yr atodlen i'r ddogfen hon.

| | |
|---|---|
| **Manylion y contractau gyda darparwyr gwasanaeth, gan gynnwys banciau, broceriaid, ymgynghorwyr, gwasanaeth cynghori a manylion am y gwasanaethau a ddarperir** | **<u>Bancio:-</u>**<br><br>• Prif fancwyr y Cyngor yw: NatWest sy'n rhan o grŵp RBS, Ffordd Glanhwfa, Llangefni, Ynys Môn, LL77 7YW;<br>• Mae gan y Cyngor hefyd gyfrifon gyda Santander ar gyfer GIROs swyddfa bost.<br><br>**<u>Ymgynghorydd y Trysorlys:-</u>**<br><br>• Link Asset Services,<br>6ed Llawr, 65 Gresham Street, Llundain, EC2V 7NQ.<br><br>**<u>Broceriaid:-</u>**<br><br>• Partneriaid BGC;<br>• Tullet Prebon;<br>• Tradition UK.<br><br>**<u>Trafodion BACS:-</u>**<br><br>• **Bottomline Technologies** |
| **Statws Rheoleiddiol y gwasanaethau a ddarperir** | • Mae pob un yn sefydliad a reoleiddir. |
| **Gweithdrefnau ac amlder ar gyfer gwasanaethau tendro** | • Mae'r Cyngor yn ymrwymo i lynu wrth y rheolau Gweithdrefn Contractau sy'n rhan o'r cyfansoddiad. Rhaid hysbysebu unrhyw gontractau sy'n debygol o fod yn £25k neu'n uwch ar gwerthwchigymru. Cafodd y contract ymgynghoriaeth rheoli trysorlys hefyd ei hysbysebu ar gwerthwchigymru a'i werthuso'n gadarn, er bod swm y contract yn llai na'r swm gorfodol;<br>• Argymhellir bod contractau'n rhedeg am gyfnod o 3 blynedd gydag opsiwn i ymestyn am hyd at 2 flynedd gyda chytundeb y ddau barti. |

## TMP 12 – Llywodraethiant Corfforaethol

Mae'r Awdurdod yn ymrwymedig i sicrhau llywodraethiant corfforaethol priodol ar draws ei fusnesau a’i wasanaethau, ac i sefydlu'r egwyddorion a’r arferion ar gyfer cyflawni hynny. O’r herwydd, bydd y bydd y swyddogaeth rheoli trysorlys a'i gweithgareddau yn cael eu cynnal yn agored, yn dryloyw a chyda gonestrwydd, uniondeb ac atebolrwydd.

Mae'r Cyngor wedi mabwysiadu, ac wedi gweithredu, egwyddorion allweddol y Côd. Ystyrir bod hyn, ynghyd â'r trefniadau eraill y manylir arnynt drwy'r ddogfen hon, yn hanfodol i sicrhau llywodraethiant corfforaethol priodol wrth reoli trysorlys. Bydd y Swyddog Adran 151 yn monitro ac, os a phan fo angen, yn adrodd ar effeithiolrwydd y trefniadau hyn.

| | |
|---|---|
| **Rhestr o ddogfennau cyhoeddus i fod ar gael i'r cyhoedd eu harchwilio** | • Datganiad Cyfrifon Blynyddol;<br>• Datganiad Strategaeth Rheoli Trysorlys;<br>• Adroddiad canol-blwyddyn ar Reoli Trysorlys;<br>• Adroddiad Blynyddol ar Reoli Trysorlys;<br>• Arferion Rheoli Trysorlys. |
| **Gweithdrefnau ar gyfer ymgynghori gydag chydranddeiliaid** | • Ymgynghorir bob blwyddyn â chydranddeiliaid ar y gyllideb flynyddol, sy'n cynnwys cyllidebau refeniw rheoli trysorlys. |
| **Rhestr o gronfeydd allanol a reolir ar ran eraill a’r sail ar gyfer priodoli llog a enillwyd a chostau i’r buddsoddiadau hyn** | • Mae’r Cyngor yn rheoli nifer o gyfrifon apwyntai / gwarcheidwadaeth ar ran unigolion. Nid yw'r rhain yn rhan o'r Contract Gorfforaethol ond yn cael eu cadw gyda banc y Cyngor, NatWest. Bydd unrhyw gostau y gellir eu priodoli i'r cyfrifon yn cael eu codi ar y cyfrifon a bydd unrhyw log a enillir hefyd yn cael ei dalu ar sail wirioneddol ar gyfer y cyfrif hwnnw;<br>• Mae'r Cyngor yn ymddiriedolwr i nifer o ymddiriedolaethau elusennol ac ymddiriedolaethau llai. Mae’r gyfradd log gyfartalog ar adneuon yn berthnasol i falansau’r ymddiriedolaethau hyn. Codir tâl ar bob ymddiriedolaeth i gwrdd â chostau gweinyddu a rheoli’r ymddiriedolaethau a hynny’n unol â chyfarwyddyd y Comisiwn Elusennau. |

## TMP 13 - Buddsoddiadau nad ydynt yn Fuddsoddiadau Rheoli Trysorlys

Yn ogystal â buddsoddiadau Rheoli Trysorlys, mae gan y Cyngor bortffolio o eiddo buddsoddi, sydd yn cynhyrchu incwm rhent i'r Cyngor. Maent yn cael eu rheoli gan adain Gwasanaethau Eiddo'r Cyngor. Mae'r eiddo buddsoddi hyn yn cynorthwyo i leihau risg drwy gyflwyno mwy o amrywiaeth i fuddsoddiadau'r Cyngor. Mae'r buddsoddiadau'n cynorthwyo i ddarparu incwm ychwanegol i'r Cyngor mewn cyfnod pan mae cyllid a dderbynnir gan y Llywodraeth yn gostwng. Mae'r eiddo'n cael eu dal am y tymor hir ac yn cael eu cynnal â'u cadw yn unol â gofynion cyfreithiol. Mae gan y Cyngor hawl cyfreithiol dan Ddeddf Llywodraeth Leol 2003 (Adran 12) i fuddsoddi:

**a)** I unrhyw bwrpas sy'n berthnasol i'w swyddogaethau dan unrhyw ddeddf; neu
**b)** I ddibenion rheoli ei faterion ariannol mewn ffordd ddarbodus.

O ganlyniad, mae portffolio Eiddo Buddsoddi'r Cyngor yn cael ei awdurdodi gan y ddeddfwriaeth uchod am y rhesymau a nodir yn Adran 12 a) a b).

Cyllidwyd sawl un o eiddo buddsoddi'r Cyngor gan gyllid allanol llawn neu sylweddol drwy grantiau Ewropeaidd neu gan Lywodraeth Cymru. Ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn, mae'r Cyngor yn cymryd rhan mewn menter ar y cyd gyda Llywodraeth Cymru i adeiladu unedau diwydiannol ym Mhenrhos, Caergybi a dylent gael eu cwblhau yn ystod 2020. Yn fwy diweddar, derbyniodd y Cyngor gyllid grant sylweddol i adeiladu unedau diwydiannol newydd yn Llangefni, sydd bellach wedi cael eu cwblhau ac yn weithredol. Cynllun strategol y Cyngor mewn perthynas ag eiddo buddsoddi yw cadw ei afael ar unedau hyfyw a'u cynnal a'u cadw ac adeiladu unedau newydd lle mae cyllid allanol sylweddol ar gael. Mae hyn yn cydymffurfio â Strategaeth Gyfalaf y Cyngor a Chynllun y Cyngor 2017-22. Mae derbyn cyllid grant i adeiladu eiddo buddsoddi yn cynorthwyo'r Cyngor i wneud y defnydd gorau posib o gyllid allanol ac yn darparu incwm rhent ychwanegol i leihau'r angen am dreth gyngor ayb.

### Gwybodaeth am Eiddo Buddsoddi'r Cyngor

Dengys Datganiad Cyfrifon 2018/19 Ynys Môn bod y portffolio eiddo buddsoddi werth £6m, fel y gwelir isod. Mae cyfran sylweddol (75%) o'r portffolio yn cynnwys Unedau Masnachol, sef unedau diwydiannol yn bennaf.

| Mesuriadau gwerth teg cylchol fel ar 31 Mawrth 2019 gan ddefnyddio: | Prisiau a ddyfynnir mewn marchnadoedd gweithredol ar gyfer asedau o'r un math (lefel 1) £'000 | Mewnbynnau sylweddol eraill y gellir eu harsylwi (lefel 2) £'000 | Mewnbynnau sylweddol nas gellir eu harsylwi (lefel 3) £'000 | Gwerth Teg fel ar 31 Mawrth 2019 £'000 |
|---|---|---|---|---|
| Eiddo Manwerthu | - | 820 | - | 820 |
| Swyddfeydd | - | 658 | - | 658 |
| Unedau masnachol | - | 4,522 | - | 4,522 |
| **Cyfanswm** | **-** | **6,000** | **-** | **6,000** |

Dengys y tabl isod bod ffrwd incwm net o eiddo buddsoddi'r Cyngor yn 2017/18 a 2018/19.

| Gwariant ac Incwm o Eiddo Buddsoddi | 2018/19 £000 | 2017/18 £000 |
|---|---|---|
| | | |
| Gwariant | 129 | 164 |
| | | |
| Incwm | (346) | (331) |
| | | |
| Gwariant/(Incwm) Net | (217) | (167) |

Mae'r Cyngor hefyd yn berchen ar nifer sylweddol o eiddo domestig sydd wedi'i glustnodi ac sy'n cael ei adnabod fel y Cyfrif Refeniw Tai (CRT). Nid ydynt yn cael eu dynodi fel eiddo buddsoddi ac nid ydynt yn cael eu cynnwys yn y portffolio eiddo buddsoddi oherwydd bod y Cyngor yn darparu tai fel rhan o'i weithgareddau tai cymdeithasol ac nid yn unig er mwyn buddsoddi mewn eiddo domestig er mwyn denu incwm rhent. Yn yr un modd, nid yw mân-ddaliadau'n cael eu cynnwys yn y portffolio eiddo buddsoddi oherwydd mai amcan allweddol darparu mân-ddaliadau yw cefnogi'r sector amaeth ar Ynys Môn oherwydd ei bwysigrwydd i'r Ynys.

| | |
|---|---|
| **Rheoli Risg (TMP1)** | • Mae nifer o'r risgiau yn TMP1 uchod yn berthnasol i fuddsoddiadau nad ydynt yn fuddsoddiadau rheoli trysorlys;<br>• Risg Credyd a Gwrthbarti – mae'r risg o golli arian buddsoddi yn is na'r risg a gyflwynir gan nifer o fuddsoddiadau rheoli trysorlys oherwydd bod gan y Cyngor fwy o reolaeth dros yr eiddo buddsoddi, gan gynnwys dal y gweithredoedd. Wrth osod eiddo buddsoddi ar brydles, bydd yr adain Gwasanaethau Eiddo yn dewis y tenant mwyaf addas sy'n cynnig yr amodau gorau posib i'r Cyngor o safbwynt rhent, defnydd o'r eiddo a statws y tenant. Amlygir hyn yng Nghanllawiau Gosod Eiddo Masnachol y Cyngor;<br>• Risg hylifedd – mae buddsoddi mewn eiddo yn creu risg hylifedd uwch gan nad oes modd cael gafael ar arian parod yn gyflym gan na fyddai'r arian buddsoddi ar gael tan i'r eiddo gael ei werthu, proses sy'n gallu cymryd amser. Pan fydd eiddo buddsoddi yn cael eu gosod a phan fydd y prydleswr/tenant yn talu rhent ar amser, mae hynny yn cynorthwyo llif arian. Fodd bynnag, pan fydd unedau yn wag, neu phan na fydd tenantiaid yn talu rhent ar amser, mae hyn yn cael effaith andwyol ar lif arian;<br>• Risg cyfradd llog - mae cyfradd llog sylfaenol y banc wedi bod yn isel iawn ers y dirwasgiad/argyfwng bancio yn 2008. Golyga hyn bod enillion ar fuddsoddiadau arian parod yn isel. Mae llogau ar adneuon banc yn llai na 1% ac wedi bod mor isel â hyn am nifer o flynyddoedd. Bydd cyfradd yr enillion ar eiddo masnachol yn amrywio yn ôl ardal ond tuedda enillion i fod yn 5% neu uwch. Nid yw risg cyfradd llogau yn cael ei ddileu gan fod cyfraddau llog isel yn gysylltiedig ag economi araf neu ddirwasgiad. Gall hyn arwain at gynnydd mewn unedau gwag neu risg na fydd y prydleswr yn talu rhent; |

| | |
|---|---|
| | • Rheoli risg gyfreithiol a rheoleiddiol – rhaid i'r Cyngor ymateb yn gyson i ofynion cyfreithiol a rheoleiddiol. Bydd safonau cynnal a chadw uwch ar gyfer eiddo buddsoddi yn cynyddu'r gwariant sy'n ofynnol, er bod cadw eiddo mewn cyflwr da yn diogelu eiddo buddsoddi i'r dyfodol. Mae'r Cyngor yn cynnal ei bortffolio buddsoddi i safon da. Mae'r Cyngor hefyd yn lleihau risg drwy sicrhau bod eiddo buddsoddi yn cydymffurfio â Deddfau Llywodraeth Leol. Mae risg bychan y bydd Llywodraeth Cymru yn gwrthdroi pwerau buddsoddi awdurdodau lleol. Gallai hyn olygu na fyddai modd buddsoddi ymhellach mewn eiddo yn y dyfodol neu y byddai'n rhaid i'r Cyngor werthu ei bortffolio eiddo buddsoddi. Mae'r holl ddeddfwriaeth a'r canllawiau a restrir yn 1.6 uchod hefyd yn berthnasol i eiddo buddsoddi;<br>• Rheoli Twyll, Camgymeriad, Llygredd a Hapddigwyddiadau – mae'r gweithdrefnau ac arferion canlynol yn cynorthwyo i leihau'r risg o reoli twyll, camgymeriad, llygredd a hapddigwyddiadau mewn perthynas ag Eiddo Buddsoddi:-<br>**1)** Polisi a Gweithdrefnau Rheoli Asedau;<br>**2)** Canllawiau gosod eiddo masnachol;<br>**3)** Cyfansoddiad y Cyngor, yn arbennig 4.8 Gweithdrefnau Ariannol;<br>**4)** Fframwaith Lywodraethu'r Cyngor gan gynnwys rôl y Pwyllgor Gwaith;<br>**5)** Mae'r adran Gyfreithiol yn llunio cytundebau prydles ac yn cysylltu â chyfreithwyr y darpar denant;<br>**6)** Mae Swyddogaeth Adnoddau'r Cyngor yn cwblhau holl drafodion y Cyngor, gan gynnwys y rhai sy'n ymwneud ag Eiddo Buddsoddi. Mae gwahanu dyletswyddau a rheolau awdurdodi ar gyfer trafodion yn cynorthwyo i leihau risgiau;<br>• Risg y Farchnad – mae'r farchnad eiddo'n tueddu i godi a gostwng yn fwy araf na nifer o farchnadoedd buddsoddi gwahanol megis y marchnadoedd ecwiti ayb. Bydd risg y farchnad yn codi a gostwng hefyd yn dibynnu ar fath yr eiddo buddsoddi. Mae llai o risg i eiddo domestig nag eiddo masnachol oherwydd bod galw cryf am eiddo domestig. Mae risg y bydd eiddo buddsoddi'r Cyngor yn denu rhenti is neu y bydd mwy o unedau yn wag pan fydd dirywiad yn yr economi. Mae risg hefyd yn ngwerth buddsoddi yn ystod dirywiad economaidd. Byddai hyn yn cael effaith ar y Cyngor pe bai uned ddiwydiannol yn cael ei rhoi ar werth. Nid yw'r Cyngor yn buddsoddi mewn eiddo buddsoddi sy'n creu mwy o risg, megis parciau manwerthu. |
| **Mesur a Rheoli Perfformiad (TMP2)** | • Y Gwasanaethau Eiddo sy'n gyfrifol am berfformiad a rheolaeth weithredol yr eiddo buddsoddi a rhoddir ystyriaeth i gynlluniau rheoli'r ased mewn perthynas ag eiddo buddsoddi, cyfraddau meddiannaeth a pherfformiad ariannol. |

| | |
|---|---|
| **Gwneud penderfyniadau, Llywodraethiant a Threfniadaeth (TMP5)** | • Mae Cyfansoddiad y Cyngor yn nodi'r fframwaith gwneud penderfyniadau a llywodraethu ar gyfer yr holl wasanaethau, gan gynnwys eiddo buddsoddi. Bydd y gyllideb gwariant ac incwm flynyddol ar gyfer yr eiddo buddsoddi yn cael ei chynnwys yng nghyllideb y Gwasanaeth Eiddo. Mae'r Panel Cyllid a'r Pwyllgor Sgriwtini yn craffu ar y gyllideb, mae'r Pwyllgor Gwaith yn derbyn adroddiad a'r Cyngor llawn yn ei chymeradwyo;<br>• Y Pwyllgor Gwaith yw'r prif gorff strategol ar gyfer gwneud penderfyniadau mewn perthynas ag asedau'r Cyngor, gan gynnwys eiddo buddsoddi. Ar 14 Rhagfyr 2015, cymeradwyodd y Pwyllgor Gwaith y Cynllun Rheoli Asedau Corfforaethol ar gyfer Tir ac Eiddo 2015 i 2020. Mae hyn yn cynnwys eiddo buddsoddi ac mae'r cynllun gweithredu yn cynnwys dau bwynt (4 a 5) sy'n benodol i'r portffolio eiddo buddsoddi. Yn ogystal, mae Cynllun Rheoli Asedau y Gwasanaeth Eiddo yn llywio gwaith y Gwasanaeth Eiddo, gan gynnwys yr eiddo buddsoddi;<br>• Dirprwywyd awdurdod i'r Pennaeth Priffyrdd, Eiddo a Gwastraff mewn perthynas ag eiddo buddsoddi a bydd yn ofynnol i'r Deilydd Portffolio Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo gymeradwyo rhai materion. Mae gan swyddogion yn y gwasanaeth Eiddo awdurdod dirprwyedig mewn perthynas â gweithrediad dydd i ddydd yr eiddo buddsoddi. Mae swyddogion y Gwasanaeth Cyfreithiol hefyd â rôl bwysig o ran sicrhau bod prydlesau a gwerthiant eiddo buddsoddi yn cael eu negodi a bod contractau mewn lle, yn unol â budd pennaf y Cyngor;<br>• Bydd rhaid i fuddsoddiad mewn eiddo buddsoddi newydd neu waith adnewyddu sylweddol ar eiddo buddsoddi fod yn rhan o'r rhaglen gyfalaf flynyddol a bydd rhaid iddo alinio â Chynllun y Cyngor 2017-2022, y Strategaeth Cyfalaf a strategaethau allweddol eraill y Cyngor. Cyllid grant allanol sylweddol oedd y gyrrwr dros adeiladu unedau diwydiannol newydd wrth i Ewrop a Llywodraeth Cymru fuddsoddi yn yr Ynys i gyflawni eu blaenoriaethau i gefnogi economi Ynys Môn. Mae'r Cyngor llawn yn cymeradwyo pob cynllun yn y rhaglen gyfalaf ac maent yn cael eu monitro bob chwarter gan y Pwyllgor Gwaith. |
| **Adrodd a Gwybodaeth Reoli (TMP6)** | • Mae'r costau a'r incwm yn gysylltiedig ag eiddo buddsoddi yn cael eu cofnodi yn y system ariannol yn erbyn canolfannau cost penodol. Mae Cyfrifydd yn monitro hyn ac yn rhoi gwybodaeth monitro cyllideb i'r sawl sy'n gyfrifol am y gyllideb a'r Pennaeth Gwasanaeth, drwy gydol y flwyddyn.<br>• Mae'r incwm a'r gwariant o'r eiddo buddsoddi yn cael ei gynnwys yn Natganiad Cyfrifon blynyddol y Cyngor ac mae nodyn penodol ynghylch eiddo buddsoddi yn cael ei gynnwys (nodyn 18). Mae hyn hefyd yn cynnwys prisio'r portffolio eiddo buddsoddi.<br>• Mae'r Adain Eiddo yn rheoli gweithrediad dydd i ddydd yr eiddo gan gynnwys prydlesu, cynnal a chadw ac ati, ar y cyd â'r gwasanaethau Cyfreithiol, Datblygu Economaidd ac Adnoddau yn ôl y gofyn;<br>• Mae'r adroddiad prisio blynyddol yn rhestru pob eiddo yn y portffolio eiddo buddsoddi, mae unedau buddsoddi yn cael eu hailbrisio bob blwyddyn yn unol â gofynion CIPFA. |
| **Hyfforddiant a Chymwysterau (TMP10)** | • Mae TMP10 uchod yn amlinellu cymwysterau'r staff Cyfrifyddu sydd yn ymwneud â gwaith cyfrifyddu ar gyfer eiddo buddsoddi; |

| | |
|---|---|
| | • Yn ychwanegol, mae'r eiddo buddsoddi yn cael eu rheoli gan arbenigwyr yn y gwasanaethau Eiddo, gyda dau ohonynt yn aelodau cymwys o RICS ac yn meddu ar raddau prifysgol ym maes Prisio Eiddo;<br><br>• Mae tîm Grantiau arbenigol yn y swyddogaeth Adnoddau yn cefnogi'r gwasanaeth Datblygu Economaidd i ddenu miliynau o bunnoedd o gyllid allanol ar gyfer eiddo buddsoddi. Mae gan y tîm Grantiau gymwysterau ym maes cyllid ac maent yn mynychu digwyddiadau hyfforddi er mwyn cael y wybodaeth a'r canllawiau diweddaraf mewn perthynas â chyllid arian allanol;<br><br>• Fe wnaeth staff yn y Gwasanaeth Datblygu Economaidd sydd yn meddu ar gymwysterau gradd chwarae rôl allweddol wrth ddenu cyllid sylweddol i adeiladu unedau diwydiannol. Yn ogystal, mae staff Datblygu Economaidd wedi cwblhau hyfforddiant rheoli prosiect a rhaglen. |

**Dyddiad ei graffu gan y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethiant:** 11 Chwefror 2020

**Dyddiad ei ystyried gan y Pwyllgor Gwaith:** 2 Mawrth 2020

**Dyddiad ei gymeradwyo gan y Cyngor:** 10 Mawrth 2020

**Awdur:** Claire Klimaszewski

**Dyddiad Adolygu:** 2023 neu'n gynharach os yw unrhyw bolisi mewn perthynas â Rheoli Trysorlys neu Eiddo Buddsoddi yn cael ei ddiwygio.

## **Llyfryddiaeth**

CIPFA. 2017. Côd Ymarfer ar Reoli Trysorlys. CIPFA. Llundain.

CIPFA. 2017. Côd Darbodus. CIPFA. Llundain.

Cyngor Sir Ynys Môn. 2020. Datganiad Strategaeth Rheoli'r Trysorlys 2020/21. Cyngor Sir Ynys Môn. Ynys Môn.

Cyngor Sir Ynys Môn. 2016. Cynllun Rheoli Asedau Corfforaethol. Cyngor Sir Ynys Môn. Ynys Môn.

Cyngor Sir Ynys Môn. 2016. Cynllun Rheoli Asedau Gwasanaethau Eiddo. Cyngor Sir Ynys Môn. Ynys Môn.

Cyngor Sir Ynys Môn. Canllawiau Gosod. Cyngor Sir Ynys Môn. Ynys Môn.

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **ADRODDIAD I:** | **CYNGOR SIR YNYS MÔN** |
| **DYDDIAD:** | **10 MAWRTH 2020** |
| **PWNC:** | **STRATEGAETH GYFALAF A RHAGLEN GYFALAF 2020/21 i 2022/23** |
| **AELOD(AU) PORTFFOLIO:** | **Y CYNGHORYDD ROBIN WYN WILLIAMS** |
| **PENNAETH GWASANAETH:** | **MARC JONES – CYFARWYDDWR SWYDDOGAETH (ADNODDAU) / SWYDDOG ADRAN 151** |
| **AWDUR YR ADRODDIAD:**<br>FFÔN:<br>E-BOST: | **MARC JONES / CLAIRE KLIMASZEWSKI**<br>**2601/1865**<br>**rmjfi@ynysmon.gov.uk/clkfi@ynysmon.gov.uk** |
| **AELODAU LLEOL:** | **d/b** |

**A - Argymhellion a rhesymau**

Mae'r Côd Darbodus diwygiedig gan CIPFA, Medi 2017, wedi cyflwyno'r gofyniad bod rhaid i bob awdurdod gynhyrchu strategaeth gyfalaf. Mae'n rhaid i'r strategaeth hon osod allan y cyd-destun tymor hir lle caiff penderfyniadau ar wariant a buddsoddiadau cyfalaf eu gwneud. Diben y gofyniad hwn yw sicrhau bod awdurdodau yn gwneud penderfyniadau cyfalaf a buddsoddiadau yn unol ag amcanion y gwasanaethau a'u bod yn rhoi ystyriaeth wirioneddol i stiwardiaeth, gwerth am arian, doethineb ariannol, cynaladwyedd a fforddiadwyedd.

**Argymhellion**

Gofynnir i'r Cyngor llawn:-

- Gymeradwyo'r Strategaeth Gyfalaf ar gyfer 2020/21 – 2022/23 fel y manylir yn Atodiadau 1 a 2 isod.

**B - Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a pham wnaethoch chi eu gwrthod a/neu ddewis yr opsiwn hwn?**

D/B

**C - Pam fod hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?**

Mae'r cyfrifoldeb am benderfynu ar strategaeth cyllideb y Cyngor yn un i'r Pwyllgor Gwaith.

**CH - Ydi'r penderfyniad hwn yn unol â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?**

Ydi

**D - Ydi'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?**

D/B

| DD - Pwy wnaethoch chi ymgynghori â nhw? | | Beth oedd eu sylwadau? |
|---|---|---|
| 1 | **Prif Weithredwr / Uwch Dîm Arweinyddiaeth (UDA)** (mandadol) | |
| 2 | **Cyllid / Adran 151 (mandadol)** | D/B – adroddiad y Swyddog Adran 151 yw hwn |
| 3 | **Cyfreithiol / Swyddog Monitro (mandadol)** | |
| 4 | **Adnoddau Dynol (AD)** | |
| 5 | **Eiddo** | |
| 6 | **Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh)** | |
| 7 | **Sgriwtini** | |
| 8 | **Aelodau Lleol** | |
| 9 | **Unrhyw gyrff allanol / arall/eraill** | |

| | | |
|---|---|---|
| | | |
| **E -** | **Risgiau ac unrhyw gamau lliniaru (os yn berthnasol)** | |
| **1** | **Economaidd** | |
| **2** | **Gwrthdlodi** | |
| **3** | **Trosedd ac Anhrefn** | |
| **4** | **Amgylcheddol** | |
| **5** | **Cydraddoldebau** | |
| **6** | **Cytundebau Canlyniad** | |
| **7** | **Arall** | |
| **F -** | **Atodiadau:** | |

Atodiad 1 – Strategaeth Gyfalaf 2020/21 i 2022/23
Atodiad 2 – Crynodeb o'r Rhaglen Gyfalaf Arfaethedig Ddrafft 2020/21

**FF - Papurau cefndir (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach os gwelwch yn dda):**

Datganiad Strategaeth Rheoli Trysorlys 2020/21, y Pwyllgor Gwaith, 2 Mawrth 2020
Cynllun Ariannol Tymor Canol 2020/21 i 2022/23, y Pwyllgor Gwaith, Medi 2019
Adroddiad ar y Raglen Gyfalaf Ddrafft 2020/21, y Pwyllgor Gwaith, 13 Ionawr 2020
Adroddiad ar y Raglen Gyfalaf 2020/21, y Pwyllgor Gwaith, 2 Mawrth 2020
Cyllideb Refeniw 2020/21, y Pwyllgor Gwaith, 2 Mawrth 2020

**ATODIAD 1**

# Strategaeth Gyfalaf 2020/21 i 2022/23










# Cyngor Sir Ynys Môn
# Strategaeth Gyfalaf 2020/21 i 2022/23

## 1. Cyflwyniad

**1.1** Mae Rhan 1, Adran 3 o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 2003 yn gofyn bod yr Awdurdod yn penderfynu ac yn parhau i adolygu faint y gall fforddio ei fenthyca. Caiff y Ddeddf ei chefnogi gan y Fframwaith Darbodus ar gyfer buddsoddiadau cyfalaf awdurdodau lleol a Chôd Darbodus CIPFA ar gyfer Cyllid Cyfalaf mewn Awdurdodau Lleol (y Côd). Cafodd Côd Darbodus CIPFA ei ddiwygio yn 2017/18. Roedd y Côd diwygiedig yn cyflwyno gofyniad newydd bod rhaid i bob awdurdod gynhyrchu strategaeth gyfalaf, sy'n gosod allan y cyd-destun tymor hir lle caiff penderfyniadau ar wariant cyfalaf a buddsoddiadau eu gwneud. Mae'n rhaid i awdurdodau roi ystyriaeth ddyledus i risgiau ac enillion ac effaith hynny ar gyflawni deilliannau blaenoriaeth. Roedd CIPFA hefyd wedi diwygio'r Côd Ymarfer ar Reoli Trysorlys ar yr un pryd. Mae'r Strategaeth Gyfalaf hon ar gyfer 2020/21 yn cwrdd â gofynion Côd Darbodus CIPFA 2017, yn cyd-fynd â Datganiad Strategaeth Rheoli Trysorlys y Cyngor 2020/21 ac mae'n cymryd i ystyriaeth Gôd Rheoli Trysorlys CIPFA 2017.

**1.2** Diben y strategaeth hon yw sefydlu'r amcanion, egwyddorion a'r fframwaith llywodraethu i sicrhau bod yr Awdurdod yn gwneud penderfyniadau ar wariant a buddsoddiad cyfalaf yn unol ag amcanion y gwasanaeth. Mae Cynllun Cyngor Sir Ynys Môn 2017/22 yn amlinellu blaenoriaethau ac amcanion allweddol y Cyngor am y cyfnod hyd at 31 Mawrth 2022. Egwyddor hanfodol yn y Strategaeth yw canolbwyntio buddsoddiadau cyfalaf ar brosiectau sy'n helpu'r Cyngor i gwrdd â'r amcanion allweddol a ganlyn yn Nghynllun y Cyngor neu'n helpu'r Cyngor i gyflawni ei gyfrifoldebau statudol:-

**Amcan 1:** Sicrhau y gall pobl Ynys Môn ffynnu a gwireddu eu potensial tymor hir.
**Amcan 2:** Cefnogi oedolion bregus a'u teuluoedd i'w cadw'n ddiogel, yn iach ac mor annibynnol â phosib.
**Amcan 3:** Gweithio mewn partneriaeth gyda'n cymunedau i sicrhau y gallant ymdopi'n effeithiol gyda newid a datblygiadau tra'n gwarchod ein hamgylchedd naturiol.

**1.3** Mae'r strategaeth hon hefyd yn adnabod y gwariant cyfalaf posib yn y dyfodol, yn asesu'r effaith ar yr elfen cyllido cyfalaf o'r cyfrif refeniw ac yn pennu'r cyllid sydd ar gael i gyllido cynlluniau cyfalaf newydd am y cyfnod 2020/21 i 2022/23. Mae hefyd yn sefydlu egwyddorion tymor hir i gefnogi cynllunio cyfalaf ymhell i'r dyfodol. Mae trefn lywodraethu'r strategaeth hon yn dilyn yr un broses â'r prosesau gosod refeniw a'r gyllideb a bydd yn cael ei chyflwyno i'r Pwyllgor Gwaith, a fydd yn gwneud argymhellion i'r Cyngor llawn ar gyfer ei chymeradwyo.

## 2. Amcanion ac Egwyddorion y Strategaeth Gyfalaf

**2.1** Mae gan y Strategaeth Gyfalaf nifer o amcanion allweddol i sicrhau bod gwariant cyfalaf yn cael ei dargedu at gwrdd â blaenoriaethau allweddol y Cyngor, gan hefyd roi ystyriaeth i stiwardiaeth, gwerth am arian, doethineb ariannol, cynaladwyedd a fforddiadwyedd.

**2.1.1** Mae Cynllun y Cyngor 2017/22 yn gosod allan blaenoriaethau ac amcanion allweddol y Cyngor hyd at 31 Mawrth 2022 a dylid canolbwyntio adnoddau ar gyflawni'r amcanion hyn. Bydd y strategaeth gyfalaf hon yn gymorth i sicrhau y bydd y rhaglen gyfalaf yn canolbwyntio gwariant cyfalaf ar brosiectau sy'n cyfrannu fwyaf at yr amcanion allweddol yng Nghynllun y Cyngor 2017/22.

**2.1.2** Bob blwyddyn, bydd gwariant cyfalaf yn cael ei ddyrannu i sicrhau buddsoddiad mewn asedau presennol er mwyn eu diogelu ar gyfer y dyfodol.

**2.1.3** Bydd y Cyngor yn gwneud y mwyaf o gyllid cyfalaf allanol pan fo hynny'n bosib ac yn fforddiadwy.

**2.1.4** Bydd cyllido cyfalaf hefyd yn cael ei flaenoriaethu ar asedau sydd eu hangen i helpu'r Cyngor gyflawni ei gyfrifoldebau statudol.

**2.1.5** Mae'r Cyngor yn dal i fod yn ymroddedig i'r Rhaglen Ysgolion 21ain Ganrif a bydd yn parhau i wneud defnydd llawn o'r cyllid allanol sydd ar gael trwy'r Rhaglen.

**2.2** Bydd yr egwyddorion a ganlyn yn helpu i gefnogi bod yr amcanion allweddol uchod yn cael eu cyflawni:-

**2.2.1** Bod y rhaglen Ysgolion 21ain Ganrif yn cael ei hystyried ar wahân i weddill rhaglen gyfalaf gyffredinol y Cyngor. Mae'r rhaglen Ysgolion 21ain Ganrif yn ymroddiad sylweddol tymor hir i adeiladu a/neu adnewyddu ysgolion fel bod ysgolion Môn yn addas i bara i'r dyfodol a chwrdd â gofynion yr 21ain Ganrif. Mae'r rhaglen Ysgolion 21ain Ganrif yn cynorthwyo'r agenda moderneiddio ysgolion ac yn cefnogi amcan allweddol y Cyngor i sicrhau y gall pobl Ynys Môn ffynnu a gwireddu eu potensial tymor hir. Mae'r egwyddor hon hefyd yn cwrdd â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 i sicrhau bod lleoliadau addysgol yn addas yn y tymor hir. Bydd elfen o'r gwariant ar y rhaglen Ysgolion 21ain Ganrif yn cael ei gyllido o'r derbyniadau cyfalaf a geir o werthu ysgolion gwag, a bydd gweddill y balans yn cael ei gyllido o fenthyca digefnogaeth. Bydd hyn yn sicrhau bod y grant cyffredinol cyfalaf a'r benthyca â chefnogaeth ar gael i gyllido buddsoddiadau mewn asedau presennol a newydd sydd eu hangen i gyflawni'r amcanion yng Nghynllun y Cyngor 2017/22 ac yn sicrhau bod asedau presennol y Cyngor yn cael eu cynnal a'u cadw.

**2.2.2** Bod swm yn cael ei ddyrannu yn y rhaglen gyfalaf bob blwyddyn i gyllido gwelliannau mawr i, neu i amnewid, offer TG presennol, cerbydau ac adeiladau'r Cyngor.

**2.2.3** Bod swm yn cael ei ddyrannu yn y rhaglen gyfalaf i gwrdd â gofyniad statudol y Cyngor i gynnig grantiau cyfleusterau i'r anabl. Mae hyn yn helpu i gyflawni cyfrifoldebau statudol ac yn cefnogi amcan allweddol y Cyngor i gefnogi oedolion bregus a'u teuluoedd i'w cadw'n ddiogel, yn iach ac mor annibynnol â phosib.

**2.2.4** Bod lefel o waith gwelliannau ffyrdd yn cael ei gyllido o'r rhaglen gyfalaf bob blwyddyn. Bydd y swm a ddyrennir yn ddibynnol ar y cyllid sydd ei angen i gyflawni unrhyw warantau gwerth isafswm contractau, lefel y cyllid sydd ar gael ac asesiad o gyflwr ffyrdd yr Awdurdod. Bydd gwelliannau i'r ffyrdd yn helpu'r Cyngor i sicrhau bod y rhwydwaith priffyrdd yn gynaliadwy yn y tymor hwy. Mae hefyd yn tanategu holl flaenoriaethau allweddol y Cyngor oherwydd natur wledig Ynys Môn a phwysigrwydd y rhwydwaith priffyrdd i sawl agwedd o waith y Cyngor.

**2.2.5** Bydd prosiectau sydd angen lefel o gyllid cyfatebol er mwyn gallu cael cyllid grant, yn cael eu hasesu fesul pob achos unigol gan y Swyddog Adran 151 a bydd wedyn yn gwneud argymhelliad i'r Pwyllgor Gwaith. Bydd y penderfyniad i ymrwymo cyllid ai peidio yn ddibynnol ar y prosiect, sut mae'n ffitio i flaenoriaethau corfforaethol y Cyngor, unrhyw oblygiadau refeniw sy'n parhau a'r gymhareb o gyllid y Cyngor i'r cyllid grant.

**2.2.6** Bydd prosiectau a gyllidir o fenthyca digefnogaeth, ac eithrio prosiectau'r Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif, ond yn cael eu cyflawni os yw'r gostyngiad mewn costau refeniw neu'r incwm uwch a gynhyrchir yn ddigon i gwrdd â'r costau cyllido cyfalaf ychwanegol a grëir. Dylai unrhyw asedau a gyllidir trwy fenthyca digefnogaeth fod yn greiddiol i gyflawni blaenoriaethau allweddol y Cyngor.

# 3. Sut mae'r Strategaeth yn ffitio gyda dogfennau eraill

## 3.1 Cynllun y Cyngor 2017/22

Cynllun y Cyngor yw'r brif ddogfen sy'n amlinellu'r hyn mae'r Cyngor yn gobeithio ei gyflawni yn ystod y cyfnod 2017/22. Mae'r blaenoriaethau yng Nghynllun y Cyngor wedi'u crynhoi uchod yn 1.2. Amcan allweddol yn y Strategaeth Gyfalaf hon yw sicrhau bod y cyllid cyfalaf sydd ar gael i'r Cyngor yn cael ei wario ar brosiectau sy'n cynorthwyo'r Cyngor i gyflawni ei flaenoriaethau, gan gynnwys cynnal a chadw, amnewid a/neu uwchraddio asedau presennol. Mae sawl dogfen strategol allweddol arall sy'n cyd-fynd â Chynllun y Cyngor. Mae'r rhain yn llywio sut mae'r Awdurdod yn gweithio ar agweddau penodol sy'n effeithio ar y Cyngor.

## 3.2 Y Datganiad Strategaeth Rheoli Trysorlys (DSRhT)

Mae cyswllt agos iawn rhwng y Strategaeth Gyfalaf hon a'r DSRhT a chaiff y ddwy ddogfen eu hadolygu'n flynyddol. Bydd y Strategaeth Gyfalaf yn diffinio sut mae'r Cyngor yn gwario ei gyllid cyfalaf ac mae'r DSRhT yn gosod allan sut y caiff hyn ei gyllido a'i effaith ar sefyllfa ariannol gyffredinol y Cyngor. Mae benthyca yn rhan allweddol o'r strategaeth cyllido. Mae'r DSRhT hefyd yn rhoi manylion am sut yr ymgymerir â'r benthyca a sut y caiff ei reoli.

## 3.3 Y Cynllun Ariannol Tymor Canol

**3.3.1** Y Cynllun Ariannol Tymor Canol (CATC) yw'r rhan hanfodol o gynllunio ariannol sy'n amcangyfrif gofynion refeniw y Cyngor dros y tair blynedd nesaf a sut caiff hyn ei gydbwyso yn erbyn y cyllid sydd ar gael. Bydd gwariant cyfalaf yn effeithio ar y gyllideb refeniw trwy'r Darpariaeth Refeniw Isaf a'r llog sy'n daladwy ar fenthyca. Mae'r Strategaeth Gyfalaf yn gymorth i hysbysu'r Cynllun Ariannol Tymor Canol.

**3.3.2** Mae monitro'r gyllideb ac adolygu'r CATC yn rheolaidd yn helpu i fonitro effaith perfformiad ariannol a materion ariannol ar sut ydym yn cyflawni Cynllun y Cyngor. Yn gysylltiedig â'r monitro ariannol hefyd mae monitro perfformiad a risgiau corfforaethol a gwasanaeth – caiff rhai o'r risgiau hyn yn cael eu hadnabod fel risgiau ariannol. Mae Fframwaith Rheoli Perfformiad y Cyngor a'r Strategaeth Rheoli Risg yn pennu sut caiff perfformiad a risg eu rheoli.

**3.3.3** Mae'r diagram isod yn crynhoi'r cysylltiad rhwng y strategaethau hyn a sut cânt eu harwain gan Gynllun y Cyngor yn y pen draw.

# Cynllun y Cyngor 2017/22

**Mae'r strategaethau a'r cynlluniau allweddol isod yn bwysig ac yn gysylltiedig â'i gilydd, i helpu i adnabod lefel fforddiadwy o refeniw a'r adnoddau cyfalaf sydd eu hangen i gyflawni'r blaenoriaethau allweddol yng Nghynllun y Cyngor 2017/22. Mae'r rhain hefyd yn darparu fframwaith ar gyfer rheolaeth ariannol gadarn o adnoddau'r Cyngor.**

## Y Cynllun Ariannol Tymor Canol (CATC)

Caiff hwn ei adolygu'n rheolaidd i helpu i sefydlu'r adnodd tebygol fydd ei angen am y tair blynedd nesaf a sut mae'r Cyngor yn bwriadu cydbwyso'r gofyn am adnoddau. Mae hyn yn cynnwys effaith materion refeniw a chyfalaf ar Gronfa'r Cyngor.

## Strategaeth Gyfalaf

Mae'r Strategaeth Gyfalaf yn nodi'r blaenoriaethau allweddol o ran sut dylid gwario gwariant cyfalaf i helpu i gyflawni Cynllun y Cyngor 2017/22. Mae'n cydnabod bod gwariant cyfalaf yn arwain at gostau refeniw cyllido cyfalaf a bod rhaid cadw'r rhain yn fforddiadwy. Mae'r Strategaeth Gyfalaf yn effeithio ar, ac yn cael ei heffeithio gan, y CATC, Y DSRhT, y Gyllideb Refeniw Flynyddol a'r Rhaglen Gyfalaf Flynyddol.

## Strategaeth Rheoli Trysorlys (SRhT)

Mae hwn yn gosod y Strategaeth Fuddsoddi Flynyddol, y Polisi Darpariaeth Refeniw Isaf a'r Datagniad Polisi Rheoli Trysorlys am y flwyddyn. Mae'r rhain yn darparu'r fframwaith a'r rheolaethau sydd eu hangen i sicrhau bod digon o arian parod i dalu cyflenwyr am gostau refeniw a chyfalaf, bod arian dros ben yn cael ei fuddsoddi'n ddiogel a'i fod yn hygyrch ac nad yw benthyca i gyllido gwariant cyfalaf yn mynd tu hwnt i lefel fforddiadwy.

Mae'r **Gyllideb Refeniw Flynyddol** yn cael ei chefnogi gan y CATC, y Strategaeth Gyfalaf a'r SRhT. – Bob blwyddyn caiff y costau refeniw cyllido cyfalaf eu hadolygu a'u diwygio fel rhan o'r gwaith o osod y gyllideb refeniw. Weithiau caiff cyfraniadau refeniw eu defnyddio i gyllido costau cyfalaf.

**Y Rhaglen Gyfalaf flynyddol** – Mae'r lefel o wariant a benthyca cyfalaf yn effeithio ar y gyllideb refeniw oherwydd costau cyllido cyfalaf ac unrhyw gostau refeniw parhaus megis cynnal a chadw.

# 4. Y Strategaeth Gorfforaethol a'r Broses Rhaglen Gyfalaf

## 4.1 Datblygu'r Strategaeth Gyfalaf

Caiff y Strategaeth Gyfalaf ei hadolygu bob blwyddyn gan gymryd i ystyriaeth Gynllun diweddaraf y Cyngor, y Cynllun Ariannol Tymor Canol a'r pwysau cyllidebol a ddisgwylir a'r Cynllun Rheoli Trysorlys. Mae hefyd yn ystyried rhaglen gyfalaf y flwyddyn flaenorol a lefel y cronfeydd wrth gefn a'r gyllideb refeniw. Mae'r strategaeth gyfalaf wedyn yn amlinellu'r amcanion a'r egwyddorion allweddol sydd wedyn yn helpu i ddatblygu'r Rhaglen Gyfalaf flynyddol bob blwyddyn.

## 4.2 Datblygu'r Rhaglen Gyfalaf Flynyddol

### 4.2.1 Y Broses Bidio a Sgorio


Wrth benderfynu pa brosiectau sy'n cael eu cynnwys yn y Rhaglen Gyfalaf, mae'n rhaid i fidiau fod yn fforddiadwy ac mae'n rhaid iddynt hefyd helpu i gyflawni'r blaenoriaethau allweddol yng Nghynllun y Cyngor a chwrdd ag amcanion ac egwyddorion y Strategaeth Gyfalaf. Bob blwyddyn, gofynnir i'r Gwasanaethau gyflwyno arfarniadau/bidiau cyfalaf newydd a diweddaru gwybodaeth ar gyfer prosiectau sy'n parhau. Dylai'r arfarniadau ddangos sut mae pob prosiect yn bodloni'r meini prawf (a welir isod) a dylent gynnwys yr holl effeithiau refeniw parhaus fydd yn deillio o'r prosiect e.e. costau cynnal a chadw. Mae sgorio arfarniadau/bidiau cyfalaf newydd yn helpu i gyflwyno elfen o wrthrychedd ac yn sicrhau bod y prosiectau'n berthnasol i'r amcanion allweddol yng Nghynllun y Cyngor a'r Strategaeth hon. Y maen prawf pwysicaf yw pa mor agos y bydd prosiect yn cyfrannu at gyflawni Cynllun y Cyngor, sy'n egluro'r pwysau uwch a roddir i'r maen prawf hwn. Y Gwasanaeth Cyfrifeg sy'n gwneud y sgorio cychwynnol. Mae'r Pwyllgor Gwaith wedyn yn ystyried ac yn cadarnhau'r sgorau, fel rhan o ddrafftio'r rhaglen gyfalaf flynyddol.

| **Meini Prawf** | **Sgôr** |
|---|---|
| Pa mor agos y bydd y prosiect yn cyfrannu at flaenoriaethau'r Cynllun Corfforaethol | 20 |
| Mae'r prosiect yn denu cyllid allanol sylweddol | 10 |
| Bydd y prosiect yn arwain at arbedion refeniw | 10 |
| Bydd y prosiect yn helpu i liniaru Risg Corfforaethol | 10 |
| **Cyfanswm sgôr uchaf** | **50** |

Mae'r strategaeth hefyd yn dyrannu cyllid at gynnal a chadw ac uwchraddio asedau presennol. Mae Rheolwyr Asedau yn penderfynu beth yw eu hangen am gyllid a chaiff hyn ei gydbwyso yn erbyn y cyllid sydd ar gael er mwyn dyrannu cyllid i bob prif grŵp asedau (adeiladau, cerbydau, TG, ffyrdd).

### 4.2.2 Amserlen

Mae'r broses o gymeradwyo'r Strategaeth Gyfalaf yn dilyn yr amserlen ar gyfer gosod y gyllideb refeniw a datblygu'r Rhaglen Gyfalaf. Mae'r amserlen ar gyfer datblygu'r Rhaglen Gyfalaf wedi'i chrynhoi isod:-




### 4.2.3 Awdurdodi

Mae'r cyfrifoldeb am gadarnhau'r Rhaglen Gyfalaf bob blwyddyn yn eistedd gyda'r Cyngor llawn yn seiliedig ar yr argymhelliad a wneir gan y Pwyllgor Gwaith. Mewn achosion eithriadol, bydd prosiectau cyfalaf newydd sy'n codi yn ystod y flwyddyn yn cael eu hystyried gan Aelodau fel rhan o'r adroddiadau chwarterol i'r Pwyllgor Gwaith. Mae prosiectau yn ystod y flwyddyn yn debygol o gael eu cymeradwyo os ydynt yn cael eu cyllido'n sylweddol o grantiau neu gyfraniadau allanol, neu os ydynt mewn ymateb i argyfwng e.e. tirlithriad, neu os yw prosiect a gymeradwywyd yn y rhaglen yn cael ei ganslo a bod cyllid ar gael. Mae gofyn cael arfarniad cyfalaf ar gyfer prosiectau sy'n codi yn ystod y flwyddyn a bydd angen i'r prosiectau helpu'r Awdurdod i gyflawni ei amcanion allweddol.

## 5. Y Cyd-destun Ariannol Cyfredol

### 5.1 Cyfyngiadau Refeniw a'r Angen i Wneud Arbedion

**5.1.1** Roedd y CATC cychwynnol ar gyfer 2020/21 i 2022/23 wedi darparu gwahanol sefyllfaoedd o'r sefyllfa waethaf gyda gostyngiad mewn cyllid allan cyfun (AEF) o 1%, i'r sefyllfa orau o gynnydd o 2%. Roedd y sefyllfa waethaf yn adnabod y byddai angen £8.4m o arbedion refeniw dros y cyfnod 3 blynedd, ar ôl caniatáu am gynnydd o 5% yn y Dreth Gyngor ym mhob un o'r tair blynedd. Roedd y sefyllfa orau yn rhagweld angen am arbedion a fyddai'n dod i £6m dros y cyfnod o dair blynedd.

**5.1.2** Roedd Setliad Dros Dro Llywodraeth Cymru ar gyfer 2020/21 yn well o lawer na'r disgwyl ar 3.8%. Mae hyn £5.214m yn uwch na ragwelwyd yn CATC mis Medi. Yn dilyn blynyddoedd o doriadau sylweddol, mae hyn yn cael ei groesawu. Mae hyn yn dychwelyd y Cyngor i lefelau cyllido 2010/11. Mae gormod o ansicrwydd i ddiweddaru'r amcangyfrifon ar gyfer 2021/22 a 2022/23 o ganlyniad i etholiad diweddar y DU a'r ansicrwydd o ran effaith Brexit ar economi'r DU. Mae felly'n parhau yn bwysig bod y Strategaeth Gyfalaf yn sicrhau'r effaith lleiaf bosib ar y gyllideb refeniw.

**5.1.3** Fel y nodwyd yn flaenorol, bydd cyllido'r rhaglen gyfalaf yn cael effaith sylweddol ar y gyllideb refeniw ac mae'r Strategaeth Gyfalaf yn cymryd fforddiadwyedd i ystyriaeth, fel y caiff ei llunio, ac mae'r Datganiad Strategaeth Rheoli Trysorlys yn sicrhau bod y Cyngor yn cadw costau benthyca cyn ised â phosib trwy wneud y defnydd gorau o falansau arian parod y Cyngor ei hun i gyllido gwariant cyfalaf.

### 5.2 Cyllido gwaith Moderneiddio Ysgolion

**5.2.1** Mae'r Cyngor ar hyn o bryd ran o'r ffordd trwy raglen uchelgeisiol i foderneiddio ysgolion trwy'r rhaglen Ysgolion 21ain Ganrif, gyda Band A yn dod i ben yn 2022 a Band B yn rhedeg tan 2026. Bydd y rhaglen, os yw'n cyflawni pob un o'i amcanion a gynlluniwyd, yn cymryd dros 10 mlynedd i'w chwblhau ar gyfanswm gost cyfalaf sylweddol.

**5.2.2** Mae pedwar cam i'r rhaglen, ac fe'u gelwir yn Band A, B, C a D. Mae dwy ysgol wedi'u cwblhau, sef Ysgol Cybi ac Ysgol Rhyd y Llan, ac mae trydedd ysgol, sef Ysgol Santes Dwynwen, bellach wedi'i chwblhau ac yn weithredol. Mae gwaith adnewyddu hefyd wedi'i gwblhau yn Ysgol Parc y Bont a Brynsiencyn. Disgwylir i'r prosiectau olaf o Fand A ddechrau ym mis Tachwedd 2020, yn ddibynnol ar ganlyniad y gwaith ymgynghori a datblygu cadarn.

**5.2.3** Mae'r Cyngor hefyd yn dechrau ymgynghoriadau ac ystyried opsiynau ar gyfer Band B Rhaglen Moderneiddio Ysgolion y 21ain Ganrif. Gallai rhan o'r gwaith hwn ddechrau yn 2020/21, fodd bynnag, rhagwelir y gallai gwaith sylweddol ddechrau yn 2021/22. Cyfanswm y gost a ragwelir ar gyfer Band B ar hyn o bryd yw £36m.

**5.2.4** Mae Band A y rhaglen Ysgolion 21ain Ganrif yn cael ei gyllido drwy 50% cyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru a 50% trwy fenthyca digefnogaeth. Mae'r cyllid 50% gan Lywodraeth Cymru yn rhannol trwy gyllid grant (67% o'r 50%) ac yn rhannol trwy fenthyca â chefnogaeth (33% o'r 50%). Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi bod y gyfradd ymyrraeth ar gyfer Band B wedi cynyddu i 65% ond ni wyddwn ar hyn o bryd sut bydd hyn wedi'i ddyrannu rhwng cyllid grant a benthyca â chefnogaeth. Mae felly'n cael ei gymryd y bydd Llywodraeth Cymru yn darparu cyllid 50% fel grant a 50% benthyca â chefnogaeth.

**5.2.5** Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi cyflwyno model cyd-fuddsoddi ar gyfer Band B (MIM), lle mae cost cyfalaf y prosiect yn cael ei gyllido gan y sector preifat a bod y Cyngor wedyn yn talu ffi rhent i'r buddsoddwr am gyfnod penodedig (25 mlynedd yw'r disgwyl). Mae Llywodraeth Cymru yn gwneud cyfraniad tuag at y ffi rhent bob blwyddyn (disgwylir y bydd yn 70% o leiaf).

**5.2.6** Cafodd Rhaglen Amlinellol Strategol y Cyngor ar gyfer Band B ei chyflwyno i Lywodraeth Cymru ym mis Gorffennaf (fe'i cymeradwywyd gan y Pwyllgor Gwaith ar 17 Gorffennaf 2017). Mae Tabl 1 isod yn crynhoi y matricsau diweddaraf ar gyfer Band A a B. Mae hyn yn berthnasol i'r cyfnod 2020/21 i 2025/26.

**Tabl 1**
**Y Cyllid Amcangyfrifiedig ar gyfer Gweddill Band A**
**â Phrosiectau Arfaethedig Band B**

| Band | Rhanbarth | Benthyca Digefnogaeth (net o'r derbyniad cyfalaf) £'m | Benthyca â chefnogaeth £'m | Grant LIC £'m | Cyfanswm £'m |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | |
| | CYFANSWM BAND A | 4.8 | 1.6 | 3.2 | 9.6 |
| | CYFANSWM BAND B | 12.7 | 11.7 | 11.7 | 36.1 |

**5.2.7** O gofio lefel y benthyca sydd ei angen, mae'n annhebygol y caiff cronfeydd arian parod y Cyngor ei hun (benthyca mewnol) eu defnyddio i unrhyw raddau helaeth. Felly, tybir y byddai'r holl fenthyca â chefnogaeth a benthyca digefnogaeth yn cael ei wneud trwy fenthyciadau PWLB newydd dros gyfnod o amser sydd yr un fath ag oes ddisgwyliedig yr ased (50 mlynedd).

**5.2.8** Fel yr eglurir ym mharagraff 4.1, bydd unrhyw fenthyca ychwanegol (â chefnogaeth a digefnogaeth) yn cynyddu Gofyniad Cyllido Cyfalaf y Cyngor, a bydd hynny'n ei dro yn cynyddu'r tâl DRI blynyddol a godir ar y cyfrif refeniw, gan arwain at daliadau llog blynyddol ychwanegol.

**5.2.9** Byddai'r benthyca digefnogaeth ychwanegol ar gyfer Band B (yn seiliedig ar gyfnod ad-dalu o 50 mlynedd a llog blynyddol o 3.2%) yn arwain at daliadau cyllido cyfalaf ychwanegol o £0.658m y flwyddyn i'r gyllideb refeniw (£0.405m o log yn daladwy a £0.253m DRI) unwaith bydd y Rhaglen wedi'i chwblhau'n llwyr. Yn ymarferol, byddai'r costau hyn yn dod i mewn yn raddol wrth i bob prosiect gychwyn ac unwaith y byddem yn cymryd y benthyciadau allan i wneud y gwaith. Byddai'r tâl DRI yn cael ei godi unwaith daw'r ysgolion yn weithredol.

**5.2.10** Dylid nodi y byddai cyflawni'r prosiectau Band B yn cael gwared ar yr angen i wneud gwaith cynnal a chadw sydd wedi cronni yn y gwahanol ysgolion. Byddai costau refeniw a chyfalaf pellach yn ymddangos wrth gyflawni gwaith Band C a Band D. Byddai angen i unrhyw ymroddiad i'r camau hyn o'r rhaglen fod yn realistig ac yn fforddiadwy.

## 5.3 Cronfeydd Wrth Gefn

**5.3.1** Mae'r Cyngor wedi dyrannu peth cyllid ar gyfer prosiectau cyfalaf o'i gronfeydd wrth gefn, y dyraniad mwyaf diweddar oedd £1m o gronfeydd wrth gefn cyffredinol i gyllido gwelliannau i brosesau busnes a oedd yn cynnwys prosiectau cyfalaf. Fodd bynnag, dros y ddwy flynedd ddiwethaf, mae lefel balansau cyffredinol y Cyngor wedi gostwng islaw'r isafswm a argymhellir ac, o'r herwydd, mae'r sgôp i ddefnyddio cronfeydd wrth gefn y Cyngor i gyllido gwariant cyfalaf yn amhosib am y dyfodol rhagweladwy.

### 5.4 Yr Angen i Greu Arbedion Refeniw o Wariant Cyfalaf

**5.4.1** Un rhan o strategaeth arbedion cyllideb refeniw'r Cyngor fu defnyddio gwariant cyfalaf fel modd o leihau costau refeniw. Mae enghreifftiau o hyn wedi cynnwys buddsoddi mewn offer arbed ynni mewn adeiladau cyhoeddus a goleuadau stryd, buddsoddi mewn technoleg i leihau costau gweinyddol, buddsoddi mewn cyfleusterau hamdden i gynhyrchu incwm ychwanegol a'r rhaglen Ysgolion 21ain Ganrif. Bydd y strategaeth hon yn parhau a bydd prosiectau'n cael eu blaenoriaethu os byddant yn dod â chyllid sylweddol yn ôl i'r Cyngor mewn cyfnod byr o amser.

# 6. Cyllid

**6.1 Ffynonellau Cyllid** – mae'r Rhaglen Gyfalaf yn cael ei gyllido o'r ffynonellau a ganlyn:-

- **Grant Cyfalaf Cyffredinol** – Mae hwn yn swm o arian sy'n cael ei ddarparu gan Lywodraeth Cymru fel rhan o'r setliad blynyddol. Mae'r Cyngor yn rhydd i ddefnyddio'r grant cyfalaf ar unrhyw brosiect cyfalaf y mae'n dymuno. Rhaid i hwn gael ei wario erbyn 31 Mawrth o'r flwyddyn ariannol y mae'n berthnasol iddi.
- **Benthyca â Chefnogaeth** – Bydd y Cyngor yn benthyca gan y Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus (PWLB) i gyllido'r gwariant. Mae'r costau refeniw sy'n codi o'r benthyciadau (Costau Llog ac Darpariaeth Refeniw Isaf) yn cael eu cyllido gan Lywodraeth Cymru trwy'r setliad refeniw blynyddol, sy'n egluro'r term "Benthyca â Chefnogaeth".
- **Benthyca Digefnogaeth** – Eto, mae'r Cyngor yn benthyca'r arian gan PWLB neu o rywle arall ond mae gofyn iddo gyllido'r costau refeniw o'i adnoddau ei hun. Mae prosiectau a gyllidir trwy gyfrwng benthyca digefnogaeth yn dueddol o fod yn brosiectau sy'n cyflawni arbedion refeniw, a'r arbedion hyn sy'n cael eu defnyddio i gwrdd â'r costau refeniw ychwanegol sy'n codi o'r benthyciad.
- **Grantiau Cyfalaf Penodol** – Bydd y Cyngor yn derbyn grantiau cyfalaf sy'n cyllido cost prosiect yn llawn neu'n rhannol. Fel arfer daw grantiau cyfalaf hefo cyfyngiadau ynghylch y gwariant – beth ellir gwario'r cyllid arno ac erbyn pryd y mae'n rhaid gwario'r cyllid.
- **Cyfraniad Refeniw** – Gall gwasanaethau wneud cyfraniad o'u cyllidebau refeniw i gyllido prosiectau. Mae'r cyfraniadau hyn yn dueddol o fod ar ffurf cyllid cyfatebol i brosiect sy'n cael ei gyllido'n bennaf o grant cyfalaf penodol.
- **Derbyniadau Cyfalaf** – Gellir defnyddio'r cyllid a gynhyrchir o werthu asedau i gyfrannu at gyllido'r rhaglen gyfalaf. Fel arfer caiff cyllid fel hyn ei gynhyrchu o werthu asedau dros ben (tir neu adeiladau gan amlaf).
- **Cronfeydd Wrth Gefn** – Gellir defnyddio cyllid sy'n cael ei ddal mewn cronfa wrth gefn, e.e. derbyniadau cyfalaf sydd heb eu defnyddio, i gefnogi'r rhaglen gyfalaf.

**6.2** Fel yr eglurir yn y paragraff uchod, caiff y rhaglen gyfalaf ei gyllido o sawl ffynhonnell wahanol sy'n effeithio ar sefyllfa ariannol y Cyngor mewn gwahanol ffyrdd:-

**6.2.1** Nid yw cyllid a dderbynnir ar ffurf grantiau (cyffredinol neu benodol) yn cael unrhyw effaith ar sefyllfa ariannol hirdymor y Cyngor gan fod unrhyw grant a dderbynnir yn cael ei ddefnyddio i gyllido'r gwariant cyfalaf. Efallai y ceir gwahaniaethau o ran amseriad sy'n golygu weithiau nad yw grantiau'n cael eu defnyddio mewn un flwyddyn ac y cânt eu cario o un flwyddyn i'r nesaf trwy fantolen y Cyngor.

**6.2.2** Mae derbyniadau cyfalaf yn golygu bod asedau dros ben yn cael eu trosglwyddo'n arian parod sydd, yn ei dro, yn arwain at greu ased newydd. Eto, ychydig iawn o effaith hirdymor a gaiff y math hwn o gyllido ar sefyllfa ariannol y Cyngor ond fe ddaw adeg pan fyddwn wedi cael gwared ar yr holl asedau dros ben a bydd lefel y cyllid sydd ar gael trwy dderbyniadau cyfalaf yn gostwng

**6.2.3** Mae'r Cyfrif Refeniw Tai yn defnyddio'r cyllid dros ben ar y cyfrif CRT (yr hyn sy'n weddill o incwm rhent ar ôl gwariant) i gyllido gwariant cyfalaf. Caiff hyn ei adlewyrchu yng nghynllun busnes y CRT ac nid yw'n effeithio ar Gronfa'r Cyngor.

**6.2.4** Bydd y defnydd o gyllid refeniw yn gostwng gwerth y cyllid sy'n cael ei ddal yn y cronfeydd wrth gefn neu'r swm sy'n cael ei drosglwyddo i falansau cyffredinol y Cyngor ar ddiwedd y flwyddyn, h.y. mae'n trosi arian dros ben yn ased newydd.

**6.2.5** Mae benthyca â chefnogaeth a benthyca digefnogaeth yn effeithio ar Ofyniad Cyllido Cyfalaf (CCC) y Cyngor ac, yn ei dro, caiff hyn effaith ar y gyllideb Refeniw gan y bydd taliadau llog blynyddol a'r Darpariaeth Refeniw Isaf (DRI) yn uwch.

**6.2.6** Er bod y Cyfrif Refeniw Tai yn gweithredu ar wahân i Gronfa'r Cyngor, nid yw'r Cyngor yn benthyca ar wahân ar gyfer gwariant o Gronfa'r Cyngor a'r CRT, mae'r holl fenthyca yn cael ei gyfuno a chaiff y costau eu dyrannu i'r ddwy gronfa yn seiliedig ar lefel y gwariant a gyllidwyd o fenthyciadau ar gyfer y ddwy gronfa. Rydym yn adolygu'r dull dyrannu costau yn barhaus i sicrhau ei fod yn dal i fod y dull mwyaf teg.

## 6.3 Cyfyngiadau Cyllido dros y Tair Blynedd nesaf

**6.3.1** Mae'r cyd-destun ariannol ansicr y mae'r Cyngor yn parhau i weithredu ynddo yn cael ei drafod yn adran 5 ac mae'n amlygu bod yna gyfyngiadau ar sut mae'r Cyngor yn cyllido gwariant cyfalaf. Un o'r prif flaenoriaethau i'r Cyngor yw lleihau gwariant refeniw er mwyn cael cyllideb gytbwys, gan hefyd leihau'r gostyngiad i gyllidebau gwasanaethau cymaint ag sy'n bosib. Mae'n rhesymol i'r Cyngor geisio cadw'r cynnydd sydd ei angen i'r gyllideb cyllido cyfalaf gyn ised â phosib. Bydd rhaid darparu cyllid cyfalaf ychwanegol ond dylid cadw hyn ar lefel sy'n cael ei gyllido trwy'r setliad (grant cyfalaf cyffredinol a benthyca â chefnogaeth) fel bod y cynnydd yn y costau cyllido cyfalaf yn cael ei gyllido trwy dderbyniadau cyfalaf ac unrhyw grantiau penodol sydd ar gael.

**6.3.2** Ni ddylid ond defnyddio benthyca digefnogaeth (tu allan i'r rhaglen Ysgolion 21ain Ganrif) lle mae modd gostwng cyllideb y gwasanaeth perthnasol o swm sy'n uwch na'r DRI a'r costau llog.

**6.3.3** Mae wedi bod yn bolisi gan Llywodraeth Cymru dros nifer o flynyddoedd i gynnal lefel y grant cyfalaf cyffredinol a benthyca â chefnogaeth ar tua'r un lefel â'r blynyddoedd cynt, gyda chyllid cyfalaf ychwanegol yn cael ei gyfeirio i ysgolion, gwelliannau ffyrdd ac ati. Fodd bynnag, cynnyddwyd y cyllid grant cyffredinol ar gyfer 2019/20 a 2020/21.

**6.3.4** Fel landlord stoc tai, bydd y Cyngor hefyd yn derbyn lwfans atgyweirio sylweddol ar ôl cyflwyno a chael cymeradwyaeth i'r cynllun busnes 30 mlynedd ar gyfer y Cyfrif Refeniw Tai. Mae gwariant cyfalaf ar y CRT yn cael ei ategu gan ddefnyddio arian wrth gefn y CRT a thrwy gyfrwng y pwerau benthyca y gall y CRT eu defnyddio.

**6.3.5** Bydd grantiau penodol sydd wedi cael eu cymeradwyo, sy'n debygol o gael eu cymeradwyo neu sy'n deillio o fidiau llwyddiannus, hefyd ar gael i gyllido cynlluniau cyfalaf. Mewn rhai achosion, efallai y bydd rhaid i'r Cyngor gyfrannu swm o'i gyllid cyfalaf ei hun fel cyllid cyfatebol fel y gall sicrhau'r cyllid grant. Mae'r grantiau a'r cyfraniadau sydd ar hyn o bryd wedi'u hadnabod fel ffynonellau cyllid ar gyfer 2020/21 yn dod i £8m, gan gynnwys y grant cyfalaf cyffredinol. Mae'r Cyngor wedi derbyn cyllid sylweddol gan yr UE yn y gorffennol. Ni fydd y ffynhonnell hon ar gael o 2021/22 ymlaen ond bydd y Cyngor yn ceisio cael ffynonellau amgen o gyllid lle bo hynny'n bosibl.

**6.3.6** Mae lefel y derbyniadau cyfalaf yn ddibynnol ar pa asedau ddaw ar gael i'w gwerthu. Mae'r cyllid a dderbynnir o werthu rhai asedau yn gysylltiedig â phrosiectau sydd eisoes wedi cychwyn e.e. mae gwerthu hen safleoedd ysgol yn gysylltiedig â'r rhaglen Ysgolion 21ain Ganrif. O ganlyniad, nid oes modd i'r holl dderbyniadau cyfalaf a dderbynnir yn 2020/21 gael eu dyrannu i gyllido prosiectau cyfalaf newydd. Ar wahân i'r safleoedd ysgolion sy'n weddill, ni ragwelir y bydd unrhyw dderbyniadau cyfalaf sylweddol ar gael i gyllido gwariant cyfalaf o 2020/2021 ymlaen.

**6.3.7** Fel y nodwyd yn flaenorol, mae'n rhaid i unrhyw fenthyca digefnogaeth gynhyrchu incwm ychwanegol / arbedion gwariant refeniw er mwyn cyllido'r costau cyllido cyfalaf ychwanegol (DRI a thaliadau llog) a godir ar y cyfrif refeniw. Bydd unrhyw gynlluniau arfaethedig a gaiff eu cyllido trwy fenthyca digefnogaeth yn cael eu hasesu fesul cynllun unigol.

**6.3.8** Yn ychwanegol at y ffynonellau cyllid a nodir uchod, mae'r Cyngor yn dal cronfa cyllido cyfalaf wrth gefn, sy'n cynnwys cyfraniadau refeniw nad ydynt wedi cael eu defnyddio eto. Mae'r balans cyfredol yn £1.2m. Disgwylir y bydd y rhan fwyaf o hwn yn cael ei ddefnyddio tuag at gyllido rhaglen 2020/21 ymlaen, yn enwedig tuag at welliannau adeiladau ysgolion.

**6.3.9** Mae derbyniadau cyfalaf sydd heb eu dyrannu yn cael eu dal mewn cronfa wrth gefn. Roedd balans y gronfa wrth gefn ar 31 Mawrth 2018 yn £1.2k. Bydd y derbyniadau hyn yn cael eu defnyddio fel ffynhonnell gyllido ar gyfer rhaglen 2019/20, neu byddant yn helpu i gyllido gwariant sydd wedi llithro yn 2020/21 a thu hwnt fel yr angen.

**6.3.10** Yn gryno, dylai'r cyllid ar gyfer prosiectau cyfalaf newydd yn 2020/21 fod wedi'i gyfyngu i lefel y grant cyfalaf cyffredinol (£2.165m), benthyca â chefnogaeth (£2.159m) ac unrhyw dderbyniadau cyfalaf heb eu dyrannu a gynhyrchir yn y flwyddyn. Byddai cyfanswm y gyllideb sydd ar gael oddeutu £4.3m, heb gynnwys grantiau, cyllid Ysgolion 21ain Ganrif a chyllid y CRT. Bydd yr egwyddor hon yn cael ei chymhwyso yn y tymor canol a'r tymor hir i sicrhau bod y rhaglen gyfalaf yn fforddiadwy, yn enwedig yng nghyd-destun toriadau cyllid sy'n parhau.

## 6.4 Proffil Cyllido Amcangyfrifiedig 2020/21 i 2022/23

**6.4.1** Mae'r cyllid allanol gan Lywodraeth Cymru (gan eithrio Ysgolion 21ain Ganrif) ar gyfer y cyfnod 2020/21 i 2022/23 i'w weld yn Nhabl 2 isod. Dylid nodi y bydd y Cyngor hefyd yn derbyn nifer o fân grantiau cyfalaf.

**Tabl 2**
**Amcangyfrif o'r Cyllid Cyfalaf gan Lywodraeth Cymru 2020/21 – 2022/23**

| | 2020/21 £'m | 2021/22 £'m | 2022/23 £'m |
|---|---|---|---|
| Grant Cyfalaf Cyffredinol | 2.165 | 1.818 | 1.818 |
| Benthyca â Chefnogaeth | 2.159 | 2.159 | 2.159 |
| Grant Adnewyddu Priffyrdd Cyhoeddus | 0.580 | 0.580 | 0.580 |
| Lwfans Gwaith Atgyweirio Mawr | 2.660 | 2.660 | 2.660 |
| **Cyfanswm Cyllid Cyfalaf Llywodraeth Cymru** | **7.564** | **7.217** | **7.217** |

**6.4.2** Mae sgôp i gyllido prosiectau newydd yn 2020/21 trwy'r cyllid a dderbynnir fel rhan o setliad ariannol Llywodraeth Cymru. Mae'r cynnydd sylweddol diweddaraf yn y Grant Cyfalaf Cyffredinol gan Lywodraeth Cymru ar gyfer 2018/19 i 2020/21 yn helpu'r Cyngor i gyllido prosiectau cyfalaf ychwanegol sy'n flaenoriaeth. Mae benthyca digefnogaeth yn bosib, ond oni bai bod y prosiectau yn creu arbedion refeniw, yna bydd y tâl DRI a'r costau llog ychwanegol yn cynyddu'r gyllideb refeniw a bydd hynny'n gorfod cael ei gyllido trwy gynyddu'r Dreth Gyngor neu trwy wneud arbedion refeniw yn rhywle arall. Felly, gall y Cyngor sicrhau bod y costau cyllido cyfalaf yn fforddiadwy ac yn gynaliadwy trwy gyfyngu'r gwariant cyfalaf a gyllidir trwy fenthyca digefnogaeth i'r Rhaglen Ysgolion 21ain Ganrif a phrosiectau cyfalaf sy'n arwain at arbedion refeniw sy'n uwch na'r costau DRI a llog fydd yn daladwy yn sgil y cyllido cyfalaf. Mae'r Adroddiad ar Raglen Gyfalaf Ddrafft 2020/21, a grynhoir isod, yn cynnig rhaglen fforddiadwy gyda defnydd cyfyngedig o fenthyca digefnogaeth.

# 7. Y Strategaeth arfaethedig ar gyfer 2020/21 i 2022/23

## 7.1 Cefndir – Cyfalaf

**7.1.1** Gwariant cyfalaf yw gwariant i brynu neu greu asedau newydd neu i adnewyddu asedau presennol pan fo oes yr ased yn fwy nag un flwyddyn ariannol. Gall yr asedau fod yn rhai ffisegol (adeiladau, cerbydau ac isadeiledd) neu anniriaethol (trwyddedau meddalwedd). Bydd asedau anghyfredol sy'n £10k neu fwy yn cael eu hystyried fel gwariant cyfalaf. £10k yw'r lefel de minimis a argymhellir gan y Cyngor i fod yn gymwys fel rhan o'r rhaglen gyfalaf. Bydd asedau anghyfredol sy'n llai na £10k yn cael eu codi i refeniw yn y rhan fwyaf o achosion. Mae'r Cyngor yn cadw'r hawl i hepgor y de minimis os yw hynny'n briodol.

## 7.2 Ymrwymiadau Posib ar gyfer 2020/21 i 2022/23

**7.2.1** Fel rhan o'r broses cynllunio cyfalaf, adnabyddir ymrwymiadau i'r dyfodol ar gyfer y ddwy flynedd ddilynol hefyd, serch hyn nid oes gwarant y bydd y cyllid yn cael ei ryddhau ar gyfer y prosiect penodol oni bai ei fod yn angenrheidiol i gwblhau'r ased yn ffisegol. Mae Tabl 3 isod ac Atodiad 2 yn dangos bod yna werth £37.305m o brosiectau sy'n cwrdd â blaenoriaethau ac egwyddorion allweddol y Strategaeth Gyfalaf hon. Mae'r rhain yn cynnwys cynlluniau ymrwymedig sy'n parhau, prosiectau a gyllidir drwy grant, Ysgolion 21ain Ganrif a buddsoddi yn asedau presennol y Cyngor er mwyn cynyddu oes yr asedau hyn i'r dyfodol. Mae'r tabl yn dangos mai dim ond y rhaglen Ysgolion 21ain Ganrif fydd angen peth cyllid o fenthyca digefnogaeth ar gyfer Cronfa'r Cyngor. Mae'r CRT yn bwriadu benthyca £0.250m o fenthyca digefnogaeth, ond bydd y CRT yn cyllido'r costau o ad-dalu'r benthyciad fel y daw'n ddyledus a'r holl gostau refeniw cyllido cyfalaf sy'n codi o'r benthyciad.

**7.2.2** Mae Atodiad 2 yn crynhoi'r cynigion a gyflwynwyd ar gyfer prosiectau newydd 2020/21. Tra bod digon o gyllid ar gyfer yr holl brosiectau hyn heb yr angen am fenthyca digefnogaeth ychwanegol, mae pob un wedi'i sgorio'n wrthrychol gan y panel swyddogion, yn enwedig yng nghyswllt eu cyfraniad at Gynllun y Cyngor 2017/22.

**7.2.3** Mae'r tabl isod yn crynhoi'r rhaglen gyfalaf arfaethedig am y cyfnod 2020/21 i 2022/23 yn ôl categori, er enghraifft, cynllun ymrwymedig sy'n parhau. Mae hyn yn dangos rhaglen uchelgeisiol ar gyfer cynyddu a gwella'r stoc tai ar gyfer y CRT. Yn ogystal, cynllunnir ar gyfer adeiladu cyfleuster gofal ychwanegol newydd ar gyfer y CTR. Mae'r tabl isod hefyd yn dangos mai'r prosiect Ysgolion 21ain Ganrif yw'r rhaglen mwyaf sylweddol ar gyfer Cronfa'r Cyngor.

**Tabl 3**
**Crynodeb o Gynlluniau Cyfalaf (gweler Atodiad 2 am fanylion prosiectau unigol)**

| **Cynlluniau Cyfalaf** | **Gwariant** | | | |
|---|---|---|---|---|
| | **2020/21 £000** | **2021/22 £000** | **2022/23 £000** | **Cyfanswm £000** |
| Cynlluniau Ymrwymedig a Ddygwyd Ymlaen | 5,829 | 1,500 | 460 | **7,789** |
| Buddsoddi mewn Asedau Presennol | 6,192 | 5,272 | 5,272 | **16,736** |
| Prosiectau Ysgolion 21ain Ganrif | 2,755 | 16,761 | 12,249 | **31,765** |
| Cynlluniau posib newydd 2020/21 | 2,274 | - | - | **2,274** |
| Prosiectau'r Cyfrif Refeniw Tai (CRT) | 20,255 | 17,704 | 14,002 | **51,961** |
| | **37,305** | **41,237** | **31,983** | **110,525** |

**7.2.4** Mae'r cyllid sydd ar gael ar gyfer y cynlluniau cyfalaf uchod wedi'i grynhoi isod yn Nhabl 5. Mae hyn yn dangos, ar gyfer 2020/21, y byddai modd cyllido'r holl brosiectau heb yr angen am fenthyca digefnogaeth sylweddol. Yr unig fenthyca digefnogaeth fyddai ei angen ar gyfer 2020/21 fyddai tuag at siâr y Cyngor o brosiectau'r Ysgolion $21^{ain}$ Ganrif. Nid yw'r tabl yn cynnwys rhagolygon ar gyfer derbyniadau cyfalaf gan nad yw'r wybodaeth hon ar gael. Fodd bynnag, os bydd y Cyngor yn gwerthu unrhyw asedau, bydd hynny'n lleihau'r angen i fenthyca. Mae asedau'r Cyngor sydd ar gael i'w gwerthu yn gostwng oherwydd y nifer o asedau'r Cyngor a werthwyd yn y blynyddoedd cynt. Dylid nodi y byddai unrhyw ysgolion sy'n cau ac sy'n cael eu gwerthu yn cael eu defnyddio tuag at y Rhaglen Ysgolion $21^{ain}$ Ganrif.

**Tabl 4**
**Amcangyfrif o Gyllid i'r Rhaglen Gyfalaf 2020/21 i 2022/23**

| Cyllid | Cyllid | | | |
|---|---|---|---|---|
| | 2020/21 £000 | 2021/22 £000 | 2022/23 £000 | Cyfanswm £000 |
| Cyllid a Ddygwyd Ymlaen 2018/19 ar gyfer Prosiectau sydd wedi Llithro | 9,905 | - | - | **9,905** |
| Grantiau a Chyfraniadau Allanol | 5,783 | 10,835 | 8,415 | **25,033** |
| Grant Cyfalaf Cyffredinol | 2,165 | 1,818 | 1,818 | **5,801** |
| Derbyniadau Cyfalaf – heb gynnwys Ysgolion | 245 | - | - | **245** |
| Derbyniadau Cyfalaf – Ysgolion | - | - | - | **-** |
| Benthyca â Chefnogaeth | 2,364 | 2,159 | 2,159 | **6,682** |
| Benthyca â Chefnogaeth, Ysgolion $21^{ain}$ Ganrif | 721 | 4,386 | 4,001 | **9,107** |
| Benthyca Digefnogaeth – Cronfa'r Cyngor | 1,145 | 6,996 | 4,248 | **12,389** |
| Benthyca Digefnogaeth – CRT | 250 | 5,750 | 700 | **6,700** |
| Cronfa wrth gefn Derbyniadau Cyfalaf a Chronfa wrth gefn Cyfalaf | 500 | - | - | **500** |
| Cronfa wrth gefn CRT a refeniw o fewn y flwyddyn | 14,227 | 9,294 | 10,642 | **34,163** |
| Refeniw – Cronfa'r Cyngor | - | - | - | **-** |
| **Cyfanswm** | **37,305** | **41,237** | **31,983** | **110,525** |

### 7.3 Cynlluniau Gwariant Cyfalaf yn y Tymor Hwy

**7.3.1** Mae'r rhaglen gyfalaf ddrafft uchod yn rhoi rhagolygon tymor canol sy'n cyd-fynd â'r Cynllun Ariannol Tymor Canol a Chynllun y Cyngor 2017/22 a'r Datganiad Strategaeth Rheoli Trysorlys. Mae'r strategaeth gyfalaf hon hefyd yn cyfathrebu'r bwriadau tymor hir mewn perthynas â'r Rhaglen Ysgolion 21ain Ganrif sy'n cael ei hamlinellu'n drylwyr uchod a disgwylir iddi barhau tu hwnt i 2022/23. Amcangyfrifir y bydd y gwariant ar Fand B yn unig yn £36m rhwng 2020/21 a 2025/26, a bydd 35% (£12.7m) o hwn yn cael ei gyllido gan y Cyngor, yn bennaf trwy fenthyca digefnogaeth. Wrth i bob cynllun ym Mand B gael ei ddatblygu, byddwn yn asesu'r effaith ariannol ond derbynnir hefyd y bydd rhaid i rai prosiectau fwrw ymlaen er mwyn cwrdd â blaenoriaethau cyffredinol y Cyngor ac y bydd rhaid i'r costau refeniw ychwanegol gael eu cyllido o arbedion refeniw neu o gynnydd yn y Dreth Gyngor. Petai'r Cyngor yn canfod bod problemau fforddiadwyedd wrth iddo weithio trwy Fand B o'r Rhaglen Ysgolion 21ain Ganrif, yna bydd y prosiectau sydd wedi'u cynnwys ym Mand B yn cael eu hadolygu. Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn cynllunio cam C a D o'r rhaglen, fodd bynnag, byddai'r rhain ond yn digwydd os ydynt yn fforddiadwy.

**7.3.2** Dylai'r holl egwyddorion sydd wedi'u cynnwys yn adran 2 hefyd gael eu defnyddio hefyd fel y sail ar gyfer gwariant cyfalaf tymor hwy oni bai y bydd Cynllun y Cyngor 2023/28 wedi newid yn sylweddol. Dylai unrhyw brosiectau nad ydynt yn ymwneud ag ysgolion, er enghraifft, adnewyddu asedau presennol, gael eu cyllido trwy grant neu fenthyca â chefnogaeth i'r dyfodol, os bydd y ffrydiau cyllid hynny'n parhau i fod ar gael yn y tymor hir.

### 7.4 Strategaeth Buddsoddiadau nad yw'n ymwneud â Rheoli'r Trysorlys

**7.4.1** Mae'r Strategaeth Buddsoddiadau Rheoli Trysorlys wedi'i chynnwys yn y DSRhT a gaiff ei drafod isod. Yn ogystal, mae gan y Cyngor nifer o fuddsoddiadau nad ydynt yn ymwneud â rheoli'r trysorlys, sef yr eiddo mae'r Cyngor wedi buddsoddi ynddynt sy'n creu incwm rhent iddo. Mae'r rhain yn helpu i ddarparu ffrwd refeniw hirdymor i'r Cyngor. Ar 31 Mawrth 2019, roedd y portffolio eiddo buddsoddi yn cynnwys 71 eiddo, gyda gwerth o £6m. Mae'r rhain yn cynnwys eiddo manwerthu, unedau swyddfa ac unedau masnachol. Yn 2018/19, casglwyd £346k o incwm rhent o eiddo buddsoddi. Cafodd £129k ei wario ar waith cynnal a chadw ac ati, a arweiniodd at incwm gweithredol net o £217k o incwm rhent. O ran y cynlluniau i'r dyfodol ar gyfer yr eiddo buddsoddi, byddwn yn parhau i'w cynnal i safonau cyfreithiol. Yn ogystal, mae safle unedau diwydiannol newydd wedi cael ei adeiladu yn Llangefni yn ddiweddar ac maent yn weithredol. Mae'r Cyngor hefyd yn gweithio mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru ar adeiladu Unedau Diwydiannol ym Mhenrhos, Caergybi. Mae'n debyg y daw'r unedau hyn yn weithredol yn 2020/21.

**7.4.2** Mae gan Awdurdodau Lleol y pŵer i brynu neu ddatblygu eiddo fel buddsoddiadau er mwyn gwella gweithgarwch economaidd yn ardal y Cyngor neu fel modd o gynhyrchu incwm ychwanegol i'r Cyngor. Ar hyn o bryd, nid oes gan y Cyngor unrhyw gynlluniau i ddefnyddio'r pwerau hyn yn ehangach na'r cynlluniau a nodir uchod, ond mae'r defnydd o'r pwerau hyn dal yn opsiwn ac mae'r Strategaeth yn caniatáu i'r Cyngor fynd i wariant ar eiddo buddsoddi er mwyn cwrdd ag amcanion allweddol y Cyngor neu er mwyn cymryd mantais o unrhyw gyllid allanol sylweddol a ddaw ar gael.

## 8. Benthyca a Rheoli'r Trysorlys

**8.1** Mae'r Datganiad Strategaeth Rheoli Trysorlys (DSRhT) ac Arferion Rheoli Trysorlys (TMP) yn darparu'r fframwaith i sicrhau bod digon o arian parod i dalu cyflenwyr, sicrhau bod unrhyw arian dros ben yn cael ei fuddsoddi'n ddiogel a bod y benthyca i gyllido rhaglen gyfalaf 2020/21 i 2022/23 yn fforddiadwy. Bydd y DSRhT yn cael ei gyflwyno i'r Cyngor llawn ar 10 Mawrth 2020.

**8.2** Mae Atodiad 11 yn DSRhT 2020/21, yn darparu'r dangosyddion darbodus a thrysorlys ar gyfer y cyfnod 2018/19 i 2022/23, sy'n gymorth i benderfynu a yw cynlluniau benthyca yn fforddiadwy ai peidio.

**8.3** Mesur o fforddiadwyedd yw'r gymhareb costau cyllido i'r ffrydiau refeniw net. Mae'r gymhareb amcangyfrifiedig o gostau cyllido i'r ffrydiau refeniw net am y ddwy flynedd cyn y strategaeth hon a thrwy gydol oes y strategaeth i'w gweld isod:-

| | |
|---|---|
| 2018/19 (Gwirioneddol): | 6.34% |
| 2019/20 (Amcangyfrif) | 6.68% |
| 2020/21 (Rhagamcan) | 6.62% |
| 2021/22 (Rhagamcan) | 6.57% |
| 2022/23 (Rhagamcan) | 7.01% |

Yn seiliedig ar yr uchod mae'r rhaglen gyfalaf arfaethedig yn parhau i fod yn fforddiadwy yn nhermau goblygiadau refeniw.

Yn 2018/19, fe wnaeth y Cyngor addasu ei bolisi Darpariaeth Refeniw Isaf ac roedd modd iddo ôl-ddyddio'r newidiadau. Diben addasu'r polisi oedd sicrhau bod darpariaeth ddarbodus yn cael ei rhoi yn erbyn y cyfrif refeniw bob blwyddyn. Fodd bynnag, canlyniad o'r newid hwn oedd i ni ganfod gor-ddarpariaeth yn y blynyddoedd cynt ac, felly, bydd modd defnyddio'r or-ddarpariaeth hon yn y dyfodol i sicrhau bod y costau cyllido blynyddol yn aros yn fforddiadwy. Bydd y Swyddog Adran 151 yn cymryd hyn i ystyriaeth wrth benderfynu ar y tâl DRI blynyddol.

**8.4** Mesur pwysig arall yw nad yw lefel y benthyca allanol yn mynd yn uwch na'r ffin weithredol ar gyfer benthyca. Mae'r rhaid i'r ffin weithredol ganiatáu i'r Cyngor allu benthyca mewn sefyllfaoedd o argyfwng, gan gynnwys methiant i gael mynediad at adneuon banc, problemau llif arian yn codi o fethiant i gasglu incwm, gwariant argyfwng yn dilyn digwyddiad annisgwyl neu'r angen i gymryd mantais o gostau benthyca rhatach ar adegau pan fo cyfraddau llog yn codi. Mae'r ffin weithredol bresennol wedi'i gosod ar £25m uwchlaw'r gofyniad cyllido cyfalaf (GCC).

**8.5** Nod y Strategaeth Rheoli Trysorlys yw defnyddio balansau arian parod mewnol y Cyngor, lle bynnag y bo hynny'n bosib, yn lle benthyca allanol. Wrth bennu lefel y benthyca mewnol, mae'n rhaid cynnal balansau arian parod digonol er mwyn cwrdd ag anghenion arian parod dyddiol y Cyngor h.y. talu staff, cyflenwyr ac ati.

**8.6** Mae Tabl 5 isod yn crynhoi lefel y benthyca allanol o gymharu â'r ffin weithredol ac mae'n dangos lefel y benthyca mewnol y bydd y Cyngor yn ei ddefnyddio i gyllido'r rhaglen gyfalaf.

**Tabl 5**
**Rhagolygon Benthyca ar gyfer 2018/19 i 2022/23**

| Benthyca - Rhagolwg | 2018/19 Gwirioneddol £000 | 2019/20 Amcangyfrif £000 | 2020/21 Arfaethedig £000 | 2021/22 Arfaethedig £000 | 2022/23 Arfaethedig £000 |
|---|---|---|---|---|---|
| Ffin Weithredol Benthyca Cyffredinol | 164,000 | 173,000 | 178,000 | 193,000 | 199,000 |
| Benthyca Allanol – Gwirioneddol a Rhagolwg | 132,549 | 129,257 | 134,093 | 152,944 | 160,388 |
| Gwahaniaeth rhwng y Terfyn Awdurdodedig a'r Gwir / Rhagolwg o Fenthyca Allanol (*headroom*) | 44,451 | 48,743 | 48,907 | 45,056 | 43,612 |
| Benthyca Mewnol (defnyddio balansau arian parod) | 6,113 | 12,777 | 13,892 | 10,321 | 8,581 |
| **Cyfanswm Benthyca Mewnol ac Allanol** | **138,662** | **142,034** | **147,985** | **163,265** | **168,969** |

## 9. Risgiau Posib sy'n codi o'r Strategaeth Gyfalaf

**9.1** Mae'r arbedion blynyddol sylweddol sydd eu hangen dros y tair blynedd nesaf yn peri risg i'r Cyngor, ac mae hyn yn cynnwys y rhaglen gyfalaf. Os yw'r targed arbedion yn anodd i'w gyflawni, mae'n bosib y bydd hyn yn arwain at adolygu'r rhaglen gyfalaf er mwyn sicrhau ein bod yn lleihau costau cyllido cyfalaf sy'n effeithio ar refeniw.

**9.2** Mae Strategaeth Gyfalaf y Cyngor yn seiliedig ar lefel dybiedig o gyllid gan Lywodraeth Cymru a thrwy grantiau allanol. Gan gofio'r ansicrwydd sy'n parhau ynghylch cyllidebau a'r newidiadau i gyllid grant a dderbynnir oddi wrth yr Undeb Ewropeaidd ar hyn o bryd, mae risg na fydd y lefel dybiedig hon o gyllid grant yn cael ei dderbyn fel mae wedi'i osod allan yn y strategaeth. Os bydd unrhyw newidiadau i'r cyllid a gawn, bydd rhaid ailasesu'r strategaeth gyfalaf a'r rhaglen gyfalaf flynyddol.

**9.3** Mae'r Cyngor wedi defnyddio benthyca mewnol am sawl blwyddyn i gyllido gwariant cyfalaf. Mae hyn wedi cael effaith sylweddol ar falensau arian parod ac mae'n annhebygol y gall y Cyngor gynnal benthyca mewnol yn y tymor canol. Bydd rhaid amnewid benthyca mewnol, ar ryw bwynt, am fenthyca allanol, a bydd hynny'n ei dro yn cynyddu'r costau cyllido cyfalaf a godir yn erbyn y cyfrif refeniw. Mae'n bosib y byddai cynyddu'r costau hyn yn yr hinsawdd ariannol bresennol yn effeithio ar fforddiadwyedd a chapasiti'r Cyngor i gyllido prosiectau cyfalaf newydd trwy fenthyca allanol ychwanegol. Bu'r Cyngor allanoli £15m o fenthyca ym Mawrth 2020 ar gyfraddau isel iawn gyda'r PWLB.

**9.4** Mae'r strategaeth yn cydnabod pwysigrwydd gallu cynnal a chadw asedau presennol y Cyngor. Mae risg nad yw'r rhaglen amnewid yn ddigonol a bod safonau'r asedau yn disgyn i'r fath raddau fel bod angen lefel uwch o fuddsoddiad er mwyn cynnal gwasanaethau. Mae'n bosib na fydd y buddsoddiad ychwanegol hwn yn fforddiadwy neu y bydd gofyn tynnu prosiectau newydd eraill o'r raglen.

**9.5** Mae'r Rhaglen Ysgolion 21ain Ganrif yn rhaglen mor anferth ac uchelgeisiol fel bod risg na fydd y Cyngor yn gallu fforddio Band C a D. Bydd angen i ni gadw golwg barhaus ar Fand B y rhaglen er mwyn sicrhau bod y costau'n cael eu cadw o fewn y cyllidebau a osodwyd yn yr achosion busnes.

**9.6** Mae benthyca allanol yn arwain at gost llog uchel bob blwyddyn. Mae'r mwyafrif o fenthyciadau'r Cyngor yn rhai sefydlog ac ni chânt eu heffeithio gan unrhyw godiadau yn y gyfradd llog. Fodd bynnag, gallai unrhyw gynnydd mawr mewn cyfraddau llog effeithio ar ba mor fforddiadwy yw prosiectau'r dyfodol sy'n cael eu cyllido o fenthyciadau. Mae'r Strategaeth Rheoli Trysorlys yn amlinellu camau sy'n lliniaru'r risg hwn i ryw raddau.

## 10. Gwybodaeth a Sgiliau

**10.1** Mae gan y tîm cyfrifeg Adnoddau chwech o gyfrifyddion cymwys yn cynnwys y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151, sy'n edrych ar ôl y rhaglen gyfalaf a'r swyddogaeth rheoli trysorlys. Mae gennym hefyd dechnegydd cyfrifeg cymwys sydd â phrofiad helaeth mewn cyfalaf a rheoli trysorlys. Mae'r tîm yn mynychu cyrsiau CIPFA ar cyfalaf a rheoli trysorlys ac mae ganddynt wybodaeth gadarn am y maes cyfrifeg hynod o arbenigol hwn. Mae yna hefyd dîm o swyddogion proffesiynol o fewn gwasanaethau megis penseiri, rheolwyr prosiect, peirianwyr sy'n cefnogi'r Cyngor gyda chyflawni'r Rhaglen Gyfalaf. Mae'r Cyngor hefyd yn comisiynu cyngor arbenigol gan Link Asset ac ymgynghorwyr Rheoli Trysorlys. Mae'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau yn y Cyngor yn derbyn adroddiadau rheolaidd ar cyfalaf a rheoli trysorlys ac mae'r Aelodau'n cael cynnig hyfforddiant ar reoli trysorlys. Mae'r trefniadau llywodraethu wedi eu hamlinellu yn y Cyfansoddiad a'r Datganiad Strategaeth Rheoli Trysorlys.

**Atodiad 2**

# Rhaglen Gyfalaf Arfaethedig 2020/21

| Enw'r Cynllun | Cyllideb 2020/21 £ | Ariannwyd gan | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | 2019/20 B/F | Grant Cyfalaf Cyffredinol | Benthyca â Chymorth | Derbyniadau Cyfalaf | Cronfa Cyfalaf Wrth Gefn | Benthyca Digymorth | Grantiau Allanol | Arian Wrth Gefn | Cyfanswm Cyllid |
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| **Cynlluniau 2019/20 a ddygwyd ymlaen** | | | | | | | | | | |
| Safle Sipsiwn a Theithwyr Star | 479 | 479 | | | | | | | | 479 |
| Porth Twristiaeth | 1,003 | 1,003 | | | | | | | | 1,003 |
| Isadeiledd Strategol Caergybi | 1,999 | 1,999 | | | | | | | | 1,999 |
| Isadeiledd Strategol Llangefni | 256 | 256 | | | | | | | | 256 |
| Amddiffynfeydd Llifogydd Traeth Coch | 638 | 638 | | | | | | | | 638 |
| Prosiect Diogelwch Ysgolion | 200 | 200 | | | | | | | | 200 |
| Grant Cyfalaf Cynyddu Capasiti ar gyfer Gofal Plant | 324 | 324 | | | | | | | | 324 |
| Cynlluniau Datblygiad Economaidd | 30 | 30 | | | | | | | | 30 |
| Adfywio Caergybi (Cam II THI) | 900 | 825 | | | 11 | 64 | | | | 900 |
| **Cyfanswm Cynlluniau 2019/20 a ddygwyd ymlaen** | **5,829** | **5,754** | **-** | **-** | **11** | **64** | **-** | **-** | **-** | **5,829** |
| | | | | | | | | | | |
| **Adnewyddu/Disodli Asedau Presennol – Adeiladau, Cerbydau a Phriffyrdd** | | | | | | | | | | |
| Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl | 636 | | 636 | | | | | | | 636 |
| Mynediad i'r Anabl mewn Adeiladau Addysgol | 300 | | | 300 | | | | | | 300 |
| Ailwampio Ysgolion | 1,000 | 1,034 | | 1,000 | | | | | | 2,034 |
| Ailwampio – Adeiladau nad ydynt yn Ysgolion | 600 | | | 379 | 121 | 100 | | | | 600 |
| Ail wynebu Priffyrdd | 1,850 | | 726 | 524 | | | | 600 | | 1,850 |
| Prynu Cerbydau Newydd | 480 | | 480 | | | | | | | 480 |
| Uwchraddio / Newid Offer TG | 292 | | 292 | | | | | | | 292 |
| **Cyfanswm Adnewyddu/Disodli Asedau Presennol** | **6,192** | **1,034** | **2,134** | **2,203** | **121** | **100** | **-** | **600** | **-** | **6,192** |
| | | | | | | | | | | |
| **Prosiectau Cyfalaf Newydd 2020/21** | | | | | | | | | | |
| Datblygiad Economaidd a Llesiant Amgylcheddol | 95 | | | 95 | | | | | | 95 |
| Llithrfa Porth Wrach – Camerâu Gorfodi | 30 | | | 30 | | | | | | 30 |
| Ailwampio Cartref Preswyl Plas Mona | 80 | | 31 | 36 | 13 | | | | | 80 |
| Arian Cyfatebol ar gyfer Cynlluniau Atal | 573 | | | | | 86 | | 487 | | 573 |

| Enw'r Cynllun | Cyllideb 2020/21 £ | Ariannwyd gan | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | 2019/20 B/F | Grant Cyfalaf Cyffredinol | Benthyca â Chymorth | Derbyniadau Cyfalaf | Cronfa Cyfalaf Wrth Gefn | Benthyca Digymorth | Grantiau Allanol | Arian Wrth Gefn | Cyfanswm Cyllid |
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Llifogydd | | | | | | | | | | |
| Gwelliannau Hamdden | 250 | | | | | 250 | | | | 250 |
| Ailwampio Mân Ddaliadau | 100 | | | | 100 | | | | | 100 |
| Partneriaeth Tirlunio Caergybi | 1,146 | | | | | | | 1,146 | | 1,146 |
| **Cyfanswm Prosiectau Cyfalaf Newydd 2020/21** | **2,274** | **-** | **31** | **161** | **113** | **336** | **-** | **1,633** | **-** | **2,274** |
| | | | | | | | | | | |
| **Ysgolion 21ain Ganrif / Moderneiddio Ysgolion** | | | | | | | | | | |
| Cwblhau Rhaglen Band A | 1,205 | | | 217 | | | 602 | 386 | | 1,205 |
| Dechrau Rhaglen Band B | 1,550 | | | 504 | | | 542 | 504 | | 1,550 |
| **Cyfanswm Ysgolion 21ain Ganrif / Moderneiddio Ysgolion** | **2,755** | **-** | **-** | **721** | **-** | **-** | **1,144** | **890** | | **2,755** |
| | | | | | | | | | | |
| **CYFANSWM Y GRONFA GYFFREDINOL** | **17,050** | **6,788** | **2,165** | **3,085** | **245** | **500** | **3,679** | **4,912** | **-** | **17,050** |
| | | | | | | | | | | |
| **Cyfrif Refeniw Tai** | | | | | | | | | | |
| Gwaith cynnal a chadw a gynlluniwyd a Gwelliannau WHQS | 6,645 | | | | | | | 2,660 | 3,985 | 6,645 |
| Datblygiadau newydd a phrynu eiddo Hawl i Brynu yn ôl | 10,493 | | | | | | 250 | | 10,243 | 10,493 |
| Prosiectau Cyfalaf CRT a ddygwyd ymlaen o 2019/20 | 3,117 | 3,117 | | | | | | | | 3,117 |
| **Cyfrif Refeniw Tai** | **20,255** | **3,117** | **-** | **-** | **-** | **-** | **250** | **2,660** | **14,228** | **20,255** |
| | | | | | | | | | | |
| **CYFANSWM RHAGLEN GYFALAF 2020/21** | **37,305** | **9,905** | **2,165** | **3,085** | **245** | **500** | **1,145** | **5,783** | **14,228** | **37,305** |

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **ADRODDIAD I:** | **CYNGOR SIR** |
| **DYDDIAD:** | **10 MAWRTH 2020** |
| **PWNC:** | **Y CYNLLUN ARIANNOL TYMOR CANOL A'R GYLLIDEB AR GYFER 2020/21** |
| **AELOD(AU) PORTFFOLIO:** | **Y CYNGHORYDD R WILLIAMS** |
| **PENNAETH GWASANAETH:** | **MARC JONES** |
| **AWDUR YR ADRODDIAD:**<br>FFÔN:<br>E-BOST: | **MARC JONES**<br>01248 752601<br>rmjfi@ynysmon.gov.uk |
| **AELODAU LLEOL:** | **Amherthnasol** |

**A - Argymhelliad / argymhellion a rheswm / rhesymau**

## 1. Y CYNLLUN ARIANNOL TYMOR CANOL A CHYLLIDEB REFENIW 2020/21

### 1.1 Pwrpas

Cytunodd y Pwyllgor Gwaith ar nifer o faterion allweddol mewn perthynas â chyllideb 2020/21. Mae hyn yn gadael i'r cynigion terfynol gael eu cyflwyno i'r Cyngor llawn yn ei gyfarfod ar 10 Mawrth 2020. Y materion gytunwyd gan y Pwyllgor Gwaith yw:-

- Cyllideb Refeniw'r Cyngor a'r Dreth Gyngor ar gyfer 2020/21 yn sgil hynny;
- Strategaeth Ariannol y Cyngor ar gyfer y Tymor Canol wedi ei diweddaru;
- Defnydd o unrhyw gyllid unwaith ac am byth i gefnogi'r gyllideb.

### 1.2 Crynodeb

Roedd yr adroddiad ystyriwyd gan y Pwyllgor Gwaith yn dangos y cynigion manwl roedd angen adolygiad terfynol a chytundeb arnynt ar gyfer y gyllideb refeniw ar gyfer 2020/21 a'u heffaith ar gyllideb refeniw Cyngor Sir Ynys Môn. Rhain yw y materion i'r Cyngor gytuno arnynt.

Yn dilyn o argymhelliad y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol a'r sylwadau derbyniwyd yn ystod y broses ymgynghori, mae'r Pwyllgor Gwaith wedi cynnwys un newid yn eu cynnig terfynol o'r hyn amlinellwyd ym mhapur y gyllideb. Mae'r Pwyllgor Gwaith wedi cynnig peidio â chynyddu taliadau maes parcio ym Meysydd Parcio Canol Tref ar gyfer 2020/21. Fodd bynnag, maent yn parhau i gynnig diddymu'r tâl am hanner awr, gan wneud y cyfnod lleiaf a godir amdano yn 1 awr. Bydd y cynnig yma'n gostwng yr arbedion arfaethedig o £343,000 i £306,820. Fe gyllidir y newid yma drwy leihau cyllidebau digwyddiadau annisgwyl gan swm cyfatebol. Byddai cyllideb refeniw net cyffredinol y Cyngor yn parhau fel £142.146m.

Mae'r adroddiad hefyd yn diweddaru'r Strategaeth Ariannol Tymor Canol sy'n darparu cyd-destun ar gyfer gwaith ar gyllidebau'r Cyngor yn y dyfodol. Fodd bynnag, dylid nodi y bydd adroddiad pellach ar Strategaeth Ariannol Tymor Canol y Cyngor yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Gwaith yn ddiweddarach yn y flwyddyn pan fydd gwybodaeth bellach am yr economi a'r setliad arfaethedig i lywodraeth leol yn y dyfodol yn fwy eglur efallai.

**2. ARGYMHELLION YNGHYLCH Y GYLLIDEB REFENIW A'R DRETH GYNGOR AR GYFER 2020/21**

Mae'r Pwyllgor Gwaith yn argymell y canlynol i'r Cyngor llawn :-

- Nodi'r cyfarfodydd ymgynghori ffurfiol ar y gyllideb ac ystyried yr adborth a gafwyd ynddynt fel yr amlinellir yn Adran 2, Atodiad 1 ac yn Atodiad 2;
- Manylion terfynol cyllideb arfaethedig y Cyngor gan gynnwys y cyllid diwygiedig mewn ymateb i'r pwysau ar y gyllideb a'r arbedion arfaethedig fel y dangosir nhw yn Adran 8, Atodiad 1, yn Atodiad 3 (wedi ei ddiwygio yn dilyn y Pwyllgor Gwaith) ac yn Atodiad 4;
- Nodi argymhelliad y Swyddog Adran 151 y dylai'r Cyngor fod yn gweithio i sicrhau bod o leiaf £7.1m yn y balansau cyffredinol;
- Nodi'r sylwadau a wnaed gan y Swyddog Adran 151 ar gadernid yr amcangyfrifon a wnaed fel y cânt eu hamlinellu yn Adran 6, Atodiad 1;
- Cymeradwyo cyllideb net ar gyfer y Cyngor Sir o £142.146m a chynnydd yn lefel y Dreth Gyngor felly o 4.5%, (£56.16 – Band D), gan nodi y bydd penderfyniad ffurfiol, yn cynnwys y Praeseptau i Heddlu Gogledd Cymru a'r Cynghorau Cymuned, yn cael ei gyflwyno i'r Cyngor llawn ar 10 Mawrth, 2020;
- Cytuno y bydd unrhyw bwysau annisgwyl ar gyllidebau a arweinir gan y galw yn ystod y flwyddyn ariannol yn gallu tynnu ar gyllid o'r gyllideb gyffredinol ar gyfer digwyddiadau annisgwyl;
- Gofyn i'r Cyngor awdurdodi'r Pwyllgor Gwaith i ryddhau hyd at £250k o'r balansau cyffredinol os bydd y gyllideb ar gyfer digwyddiadau annisgwyl wedi'i hymrwymo'n llawn yn ystod y flwyddyn;
- Dirprwyo i'r Swyddog Adran 151 y pŵer i ryddhau hyd at £50k o'r gronfa digwyddiadau annisgwyl ar gyfer unrhyw un eitem. Ni chaniateir cymeradwyo unrhyw eitem dros £50k heb gael caniatâd ymlaen llaw gan y Pwyllgor Gwaith;
- Cymeradwyo bod y Premiwm Treth Gyngor ar gyfer ail gartrefi yn parhau i fod yn 35% ac yn parhau i fod yn 100% ar gyfer tai gwag.

**B - Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a pham wnaethoch chi eu gwrthod a / neu ddewis yr opsiwn hwn?**

Ystyriwyd nifer o opsiynau yn dilyn rhyddhau'r cynigion cychwynnol ar gyfer y gyllideb. Mae'r cynigion terfynol ar gyfer y gyllideb yn cymryd i ystyriaeth y setliad terfynol i lywodraeth leol, y sylwadau a gafwyd yn ystod y broses ymgynghori a sylwadau'r Pwyllgor Sgriwtini.

**C - Pam mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?**

Yn unol â Chyfansoddiad y Cyngor, rhaid i'r Pwyllgor Gwaith gyhoeddi ei gynnig terfynol ar gyfer y gyllideb cyn iddo gael ei ystyried gan y Cyngor.

**CH - A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â pholisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?**

Amherthnasol

**D - A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?**

Amherthnasol

| DD - | Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori? | Beth oedd eu sylwadau? |
|---|---|---|
| 1 | **Prif Weithredwr / Uwch Dîm Arweinyddiaeth (UDA)** (dewisol) | Mae'r Prif Weithredwr a'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth wedi bod yn rhan o'r broses o osod y gyllideb drwyddi draw ac maent yn cytuno gyda'r adroddiad ac yn cefnogi'r cynnig terfynol ar gyfer y gyllideb. |
| 2 | **Cyllid / Adran 151** (gorfodol) | Amherthnasol - y Swyddog Adran 151 yw awdur yr adroddiad. |
| 3 | **Swyddog Cyfreithiol / Monitro** (gorfodol) | Mae'r Swyddog Monitro yn rhan o'r UDA ac o'r herwydd mae sylwadau'r swyddog wedi cael eu cymryd i ystyriaeth. |
| 4 | **Adnoddau Dynol (AD)** | - |
| 5 | **Eiddo** | - |
| 6 | **Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh)** | - |
| 7 | **Sgriwtini** | Ystyriwyd y cynigion terfynol ar gyfer y gyllideb gan y Pwyllgor Sgriwtini yn ei gyfarfod ar 27 Chwefror 2020. Cynigodd y Pwyllgor beidio cynyddu taliadau Meysydd Parcio Canol Tref ac i gynyddu cyllidebau risg wrth gefn gan £198k. Cyllidir y newidiadau yma gan gynnydd o 5% yn y Dreth Gyngor. |
| 8 | **Aelodau Lleol** | Mae cyllideb y Cyngor yn berthnasol i holl aelodau'r Cyngor ac ymgynghorwyd â nhw trwy gydol y broses o osod y gyllideb. |
| 9 | **Unrhyw gyrff allanol / eraill** | Gweler Adran 2 yr adroddiad. |

| E - | Risgiau ac unrhyw gamau lliniaru (os yn berthnasol) | |
|---|---|---|
| 1 | **Economaidd** | |
| 2 | **Gwrth-dlodi** | Bydd cynyddu'r Dreth Gyngor yn effeithio ar lefelau incwm gwario trethdalwyr. Mae'r Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor yn cynorthwyo trethdalwyr sydd ar incwm isel trwy ostwng y swm sy'n ddyledus yn rhannol neu'n llawn |
| 3 | **Trosedd ac Anhrefn** | |
| 4 | **Amgylcheddol** | |
| 5 | **Cydraddoldebau** | Gweler Adran 11, Atodiad 1 |
| 6 | **Cytundebau Canlyniad** | |
| 7 | **Arall** | |

**F - Atodiadau:**

- Atodiad 1 – Adroddiad manwl ar y Cynigion ar gyfer y Gyllideb – cyflwynwyd i'r Pwyllgor Gwaith 2 Mawrth 2020
- Atodiad 2 – Crynodeb o Ganlyniadau'r Broses Ymgynghori
- Atodiad 3 – Crynodeb o'r Gyllideb Refeniw Arfaethedig ar gyfer 2020/21 fesul Gwasanaeth – wedi ei ddiwygio yn dilyn cyfarfod o'r Pwyllgor Gwaith ar 2 Mawrth 2020
- Atodiad 4 – Arbedion Cyllideb Refeniw Arfaethedig Terfynol

**FF - Papurau cefndir (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach):**

## 1. RHAGARWEINIAD A CHEFNDIR

**1.1.** Mae'r adroddiad canlynol yn nodi'r cynigion ar gyfer cyllideb refeniw 2020/21 ac mae'n un o gyfres o adroddiadau sy'n rhoi darlun cyffredinol o sefyllfa ariannol y Cyngor ac sy'n sicrhau bod arian y Cyngor yn cael ei ddyrannu i gwrdd â'i flaenoriaethau. Mae'r adroddiadau eraill yn y gyfres yn ymwneud â Rhaglen a Strategaeth Gyfalaf y Cyngor, Strategaeth Rheoli Trysorlys y Cyngor, Ffioedd a Thaliadau a Defnyddio Cronfeydd Wrth Gefn y Cyngor.

**1.2.** Gyrrir y gyllideb refeniw a'r angen parhaus i ddod o hyd i arbedion refeniw gan y Strategaeth Ariannol Tymor Canol fel y cymeradwywyd hi gan y Pwyllgor Gwaith ym mis Medi 2018 a gellir ei chrynhoi fel a ganlyn:-

**Tabl 1**
**Cynllun Ariannol Tymor Canol 2020/21 i 2022/23**

| | 2019/20 £'m | 2020/21 £'m | 2021/22 £'m |
|---|---|---|---|
| Cyllideb Refeniw a ddygwyd ymlaen | 135.21 | 139.60 | 141.67 |
| Pwysau ar y Gyllideb a Chwyddiant | 6.16 | 4.84 | 3.65 |
| **Cyllideb Ddiwygiedig** | **141.37** | **144.44** | **145.32** |
| Cyllid Allanol Cyfun (AEF) | 98.21 | 98.21 | 98.21 |
| Y Dreth Gyngor | 41.39 | 43.46 | 45.63 |
| **Cyfanswm Cyllid** | **139.60** | **141.67** | **143.84** |
| | | | |
| **Yr Arbedion y mae angen eu gwneud** | **1.77** | **2.77** | **1.48** |
| | | | |
| **Prif Dybiaethau** | | | |
| Dyfarniadau Tâl – staff nad ydynt yn Athrawon | 2.0% | 2.0% | 2.0% |
| Dyfarniadau Tâl – Athrawon | 2.3% | 2.0% | 2.0% |
| Pensiwn Athrawon | 14.4% | 0.0% | 0.0% |
| Chwyddiant Cyffredinol | 2.1% | 2.1% | 2.0% |
| Newid yn y Cyllid Allanol Cyfun | 2.5% | 0.0% | 0.0% |
| Cynnydd yn y Dreth Gyngor | 5.0% | 5.0% | 5.0% |

**1.3.** Mae'r tabl uchod yn dangos, er gwaethaf parhau gyda chynnydd o 5% yn y Dreth Gyngor, na fyddai hynny'n ddigon i gwrdd â'r gost ychwanegol oherwydd galw am wasanaethau a chwyddiant. Roedd y rhagdybiaethau mewn perthynas â'r Cyllid Allanol Cyfun yn gwneud darpariaeth ar gyfer grantiau yn trosglwyddo i'r setliad yn 2020/21 ond na fyddai cyllid ychwanegol ar gael. Canlyniad y cynllun oedd y byddai'r Cyngor yn ceisio dod o hyd i £6m o arbedion yn y gyllideb refeniw dros y 3 blynedd nesaf.

**1.4.** Ystyriodd y Pwyllgor Gwaith ei gynigion cychwynnol ar gyfer y gyllideb yn ei gyfarfod ar 13 Ionawr 2020 a chymeradwyodd Gyllideb Ddisymud Gychwynnol o £142.203m. Roedd y setliad refeniw dros dro a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru yn well na'r disgwyl gyda £1.533m o grantiau ac addasiadau yn dod mewn i'r setliad (1.6%), ynghyd â £3.68m arall o gyllid ychwanegol (3.78%). 'Roedd hyn yn cynyddu'r Cyllid Allanol Cyfun amodol i £101.005m, a oedd £2.795m yn uwch na'r ffigwr a ragdybiwyd yn y Cynllun Ariannol Tymor Canol.

**1.5.** Yn seiliedig ar y gyllideb ddisymud a'r setliad dros dro, byddai modd cydbwyso'r gyllideb gyda chynnydd o 4.64% yn y Dreth Gyngor heb orfod gwneud arbedion. Fodd bynnag, nodwyd bod modd arbed £0.343m, heb i hynny gael unrhyw effaith ar wasanaethau. Penderfynodd y Pwyllgor Gwaith, yn y cyfarfod ar 13 Ionawr 2020, i ymgynghori ar gynnydd yn y Dreth Gyngor o rhwng 4.5% a 5.0% ac ar weithredu'r cynigion a nodwyd ar gyfer arbedion.

## 2. YMGYNGHORIAD Y CYNGOR

**2.1.** Cyhoeddodd y Cyngor ei gynigion ar gyfer y gyllideb ar 14 Ionawr 2020 a daeth y cyfnod ymgynghori i ben ar 7 Chwefror 2020. Gofynnwyd i ddinasyddion, partneriaid, rhanddeiliaid a staff ymateb i'r ymgynghoriad trwy wahanol ddulliau gan gynnwys:-

- Cyfryngau Cymdeithasol
- Ymateb trwy wefan y Cyngor
- Ymateb yn uniongyrchol trwy lythyr neu e-bost

**2.2.** Yn ogystal, fe gynhaliodd y Cyngor :-

- Grwpiau ffocws ar gyfer pobl dan 25 oed;
- Fforwm Pobl Hŷn;
- Sesiwn gyda Phenaethiaid ac Uwch Reolwyr Ysgolion;
- Fforwm Cynghorau Tref a Chymuned;
- Fforwm Partneriaeth (Yr Heddlu, y Gwasanaeth Tân, Iechyd, Fforymau Cynghorau Tref a Chymuned, y Trydydd Sector).

**2.3.** Mae canlyniadau'r broses ymgynghori ynghlwm yn Atodiad 2.

## 3. Y GYLLIDEB DDISYMUD DDIWYGIEDIG AR GYFER 2019/20 A'R BWLCH YN Y GYLLIDEB

**3.1.** Ers cwblhau cynigion cychwynnol ar gyfer y gyllideb, gwnaed rhagor o waith i adolygu a diwygio'r gyllideb ddisymud ar gyfer 2020/21. Mae hyn wedi arwain at ychydig bach o newidiadau a nodir yn Nhabl 2 isod:-

**Tabl 2**
**Addasiadau i’r Gyllideb Ddisymud**

| | £m | £m |
|---|---|---|
| Y Gyllideb Ddisymud ar 13 Ionawr 2020 | | 142.203 |
| Arbedion arfaethedig | | (0.343) |
| Cynnydd yn y gyllideb i gwrdd â cynnydd yn y galw am wasanaethau | | 0.287 |
| **Cyllideb Arfaethedig Gychwynnol ar gyfer 2020/21 ar 13 Ionawr 2020 (gan ragdybio cynnydd o 4.5% yn y Dreth Gyngor)** | | **142.147** |
| **Addasiadau Terfynol** | | |
| Cywiro cyllidebau NNDR yn dilyn cadarnhad o'r lluosydd terfynol | (0.003) | |
| Cywiro Cyllideb Premiwm Yswiriant | 0.004 | |
| Cywiro Cyllideb Grant Gweinyddu Budd-dal Tai yn dilyn cadarnhad o'r dyfarniad grant ar gyfer 2020/21 | 0.027 | |
| **Cyfanswm Addasiadau i’r Gyllideb** | | **0.228** |
| **Y Gyllideb Ddisymud Ddiwygiedig ar 2 Mawrth 2020** | | **142.175** |

**3.2** Cyhoeddwyd ffigyrau’r setliad terfynol gan Lywodraeth Cymru ar 25 Chwefror 2020. Nid oedd y ffigurau a gyhoeddwyd yn dangos unrhyw newid i'r setliad dros dro ac felly bydd Ynys Môn yn derbyn £101.005m fel AEF ar gyfer 2020/21.

**3.3** Fel rhan o’r setliad terfynol, mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi grant ychwanegol o £10m, yn ogystal â’r grant o £30m yn 2019/20, i helpu awdurdodau lleol ddelio gyda’r cynnydd yn y galw am wasanaethau Gofal Cymdeithasol. Cyfran Ynys Môn o’r grantiau hyn yw £932k.

## 4. Y DRETH GYNGOR

**4.1.** Roedd y Dreth Gyngor ar gyfer eiddo Band D am 2019/20 yn £1,248.57, sef y 16eg o’r 22 Awdurdod yng Nghymru ac mae’n is na chyfartaledd Cymru, sef £1,319. Yr hyn sy’n bwysicach i Ynys Môn yw’r gymhariaeth â’r 5 awdurdod arall yng Ngogledd Cymru. Dangosir hyn yn Nhabl 3 isod:-

**Tabl 3**
**Cymharu Treth Gyngor Band D yn Awdurdodau Gogledd Cymru**

| Awdurdod | Tâl Band D 2019/20 £ | Y swm dros / o dan ffigwr Ynys Môn £ | Y ganran dros / o dan ffigwr Ynys Môn % |
|---|---|---|---|
| Ynys Môn | 1,249 | | |
| Gwynedd | 1,376 | + 127 | + 10.2% |
| Conwy | 1,281 | + 32 | + 2.6% |
| Sir Ddinbych | 1,327 | + 78 | + 6.2% |
| Sir y Fflint | 1,281 | + 32 | + 2.6% |
| Wrecsam | 1,153 | - 96 | - 7.7% |

**4.2.** Roedd y gyllideb Treth Gyngor ar gyfer 2019/20 (cyn cynyddu'r Dreth Gyngor ond ar ôl gwneud addasiad ar gyfer y newid yn y sylfaen drethu a'r premiwm) yn £39.370m. Felly, mae pob cynnydd o 1% yn cynhyrchu £393k o gyllid ychwanegol.

Ar ôl cymryd y setliad terfynol o £101.005m i ystyriaeth, byddai angen £41.172m o gyllid Dreth Gyngor i gyllido gofynion cyllideb o £142.177m (gweler Tabl 2). Er mwyn cyllido'r gofynion cyllideb diwygiedig, byddai angen cynnydd o 4.58% yn y Dreth Gyngor, a fyddai'n golygu cynyddu cost Band D i £1,305.72, cynnydd o £57.15 neu £1.10 yr wythnos.

**4.3.** Byddai unrhyw gynnydd yn y Dreth Gyngor yn darparu mwy o gyllid nag sydd ei angen i gyllido'r gyllideb Ddisymud Ddiwygiedig o £142.177m. Byddai cynnydd o 5% yn darparu £156k ychwanegol. Gellir defnyddio'r cyllid dros ben fel a ganlyn:-

- Cyllido'r pwysau cyllidebol a nodwyd ym mharagraff 8 uchod.
- Caniatáu gohirio rhywfaint o'r arbedion o £0.343m a gynigiwyd.
- Cynyddu cyllidebau ar gyfer digwyddiadau annisgwyl a thrwy hynny leihau'r perygl o orwario yn 2020/21.

**4.4.** Yn y setliad terfynol, gosodwyd yr elfen dreth safonol ar gyfer y Cyngor h.y. y ffigwr Treth Gyngor safonol ledled Cymru, a ddefnyddir i bennu'r Cyllid Allanol Cyfun ar gyfer pob Cyngor, ar £1,335.76, sydd 7.1% yn uwch na'r ffigwr yn 2019/20.

## 5. CRONFEYDD WRTH GEFN CYFFREDINOL A PHENODOL, CRONFEYDD AR GYFER DIGWYDDIADAU ANNISGWYL A RISG ARIANNOL

**5.1.** Mae'r gyllideb arfaethedig yn cynnwys nifer o ragdybiaethau o ran yr incwm a'r gwariant tebygol yn y blynyddoedd i ddod. Mae'n anochel felly fod nifer o risgiau ariannol cynhenid yn y gyllideb arfaethedig. Amlygir y risgiau ariannol allweddol isod:-

- Mae gan unrhyw orwariant a ragwelir yn 2019/20 oblygiadau uniongyrchol ar gyfer cyllideb 2020/21, h.y. a fydd y gwasanaethau sy'n gorwario ar hyn o bryd yn wynebu'r un pwysau ar eu cyllidebau yn 2020/21 ac, o ganlyniad, a fyddant yn gallu darparu gwasanaethau o fewn y gyllideb arfaethedig yn 2020/21. Yn ogystal, bydd unrhyw orwariant yn 2018/19 yn effeithio ar lefel cronfeydd wrth gefn cyffredinol y Cyngor i'r dyfodol. Ar hyn o bryd, rhagwelir gorwariant net o £1.10m ar gyllidebau Gwasanaeth (ac eithrio cyllidebau corfforaethol a chostau cyllido cyfalaf) ar gyfer 2019/20 ac mae hwn yn ffactor pwysig i'w ystyried. Mae'r ffigwr hwn ar ôl derbyn £363k o gyllid grant ychwanegol gan Lywodraeth Cymru i ateb y galw ychwanegol am ofal cymdeithasol yn ystod misoedd y gaeaf. Ni wnaed unrhyw gyhoeddiad a fydd y cyllid hwn ar gael eto yn 2020/21 a heb y cyllid hwn mae'r gorwariant sylfaenol ar wasanaethau yn £1.46m. Mae £1.43m ychwanegol wedi'i gynnwys yn y gyllideb ddisymud, i gwrdd â'r gorwariant posib hwn.

- Mae'r galw am Wasanaethau Oedolion, Gwasanaethau Plant a gwasanaethau addysg arbenigol ychwanegol a chostau cysylltiedig wedi cynyddu yn ystod y ddwy neu dair blynedd ddiwethaf. Mae'r gyllideb ddisymud yn seiliedig ar lefel y galw ar hyn o bryd ond mae risg sylweddol y bydd y galw am y gwasanaethau hyn yn parhau i dyfu oherwydd bod ein poblogaeth yn heneiddio ac o gofio'r gwelliant ym mhrosesau'r Gwasanaethau Plant a all olygu bod y gwasanaeth yn nodi mwy o blant y mae angen i'r Awdurdod ymyrryd yn eu cylch.
- Cytunwyd ar y dyfarniad cyflog i athrawon hyd at fis Medi 2020 ac mae'r swm y bydd ei angen wedi'i gynnwys yn y cynnig ar gyfer y gyllideb. Fodd bynnag, nid yw'r dyfarniad cyflog ar gyfer y cyfnod o Medi 2021 ymlaen wedi ei gynnwys. Gwnaed darpariaeth ar gyfer cynnydd o 2%, ond nid yw'n eglur ar hyn o bryd a fydd hynny'n ddigon.
- Ni chytunwyd ar y dyfarniad tâl i staff nad ydynt yn staff addysgu ac a ddaw i rym ar 1 Ebrill 2020. Mae'r Cyflogwyr wedi cynnig cynnydd o 2% ond mae'r Undebau wedi gwneud cais am gynnydd o 10%. Mae cyllid ychwanegol wedi'i gynnwys yn y gyllideb i dalu am godiad cyflog o 2%. Mae pob 1% dros y gyfradd hon yn cynyddu'r gost flynyddol oddeutu £450k.
- Caniatawyd cynnydd chwyddiant o 2% ar draws yr holl wariant nad yw'n ymwneud â thâl (oni bai fod y cynnydd a wnaed ar gyfer chwyddiant mewn cytundebau yn hysbys). Er bod y rhan fwyaf o'r proffwydoliaethau'n awgrymu y bydd chwyddiant yn aros ar lefel o tua 2% yn y dyfodol rhagweladwy, gallai'r ansicrwydd ynghylch Brexit a'i effaith ar economi'r DU olygu bod chwyddiant yn codi i lefel sy'n uwch na'r hyn y darparwyd ar ei gyfer yn y gyllideb.
- Codwyd ffioedd a thaliadau anstatudol 3% ar gyfartaledd ym mhob gwasanaeth. Ni wnaed unrhyw addasiad ar gyfer newid y galw am y gwasanaethau a phe bai'r cynnydd yn y ffioedd a thaliadau yn arwain at ostyngiad yn y galw, yna mae perygl na chyflawnir cyllidebau incwm.

**5.2.** O ran unrhyw gronfeydd ar gyfer digwyddiadau annisgwyl a chronfeydd wrth gefn, mae angen i'r Swyddog Adran 151 adolygu'r cyfan o'r rhain a'r gyllideb sylfaenol ei hun, ynghyd â'r risgiau ariannol sy'n wynebu'r Awdurdod. Yn ogystal, dylai'r adolygiad edrych i'r tymor canol lle bo angen, a chymryd i ystyriaeth unrhyw ddatblygiadau allweddol a allai effeithio ar yr angen am adnoddau unwaith ac am byth a'r angen i'w defnyddio.

**5.3.** Cymerir agwedd gadarn tuag at reoli risgiau cyllidebol a diogelu iechyd ariannol y Cyngor ar hyn o bryd. Mae hyn yn arbennig o wir pan fo angen diogelu cyllid unwaith ac am byth yn ddigonol er mwyn cyllido newidiadau strategol/trawsnewid yn y dyfodol yn hytrach na chyllido gorwariant sylweddol yn y gyllideb sylfaenol ei hun.

**5.4.** Cymerwyd i ystyriaeth yr angen i gyfyngu cymaint â phosib ar wariant a'r effaith ganlynol ar wasanaethau, ond rhaid cydbwyso hyn yn erbyn yr angen i sicrhau sefydlogrwydd ariannol y Cyngor yn y tymor canol a'r tymor hir a'r angen hefyd i weithredu arbedion dros y blynyddoedd nesaf mewn ffordd raddol a strwythuredig. Yn ogystal, mae yna rywfaint o risg o wariant annisgwyl neu orwariant oherwydd pwysau mwy cyffredinol ar gyllideb gwasanaethau, a rhaid i'r cronfeydd wrth gefn fod yn ddigonol i fedru ymdopi â'r pwysau hyn.

**5.5.** Ar 31 Mawrth 2019, roedd cronfeydd cyffredinol y Cyngor yn £5.912m sy'n cyfateb i 4.4% o gyllideb refeniw net y Cyngor ar gyfer 2019/20, neu 6.1% os na chaiff y cyllidebau a ddirprwywyd i'r ysgolion eu cynnwys. Mae maint y gronfa wrth gefn gyffredinol yn fater i'r Cyngor benderfynu arno, a hynny'n seiliedig ar argymhelliad gan y Swyddog Adran 151 ond, fel rheol gyffredinol, ystyrir bod 5% o'r gyllideb refeniw net yn lefel dderbyniol. Yn seiliedig ar gyllideb refeniw ddisymud 2020/21, byddai hyn yn golygu y byddai angen tua £7.1m o gronfeydd wrth gefn cyffredinol. Mae hyn yn cymryd i ystyriaeth nad oes gan y mwyafrif o ysgolion uwchradd unrhyw gronfeydd wrth gefn i ddisgyn yn ôl arnynt erbyn hyn a bod ysgolion cynradd yn dibynnu fwyfwy ar eu cronfeydd wrth gefn i gydbwyso eu cyllidebau. Os nad yw'r cyllidebau a ddirprwywyd i'r ysgolion yn cael eu cynnwys yn y cyfrifiad, yna byddai angen cronfeydd wrth gefn cyffredinol o £5.0m.

**5.6.** Yn ystod 2019/20, mae nifer o eitemau wedi newid lefel y cronfeydd wrth gefn cyffredinol neu mae'r Pwyllgor Gwaith cytuno i gyllido'r gost o'r cronfeydd wrth gefn cyffredinol. Mae'r rhain yn cynnwys: -

- Credydu 50% o werth y Grant Pensiwn Athrawon yn ôl i'r Gronfa Wrth Gefn Gyffredinol. Arweiniodd hyn at gynnydd o £479k yn y gronfa wrth gefn.
- Cyllido cost ychwanegol taliadau tâl gwyliau wedi'u hôl-ddyddio i athrawon cyflenwi. Arweiniodd hyn at ostyngiad o £110k yn y gronfa wrth gefn.

Yn ogystal, rhagwelir ar hyn o bryd y bydd gorwariant o £1.25m yn y gyllideb refeniw yn 2019/20. Ar ôl addasu ar gyfer y swm a fydd yn cael ei gredydu i Gronfeydd Gwasanaeth unigol, bydd gostyngiad o £1.67m yn y gronfa gyffredinol, sy’n golygu y rhagwelir balans ar 31 Mawrth 2020 o £4.61m, sy'n cyfateb i 3.2% o'r gyllideb refeniw arfaethedig ar gyfer 2020/21.

**5.7.** Mewn cyfnod o lymder ariannol, mae cyllidebau’n gostwng ac nid ydynt yn gallu delio â chynnydd mewn galw, yn enwedig yn y gwasanaethau hynny sydd â llai o reolaeth dros y galw e.e. Gwasanaethau Cymdeithasol. Felly, mae dadl bod mwy o angen am gronfeydd wrth gefn cyffredinol oherwydd bod mwy o risg o orwariant a bydd y Cyngor angen mwy o adnoddau ariannol i leihau’r risg cymaint â phosib.

**5.8.** Ym marn broffesiynol y Swyddog Adran 151 mae lefel y cronfeydd wrth gefn cyffredinol wedi cyrraedd sefyllfa dyngedfennol bellach ac ni ddylid caniatáu iddynt ostwng ymhellach. Mae cael cyn lleied â 3% o gronfeydd ariannol wrth gefn yn risg ariannol i’r Awdurdod ac mae’r risg honno’n cynyddu po hiraf y bydd y cronfeydd wrth gefn yn parhau i fod cyn ised. Yn y tymor canol, rhaid i gynllun ariannol y Cyngor gynnwys cyllido ar gyfer gwarged y gellir ei defnyddio i godi lefel y cronfeydd wrth gefn cyffredinol i £7m o leiaf. Derbynnir nad oes modd cyflawni hynny mewn un flwyddyn ariannol, ac y gallai gymryd rhwng 3 a 5 mlynedd i wneud hynny, a bydd rhaid i’r cyfraniad blynyddol hwn tuag at y cronfeydd wrth gefn ddigwydd mewn cyfnod o lymder parhaus a’r angen i ganfod arbedion pellach.

**5.9.** Mae gan y Cyngor hefyd £9.9m mewn cronfeydd wrth gefn clustnodedig a chyfyngedig (ar 31 Mawrth 2019). Mae angen y mwyafrif o’r cronfeydd wrth gefn hyn i gyllido prosiectau penodol, neu maent yn gyllid grant sydd ar ôl neu maent ar gael i gyllido risgiau posib os byddant yn gwaethygu i’r fath raddau eu bod yn creu problem. Mae’r cronfeydd wrth gefn clustnodedig a chyfyngedig hyn yn parhau i gael eu defnyddio ac amcangyfrifir y bydd y balans wedi gostwng i £8.4m erbyn diwedd blwyddyn ariannol 2019/20. Mae mwyafrif y £8.4m ar gyfer cyllido risgiau posib e.e. risgiau heb yswiriant, i gadw grantiau sydd heb eu dyrannu ac i gyllido prosiectau sydd wedi cychwyn a fydd yn cael eu cwblhau yn ystod 2019/20.

**5.10.** Efallai y bydd sgôp i ryddhau swm bychan o’r cronfeydd wrth gefn clustnodedig i’r cronfeydd wrth gefn cyffredinol ac mae adroddiad llawn ar Gronfeydd Wrth Gefn Cyffredinol a Chlustnodedig wedi’i gynnwys fel eitem ar wahân ar raglen y Pwyllgor.

**5.11.** Mae’r gyllideb ddisymud ar gyfer 2020/21 yn cynnwys £1.183m o gronfeydd cyffredinol a chlustnodedig ar gyfer digwyddiadau annisgwyl. Mae’r eitemau o dan y pennawd hwn yn cynnwys cronfa gyffredinol ar gyfer digwyddiadau annisgwyl o £404k, cronfa ar gyfer digwyddiadau annisgwyl o £150k yn y maes cyflogau a graddfeydd swyddi, a £108k ar gyfer cyllid y mae cyfyngiad amser ynghlwm ag ef, gan gynnwys y cynnig Twf Rhanbarthol a phrosiect STEM Gogledd Cymru. Mae’r gyllideb hefyd yn cynnwys £235k i liniaru’r risg a nodir uchod a £287k tuag at unrhyw gostau ychwanegol mewn unrhyw gyllidebau Gofal Cymdeithasol oherwydd cynnydd yn y galw am wasanaeth. Mae cyllidebau ar gyfer digwyddiadau annisgwyl yn lliniaru, i ryw raddau, y risg y bydd y Cyngor yn cael costau annisgwyl neu fod costau’n cynyddu yn ystod y flwyddyn. Byddai gostwng lefel y cyllidebau cyffredinol ar gyfer digwyddiadau annisgwyl yn golygu y byddai’n rhaid cyllido costau annisgwyl neu gynnydd mewn costau o’r balansau cyffredinol.

## 6. CADERNID YR AMCANGYFRIFON

**6.1.** Yn unol ag Adran 25 Deddf Llywodraeth Leol 2003, mae'n ofynnol i'r Prif Swyddog Cyllid gyflwyno adroddiad ar gadernid yr amcangyfrifon cyllidebol a digonolrwydd y cronfeydd wrth gefn arfaethedig.

**6.2.** Mae amcangyfrifon y gyllideb yn seiliedig ar dybiaethau ynghylch gwariant ac incwm yn y dyfodol ac maent yn cynnwys elfen o risg oherwydd rhagdybio. Gellir lliniaru effaith y risg hon drwy gynlluniau wrth gefn, cyllidebau wrth gefn ar gyfer digwyddiadau annisgwyl a chronfeydd ariannol wrth gefn.

**6.3.** Nid yw cadernid yr amcangyfrifon cyllidebol yn gwestiwn syml o p'un a ydynt wedi eu cyfrifo'n gywir ai peidio. Yn ymarferol, mae llawer o gyllidebau wedi'u seilio ar amcangyfrif neu ragolygon, ac efallai y bydd elfen o risg ynghylch a fydd y cynlluniau'n cael eu gweithredu neu a fydd modd cyflawni'r targedau. Caiff amrywiol risgiau i'r gyllideb eu hystyried yn eu tro isod:-

- **Risg Chwyddiant** – Risg yw hon y gallai lefel chwyddiant fod yn sylweddol wahanol i'r rhagdybiaeth a wnaed yn y gyllideb. Ar gyfer 2020/21, caniatawyd ar gyfer chwyddiant yn y gyllideb fel a ganlyn: dyfarniadau tâl yn unol â'r cynnig a wnaed gan y Cyflogwr ar gyfer staff CGC ac Athrawon, chwyddiant prisiau (2.0%). Nid yw'r rhagolygon diweddaraf yn dangos y bydd chwyddiant yn codi'n sylweddol yn ystod 2020/21 a disgwylir y bydd chwyddiant o gwmpas targed y Llywodraeth, sef 2%, neu y bydd o gwmpas y ffigwr hwnnw. Mae tua £54m o gyllideb y Cyngor yn cael ei wario ar gyflenwadau a gwasanaethau lle bydd y pris yn cynyddu wrth i chwyddiant godi. Gallai cynnydd o 1% mewn chwyddiant ychwanegu £540k i gostau'r Cyngor (tua 0.5% o'r gyllideb net). Er bod chwyddiant yn dal i fod yn risg, mae gan y Cyngor ddigon o gronfeydd wrth gefn i gyllido cynnydd sydyn mewn chwyddiant.

- **Risg Cyfraddau Llog** – Mae cyfraddau llog yn effeithio ar gyllideb refeniw un flwyddyn drwy'r llog a enillir – h.y. mae cynnydd yn y gyfradd llog yn beth da. Yn unol â Strategaeth Rheoli Trysorlys yr Awdurdod, yr ystyriaethau cyntaf wrth fuddsoddi fydd diogelwch a hylifedd y buddsoddiad – bydd yr elw ar y buddsoddiad yn llai o flaenoriaeth. Nid yw'r gyllideb felly'n dibynnu ar gael elw mawr o'r buddsoddiadau a wneir. Mae cyfraddau llog yn parhau i fod yn isel iawn ac er y gallant ddechrau codi, ni fydd y cynnydd yn sylweddol yn 2020/21. Mae'r rhan fwyaf o'r llog a delir gan y Cyngor yn gysylltiedig â benthyciadau cyfraddau sefydlog na fyddant yn newid pe bai'r gyfradd llog yn codi. Felly, fel yn y blynyddoedd diwethaf, ystyrir bod y risg o ran cyfraddau llog yn isel, ac mae hon yn risg y mae'r risg chwyddiant yn ei lliniaru, oherwydd os yw un yn cynyddu, yna mae'r llall yn debygol o gynyddu hefyd;

- **Risgiau Grantiau –** Mae'r rhain yn risgiau gyda nifer fawr o grantiau penodol gan Lywodraeth Cymru, gan Ewrop neu gan gyrff eraill sy'n cefnogi cyfran dda o wariant y Cyngor. Efallai y bydd rhai o'r rhain yn gostwng yn sylweddol neu'n cael eu dileu yn gyfan gwbl; nid oes gennym ddarlun cyflawn o'r rhain i gyd ac ni fydd y sefyllfa'n fwy eglur hyd yn oed wrth i'r flwyddyn ariannol gychwyn. Er mai'r ymateb naturiol yw dweud y bydd rhaid i'r gwariant sy'n gysylltiedig â'r grant ddod i ben pan ddaw'r grant i ben, mae perygl na fydd hyn bob amser yn bosib. Efallai na fydd yn bosib pan fydd telerau'r contract yn golygu na all y gwariant gael ei dorri mor gyflym â'r incwm neu os oes costau diswyddo sydd heb eu cyllido. Efallai na fydd yn bosib os yw'r gweithgaredd a ariennir mor bwysig ar gyfer cyflawni Blaenoriaethau'r Cyngor ei hun fel bod y Cyngor yn penderfynu bod rhaid iddo barhau â'r gwariant. Wrth ymdrechu i liniaru'r risg hon, rhaid sicrhau bod gennym y wybodaeth orau sydd ar gael am bob un o'r grantiau, ond ni fedrir diystyru'n gyfan gwbl y posibilrwydd y bydd newidiadau sylweddol yn digwydd yn ystod y flwyddyn;

- **Risgiau Incwm –** Mae'r gyllideb yn seiliedig ar sicrhau cynnydd cyffredinol o 3% mewn ffioedd, ac mae nifer o wasanaethau wedi rhagdybio codiadau a fydd hyd at 3%. Os bydd newid yn y galw am Wasanaethau'r Cyngor yn golygu bod lefel y galw'n disgyn, ac os na lwyddir i gyrraedd targedau incwm, gall hynny arwain at orwario ar gyllidebau net. Bydd angen monitro sefyllfa'r gyllideb net yn ofalus, ac, os oes angen, bydd rhaid torri yn ôl ar wariant i gyfateb i'r gostyngiad mewn incwm;

- **Risg o fod yn rhy optimistaidd** - Mae'n debyg mai'r risg fwyaf yn y blynyddoedd diwethaf oedd bod yr Awdurdod, Aelodau a Swyddogion wedi bod yn or-optimistaidd o ran yr arbedion y gellir eu gwneud neu na fydd cynnydd sylweddol yn y galw am wasanaethau, ac yn arbennig gofal cymdeithasol. Ar gyfer 2020/21, mae lefel yr arbedion a gynigiwyd yn isel a gellir gweithredu'r arbedion hynny'n rhwydd, ond mae'r risg o gynnydd yn y galw am wasanaethau yn dal i fodoli. Mae'r gyllideb arfaethedig yn lliniaru risg hon i ryw raddau, trwy gadw rhywfaint o gyllid wrth gefn ond os bydd y galw'n codi'n sydyn, gellid gorwario'n sylweddol.

- **Risg o fod yn rhy Ofalus –** Dyma'r gwrthwyneb i'r risg uchod; y perygl bod ein cyllidebau wedi cael eu llunio'n rhy wyliadwrus ac, o'r herwydd, eu bod yn fwy nag sydd ei angen, gan arwain at osod y Dreth Gyngor ar lefel uwch nag sydd raid - rhywbeth y mae Aelodau yn awyddus i'w osgoi.

- **Costau Diswyddo Staff -** Oherwydd lefel yr arbedion y bu'n rhaid eu gwneud mewn blynyddoedd blaenorol, rhyddhawyd staff addysgu a staff nad ydynt yn addysgu trwy'r broses ddiswyddo. Cyllidwyd costau diswyddo o gyllid wrth gefn canolog. 'Roedd £400k yn y gronfa wrth gefn yn 2019/20 ond mae'r gyllideb a gynigir yn gostwng y ffigwr hwn i £150k. Nid yw cyllideb 2020/21 yn cynnwys cynigion ar gyfer arbedion a fyddai'n golygu y byddai angen lleihau nifer y staff ac mae'r cyllidebau a ddirprwywyd i'r ysgolion hefyd yn caniatáu ar gyfer gyllido'r holl gostau ychwanegol ac felly ni ddylai bod angen i ysgolion leihau niferoedd eu staff addysgu yn sylweddol. Dylai'r gronfa wrth gefn fod yn ddigon i gwrdd ag unrhyw gostau diswyddo sy'n codi yn ystod y flwyddyn

- **Premiwm y Dreth Gyngor –** Mae'r cynnydd yn y premiwm ar gyfer eiddo gwag o 25% i 100% wedi gweld gostyngiad yn nifer yr eiddo gwag y codir premiwm arnynt (-29% rhwng Tachwedd 2018 a Thachwedd 2019) wrth i berchnogion yr eiddo hyn weithredu i ddod â nhw yn ôl i ddefnydd. Rhagwelir y bydd hyn yn parhau i 2020/21 ond mae'r risg yn cael ei lliniaru trwy gynnwys dim ond 80% o'r eiddo gwag wrth gyfrifo'r sylfaen drethu. Nid yw'r newid yn y premiwm a godir ar ail gartrefi o 25% i 35% wedi arwain at ostyngiad sylweddol yn nifer yr eiddo y codir premiwm arnynt, er bod rhai perchnogion wedi symud eu heiddo o'r gofrestr Treth Gyngor i'r gofrestr Annomestig, bu cynnydd o 5% yn nifer yr eiddo y codir premiwm ail gartref arnynt (Tachwedd 2018 i Dachwedd 2019). Unwaith eto mae 80% o'r eiddo hyn wedi'u cynnwys yn y sylfaen drethu ac mae hynny, i ryw raddau, yn lliniaru effaith y gostyngiad yn nifer yr eiddo sy'n denu premiwm.

- **Incwm o'r Dreth Gyngor** – Mae'r gyllideb ar gyfer incwm o'r Dreth Gyngor yn seiliedig ar gyfrifiad y sylfaen drethu ym mis Tachwedd y flwyddyn ariannol flaenorol. Mae'r sylfaen drethu yn newid yn gyson yn ystod y flwyddyn, wrth i eiddo newydd gael eu hychwanegu ac wrth ganiatáu eithriadau a gostyngiadau i bobl sengl. Ni ellir amcangyfrif y newidiadau hyn ac yn ddieithriad mae'n arwain at wahaniaeth rhwng y debyd gwirioneddol a godwyd a'r gyllideb.

- **Risgiau sy'n gysylltiedig â galw -** Fel y nodwyd yn gynharach yn yr adroddiad, ac fel y gwelwyd yn ystod y ddwy flynedd ariannol ddiwethaf, bu cynnydd yn y galw am wasanaethau, yn arbennig gwasanaethau gofal cymdeithasol ac addysg. Mae'r cynnydd yn y meysydd hyn wedi rhoi straen ariannol ar yr Awdurdod ac wedi arwain at orwariant sylweddol yn y gyllideb. Mae cyllideb ddisymud 2020/21 yn cymryd y cynnydd yn y galw a welwyd yn 2019/20 i ystyriaeth ond ni fyddai unrhyw gynnydd pellach wedi ei gyllido a byddai'n cynyddu'r risg o orwariant pellach yn 2020/21.

**6.4.** Ar ôl ystyried yr holl risgiau a nodir uchod a'r camau lliniaru, mae'r Swyddog Adran 151 o'r farn bod y cyllidebau'n gadarn ac y gellir eu cyflawni.

## 7. PWYLLGOR SGRIWTINI

**7.1.** Oherwydd yr oedi cyn derbyn y setliad dros dro a therfynol bu'n rhaid cywasgu'r amserlen ar gyfer cyllideb 2020/21 er mwyn sicrhau bod y Cyngor mewn sefyllfa i osod y Dreth Gyngor o fewn yr amserlen a nodir yn Neddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 (Adran 30 (6)). Cafodd cyllideb 2020/21 ei hystyried ymhellach gan y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol yn ei gyfarfod ar 27 Chwefror, 2020 a chyflwynir adroddiad ar drafodaethau'r Pwyllgor hwnnw ar lafar i'r cyfarfod o'r Pwyllgor Gwaith.

## 8. Y GYLLIDEB ARFAETHEDIG A LEFEL Y DRETH GYNGOR

**8.1.** Ar ôl ystyried y cyllid sydd ar gael, canlyniadau'r broses ymgynghori ac ymateb y Pwyllgor Sgriwtini, mae'r Pwyllgor Gwaith wedi diwygio ei gynnig ar gyfer y gyllideb derfynol ac wedi cynnwys y newidiadau canlynol: -

- Bod y gyllideb ddisymud ar gyfer 2020/21, ar ôl caniatáu ar gyfer arbedion arfaethedig o £0.343m, yn cael ei gosod ar £142.177m (gweler Tabl 2).
- Cynnydd o 4.5% yn y Dreth Gyngor yn 2020/21, sef cynnydd o £56.16 yn y Dreth Gyngor ar gyfer Band D, i £1,304.73.
- Bod unrhyw falans sy'n weddill i gydbwyso'r gyllideb yn llawn yn cael ei addasu trwy'r gronfa wrth gefn gyffredinol.

**8.2.** Mae Tabl 4 isod yn crynhoi'r symudiad yng nghyllideb 2020/21 gan gymryd i ystyriaeth y cynigion a nodir ym mharagraff 10.1 uchod.

**Tabl 4**
**Gofynion Arfaethedig o ran y Gyllideb a Chyllido yn 2020/21**

| Gofynion Cyllidebol | £'m | £'m |
|---|---|---|
| Cyllideb Derfynol 2019/20 | | 135.210 |
| Taliadau Ymrwymedig a Chwyddiant | | 6.993 |
| **Y Gyllideb Ddisymud ar 13 Ionawr 2019** | | **142.203** |
| Cynigion Arbedion Cychwynnol | | (0.343) |
| Cronfa i gwrdd â chynnydd yn y galw | | 0.287 |
| Addasiadau i'r Gyllideb Ddisymud – gweler Tabl 2 | | 0.028 |
| **Y Gyllideb Ddisymud ar 2 Mawrth 2020** | | **142.175** |
| **Cynigion ar gyfer y Gyllideb Derfynol – paragraff 8.1** | | |
| Addasu'r gronfa ar gyfer digwyddiadau annisgwyl | (0.029) | |
| | | (0.029) |
| **Gofyniad Cyllidebol Terfynol** | | **142.146** |
| **Wedi ei gyllido gan:** | | |
| Grant Cynnal Refeniw | 76.692 | |
| Trethi Annomestig | 24.313 | |
| Cyfanswm Cyllid Allanol Cyfun | | 101.005 |
| Y Dreth Gyngor (gan gynnwys Premiymau) | | 41.141 |
| **Cyfanswm Cyllid** | | **142.146** |

## 9. ASESIAD O'R EFFAITH AR GYDRADDOLDEB

**9.1.** Wrth ddarparu ei wasanaethau, mae'n rhaid i'r Cyngor fod yn ymwybodol o'i ddyletswyddau o dan Reoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011 i asesu effaith penderfyniadau ariannol allweddol ar grwpiau gwarchodedig a rhaid rhoi sylw dyledus i ganlyniad asesiad o'r fath.

**9.2.** Ni fydd yr arbedion cyllidebol arfaethedig yn effeithio ar unrhyw un o'r grwpiau gwarchodedig a nodir yn y Rheoliadau ac o ganlyniad nid ystyrir bod angen cynnal unrhyw Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb.

## 10. DIWEDDARU'R STRATEGAETH ARIANNOL TYMOR CANOL

**10.1.** Roedd y cynigion cychwynnol ar gyfer y gyllideb a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Gwaith ar 13 Ionawr 2019 yn seiliedig ar y Strategaeth Ariannol Tymor Canol a gymeradwywyd gan y Pwyllgor Gwaith ym mis Medi 2019 (gweler Tabl 1). Roedd y strategaeth yn amcangyfrif y byddai'r Cyllid Allanol Cyfun yn aros yr un fath yn 2021/22 ac yn 2022/23, yn unol â setliad 2020/21, ac y byddai cynnydd o 5% yn y Dreth Gyngor ac na fyddai unrhyw newid yn y premiwm ar ail gartrefi a thai gwag.

**10.2.** 'Roedd y setliad gwirioneddol ar gyfer 2020/21 £5.214m yn uwch mewn termau arian parod na'r ffigwr a ragwelwyd yn y Cynllun Ariannol Tymor Canol. Mae hyn, ar y cyfan, wedi caniatáu i'r Cyngor ohirio'r angen i wneud £4.2m o arbedion yr oedd y Cynllun Ariannol Tymor Canol yn rhagweld y byddai wedi bod yn rhaid eu gwneud.

**10.3.** Mae'n anodd amcangyfrif newidiadau yn y Cyllid Allanol Cyfun i'r dyfodol a bydd llawer yn dibynnu ar berfformiad economi'r DU ar ôl Brexit. Bydd Llywodraeth newydd y DU yn nodi ei pholisïau ariannol newydd yn ei chyllideb ar 11 Mawrth 2020. Gallai lefelau cyllido Llywodraeth Leol Cymru ddod yn gliriach wedi hynny, er bod i ba raddau y bydd Llywodraeth Cymru yn gwarchod meysydd gwariant eraill o gymharu â llywodraeth leol hefyd yn cael effaith sylweddol ar lefel y setliadau i lywodraeth leol yn y dyfodol.

**10.4.** O ystyried yr ansicrwydd ynghylch cyllid yn y dyfodol, byddai unrhyw ddiweddariad i'r Cynllun Ariannol Tymor Canol ar hyn o bryd yn dybiannol ar y gorau, a gallai roi'r argraff bod sefyllfa ariannol y Cyngor yn well neu'n waeth na'r gwir sefyllfa pan ddaw honno'n gliriach. Daw pethau'n eglurach dros y misoedd nesaf a bydd y Pwyllgor Gwaith yn derbyn diweddariad ar sefyllfa ariannol y Cyngor ym mis Medi 2020.

## 11. CASGLIADAU

**11.1.** Mae'n bwysig ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod fod y gyllideb a osodir yn gyraeddadwy ac yn adlewyrchiad cywir o'r galwadau ar wasanaethau ar hyn o bryd, a dros gyfnod y Cynllun Ariannol Tymor Canol. Mae hyn yn fwy perthnasol o ystyried bod lefel y gronfa wrth gefn wedi gostwng ac na ellir ei hystyried bellach yn ffynhonnell o gyllid y gellir troi ati'n barhaus pan fydd y gyllideb yn gorwario. Mae lefel y cronfeydd ysgol hefyd wedi gostwng. Mae angen i'r gyllideb hefyd fynd i'r afael â hyfywedd ariannol a chynaliadwyedd tymor hir y Cyngor a sicrhau bod y Cyngor mewn sefyllfa ariannol gref i ymateb i unrhyw ostyngiadau pellach mewn cyllid gan Lywodraeth Cymru.

**11.2.** Felly, ym marn broffesiynol y Swyddog Adran 151, rhaid i'r gyllideb refeniw ar gyfer 2019/20 gyflawni'r amcanion canlynol:-

- Sicrhau bod yr adnoddau ariannol a neilltuir i bob gwasanaeth yn ddigon i gwrdd â'r pwysau sydd ar eu cyllidebau ar hyn o bryd ac i gwrdd â'r galw am y swyddogaethau statudol y mae'n rhaid i'r gwasanaethau eu cyflawni.
- Mynd i'r afael â'r pwysau ariannol sylfaenol yn y Gwasanaethau sydd wedi cael eu heffeithio fwyaf gan gynnydd yn y galw am wasanaethau; Gwasanaethau Addysg, Gwasanaethau Plant ac Oedolion.
- Osgoi gosod cyllideb sy'n erydu cronfeydd wrth gefn y Cyngor ymhellach naill ai trwy ddefnyddio cronfeydd wrth gefn i gydbwyso'r gyllideb neu drwy osod cyllideb anghyraeddadwy, a fydd yn y pen draw yn arwain at orwario ar ddiwedd blwyddyn ariannol 2020/21.
- Gosod y Dreth Gyngor ar lefel sy'n debyg i asesiad Llywodraeth Cymru o faint y dylai Treth Gyngor Ynys Môn fod, ac ar lefel gyffelyb hefyd i'r Dreth Gyngor a godir gan awdurdodau eraill yng Nghymru sy'n debyg o ran eu maint a'u math.

## 12 ARGYMHELLION

**12.1** Argymhellir bod y Pwyllgor Gwaith yn cymeradwyo'r cynnig ar gyfer y gyllideb derfynol fel y nodir ym Mharagraff 8 i'r Cyngor llawn ar 10 Mawrth 2020.

**Ymateb i Gynigion Cychwynnol y Pwyllgor Gwaith ar gyfer Cyllideb 2020/21**

**CYNGOR SIR YNYS MÔN**

**Chwefror 2020**

**Awdur - Gethin Morgan, Rheolwr Cynllunio Busnes, Rhaglen a Pherfformiad**

**Pennaeth Gwasanaeth - Carys Edwards, Pennaeth Adnoddau Dynol a Thrawsnewid Corfforaethol**

## *1. Rhagarweiniad*

1.1. Rhwng 15 Ionawr a 7 Chwefror 2020 cynhaliodd y Cyngor ymarfer i ymgysylltu gyda'r cyhoedd ar y cynigion cychwynnol ar gyfer cyllideb 2020/21 yr oedd y Pwyllgor Gwaith wedi cytuno y dylid ymgynghori yn eu cylch. 'Roedd y cyfnod ymgynghori 3 wythnos yn canolbwyntio ar gynigion ar gyfer arbedion a gyflwynwyd gan wasanaethau'r Cyngor.

1.2. Cyflwynwyd y cynigion o ganlyniad i'r broses gyllidebol flynyddol ac ymgynghorwyd arnynt er mwyn cael barn y cyhoedd ac i sicrhau y gall y Pwyllgor Gwaith (wrth i'r broses dynnu tua'i therfyn) wneud argymhellion yn seiliedig ar yr holl wybodaeth sydd ar gael. Fe'u cyflwynwyd gan y gwasanaethau yn ystod yr hydref lle cawsant eu herio a'u cytuno fel rhai y dylid ymgynghori yn eu cylch gan Aelodau Etholedig pob grŵp gwleidyddol yn y Cyngor.

1.3. Ystyriwyd ystod eang o arbedion lle'r oedd yr her fewnol a'r consensws wedi arwain at gyflwyno nifer o wahanol gynigion - a oedd yn amrywio o faterion fel cynnydd o 4-5% yn y Dreth Gyngor, cael gwared ar rai swyddi gwag a chynyddu ffioedd parcio mewn meysydd parcio arfordirol a threfol - ond i wahanol raddau.

1.4. Rhoddwyd cyhoeddusrwydd i'r cynigion hyn mewn sawl ffordd;

1.4.1. Datganiadau ac erthyglau yn y wasg

1.4.2. Cyhoeddwyd y cynigion ar wefan y Cyngor (hafan)

1.4.3. Defnydd helaeth o gyfryngau cymdeithasol - Twitter, Facebook i hysbysebu'r cynigion gydag ystod ehangach o drigolion

1.4.4. Cyfweliad gan yr Aelod Portffolio, Robin Williams ar MônFM yn hyrwyddo'r ymgynghoriad a'i gynnwys

Nod pob un o'r sianeli uchod oedd rhoi cyhoeddusrwydd a chreu brwdfrydedd ymhlith dinasyddion a staff i ymgysylltu ac i ymateb i'r cynigion cychwynnol.

1.5 Gofynnwyd i ddinasyddion, partneriaid a staff ymateb i'r ymgynghoriad mewn gwahanol ffyrdd, gan gynnwys:

- Arolwg ar-lein ar ein gwefan
- E-bost neu
- Ysgrifennu atom yn y ffordd draddodiadol trwy bostio llythyr

1.6. Yn ogystal â'r uchod, cynhaliodd y Cyngor ymarferion ymgysylltu pellach gyda:

- Y Fforwm Cynghorau Tref a Chymuned ynghyd â phartneriaid. Cynhaliwyd y fforwm yn Siambr y Cyngor
- Sesiynau gyda phobl ifanc trwy'r fforymau Ffermwyr Ifanc a'r Urdd.
- Sesiwn gyda Phenaethiaid ac Uwch Reolwyr ysgolion ar yr Ynys

Dilynodd yr ymgynghoriad eleni batrwm tebyg i'r digwyddiadau ymgynghori a gynhaliwyd yn ystod y blynyddoedd diwethaf, ond nid oedd mor eang ag yn y blynyddoedd diwethaf oherwydd yr amserlen fyrrach a orfodwyd ar y Cyngor gan Lywodraeth Cymru. Rhoddwyd y pwyslais eleni ar gael ymatebion electronig trwy ein defnydd helaeth o gyfryngau cymdeithasol.

Derbyniwyd 85 o ymatebion trwy ddulliau electronig, derbyniwyd 2 e-bost a 2 lythyr trwy e-bost.

Mae'r canlyniadau / canfyddiadau fel a ganlyn –

**Ydych chi'n cytuno y dylai'r Cygor barhau i fuddsoddi mewn Gwasanaethau Oedolion er mwyn ymateb i'r cynnydd yn y galw?**

| | | | **Canran** | **Cyfanswm** |
|---|---|---|---|---|
| 1 | Ydw | | 80.72% | 67 |
| 2 | Nac ydw | | 19.28% | 16 |

| **Dadansoddiad** | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Cymedr: | 1.19 | Gwyriad Safonol | 0.39 | Cyfradd foddhad | 19.28 | Atebwyd | 83 |
| | Gwyriad | 0.16 | Camgymeriad Safonol: | 0.04 | | | Heb ateb | 2 |

**Ydych chi'n cytuno â chynnig y Pwyllgor Gwaith i amddiffyn cyllidebau ysgolion trwy beidio â gweithredu'r toriad o £ 800k a ohiriwyd yn 2019/20?**

| | | | **Canran** | **Cyfanswm** |
|---|---|---|---|---|
| 1 | Ydw | | 73.49% | 61 |
| 2 | Na | | 26.51% | 22 |

| **Dadansoddiad** | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Cymedr | 1.27 | Gwyriad Safonol: | 0.44 | Cyfradd foddhad: | 26.51 | Wedi ateb | 83 |
| | Gwyriad: | 0.19 | Camgymeriad Safonol: | 0.05 | | | Heb ateb | 2 |

**Ydych chi'n meddwl ei bod hi'n rhesymol ein bod ni'n codi'r Dreth Gyngor rhwng 4.5% a 5%? (O gofio lefel y setliad a'r angen i ariannu'r cynnydd yn y galw yn y Gwasanaethau Oedolion a’r Gwasanaethau Addysg)**

| | | | **Canran** | **Cyfanswm** |
|---|---|---|---|---|
| 1 | Ydw | | 30.12% | 25 |
| 2 | Nac ydw | | 69.88% | 58 |

| **Dadansoddiad:** | Cymedr: | 1.7 | Gwyriad Safonol: | 0.46 | Cyfradd foddhad: | 69.88 | Atebwyd | 83 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Gwyriad: | 0.21 | Camgymeriad Safonol: | 0.05 | | | Heb ateb | 2 |

**A ydych chi'n cytuno â'r cynigion yn Atodiad 4 o'r Adroddiad ar y Gyllideb Refeniw?**

| | | | **Canran** | **Cyfanswm** |
|---|---|---|---|---|
| 1 | Ydw | | 58.90% | 43 |
| 2 | Nac ydw | | 41.10% | 30 |

| **Dadansoddiad** | Cymedr: | 1.41 | Gwyriad Safonol: | 0.49 | Cyfradd Foddhad: | 41.1 | Atebwyd | 73 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Gwyriad: | 0.24 | Camgymeriad Safonol: | 0.06 | | | Heb ateb | 12 |

Mae'r uchod yn dangos canlyniad o blaid y cynigion a gyflwynwyd ar gyfer arbedion yn ystod 2020/21. Wedi dweud hyn, mae rhai safbwyntiau sy'n cwestiynu rhai cynigion. Derbyniodd y Cyngor ddau ar bymtheg o sylwadau o'r fath. Mae'r rhain yn amrywio o gwestiynu gwerth cynyddu taliadau parcio, i herio pam mae angen cynnydd o'r fath yn y dreth Gyngor.

Mae'r pwynt a wnaed ynghylch cynyddu costau parcio mewn lleoliadau arfordirol yn destun pryder mewn dau ymateb a gafwyd trwy e-bost (mae un ohonynt yn dod o Glwb Hwylio a Chwaraeon Dŵr Traeth Coch) sy'n amlinellu effaith bosib newid o'r fath pe bai’r ffioedd yn cynyddu, ynghyd ag effeithiau pellgyrhaeddol pellach ar gyfleoedd i wella iechyd a lles unigolion yn y dyfodol.

Mae eraill yn cwestiynu dilysrwydd cynyddu’r Dreth Gyngor flwyddyn ar ôl blwyddyn gyda rhai yn tynnu sylw at y ffaith bod y codiad fel arfer yn uwch na lefel chwyddiant sy'n golygu bod eu hincwm gwario yn gostwng flwyddyn ar ôl blwyddyn. Nododd un sylw y dylai Llywodraeth Cymru roi mwy o gyllid i Gynghorau a dywedodd tri o bobl y dylai perchnogion ail gartrefi dalu mwy o dreth gyngor am ail gartrefi yn Ynys Môn.

Roedd un sylw yn cwestiynu gwerth lleihau'r gyllideb ar gyfer digwyddiadau dinesig, gan gwestiynu ei effaith ar dwristiaeth, cynhwysiant cymdeithasol a gweithgareddau sy'n pontio'r cenedlaethau a derbynwyd un ymateb gan cyngor cymunedol oedd yn nodi nad oedd cyfnod ymgynghori o 3 wythnos yn ddigon o gyfnod iddynt fedru ymateb.

**Ydych chi'n cytuno â'r cynigion yn ein rhaglen gyfalaf lawn ar gyfer 2020/21 fel y gwelir hwy yn yr adroddiad ar y Gyllideb Gyfalaf?**

| | | | Canran | Ymateb |
|---|---|---|---|---|
| 1 | Ydw | | 53.42% | 39 |
| 2 | Nac ydw | | 46.58% | 34 |
| | | | Atebwyd | 73 |
| | | | Heb ateb | 12 |

| Dadansoddiad: | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Cymedr: | 1.47 | Gwyriad Safonol: | 0.5 | Cyfradd foddhad: | 46.58 |
| Gwyriad: | 0.25 | Camgymeriad Safonol: | 0.06 | | |

'Roedd rhaniad yr ymatebion canrannol i'r cynigion yn fwy cyfartal, gyda 53% yn cytuno â'r cynigion a 47% yn erbyn.

Derbyniwyd dau ar bymtheg o sylwadau, ac roedd un ohonynt yn cwestiynu pam na ddefnyddiwyd unrhyw ddogfennau cyhoeddus ar gyfer yr ymgynghoriad a bod methiant i wneud hynny yn gwneud iddo gasglu mai ymgynghoriad 'er mwyn sioe' yn unig ydyw. Tynnodd ddau sylw at y ffaith y dylid lobïo mwy ar y llywodraeth i gael treth gorfforaethol gan sefydliadau mawr.

Roedd eraill yn cwestiynu perthnasedd y canlynol -

Pam mae'r Cyngor yn gwarchod y gyllideb addysg?

- Pam mae'n cynyddu'r dreth gyngor?
- Safle i deithwyr
- Prynu cerbydau graeanu newydd

Roedd un ymateb yn cwestiynu a ddylid buddsoddi yn Ysgol Syr Thomas Jones, Amlwch fel rhan o'r rhaglen moderneiddio ysgolion oherwydd credir ei bod yn ymrwymiad ariannol gyda chostau sylweddol di-baid ('money pit') Roedd un arall yn cwestiynu a ddylid buddsoddi yn Ysgol Gyfun Llangefni oherwydd cyflwr yr ysgol ac roedd sylw arall yn erfyn ar y Cyngor i adeiladu'r Ysgol Corn Hir newydd gyda chynnydd o 50% yn y capasiti oherwydd y bydd mwy a mwy o deuluoedd yn ymgartrefu yn Llangefni dros y blynyddoedd i ddod.

Nododd ymatebion eraill y dylid gwerthu hen adeiladau'r Cyngor a chwtogi niferoedd staff, a chwestiynwyd yn galed a yw gwasanaeth Cludiant Cymunedol Mon yn foeth diangen sydd bellach yn anfforddiadwy oherwydd bod opsiynau cludiant eraill ar gael i gwsmeriaid eu defnyddio.

**ATODIAD 3**

## CYNNIG CYLLIDEB DERFYNOL 2020/21 YN ÔL GWASANAETH
## (FEL Y DIWYGIWYD GAN Y PWYLLGOR GWAITH 2 MAWRTH 2020)

| | Cyllideb Ddisymud yn dilyn Setliad Dros Dro<br>£ | Addasiad i'r Cyllideb Ddisymud<br>£ | Arbedion<br>£ | Cynnydd y Dreth Gyngor @ 4.5%<br>£ | Pwysau Cyllideb a Newidiadau Terfynol<br>£ | Gwelliannau i gynnig i'r gyllideb derfynol yn dilyn y Pwyllgor Gwaith 2 Mawrth 2020<br>£ | Cynigion Cyllideb Terfynol 2020/21<br>£ |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Addysg a Diwylliant | 54,022,185 | (5,733) | - | - | - | - | 54,016,452 |
| Gwasanaethau Oedolion | 26,859,321 | 3,520 | - | - | - | - | 26,862,841 |
| Gwasanaethau Plant | 10,543,297 | 1,089 | - | - | - | - | 10,544,386 |
| Gwasanaethau Tai | 1,266,792 | 2,240 | (101,000) | - | - | - | 1,168,032 |
| Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo | 15,266,195 | 9,530 | (104,000) | - | - | 36,180 | 15,207,905 |
| Economaidd ac Adfywio Cymunedol | 4,075,136 | 3,254 | (65,000) | - | - | - | 4,013,390 |
| Trawsnewid Corfforaethol | 4,998,708 | (228) | (5,000) | - | - | - | 4,993,480 |
| Adnoddau | 3,140,972 | 27,790 | (60,000) | - | - | - | 3,108,762 |
| Busnes y Cyngor | 1,669,243 | 150 | - | - | - | - | 1,669,393 |
| Rheoli Corfforaethol | 625,462 | 100 | - | - | - | - | 625,562 |
| **Cyfanswm Cyllidebau Gwasanaeth** | **122,467,311** | **41,712** | **(335,000)** | **-** | **-** | **36,180** | **122,210,203** |
| Costau Corfforaethol a Democrataidd | 2,807,237 | (14,249) | (8,000) | - | - | - | 2,784,988 |
| Ad-daliadau i CRT | (700,000) | - | - | - | - | - | (700,000) |
| Ardollau | 3,598,489 | - | - | - | - | - | 3,598,489 |
| Cyllid Cyfalaf | 6,939,100 | - | - | - | - | - | 6,939,100 |
| Budd-daliadau a roddwyd | 111,870 | - | - | - | - | - | 111,870 |
| Rhyddhad Trethi Dewisol | 70,000 | - | - | - | - | - | 70,000 |
| Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor | 6,016,238 | - | - | - | - | - | 6,016,238 |
| **Cyfanswm y Cyllidebau a Ddyrennir** | **141,310,245** | **27,463** | **(343,000)** | **-** | **-** | **36,180** | **141,030,888** |
| Cyffredinol ac Argyfyngau Eraill | 892,530 | - | - | - | 259,072 | (36,180) | 1,115,422 |
| **Cyfanswm Cyllideb 2020/21** | **142,202,775** | **27,463** | **(343,000)** | **-** | **259,072** | **-** | **142,146,310** |
| **Cyllidwyd gan** | | | | | | | |
| Grant Cynnal Refeniw | (76,691,916) | - | | - | - | - | (76,691,916) |
| Trethi Annomestig | (24,312,956) | - | | - | - | - | (24,312,956) |
| Y Dreth Gyngor yn cynnwys Premiwm y Dreth Gyngor | (39,370,571) | - | | (1,770,867) | - | - | (41,141,438) |
| Cyllid Wrth Gefn y Cyngor | - | - | | - | - | - | - |
| **Cyfanswm Cyllid** | **(140,375,443)** | **-** | **-** | **(1,770,867)** | **-** | **-** | **(142,146,310)** |
| **Gwahaniaeth Cyllideb i'r Cyllido** | **1,827,332** | **27,463** | **(343,000)** | **(1,770,867)** | **259,072** | **-** | **-** |

**ATODIAD 4**

**ARBEDION CYLLIDEB REFENIW ARFAETHEDIG TERFYNOL 2020/21**

| **Arbediad Arfaethedig** | **Gwasanaeth** | **Arbedion Tebygol £'000** |
|---|---|---|
| Lleihau'r gost o redeg fflyd cerbydau'r Cyngor drwy fuddsoddi mewn cerbydau sydd yn rhatach ar danwydd (trydan a LPG) a thrwy wella gweithdrefnau gweinyddol i leihau amser segur cerbydau. | Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo | 10 |
| Aildrefnu'r rota tu allan i oriau'r tîm atgyweirio Eiddo er mwyn lleihau cost y gwasanaeth presennol. | Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo | 11 |
| Cynyddu Ffioedd Parcio – Safleoedd Arfordirol - cynyddu'r gyfradd £3.50 bresennol i £4.00, y gyfradd £4.50 bresennol i £6.00 a'r gyfradd £6.00 bresennol i £8.00. Safleoedd mewn Trefi – Dileu'r raddfa 50c a gwneud y taliad sylfaenol yn £1 | Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo | 47 |
| Dileu'r cyllidebau ar gyfer llinellau ffôn a ffonau symudol nad oes fawr o ddefnydd yn cael ei wneud ohonynt. | Trawsnewid | 5 |
| Lleihau cost cynnal digwyddiadau Dinesig penodol. | Busnes y Cyngor | 8 |
| Lleihau cyllidebau postio o ganlyniad i fuddsoddi yn y systemau Cyflogres a Budd-daliadau Tai sydd wedi caniatáu i wybodaeth gael ei drosglwyddo'n electronig yn hytrach na phostio dogfennau papur. | Adnoddau | 10 |
| Lleihau Cyllidebau Caffael Corfforaethol – mae dull corfforaethol o brynu rhai nwyddau a gwasanaethau wedi cynhyrchu arbedion y gellir eu rhyddhau yn awr. | Adnoddau | 50 |
| Cynyddu incwm o Barc Gwledig y Morglawdd. | Rheoleiddio | 1 |
| Dileu gweddill y gyllideb Cyfleusterau Awyr Agored yn dilyn trosglwyddo'r asedau o reolaeth y Cyngor. | Rheoleiddio | 37 |
| Cynyddu ffioedd morwrol, gan ddod â'r moratoriwm presennol ar gynyddiadau i ben. | Rheoleiddio | 5 |
| Lleihau capasiti gweinyddol y Tîm Rheoli Datblygu. Mae'r buddsoddiad diweddar yn y system gynllunio yn caniatáu i'r gostyngiad hwn gael ei weithredu. | Rheoleiddio | 22 |
| Dileu'r swydd Swyddog Datblygu Strategol – mae'r swydd yn wag ar hyn o bryd. | Tai | 27 |
| Lleihau'r gost o ddarparu cefnogaeth weinyddol i'r Pennaeth Tai. | Tai | 4 |
| Cyfalafu costau staffio ynghlwm â darparu grantiau Cyfleusterau i'r Anabl. | Tai | 36 |
| Addasu'r costau a godir ar y Cyfrif Refeniw Tai i adlewyrchu'r cynnydd mewn costau. | Tai | 19 |
| Dileu cyllidebau nad ydynt yn cael eu defnyddio yn dilyn adolygiad o gyllidebau gwasanaeth. | Tai | 15 |
| **Cyfanswm Arbedion Posib i'w Gweithredu** | | **307** |

| | |
|---|---|
| **CYNGOR SIR YNYS MÔN** | |
| **ADRODDIAD I:** | **CYNGOR LLAWN** |
| **DYDDIAD:** | **10 MAWRTH 2020** |
| **PWNC:** | **CYLLIDEB GYFALAF ARFAETHEDIG TERFYNOL AR GYFER 2020/21** |
| **AELOD(AU) PORTFFOLIO:** | **Y CYNGHORYDD R WILLIAMS** |
| **PENNAETH GWASANAETH :** | **MARC JONES (EST. 2601)** |
| **AWDUR YR ADRODDIAD:**<br>FFÔN:<br>E-BOST: | **MARC JONES**<br>**EST. 2601**<br>**rmjfi@ynysmon.gov.uk** |
| **AELODAU LLEOL:** | **d/b** |

**A - Argymhelliad/argymhellion a rheswm/rhesymau**

## 1. PWRPAS YR ADRODDIAD

**1.1** Mae gofyn i'r Cyngor llawn cymeradwyo cyllideb gyfalaf ar gyfer 2020/21.

## 2. ARGYMHELLION

- Argymell y Rhaglen Gyfalaf ganlynol ar gyfer 2020/21 i'r Cyngor llawn:-

| | **£'000** | **Cyf** |
|---|---|---|
| Cynlluniau a ddygwyd ymlaen o 2019/20 | 5,829 | Adran 2.2 |
| Adnewyddu/Amnewid Asedau | 6,192 | Adran 2.4 |
| Prosiectau Cyfalaf Unwaith ac am Byth Newydd | 2,174 | Gweler adroddiad 13/01/2020 |
| Mân-ddaliadau a gyllidir o dderbyniadau cyfalaf | 100 | " |
| Ysgolion yr 21ain Ganrif | 2,755 | Adran 2.3 |
| Cyfrif Refeniw Tai | 20,255 | Adran 2.6 |
| **Cyfanswm Rhaglen Gyfalaf Argymhellir ar gyfer 2020/21** | **37,305** | |
| **Cyllidir drwy:** | | |
| Grant Cyfalaf Cyffredinol | 2,165 | |
| Benthyca â Chefnogaeth Cyffredinol | 2,364 | |
| Benthyca â Chefnogaeth a ddygwyd ymlaen o 2019/20 | 1,034 | |
| Derbyniadau Cyfalaf | 245 | |
| Arian Cyfalaf Wrth Gefn | 500 | |
| Benthyca â Chefnogaeth – Ysgolion yr 21ain Ganrif | 721 | |
| Benthyca Digefnogaeth – Ysgolion yr 21ain Ganrif | 1,145 | |
| Arian Wrth Gefn y CRT a gwarged y flwyddyn | 14,228 | |
| Benthyca Digefnogaeth CRT | 250 | |
| CRT a ddygwyd ymlaen o 2019/20 | 3,117 | |
| Grantiau Allanol | 5,782 | |
| Cyllid y Cyngor a ddygwyd ymlaen o 2019/20 | 5,754 | |
| **Cyfanswm Cyllid Cyfalaf ar gyfer 2020/21** | **37,305** | |

| | | |
|---|---|---|
| **B -** | **Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd eich rhesymau dros eu gwrthod ac/neu ddewis yr opsiwn hwn?** | |
| | Bydd nifer o gynlluniau ychwanegol yn cael eu hystyried yn y rhaglen gyfalaf gyda fforddiadwyedd a gwneud y mwyaf o gyllid grant allanol fel y prif ffactorau cyllidol. Nid yw'r rhaglen gyfalaf arfaethedig a'r cynlluniau Cyfalaf ychwanegol, os cânt eu cefnogi, yn ymrwymo'r Cyngor i lefel o fenthyca sy'n cynyddu'r ddarpariaeth refeniw isaf neu daliadau llog i lefel na ellir ei fforddio. | |
| **C -** | **Am ba reswm y mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?** | |
| | Mae'r mater wedi'i ddirprwyo i'r Pwyllgor Gwaith gynnig y gyllideb gyfalaf. | |
| **CH –** | **A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor Llawn?** | |
| | Ydi | |
| **D -** | **A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?** | |
| | D/B | |
| **DD -** | **Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori?** | **Beth oedd eu sylwadau?** |
| 1 | **Prif Weithredwr / Uwch Dîm Arweinyddiaeth (UDA)** (mandadol) | Mae sylwadau gan yr UDA wedi eu hymgorffori yn yr adroddiad |
| 2 | **Cyllid / Swyddog 151** (mandadol) | d/b – adroddiad y Swyddog Adran 151 yw hwn |
| 3 | **Cyfreithiol / Swyddog Monitro** (mandadol) | Mae sylwadau gan yr UDA wedi eu hymgorffori yn yr adroddiad |
| 4 | **Adnoddau Dynol (AD)** | |
| 5 | **Eiddo** | Ymgynghorywd â Gwasanaethau Eiddo yn y brorses o lunio'r gyllideb ddrafft arfaethedig |
| 6 | **Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh)** | |
| 7 | **Sgriwtini** | Ystyriwyd y gyllideb ddrafft arfaethedig gan y Pwyllogr Sgriwtini yn ei gyfarfod ar 13 Ionawr 2020 |
| 8 | **Aelodau Lleol** | D/B |
| 9 | **Unrhyw gyrff allanol eraill** | D/B |
| **E -** | **Risgiau ac unrhyw gamau lliniaru (os yn berthnasol)** | |
| 1 | **Economaidd** | |
| 2 | **Gwrthdlodi** | |
| 3 | **Trosedd ac Anhrefn** | |
| 4 | **Amgylcheddol** | |
| 5 | **Cydraddoldebau** | |
| 6 | **Cytundebau Canlyniad** | |
| 7 | **Arall** | |
| **F -** | **Atodiadau:** | |
| | Atodiad 1 – Adroddiad ar y Gyllideb Gyfalaf 2020/21<br>Atodiad 2 – Cyllideb Cyfalaf Arfaethedig 2020/21 | |
| **FF –** | **Papurau Cefndir (cysylltwch os gwelwch yn dda gydag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach):** | |
| | Cyllideb Gyfalaf Ddrafft – Pwyllgor Gwaith – 13 Ionawr 2020<br>Cyllideb Gyfalaf 2020/21 – Pwyllgor Gwaith – 2 Mawrth 2020 | |

**ATODIAD 1**

**CYLLIDEB GYFALAF DRAFFT 2020/21**

## 1. CYFLWYNIAD

**1.1.** Yn ei gyfarfod ar 13 Ionawr 2020, argymhellodd y Pwyllgor Gwaith bod y Rhaglen Gyfalaf ddrafft ganlynol ar gyfer 2020/21, a ddangosir yn Nhabl 1 isod, yn cael ei chymeradwyo. Mae'r Gyllideb Gyfalaf drafft ar gyfer 2020/21, a nodir isod yn Nhabl 1 ac Atodiad 2, yn cymryd i ystyriaeth yr egwyddorion a nodir yn y Strategaeth Gyfalaf a gymeradwywyd gan y Pwyllgor Gwaith yn Chwefror 2019 a'r Cyngor llawn ym Mai 2019. Mae hefyd yn bodloni egwyddorion y Strategaeth Gyfalaf Ddrafft ar gyfer 2020/21, a fydd yn cael ei hystyried ochr yn ochr â'r Rhaglen Gyfalaf hon.

**Tabl 1**
**Crynodeb o'r Rhaglen Gyfalaf Argymhellir ar gyfer 2020/21 a gafodd ei Hargymell yn y Pwyllgor Gwaith ar 13 Ionawr 2020**

| | **£'000** | **Cyf yn Adroddiad y Gyllideb Gyfalaf Ddrafft 2020/21, Pwyllgor Gwaith 13 Ionawr 2020** |
|---|---|---|
| Cynlluniau a ddygwyd ymlaen o 2019/20 | 3,294 | Para 4.1 a Thabl2 |
| Adnewyddu/Amnewid Asedau | 5,158 | Para 4.2.2 a Thabl 3 |
| Prosiectau Cyfalaf Unwaith ac am Byth Newydd | 2,174 | Para 5.2 a Thabl 4 |
| Mân-ddaliadau a gyllidir o dderbyniadau cyfalaf | 100 | Para 5.7 |
| Ysgolion yr 21ain Ganrif | 9,039 | Para 6 |
| Cyfrif Refeniw Tai | 17,138 | Para 7 |
| **Cyfanswm Rhaglen Gyfalaf Argymhellir ar gyfer 2020/21** | **36,903** | |
| **Cyllidir drwy:** | | |
| Grant Cyfalaf Cyffredinol | 2,165 | |
| Benthyca â Chefnogaeth Cyffredinol | 2,364 | |
| Derbyniadau Cyfalaf | 245 | |
| Arian Cyfalaf Wrth Gefn | 500 | |
| Benthyca â Chefnogaeth – Ysgolion yr 21ain Ganrif | 2,680 | |
| Benthyca Digefnogaeth – Ysgolion yr 21ain Ganrif | 3,679 | |
| Arian Wrth Gefn y CRA ac arian dros ben yn y flwyddyn | 14,228 | |
| Benthyca Digymorth CRA | 250 | |
| Grantiau Allanol | 7,572 | |
| Arian y Cyngor a ddygwyd ymlaen o 2019/20 | 3,219 | |
| **Cyfanswm Arian Cyfalaf ar gyfer 2020/21** | **36,903** | |

## 2. CANLYNIAD Y BROSES YMGYNGHORI

**2.1** Derbyniwyd nifer fechan o sylwadau ynglŷn â'r Rhaglen Gyfalaf Ddrafft 2020/21 yn ystod yr ymgynghoriad ar gyllideb 2020/21 a ddaeth i ben ar 7 Chwefror 2020.

**2.1.1** Roedd un ymatebwr yn cefnogi'r Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif ond mynegodd bryder am fuddsoddi yn Ysgol Syr Thomas Jones, gan fod yr ymatebwr o'r farn nad oedd yn addas i bwrpas. Roedd unigolyn arall yn argymell y dylai'r rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif ganolbwyntio fwy ar yr ysgolion uwchradd. Gofynnodd un i'r Cyngor ddarparu 50% mwy o gapasiti na'r capasiti a amcangyfrifir os bydd ysgol newydd yn cael ei hadeiladu ar gyfer Ysgol Corn Hir yn Llangefni. Tynnwyd sylw at yr angen cynyddol am fwy o leoedd ysgol yn Llangefni. Dywedodd yr unigolyn nad oes digon o leoedd yn Ysgol y Graig, sydd yn ysgol cymharol newydd.

**2.1.2** Roedd un ymatebwr yn argymell gwerthu neu resymoli tir ac eiddo'r Cyngor.

**2.1.3** Mynegodd un ymatebwr bryder ynghylch yr angen i brynu cerbyd graeanu newydd ac roedd yn ystyried fod yn gost yn rhy uchel o ystyried cyn lleied o ddefnydd fyddai'n cael ei wneud ohono.

**2.1.4** Roedd ymatebwr yn cwestiynu'r angen am welliannau TG bob blwyddyn.

**2.1.5** Gwnaeth un ymatebwr sylwadau cyffredinol a fyddai'n addas ar gyfer y gyllideb refeniw neu'r gyllideb gyfalaf fel a ganlyn "Nid ymddengys bod unrhyw beth arloesol na chreadigol i gynhyrchu incwm neu ddenu buddsoddiad yn yr ardal. Os oes, nid yw hynny'n glir".

**3. DIWEDDARU'R RHAGLEN GYFALAF AR GYFER LLITHRIAD O 2019/20**

**3.1** Mae llithriad o £3,294k a ragwelir yn 2019/20 wedi ei gynnwys yn y gyllideb ar gyfer 2020/21. Roedd hyn yn seiliedig ar y sefyllfa alldro arfaethedig ar ddiwedd Chwarter 2. Mae adroddiad monitro Chwarter 3 wedi darparu gwybodaeth fwy cyfredol a disgwylir y bydd swm o £5,829k yn llithro o 2019/20 i 2020/21. Y prif newidiadau yw :-

- Mae'r llithriad a ragwelir ar gyfer y Safle Sipsiwn a Theithwyr wedi lleihau o £670k i £479k.

- Disgwylir oedi yn y prosiectau Porth Twristiaeth a Phartneriaeth Strategol Caergybi, sy'n cael eu cyllido gan grantiau, a disgwylir llithriad ychwanegol yn 2020/21.

- Disgwylir y bydd swm o £638k ar gyfer prosiect Amddiffynfeydd Llifogydd Traeth Coch yn llithro i 2020/21.

- Disgwylir i'r dyraniad cyfan o £200k yn 2019/20 ar gyfer y prosiect Diogelwch Ysgolion lithro i 2020/21 oherwydd materion yn ymwneud ag adnoddau. Mae'r gwasanaeth wedi gofyn i'r prosiect gael ei drosglwyddo i raglen 2020/21.

- Disgwylir tanwariant o £324k yn y grant cyfalaf i ehangu cyfleusterau ysgolion ar gyfer lleoliadau gofal plant. Gellir cario'r swm hwn drosodd i 2020/21, yn unol ag amodau'r grant.

- Yn yr un modd, mae'r Gwasanaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd wedi gofyn am gael trosglwyddo tua £30k yn ymwneud â Chynlluniau Datblygu Economaidd gyda'r nod o ddenu cyllid grant sylweddol i Ynys Môn.

- Mae prosiect Adfywio Caergybi (Rhan II Menter Treftadaeth Treflun) yn parhau i lithro i 2020/21, ac mae'r swm a amcangyfrifir tua £900k. Efallai y bydd newid yn y llithriad hwn ar ddiwedd y flwyddyn. Adroddir ar unrhyw newidiadau ar ddiwedd y flwyddyn a gofynnir am gymeradwyaeth i'r gyllideb llithriadau ddiwygiedig ar gyfer 2020/21.

**3.2** Ar hyn o bryd mae cyfnod Band A y Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif yn tynnu tua'i therfyn. Amcangyfrifir gwariant o thua £10,167k ar brosiectau olaf Band A, a disgwylir y bydd swm o £1,205k o'r cyfanswm hwnnw yn cael ei wario yn 2020/21. Ym mis Ionawr, adroddwyd y byddai £5,297k yn cael ei wario ar brosiectau Band A yn 2020/21 ond mae oediadau'n ymwneud â phenderfynu ar fanylion y prosiect a'u cymeradwyo wedi arwain at ddiwygio'r amcangyfrif yma. Byddai'r mwyafrif o wariant y prosiect yn cael ei wneud yn 2021/22. Petai'r prosiect yn cael ei gymeradwyo.

**3.3** Disgwylir i brosiectau Band B wario llai yn 2020/21 a mwy yn 2021/22 a 2022/23. Ar hyn o bryd, disgwylir y bydd £1,550k yn cael ei wario ar brosiectau Band B yn 2020/21.

**3.4** Yn ddiweddar dyfarnwyd i'r Cyngor gyllid grant cyfalaf ychwanegol werth £1,034k gan Lywodraeth Cymru i wella adeiladau ysgolion. O ystyried hwyrni'r cyhoeddiad, nid yw'n bosib i gynllunio a gwario'r grant erbyn diwedd y flwyddyn ariannol. Mae Llywodraeth Cymru'n ymwybodol o'r anawsterau ac mae amodau'r grant yn caniatáu'r grant yma gael ei ddefnyddio yn lle cyllid craidd yn 2019/20, ar yr amod y defnyddir y cyllid craidd nas ddefnyddwyd tuag at welliannau ysgolion yn 2020/21. Dyrannwyd £1,000k yn y gyllideb ddrafft yn 2020/21 tuag at welliannau ysgolion a bydd derbyn y grant yma'n cynyddu'r; swm sydd ar gael i £2,034k yn 2020/21.

**3.5** Erbyn hyn, amcangyfrifir tanwariant o £3,117k yn rhaglen gyfalaf y CRT ar gyfer 2019/20, oherwydd oedi mewn perthynas â phrynu, adnewyddu neu adeiladu tai newydd. O'r herwydd, ychwanegwyd llithriad o £3,117k i Raglen Gyfalaf y CRT ar gyfer 2020/21.

**3.6** Er mwyn manteisio i'r eithaf ar gyllid grant a defnyddio'r dull rhataf o gyllido'r rhaglen gyfalaf, mae angen hyblygrwydd o ran dulliau cyllido. Felly, gall y ffynonellau cyllido a nodwyd fesul cynllun yn y Gyllideb Gyfalaf ar gyfer 2020/21 (fel y gwelir yn Atodiad 2) newid yn ystod 2020/21. Mae hyn yn ymarfer arferol ac mae'n caniatáu'r Cyngor i sicrhau y gwneir y defnydd mwyaf o grantiau a gwneir y defnydd lleiaf posib o fenthyca allanol..

**3.7** Mae'r newidiadau hyn wedi cael eu cynnwys yn y Rhaglen Gyfalaf Ddrafft ar gyfer 2020/21 yn Nhabl 2 isod.

**Tabl 2**
**Rhaglen Gyfalaf Arfaethedig Derfynol ar gyfer 2020/21**

| | **£'000** | **Cyf** |
|---|---|---|
| Cynlluniau a ddygwyd ymlaen o 2019/20 | 5,829 | Para 3.1 |
| Adnewyddu/Amnewid Asedau | 6,192 | Para 3.4 |
| Prosiectau Cyfalaf Unwaith ac am Byth Newydd | 2,174 | Gweler adroddiad 13/01/2020 |
| Mân-ddaliadau wedi ei gyllid o dderbyniadau cyfalaf | 100 | " |
| Ysgolion yr 21ain Ganrif | 2,755 | Para 3.2 a 3.3 |
| Cyfrif Refeniw Tai | 20,255 | Para 3.6 |
| **Cyfanswm Rhaglen Gyfalaf Argymhellir ar gyfer 2020/21** | **37,305** | |
| **Cyllidir drwy:** | | |
| Grant Cyfalaf Cyffredinol | 2,165 | |
| Benthyca â Chefnogaeth Cyffredinol | 2,364 | |
| Benthyca â Chefnogaeth a ddygwyd ymlaen o 2019/20 | 1,034 | |
| Derbyniadau Cyfalaf | 245 | |
| Arian Cyfalaf Wrth Gefn | 500 | |
| Benthyca â Chefnogaeth – Ysgolion yr 21ain Ganrif | 721 | |
| Benthyca Digefnogaeth – Ysgolion yr 21ain Ganrif | 1,145 | |
| Arian Wrth Gefn CRT a gwarged y flwyddyn | 14,228 | |
| Benthyca Digefnogaeth CRT | 250 | |
| CRT a ddygwyd ymlaen o 2019/20 | 3,117 | |
| Grantiau Allanol | 5,782 | |
| Cyllid y Cyngor a ddygwyd ymlaen o 2019/20 | 5,754 | |
| **Cyfanswm Cyllid Cyfalaf ar gyfer 2020/21** | **37,305** | |

**ATODIAD 2**

## Rhaglen Gyfalaf Arfaethedig 2020/21

| Enw'r Cynllun | Cyllideb 2020/21 £ | Cyllidir drwy | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Dygwyd ymlaen o 2019/20 | Grant Cyfalaf Cyffredinol | Benthyca â Chefnogaeth | Derbyniadau Cyfalaf | Arian Cyfalaf Wrth Gefn | Benthyca Digefnogaeth | Grantiau Allanol | Cronfeydd Wrth Gefn | Cyfanswm Cyllid |
| | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** |
| **Cynlluniau a ddygwyd ymlaen o 2019/20** | | | | | | | | | | |
| Safle Sipsiwn a Theithwyr Star | 479 | 479 | | | | | | | | 479 |
| Porth Twristiaeth | 1,003 | 1,003 | | | | | | | | 1,003 |
| Isadeiledd Strategol Caergybi | 1,999 | 1,999 | | | | | | | | 1,999 |
| Isadeiledd Strategol Llangefni | 256 | 256 | | | | | | | | 256 |
| Amddiffynfeydd Llifogydd Traeth Coch | 638 | 638 | | | | | | | | 638 |
| Prosiect Diogelwch Ysgolion | 200 | 200 | | | | | | | | 200 |
| Grant Cyfalaf ar gyfer Cynyddu Capasiti Gofal Plant | 324 | 324 | | | | | | | | 324 |
| Cynlluniau Datblygu Economaidd | 30 | 30 | | | | | | | | 30 |
| Adfywio Caergybi (Rhan II Menter Treftadaeth Treflun) | 900 | 825 | | | 11 | 64 | | | | 900 |
| **Cyfanswm Cynlluniau 2019/20 a Ddygwyd Ymlaen** | **5,829** | **5,754** | **-** | **-** | **11** | **64** | **-** | **-** | **-** | **5,829** |
| | | | | | | | | | | |
| **Adnewyddu / Amnewid Asedau Presennol – Adeiladau, Cerbydau, TG a Phriffyrdd** | | | | | | | | | | |
| Grant Cyfleusterau i'r Anabl | 636 | | 636 | | | | | | | 636 |
| Mynediad i'rl Anabl mewn Adeiladau Addysg | 300 | | | 300 | | | | | | 300 |
| Adnewyddu Ysgolion | 1,000 | 1,034 | | 1,000 | | | | | | 2,034 |
| Adnewyddu – Adeiladau heblaw Ysgolion | 600 | | | 379 | 121 | 100 | | | | 600 |
| Ail-wynebu Priffyrdd | 1,850 | | 726 | 524 | | | | 600 | | 1,850 |
| Prynu Cerbydau Newydd | 480 | | 480 | | | | | | | 480 |
| Uwchraddio Offer TG a Phrynu Offer Newydd | 292 | | 292 | | | | | | | 292 |
| **Cyfanswm Adnewyddu / Amnewid Asedau Presennol** | **6,192** | **1,034** | **2,134** | **2,203** | **121** | **100** | **-** | **600** | **-** | **6,192** |
| | | | | | | | | | | |
| **Prosiectau Cyfalaf Newydd 2020/21** | | | | | | | | | | |
| Datblygu Economaidd a Llesiant Amgylcheddol | 95 | | | 95 | | | | | | 95 |
| Llithrfa Porth y Wrach – Camerâu Gorfodaeth | 30 | | | 30 | | | | | | 30 |
| Adnewyddu Cartref Preswyl Plas Mona | 80 | | 31 | 36 | 13 | | | | | 80 |
| Cyllid Cyfatebol ar gyfer Cynlluniau Lliniaru Llifogydd | 573 | | | | | 86 | | 487 | | 573 |

| Enw'r Cynllun | Cyllideb 2020/21 £ | Cyllidir drwy | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Dygwyd ymlaen o 2019/20 | Grant Cyfalaf Cyffredinol | Benthyca â Chefnogaeth | Derbyniadau Cyfalaf | Arian Cyfalaf Wrth Gefn | Benthyca Digefnogaeth | Grantiau Allanol | Cronfeydd Wrth Gefn | Cyfanswm Cyllid |
| | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** |
| Gwelliannau Hamdden | 250 | | | | | 250 | | | | 250 |
| Adnewyddu Mân-ddaliadau | 100 | | | | 100 | | | | | 100 |
| Partneriaeth Tirlun Caergybi | 1,146 | | | | | | | 1,146 | | 1,146 |
| **Cyfanswm Prosiectau Cyfalaf Newydd 2020/21** | **2,274** | **-** | **31** | **161** | **113** | **336** | **-** | **1,633** | **-** | **2,274** |
| | | | | | | | | | | |
| **Ysgolion yr 21ain Ganrif / Moderneiddio Ysgolion** | | | | | | | | | | |
| Cwblhau Rhaglen Band A | 1,205 | | | 217 | | | 602 | 386 | | 1,205 |
| Cychwyn Rhaglen Band B | 1,550 | | | 504 | | | 542 | 504 | | 1,550 |
| **Cyfanswm Ysgolion yr 21ain Ganrif / Moderneiddio Ysgolion** | **2,755** | **-** | **-** | **721** | **-** | **-** | **1,144** | **890** | | **2,755** |
| | | | | | | | | | | |
| **CYFANSWM CRONFA GYFFREDINOL** | **17,050** | **6,788** | **2,165** | **3,085** | **245** | **500** | **3,679** | **4,912** | **-** | **17,050** |
| | | | | | | | | | | |
| **Cyfrif Refeniw Tai** | | | | | | | | | | |
| Gwaith Cynnal a Chadw a Gynlluniwyd a Gwelliannau SATC | 6,645 | | | | | | | 2,660 | 3,985 | 6,645 |
| Datblygiadau Newydd ac ailbrynu eiddo 'Hawl i Brynu' | 10,493 | | | | | | 250 | | 10,243 | 10,493 |
| Prosiectau cyfalaf CRT a ddygwyd ymlaen o 2019/20 | 3,117 | 3,117 | | | | | | | | 3,117 |
| **Cyfanswm Cyfrif Refeniw Tai** | **20,255** | **3,117** | **-** | **-** | **-** | **-** | **250** | **2,660** | **14,228** | **20,255** |
| | | | | | | | | | | |
| **CYFANSWM RHAGLEN GYFALAF 2020/21** | **37,305** | **9,905** | **2,165** | **3,085** | **245** | **500** | **1,145** | **5,783** | **14,228** | **37,305** |

Mae'r dudalen hon yn wag yn fwriadol

CYNGOR SIR
YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY
COUNTY COUNCIL

# PENDERFYNIAD DRAFFT
# AR OSOD
# Y DRETH GYNGOR
# 2020/21

- - - - - -

# DRAFT RESOLUTION
# ON SETTING
# THE COUNCIL TAX
# 2020/21

**PENDERFYNIAD DRAFFT Y DRETH GYNGOR**

**1. PENDERFYNWYD**

**(a)** Yn unol ag argymhellion y Pwyllgor Gwaith, i fabwysiadu'r Gyllideb 2020/21, yn Adran 9, fel Strategaeth Cyllideb oddi mewn i ystyr a roddir yn y Cyfansoddiad, ac i gadarnhau y daw'n rhan o'r fframwaith cyllidebol gyda'r eithriad o'r ffigyrau a ddisgrifir fel rhai cyfredol.

**(b)** Yn unol ag argymhellion y Pwyllgor Gwaith, i fabwysiadu cyllideb refeniw 2020/21 fel y gwelir honno yn Nhabl 4, Adran 8 o adroddiad y Gyllideb 2020/21, Atodiad 1 ac Atodiad 3.

**(c)** Yn unol ag argymhellion y Pwyllgor Gwaith, i fabwysiadu cyllideb cyfalaf fel y gwelir hwnnw yn yr adroddiad Cyllideb Cyfalaf 2020/21.

**(ch)** Dirprwyo i'r Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Cyllid 151 y pŵer i wneud addasiadau rhwng penawdau yn y Gyllideb Arfaethedig Derfynol ar gyfer 2020/21 yn Atodiad 3 er mwyn rhoi effaith i benderfyniadau'r Cyngor. Yn ychwanegol, i ddirprwyo i'r Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151 y pŵer i drosglwyddo hyd at £50k yr eitem o'r gronfa wrth gefn gyffredinol. Bydd unrhyw eitem sy'n fwy na £50k angen cymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith cyn gwneir unrhyw drosglwyddiad o'r gronfa wrth gefn gyffredinol.

**(d)** Dirprwyo i'r Pwyllgor Gwaith, ym mlwyddyn ariannol 2020/21, y pwerau i drosglwyddo cyllidebau rhwng penawdau fel a ganlyn:-

**(i)** pwerau dilyffethair i wario pob pennawd cyllidebol unigol yn Atodiad 4 Cyllideb Arfaethedig Terfynol 2020/21 yn erbyn pob gwasanaeth unigol, ar y gwasanaeth perthnasol;

**(ii)** pwerau i gymeradwyo'r defnydd o'r arian wrth gefn clustnodedig a rhai gwasanaeth i gyllido cynigion gwariant unwaith-ac-am-byth sy'n cyfrannu tuag at gyflawni amcanion y Cyngor a gwella gwasanaethau;

**(iii)** pwerau i drosglwyddo o'r ffynonellau incwm newydd neu uwch.

**(dd)** Dirprwyo i'r Pwyllgor Gwaith, mewn perthynas â'r flwyddyn ariannol 2020/21 ac ar gyngor y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau), y pŵer i ryddhau hyd at £250k o falansau cyffredinol i ddelio gyda blaenoriaethau yn codi yn ystod y flwyddyn.

**(e)** Dirprwyo i'r Pwyllgor Gwaith, mewn perthynas â'r cyfnod hyd at 31 Mawrth 2020, y pwerau a ganlyn:-

**(i)** pwerau i wneud ymrwymiadau newydd o gyllidebau refeniw y dyfodol hyd at y symiau a nodir ar gyfer blaenoriaethau newydd yn y Cynllun Ariannol Tymor Canol;

**(ii)** y pwerau a'r ddyletswydd i baratoi cynlluniau i gyflawni arbedion cyllidebol refeniw fel yr awgrymir yn y Cynllun Ariannol Tymor Canol;

**(iii)** pwerau i drosglwyddo cyllidebau rhwng prosiectau cyfalaf yn yr adroddiad Cyllideb Cyfalaf 2019/20 ac ymrwymo adnoddau yn y blynyddoedd dilynol gan gydymffurfio gyda'r fframwaith cyllidebol.

**(f)** Pennu a chymeradwyo'r dangosyddion pwyllog a rhai'r trysorlys sy'n amcangyfrifon a therfynnau am 2020/21 ymlaen fel sy'n ymddangos yn yr adroddiad Datganiad ar Strategaeth Rheoli'r Trysorlys 2020/21.

**(ff)** Cymeradwyo'r Datganiad ar Strategaeth Rheoli'r Trysorlys am 2020/21 a'r Strategaeth Cyfalaf 2020/21.

**(g)** Cadarnhau y bydd eitemau 1(b) i (ff) yn dod yn rhan o'r fframwaith cyllidebol.

**2. PENDERFYNWYD** mabwysiadu a chadarnhau i bwrpas y flwyddyn ariannol 2020/21 benderfyniad y Cyngor Sir a gynhaliwyd ar 10 Mawrth 1998, bod y Cyngor Sir yn pennu lefel y disgownt sy'n gymwys i'r Dosbarth penodedig A a Dosbarth penodedig B o anheddau dan Adran 12 Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 (a ddiwygiwyd), a ddisgrifir gan Rheoliadau'r Dreth Gyngor (Dosbarthau Rhagnodedig ar Anheddau) (Cymru) 1998, fel a ganlyn:-

| | |
|---|---|
| Dosbarth Penodedig A | Dim Disgownt |
| Dosbarth Penodedig B | Dim Disgownt |

**3.** **PENDERFYNWYD** mabwysiadu a chadarnhau i bwrpas y flwyddyn ariannol 2020/21, benderfyniad y Cyngor Sir a gynhaliwyd ar 6 Mawrth 2007 bod y Cyngor Sir yn pennu lefel disgownt sy'n gymwys i Ddosbarth penodedig C o anheddau dan Adran 12 Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 (a ddiwygiwyd), a ddisgrifir gan y Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cyfrifo Sail y Dreth Gyngor) a'r Dreth Gyngor (Dosbarthiadau Rhagnodedig ar Anheddau) (Cymru) (Diwygiad) 2004, fel a ganlyn:-

Dosbarth Penodedig C    Dim Disgownt

**4.** **PENDERFYNWYD** datgymhwyso unrhyw ddisgownt(au) a ganiatawyd i anheddau gwag tymor hir ac anheddau a feddiannir yn achlysurol (a elwir fel arfer yn ail gartrefi) ac i amrywio penderfyniad y Cyngor llawn a wnaed ar 28 Chwefror 2018 a gwneud cais am y flwyddyn ariannol 2020/21 swm uwch o'r Ddreth Gyngor (a elwir yn bremiwm y Dreth Cyngor) o 100% o gyfradd safonol y Dreth Gyngor ar gyfer anheddau gwag hirdymor ac ar gyfer anheddau a feddiannir o bryd i'w gilydd (a elwir fel arfer yn ail gartrefi) i gymhwyso swm uwch o Dreth Gyngor (a elwir yn bremiwm y Dreth Gyngor) o 35% o dan Adrannau 12A a 12B o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 fel y'i mewnosodwyd gan Adran 139 o Ddeddf Tai (Cymru) 2014.

**5.** Nodi fod y Cyngor yn ei gyfarfod ar 28 Chwefror 1996 wedi penderfynu na fydd yn trin unrhyw gostau yr aiff y Cyngor iddynt mewn rhan o'i ardal nac wrth gyfarfod unrhyw ardoll neu ardoll arbennig fel costau arbennig a bod y penderfyniadau i barhau mewn grym hyd oni fyddant yn cael ei diddymu'n benodol.

**6.** Y dylid nodi bod y Pwyllgor Gwaith yn ei gyfarfod ar 25 Tachwedd 2019 wedi cymeradwyo'r symiau a glandrwyd gan Gyngor Sir Ynys Môn fel sail y Dreth Gyngor ar gyfer 2019/20 a nodi ymhellach bod y Cyngor llawn yn ei gyfarfod ar 11 Rhagfyr 2018 wedi cymeradwyo y bydd y Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor yn lleol yn parhau fel y mae am y blynyddoedd dilynol oni bai ei fod wedi'i ddiwygio'n sylweddol. Nodwyd hefyd fod y Cyngor llawn yn ei gyfarfod ar 28 Chwefror 2018 wedi mabwysiadu a chymeradwyo Polisi Dewisol Dreth Gyngor lleol dan Adran 13A Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 gan ddirprwyo i'r Pwyllgor Gwaith y pŵer i ddirymu, ailddeddfu ac/neu ddiwygio'r Polisi. Diwygiodd y Pwyllgor Gwaith y Polisi yma ar 26 Tachwedd 2018.

**7.** Yn ei gyfarfod ar 25 Tachwedd 2019, penderfynodd y Pwyllgor Gwaith, yn unol â Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 a Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cyfrifo Sail y Dreth Gyngor)(Cymru) 1995 (SI19956/2561) fel y'i diwygiwyd gan SI1999/2935 a Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cyfrifo Sail y Dreth Gyngor) a'r Dreth Gyngor (Dosbarthiadau Rhagnodedig o Anheddau)(Cymru)(Diwygiad) 2004, a'r Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cyfrifo Sail y Dreth Gyngor)(Cymru)(Diwygiad) 2016, gymeradwyo'r symiau a glandrwyd gan Gyngor Sir Ynys Môn fel ei sail dreth ac ar gyfer rhannau o'r ardal, am y flwyddyn 2020/21, fel a ganlyn:-

**a)** 31,532.53 yw'r swm a bennwyd gan y Pwyllgor Gwaith fel sail y dreth gyngor Cyngor Sir Ynys Môn am y flwyddyn.

**b)** Y rhannau o ardal y Cyngor, sef y symiau a glandrwyd gan y Pwyllgor Gwaith fel y sail ar gyfer dreth gyngor Cyngor Sir Ynys Môn am y flwyddyn ar gyfer anheddau yn y rhannau hynny o'i ardal lle mae un neu fwy o eitemau arbennig yn berthnasol, yw fel a ganlyn:-

| Ardaloedd Cynghorau Tref/Cymuned | Sylfaen y Dreth 2020/21 |
|---|---:|
| Amlwch | 1,495.67 |
| Beaumaris | 1,082.64 |
| Holyhead | 3,967.89 |
| Llangefni | 1,990.72 |
| Menai Bridge | 1,440.67 |
| Llanddaniel-fab | 397.03 |
| Llanddona | 378.63 |
| Cwm Cadnant | 1,150.29 |
| Llanfair Pwllgwyngyll | 1,325.03 |
| Llanfihangel Ysgeifiog | 691.10 |
| Bodorgan | 470.32 |
| Llangoed | 656.53 |
| Llangristiolus & Cerrig Ceinwen | 636.43 |
| Llanidan | 418.06 |
| Rhosyr | 1,030.96 |
| Penmynydd | 244.02 |
| Pentraeth | 587.83 |

| Ardaloedd Cynghorau Tref/Cymuned | Sylfaen y Dreth 2020/21 |
|---|---|
| Moelfre | 628.73 |
| Llanbadrig | 701.83 |
| Llanddyfnan | 511.77 |
| Llaneilian | 578.69 |
| Llanerch-y-medd | 530.09 |
| Llaneugrad | 187.19 |
| Llanfair Mathafarn Eithaf | 1,874.32 |
| Cylch y Garn | 409.69 |
| Mechell | 554.88 |
| Rhos-y-bol | 481.07 |
| Aberffraw | 303.31 |
| Bodedern | 422.10 |
| Bodffordd | 419.32 |
| Trearddur | 1,277.31 |
| Tref Alaw | 263.66 |
| Llanfachraeth | 229.19 |
| Llanfaelog | 1,277.95 |
| Llanfaethlu | 279.75 |
| Llanfair-yn-Neubwll | 564.91 |
| Valley | 988.73 |
| Bryngwran | 363.51 |
| Rhoscolyn | 357.81 |
| Trewalchmai | 362.90 |
| **Total Taxbase** | **31,532.53** |

**8.** Bod y symiau a ganlyn bellach yn cael eu pennu gan y Cyngor ar gyfer y flwyddyn 2020/21, yn unol ag Adrannau 32 i 36 Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992:-

**a)** £200,207,025 sef cyfanswm y symiau y mae'r Cyngor yn eu hamcangyfrif ar gyfer yr eitemau a nodwyd yn Adran 32(2) (a) i (d) y Ddeddf.

**b)** £56,580,850 sef cyfanswm y symiau y mae'r Cyngor yn eu hamcangyfrif ar gyfer yr eitemau a nodwyd yn Adran 32(3) (a) a (c) y Ddeddf.

**c)** 143,626,175 sef y swm sy'n cyfateb i'r gwahaniaeth rhwng cyfanswm 8(a) uchod a chyfanswm 8(b) uchod, a bennwyd gan y Cyngor, yn unol ag Adran 32(4) y Ddeddf, yn gyllideb angenrheidiol ar gyfer y flwyddyn.

**ch)** £101,004,872 sef cyfanswm y symiau y mae'r Cyngor yn amcangyfrif y byddant yn daladwy yn ystod y flwyddyn i Gronfa'r Cyngor gyda golwg ar drethi annomestig a ail-ddosberthir, grant cynnal refeniw a grant arbennig, gan dynnu unrhyw swm a bennwyd yn unol ag Adran 33(3) y Ddeddf.

**d)** £1,351.66 sef y swm yn 8(c) uchod llai'r swm yn 8(ch) uchod, gan rannu'r cyfan â'r swm a nodir yn 7(a) uchod, a bennwyd gan y Pwyllgor Gwaith, yn unol ag Adran 33(1) y Ddeddf, sef swm sylfaenol y dreth gyngor am y flwyddyn.

**dd)** £1,479,865 sef cyfanswm yr holl eitemau arbennig y cyfeirir atynt yn Adran 34(1) y Ddeddf.

**e)** £1,304.73 sef y swm yn 8(d) uchod llai'r canlyniad a geir wrth rannu'r swm yn 8(dd) uchod â'r swm yn 7(a) uchod, a bennwyd gan y Pwyllgor Gwaith, yn unol ag Adran 34(2) y Ddeddf, sef swn sylfaenol y dreth gyngor am y flwyddyn ar gyfer anheddau yn y rhannau hynny o'r ardal lle na fo unrhyw eitem arbennig yn berthnasol.

f)

| | | Band D cyfatebol fesul ardal gan gynnwys Cyngor Ynys Môn ac elfennau cyngor cymuned/tref |
|---|---|---|
| Amlwch | £ | 1,370.97 |
| Beaumaris | £ | 1,331.82 |
| Holyhead | £ | 1,433.16 |
| Llangefni | £ | 1,392.66 |
| Menai Bridge | £ | 1,372.05 |
| Llanddaniel-fab | £ | 1,327.95 |
| Llanddona | £ | 1,323.00 |
| Cwm Cadnant | £ | 1,332.09 |
| Llanfair Pwllgwyngyll | £ | 1,340.91 |
| Llanfihangel Ysgeifiog | £ | 1,331.82 |
| Bodorgan | £ | 1,329.12 |
| Llangoed | £ | 1,322.55 |
| Llangristiolus & Cerrig Ceinwen | £ | 1,317.24 |
| Llanidan | £ | 1,333.53 |
| Rhosyr | £ | 1,330.29 |
| Penmynydd | £ | 1,335.42 |
| Pentraeth | £ | 1,326.78 |
| Moelfre | £ | 1,323.00 |
| Llanbadrig | £ | 1,343.88 |
| Llanddyfnan | £ | 1,323.27 |
| Llaneilian | £ | 1,327.23 |
| Llanerch-y-medd | £ | 1,337.67 |
| Llaneugrad | £ | 1,326.06 |
| Llanfair Mathafarn Eithaf | £ | 1,333.62 |
| Cylch y Garn | £ | 1,321.74 |
| Mechell | £ | 1,322.73 |
| Rhos-y-bol | £ | 1,321.29 |
| Aberffraw | £ | 1,326.15 |
| Bodedern | £ | 1,337.85 |
| Bodffordd | £ | 1,330.92 |
| Trearddur | £ | 1,332.90 |
| Tref Alaw | £ | 1,330.29 |
| Llanfachraeth | £ | 1,339.92 |
| Llanfaelog | £ | 1,335.96 |
| Llanfaethlu | £ | 1,325.25 |
| Llanfair-yn-Neubwll | £ | 1,334.79 |
| Valley | £ | 1,339.02 |
| Bryngwran | £ | 1,334.97 |
| Rhoscolyn | £ | 1,315.89 |
| Trewalchmai | £ | 1,328.13 |

sef y symiau a geir trwy ychwanegu at y swm a geir yn 8(e) uchod, symiau'r eitem neu'r eitemau arbennig sy'n berthnasol i anheddau yn y rhannau hynny o ardal y Cyngor y cyfeiriwyd atynt uchod wedi'u rhannu ym mhob achos gan y swm yn 8(b) uchod, a bennwyd gan y Pwyllgor Gwaith yn unol ag Adran 34(3) y Ddeddf, sef symiau sylfaenol y dreth gyngor am y flwyddyn ar gyfer anheddau yn y rhannau hynny o'i ardal lle bo un eitem arbennig neu fwy'n berthnasol.

**Bandiau Prisio**

| | | Treth y Cyngor fesul band, fesul ardal, sy'n cynnwys Cyngor Sir Ynys Môn ac elfennau/praeseptau Cyngor Cymuned/Tref | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | A | B | C | D | E | F | G | H | I |
| Amlwch | £ | 913.98 | 1,066.31 | 1,218.64 | 1,370.97 | 1,675.63 | 1,980.29 | 2,284.95 | 2,741.94 | 3,198.93 |
| Beaumaris | £ | 887.88 | 1,035.86 | 1,183.84 | 1,331.82 | 1,627.78 | 1,923.74 | 2,219.70 | 2,663.64 | 3,107.58 |
| Holyhead | £ | 955.44 | 1,114.68 | 1,273.92 | 1,433.16 | 1,751.64 | 2,070.12 | 2,388.60 | 2,866.32 | 3,344.04 |
| Llangefni | £ | 928.44 | 1,083.18 | 1,237.92 | 1,392.66 | 1,702.14 | 2,011.62 | 2,321.10 | 2,785.32 | 3,249.54 |
| Menai Bridge | £ | 914.70 | 1,067.15 | 1,219.60 | 1,372.05 | 1,676.95 | 1,981.85 | 2,286.75 | 2,744.10 | 3,201.45 |
| Llanddaniel-fab | £ | 885.30 | 1,032.85 | 1,180.40 | 1,327.95 | 1,623.05 | 1,918.15 | 2,213.25 | 2,655.90 | 3,098.55 |
| Llanddona | £ | 882.00 | 1,029.00 | 1,176.00 | 1,323.00 | 1,617.00 | 1,911.00 | 2,205.00 | 2,646.00 | 3,087.00 |
| Cwm Cadnant | £ | 888.06 | 1,036.07 | 1,184.08 | 1,332.09 | 1,628.11 | 1,924.13 | 2,220.15 | 2,664.18 | 3,108.21 |
| Llanfair Pwllgwyngyll | £ | 893.94 | 1,042.93 | 1,191.92 | 1,340.91 | 1,638.89 | 1,936.87 | 2,234.85 | 2,681.82 | 3,128.79 |
| Llanfihangel Ysgeifiog | £ | 887.88 | 1,035.86 | 1,183.84 | 1,331.82 | 1,627.78 | 1,923.74 | 2,219.70 | 2,663.64 | 3,107.58 |
| Bodorgan | £ | 886.08 | 1,033.76 | 1,181.44 | 1,329.12 | 1,624.48 | 1,919.84 | 2,215.20 | 2,658.24 | 3,101.28 |
| Llangoed | £ | 881.70 | 1,028.65 | 1,175.60 | 1,322.55 | 1,616.45 | 1,910.35 | 2,204.25 | 2,645.10 | 3,085.95 |
| Llangristiolus & Cerrig Ceinwen | £ | 878.16 | 1,024.52 | 1,170.88 | 1,317.24 | 1,609.96 | 1,902.68 | 2,195.40 | 2,634.48 | 3,073.56 |
| Llanidan | £ | 889.02 | 1,037.19 | 1,185.36 | 1,333.53 | 1,629.87 | 1,926.21 | 2,222.55 | 2,667.06 | 3,111.57 |
| Rhosyr | £ | 886.86 | 1,034.67 | 1,182.48 | 1,330.29 | 1,625.91 | 1,921.53 | 2,217.15 | 2,660.58 | 3,104.01 |
| Penmynydd | £ | 890.28 | 1,038.66 | 1,187.04 | 1,335.42 | 1,632.18 | 1,928.94 | 2,225.70 | 2,670.84 | 3,115.98 |
| Pentraeth | £ | 884.52 | 1,031.94 | 1,179.36 | 1,326.78 | 1,621.62 | 1,916.46 | 2,211.30 | 2,653.56 | 3,095.82 |
| Moelfre | £ | 882.00 | 1,029.00 | 1,176.00 | 1,323.00 | 1,617.00 | 1,911.00 | 2,205.00 | 2,646.00 | 3,087.00 |
| Llanbadrig | £ | 895.92 | 1,045.24 | 1,194.56 | 1,343.88 | 1,642.52 | 1,941.16 | 2,239.80 | 2,687.76 | 3,135.72 |
| Llanddyfnan | £ | 882.18 | 1,029.21 | 1,176.24 | 1,323.27 | 1,617.33 | 1,911.39 | 2,205.45 | 2,646.54 | 3,087.63 |
| Llaneilian | £ | 884.82 | 1,032.29 | 1,179.76 | 1,327.23 | 1,622.17 | 1,917.11 | 2,212.05 | 2,654.46 | 3,096.87 |
| Llanerch-y-medd | £ | 891.78 | 1,040.41 | 1,189.04 | 1,337.67 | 1,634.93 | 1,932.19 | 2,229.45 | 2,675.34 | 3,121.23 |
| Llaneugrad | £ | 884.04 | 1,031.38 | 1,178.72 | 1,326.06 | 1,620.74 | 1,915.42 | 2,210.10 | 2,652.12 | 3,094.14 |
| Llanfair Mathafarn Eithaf | £ | 889.08 | 1,037.26 | 1,185.44 | 1,333.62 | 1,629.98 | 1,926.34 | 2,222.70 | 2,667.24 | 3,111.78 |
| Cylch y Garn | £ | 881.16 | 1,028.02 | 1,174.88 | 1,321.74 | 1,615.46 | 1,909.18 | 2,202.90 | 2,643.48 | 3,084.06 |
| Mechell | £ | 881.82 | 1,028.79 | 1,175.76 | 1,322.73 | 1,616.67 | 1,910.61 | 2,204.55 | 2,645.46 | 3,086.37 |
| Rhos-y-bol | £ | 880.86 | 1,027.67 | 1,174.48 | 1,321.29 | 1,614.91 | 1,908.53 | 2,202.15 | 2,642.58 | 3,083.01 |
| Aberffraw | £ | 884.10 | 1,031.45 | 1,178.80 | 1,326.15 | 1,620.85 | 1,915.55 | 2,210.25 | 2,652.30 | 3,094.35 |
| Bodedern | £ | 891.90 | 1,040.55 | 1,189.20 | 1,337.85 | 1,635.15 | 1,932.45 | 2,229.75 | 2,675.70 | 3,121.65 |
| Bodffordd | £ | 887.28 | 1,035.16 | 1,183.04 | 1,330.92 | 1,626.68 | 1,922.44 | 2,218.20 | 2,661.84 | 3,105.48 |
| Trearddur | £ | 888.60 | 1,036.70 | 1,184.80 | 1,332.90 | 1,629.10 | 1,925.30 | 2,221.50 | 2,665.80 | 3,110.10 |
| Tref Alaw | £ | 886.86 | 1,034.67 | 1,182.48 | 1,330.29 | 1,625.91 | 1,921.53 | 2,217.15 | 2,660.58 | 3,104.01 |
| Llanfachraeth | £ | 893.28 | 1,042.16 | 1,191.04 | 1,339.92 | 1,637.68 | 1,935.44 | 2,233.20 | 2,679.84 | 3,126.48 |
| Llanfaelog | £ | 890.64 | 1,039.08 | 1,187.52 | 1,335.96 | 1,632.84 | 1,929.72 | 2,226.60 | 2,671.92 | 3,117.24 |
| Llanfaethlu | £ | 883.50 | 1,030.75 | 1,178.00 | 1,325.25 | 1,619.75 | 1,914.25 | 2,208.75 | 2,650.50 | 3,092.25 |

| | | Treth y Cyngor fesul band, fesul ardal, sy'n cynnwys Cyngor Sir Ynys Môn ac elfennau/praeseptau Cyngor Cymuned/Tref | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | A | B | C | D | E | F | G | H | I |
| Llanfair-yn-Neubwll | £ | 889.86 | 1,038.17 | 1,186.48 | 1,334.79 | 1,631.41 | 1,928.03 | 2,224.65 | 2,669.58 | 3,114.51 |
| Valley | £ | 892.68 | 1,041.46 | 1,190.24 | 1,339.02 | 1,636.58 | 1,934.14 | 2,231.70 | 2,678.04 | 3,124.38 |
| Bryngwran | £ | 889.98 | 1,038.31 | 1,186.64 | 1,334.97 | 1,631.63 | 1,928.29 | 2,224.95 | 2,669.94 | 3,114.93 |
| Rhoscolyn | £ | 877.26 | 1,023.47 | 1,169.68 | 1,315.89 | 1,608.31 | 1,900.73 | 2,193.15 | 2,631.78 | 3,070.41 |
| Trewalchmai | £ | 885.42 | 1,032.99 | 1,180.56 | 1,328.13 | 1,623.27 | 1,918.41 | 2,213.55 | 2,656.26 | 3,098.97 |

sef y symiau a geir trwy luosi'r symiau yn 8(e) a 8(f) uchod a'r rhif sydd, yn ôl y cyfrannau a nodir yn Adran 5(1) y Ddeddf, yn berthnasol i anheddau a restrir mewn band prisiau arbennig wedi'i rannu â'r rhif sydd yn ôl y cyfrannau hynny'n berthnasol i dai a restrir ym mand prisiau D, a bennir gan y Pwyllgor Gwaith, yn unol ag Adran 36(1) y Ddeddf, yn symiau sydd i'w hystyried ar gyfer y flwyddyn gyda golwg ar y categorïau o anheddau a restrir yn y gwahanol fandiau prisiau.

**9.** Y dylid nodi, ar gyfer y flwyddyn 2019/20, fod Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru wedi nodi'r symiau a ganlyn mewn praesept a roddwyd i'r Cyngor, yn unol ag Adran 40 Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992, ar gyfer pob un o'r categorïau o anheddau a ddangosir isod:-

**Awdurdod Praeseptio** **Bandiau Prisiau**

| | | A | B | C | D | E | F | G | H | I |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru | £ | 193.74 | 226.03 | 258.32 | 290.61 | 355.19 | 419.77 | 484.35 | 581.22 | 678.09 |

**10.** Wedi pennu'r cyfanswm ym mhob achos o'r symiau yn 8(ff) a 9 uchod, bod y Cyngor, yn unol ag Adran 30(2) Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992, drwy hyn yn pennu'r symiau a ganlyn ar gyfer y dreth gyngor ar gyfer y flwyddyn 2018/19 ar gyfer pob categori o anheddau a ddangosir isod:-

| | | Y Dreth Gyngor fesul Band, ym mhob ardal, sy'n cynnwys elfen Cyngor Sir Ynys Môn, Preseptiau Cyngor Cymunedol/Tref a Phraesept Heddlu Gogledd Cymru | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | **A** | **B** | **C** | **D** | **E** | **F** | **G** | **H** | **I** |
| Amlwch | £ | 1,107.72 | 1,292.34 | 1,476.96 | 1,661.58 | 2,030.82 | 2,400.06 | 2,769.30 | 3,323.16 | 3,877.02 |
| Beaumaris | £ | 1,081.62 | 1,261.89 | 1,442.16 | 1,622.43 | 1,982.97 | 2,343.51 | 2,704.05 | 3,244.86 | 3,785.67 |
| Holyhead | £ | 1,149.18 | 1,340.71 | 1,532.24 | 1,723.77 | 2,106.83 | 2,489.89 | 2,872.95 | 3,447.54 | 4,022.13 |
| Llangefni | £ | 1,122.18 | 1,309.21 | 1,496.24 | 1,683.27 | 2,057.33 | 2,431.39 | 2,805.45 | 3,366.54 | 3,927.63 |
| Menai Bridge | £ | 1,108.44 | 1,293.18 | 1,477.92 | 1,662.66 | 2,032.14 | 2,401.62 | 2,771.10 | 3,325.32 | 3,879.54 |
| Llanddaniel-fab | £ | 1,079.04 | 1,258.88 | 1,438.72 | 1,618.56 | 1,978.24 | 2,337.92 | 2,697.60 | 3,237.12 | 3,776.64 |
| Llanddona | £ | 1,075.74 | 1,255.03 | 1,434.32 | 1,613.61 | 1,972.19 | 2,330.77 | 2,689.35 | 3,227.22 | 3,765.09 |
| Cwm Cadnant | £ | 1,081.80 | 1,262.10 | 1,442.40 | 1,622.70 | 1,983.30 | 2,343.90 | 2,704.50 | 3,245.40 | 3,786.30 |
| Llanfair Pwllgwyngyll | £ | 1,087.68 | 1,268.96 | 1,450.24 | 1,631.52 | 1,994.08 | 2,356.64 | 2,719.20 | 3,263.04 | 3,806.88 |
| Llanfihangel Ysgeifiog | £ | 1,081.62 | 1,261.89 | 1,442.16 | 1,622.43 | 1,982.97 | 2,343.51 | 2,704.05 | 3,244.86 | 3,785.67 |
| Bodorgan | £ | 1,079.82 | 1,259.79 | 1,439.76 | 1,619.73 | 1,979.67 | 2,339.61 | 2,699.55 | 3,239.46 | 3,779.37 |
| Llangoed | £ | 1,075.44 | 1,254.68 | 1,433.92 | 1,613.16 | 1,971.64 | 2,330.12 | 2,688.60 | 3,226.32 | 3,764.04 |
| Llangristiolus & Cerrig Ceinwen | £ | 1,071.90 | 1,250.55 | 1,429.20 | 1,607.85 | 1,965.15 | 2,322.45 | 2,679.75 | 3,215.70 | 3,751.65 |
| Llanidan | £ | 1,082.76 | 1,263.22 | 1,443.68 | 1,624.14 | 1,985.06 | 2,345.98 | 2,706.90 | 3,248.28 | 3,789.66 |
| Rhosyr | £ | 1,080.60 | 1,260.70 | 1,440.80 | 1,620.90 | 1,981.10 | 2,341.30 | 2,701.50 | 3,241.80 | 3,782.10 |
| Penmynydd | £ | 1,084.02 | 1,264.69 | 1,445.36 | 1,626.03 | 1,987.37 | 2,348.71 | 2,710.05 | 3,252.06 | 3,794.07 |
| Pentraeth | £ | 1,078.26 | 1,257.97 | 1,437.68 | 1,617.39 | 1,976.81 | 2,336.23 | 2,695.65 | 3,234.78 | 3,773.91 |
| Moelfre | £ | 1,075.74 | 1,255.03 | 1,434.32 | 1,613.61 | 1,972.19 | 2,330.77 | 2,689.35 | 3,227.22 | 3,765.09 |
| Llanbadrig | £ | 1,089.66 | 1,271.27 | 1,452.88 | 1,634.49 | 1,997.71 | 2,360.93 | 2,724.15 | 3,268.98 | 3,813.81 |
| Llanddyfnan | £ | 1,075.92 | 1,255.24 | 1,434.56 | 1,613.88 | 1,972.52 | 2,331.16 | 2,689.80 | 3,227.76 | 3,765.72 |
| Llaneilian | £ | 1,078.56 | 1,258.32 | 1,438.08 | 1,617.84 | 1,977.36 | 2,336.88 | 2,696.40 | 3,235.68 | 3,774.96 |
| Llanerch-y-medd | £ | 1,085.52 | 1,266.44 | 1,447.36 | 1,628.28 | 1,990.12 | 2,351.96 | 2,713.80 | 3,256.56 | 3,799.32 |
| Llaneugrad | £ | 1,077.78 | 1,257.41 | 1,437.04 | 1,616.67 | 1,975.93 | 2,335.19 | 2,694.45 | 3,233.34 | 3,772.23 |
| Llanfair Mathafarn Eithaf | £ | 1,082.82 | 1,263.29 | 1,443.76 | 1,624.23 | 1,985.17 | 2,346.11 | 2,707.05 | 3,248.46 | 3,789.87 |
| Cylch y Garn | £ | 1,074.90 | 1,254.05 | 1,433.20 | 1,612.35 | 1,970.65 | 2,328.95 | 2,687.25 | 3,224.70 | 3,762.15 |
| Mechell | £ | 1,075.56 | 1,254.82 | 1,434.08 | 1,613.34 | 1,971.86 | 2,330.38 | 2,688.90 | 3,226.68 | 3,764.46 |
| Rhos-y-bol | £ | 1,074.60 | 1,253.70 | 1,432.80 | 1,611.90 | 1,970.10 | 2,328.30 | 2,686.50 | 3,223.80 | 3,761.10 |
| Aberffraw | £ | 1,077.84 | 1,257.48 | 1,437.12 | 1,616.76 | 1,976.04 | 2,335.32 | 2,694.60 | 3,233.52 | 3,772.44 |
| Bodedern | £ | 1,085.64 | 1,266.58 | 1,447.52 | 1,628.46 | 1,990.34 | 2,352.22 | 2,714.10 | 3,256.92 | 3,799.74 |
| Bodffordd | £ | 1,081.02 | 1,261.19 | 1,441.36 | 1,621.53 | 1,981.87 | 2,342.21 | 2,702.55 | 3,243.06 | 3,783.57 |
| Trearddur | £ | 1,082.34 | 1,262.73 | 1,443.12 | 1,623.51 | 1,984.29 | 2,345.07 | 2,705.85 | 3,247.02 | 3,788.19 |
| Tref Alaw | £ | 1,080.60 | 1,260.70 | 1,440.80 | 1,620.90 | 1,981.10 | 2,341.30 | 2,701.50 | 3,241.80 | 3,782.10 |
| Llanfachraeth | £ | 1,087.02 | 1,268.19 | 1,449.36 | 1,630.53 | 1,992.87 | 2,355.21 | 2,717.55 | 3,261.06 | 3,804.57 |
| Llanfaelog | £ | 1,084.38 | 1,265.11 | 1,445.84 | 1,626.57 | 1,988.03 | 2,349.49 | 2,710.95 | 3,253.14 | 3,795.33 |
| Llanfaethlu | £ | 1,077.24 | 1,256.78 | 1,436.32 | 1,615.86 | 1,974.94 | 2,334.02 | 2,693.10 | 3,231.72 | 3,770.34 |
| Llanfair-yn-Neubwll | £ | 1,083.60 | 1,264.20 | 1,444.80 | 1,625.40 | 1,986.60 | 2,347.80 | 2,709.00 | 3,250.80 | 3,792.60 |
| Valley | £ | 1,086.42 | 1,267.49 | 1,448.56 | 1,629.63 | 1,991.77 | 2,353.91 | 2,716.05 | 3,259.26 | 3,802.47 |
| Bryngwran | £ | 1,083.72 | 1,264.34 | 1,444.96 | 1,625.58 | 1,986.82 | 2,348.06 | 2,709.30 | 3,251.16 | 3,793.02 |
| Rhoscolyn | £ | 1,071.00 | 1,249.50 | 1,428.00 | 1,606.50 | 1,963.50 | 2,320.50 | 2,677.50 | 3,213.00 | 3,748.50 |
| Trewalchmai | £ | 1,079.16 | 1,259.02 | 1,438.88 | 1,618.74 | 1,978.46 | 2,338.18 | 2,697.90 | 3,237.48 | 3,777.06 |

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | **Pwyllgor Gwaith**<br>**Cyngor Sir** |
| **Dyddiad:** | **17 Chwefror 2020**<br>**10 Mawrth 2020** |
| **Pwnc:** | **Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2020-2024** |
| **Aelod(au) Portffolio:** | **Cyng Llinos Medi** |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | **Lynn Ball**<br>**Pennaeth Swyddogaeth – Busnes y Cyngor / Swyddog Monitro** |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>Rhif Ffôn:<br>E-bost: | **Carol Wyn Owen, Rheolwr Polisi a Strategaeth**<br>**01248 752561**<br>**CarolWyn@ynysmon.gov.uk** |
| **Aelodau Lleol:** | **Amherthnasol** |

**A – Argymhelliad/Argymhellion a Rheswm/Rhesymau**

**Argymhelliad:** Gofynnir i'r Pwyllgor Gwaith argymell i'r Cyngor Sir y dylid cymeradwyo Cynllun Cydraddoldeb Strategol drafft y Cyngor ar gyfer 2020-2024 ac awdurdodi swyddogion, mewn ymgynghoriad â'r Deilydd Portffolio, i gwblhau'r Cynllun a'i gyhoeddi erbyn 31 Mawrth 2020.

**Rheswm:**

Mae'r Ddeddf Cydraddoldeb 2010 yn rhoi Dyletswydd Gyffredinol ar gyrff cyhoeddus rhestredig, wrth gynnal eu gwaith (a phan fo pobl eraill yn cynnal gwaith cyhoeddus) i ystyried yr angen i:

- ddiddymu gwahaniaethu, aflonyddu ac erledigaeth anghyfreithlon ac ymddygiad arall sydd wedi ei wahardd gan y Ddeddf
- hyrwyddo cyfle cyfartal rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd gwarchodedig berthnasol a'r rhai nad ydynt
- feithrin perthynas dda rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig a'r rhai nad ydynt

Ym mis Ebrill 2010, defnyddiodd Llywodraeth Cymru ei bwerau i gyflwyno Dyletswyddau Penodol a nodir y rhain yn Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Penodol) (Cymru) 2011. O dan y Rheoliadau hyn roedd rhaid i bob awdurdod lleol gyhoeddi Cynllun Cydraddoldeb Strategol erbyn 2 Ebrill 2012. Roedd yn ofynnol cynnwys amcanion cydraddoldeb ar gyfer pob un o'r nodweddion gwarchodedig, sef Oed; Anabledd; Newid rhyw; Rhyw; Beichiogrwydd a mamolaeth; Cyfeiriadedd rhywiol; Hil; Crefydd neu gred; Priodas a phartneriaethau sifil.

** Allwedd i'r Categoriau:*
*Strategol – cynlluniau a mentrau allweddol corfforaethol*
*Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*Er gwybodaeth*

Rhaid adolygu'r Cynllun a'r amcanion sydd ynddo o leiaf pob pedair blynedd. Mae'r Cynllun cyfredol - ar gyfer 2016-2020 - yn dod i ben ar 31 Mawrth 2020, pryd y bydd rhaid cyhoeddi Cynllun newydd ar gyfer 2020-2024. Pwrpas y Cynllun yw gosod allan y camau y mae'r Cyngor yn eu cymryd i gyflawni ei ddyletswyddau penodol o ran cydraddoldeb.

Mae swyddogion Cydraddoldeb ym mhob un o'r chwe Awdurdod Lleol yng Ngogledd Cymru, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru, Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaeth Ambiwlans Cymru, Awdurdod y Parc Cenedlaethol a Heddlu Gogledd Cymru wedi rhannu arferion da ers blynyddoedd lawer. Yn ystod 2011/12, datblygodd Rhwydwaith Cydraddoldeb Sector Cyhoeddus Gogledd Cymru gyfres o gydamcanion a gytunwyd gan bob partner ac fe adolygwyd yr amcanion hyn i gyd-fynd â pharatoi Cynlluniau Cydraddoldeb Strategol diwygiedig ar gyfer 2016-20. Cynhaliwyd adolygiad arall yn ddiweddar er mwyn llywio ein Cynlluniau ar gyfer 2020-2024. Er mwyn sicrhau bod ein amcanion newydd yn anelu at roi sylw i'r heriadau a osodir allan yn adroddiad y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol '*A yw Cymru'n Decach? 2018'*, mae amcanion rhanbarthol y rhwydwaith yn seiliedig ar y chwe thema bywyd a nodir yn adroddiad y Comisiwn, sef:

1 - Mae canlyniadau o ran cyrhaeddiad **addysgo**l a llesiant mewn ysgolion yn gwella
2 - Byddwn yn cymryd camau i sicrhau ein bod yn **gyflogwr teg a'n bod yn lleihau bylchau o ran cyflogau**
3 - Byddwn yn gweithredu i wella **safonau byw** pobl â nodweddion gwarchodedig gwahanol
4 - Byddwn yn gwella canlyniadau o ran **iechyd, llesiant a gofal cymdeithasol**
5 - Byddwn yn gwella **diogelwch personol a mynediad i gyfiawnder**
6 - Byddwn yn cynyddu mynediad i **gyfranogiad** er mwyn gwella amrywiaeth o ran gwneud penderfyniadau

Yn ychwanegol, er mwyn rhoi sylw i fwriad Llywodraeth Cymru i roi'r ddyletswydd gymdeithasol economaidd ar waith, fe gytunwyd hefyd yr amcan rhanbarthol canlynol:

7 - Byddwn yn datblygu ein gwybodaeth a'n dealltwriaeth o'r **ddyletswydd gymdeithasol economaidd** (pan fydd arweiniad ar gael) er mwyn adnabod y meysydd allweddol o effaith sydd angen mynd i'r afael â nhw o dan bob amcan.

Er cysondeb, ac yn yr un modd â'r ddau gynllun blaenorol, rydym wedi dewis mabwysiadu'r amcanion rhanbarthol, ynghyd ag un amcan lleol ychwanegol:

8 - Byddwn yn gwella **gweithdrefnau'r Cyngor** er mwyn sicrhau tegwch i bawb.

Mae **blaenoriaethau drafft** wedi'u hadnabod o dan pob un o'r amcanion uchod a ddylai, ochr yn ochr a gweithrediadau gwella eraill sydd wedi'u hamlygu mewn cynlluniau corfforaethol a gwasanaethau, ein helpu i adeiladu cymdeithas decach i bob un o ddinasyddion Ynys Môn.

** Allwedd i'r Categoriau:*
*Strategol – cynlluniau a mentrau allweddol corfforaethol*
*Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*Er gwybodaeth*

| **B – Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd eich rhesymau dros eu gwrthod ac/neu ddewis yr opsiwn hwn?** |
|---|
| - |

| **C – Am ba reswm y mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?** |
|---|
| Er mwyn cael perchnogaeth lefel uchel o raglen cydraddoldeb y Cyngor, gofynnir i'r Pwyllgor Gwaith argymell bod y Cyngor llawn yn derbyn y Cynllun drafft. |

| **D – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?** |
|---|
| Ydi. |

| **DD – A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?** |
|---|
| Ydi. |

| **E – Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori?** | | **Beth oedd eu sylwadau?** |
|---|---|---|
| 1 | **Prif Weithredwr / Uwch Dim Arweinyddiaeth (UDA)** (mandadol) | Fe gyflwynwyd y Cynllun drafft i gyfarfod o'r Uwch Dim Arweinyddiaeth ar 27 Ionawr 2020 Ni wnaed unrhyw newidiadau i gynnwys y Cynllun. |
| 2 | **Cyllid / Adran 151** (mandadol) | |
| 3 | **Cyfreithiol / Swyddog Monitro** (mandadol) | |
| 5 | **Adnoddau Dynol (AD)** | Mae rhannau penodol o'r Cynllun yn ymwneud â materion Adnoddau Dynol (hy Ein Staff; Amcan 2 – Byddwn yn cymryd camau i sicrhau ein bod yn gyflogwr teg a'n bod yn lleihau bylchau o ran cyflogau). |
| 6 | **Eiddo** | |
| 7 | **Technoleg Gwybodaeth Cyfathrebu (TGCh)** | |
| 8 | **Sgriwtini** | Aeth y Cynllun Cydraddoldeb Strategol drafft gerbron y Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio ar 4 Chwefror, 2020. Rhoddwyd ystyriaeth i'r ddogfen ac yn sgil trafodaeth, fe benderfynwyd:<br><br>• argymell i'r Pwyllgor Gwaith gymeradwyo'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2020-2024<br>• rhoi trefniadau mewn lle i'r Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio fonitro fel mater o drefn yn flynyddol y cynnydd o ran cydraddoldeb. |

** Allwedd i'r Categoriau:*
*Strategol – cynlluniau a mentrau allweddol corfforaethol*
*Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*Er gwybodaeth*

| | | |
|---|---|---|
| **9** | **Aelodau Lleol** | |
| **10** | **Unrhyw gyrff allanol / arall/eraill** | Gweler tudalen 10 yn y cynllun – 'ymgynghori ymgysylltu a chasglu tystiolaeth' |

| **F – Risgiau ac unrhyw gamau lliniaru (os yn berthnasol)** | | |
|---|---|---|
| **1** | **Economaidd** | |
| **2** | **Gwrthdlodi** | |
| **3** | **Trosedd ac Anhrefn** | |
| **4** | **Amgylcheddol** | |
| **5** | **Cydraddoldebau** | Dim effaith negyddol wedi'i adnabod hyd yn hyn. Pwrpas yr amcanion a blaenoriaethau cydraddoldeb o fewn y Cynllun yw i gynorthwyo'r Cyngor i gwrdd â thair nod y ddyletswydd gyffredinol i roi sylw dyledus i'r angen i:<br><br>- ddiddymu gwahaniaethu, aflonyddu ac erledigaeth anghyfreithlon ac ymddygiad arall sydd wedi ei wahardd gan y Ddeddf<br>- hyrwyddo cyfle cyfartal rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig berthnasol a'r rhai nad ydynt<br>- meithrin perthynas dda rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig a'r rhai nad ydynt<br><br>Yn ychwanegol i'r blaenoriaethau a mentrau eraill sydd yn y cynllun, bydd y Cyngor yn cryfhau egwyddorion cyfleoedd cyfartal i bobl o bob cefndir ac amgylchiadau yn ei holl gynlluniau a'i weithdrefnau.<br><br>Mae'r asesiad effaith ar gydraddoldeb ar gael yn Atodiad 2. |
| **6** | **Cytundebau Canlyniad** | |
| **7** | **Arall** | |
| **FF - Atodiadau:** | | |
| Atodiad 1 – Cynllun Cydraddoldeb Strategol drafft ar gyfer 2020-2024<br>Atodiad 2 – Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb. | | |
| **G - Papurau Cefndir (cysylltwch os gwelwch yn dda gydag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach):** | | |
| | | |

** Allwedd i'r Categoriau:*
*Strategol – cynlluniau a mentrau allweddol corfforaethol*
*Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*Er gwybodaeth*

# Cyngor Sir Ynys Môn

# Cynllun Cydraddoldeb Strategol

# 2020 – 2024

DRAFFT

**Mawrth 2020**



Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg / This document is also available in English.

## Sut i gysylltu â ni

Rydym yn croesawu unrhyw sylwadau, awgrymiadau neu adborth ynglŷn â'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol. Cysylltwch â ni:

E-bost: cydraddoldeb@ynysmon.gov.uk
Ffôn: 01248 752520 / 752561

Gwasanaethau Democrataidd (Cydraddoldeb)
Busnes y Cyngor
Cyngor Sir Ynys Môn
Swyddfeydd y Cyngor
Llangefni
Ynys Môn
LL77 7TW

Rydym yn hapus i ddarparu'r ddogfen hon mewn fformatau eraill ar gais. Defnyddiwch y manylion uchod i gysylltu â ni.

DRAFT

# Rhagair



Croeso i Gynllun Cydraddoldeb Strategol 2020-2024 Cyngor Sir Ynys Môn. Mae'r Cynllun yn nodi ein dyhead am gydraddoldeb er mwyn adeiladu cymdeithas decach i bob un o ddinasyddion Ynys Môn ac i'n helpu i wireddu ein gweledigaeth ar gyfer Ynys Môn sy'n iach ac yn llewyrchus ble gall teuluoedd ffynnu.

Mae Cynllun y Cyngor 2017-2022 yn nodi ein tair blaenoriaeth bwysicaf:

(1) Creu'r amodau fydd yn galluogi pobl Ynys Môn i ffynnu ac i gyflawni eu potensial tymor hir.
(2) Cefnogi oedolion a theuluoedd bregus a'u cadw'n ddiogel, yn iach ac mor annibynnol â phosibl.
(3) Gweithio mewn partneriaeth gyda'n cymunedau i sicrhau eu bod yn gallu ymdopi'n effeithiol â newid a datblygiadau wrth warchod ein hamgylchedd naturiol.

Rydym yn credu y bydd yr amcanion cydraddoldeb yr ydym wedi eu nodi yn y Cynllun Cydraddoldeb Strategol hwn yn cydweddu â blaenoriaethau Cynllun y Cyngor ac yn ein helpu i'w cyflawni mewn ffordd fydd yn sicrhau bod holl aelodau'n cymuned yn elwa.

Mae'n bwysig nodi y bydd y Cynllun hwn yn cael ei gyflawni mewn hinsawdd economaidd heriol, lle bu'n rhaid i ni wneud arbedion sylweddol yn barod a bydd rhaid i ni wneud mwy o benderfyniadau anodd yn y dyfodol am y gwasanaethau yr ydym yn eu darparu a sut yr ydym yn eu darparu. Mae'n anochel y bydd rhai pobl yn cael eu heffeithio fwy nag eraill. Byddwn yn rhoi ystyriaeth briodol i sut mae ein penderfyniadau'n effeithio ar bobl Ynys Môn ac yn gwneud popeth posib i leihau unrhyw effeithiau negyddol yr ydym yn eu nodi.

Wrth gyflawni ei **holl** waith, bydd y Cyngor yn parhau i fod yn ymrwymedig i hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth. Mae'r ymrwymiad hwn yn berthnasol i sut yr ydym yn darparu ein gwasanaethau, ein cyfrifoldebau fel cyflogwr mawr ac wrth sicrhau nad yw ein polisïau, gweithdrefnau ac arferion yn camwahaniaethu mewn unrhyw ffordd.

**Y Cynghorydd Llinos Medi**
**Arweinydd y Cyngor a Deilydd Portffolio ar gyfer Cydraddoldeb ac Amrywiaeth**

DRAFT

| Cynnwys | Tudalen: |
|---|---|

| | |
|---|---|
| Sut i gysylltu â ni | 2 |
| Rhagair | 3 |
| Deddf Cydraddoldeb 2010 | 5 |
| Ein Cyngor | 6 |
| Ein Blaenoriaethau | 6 |
| Ein Staff | 8 |
| Gwybodaeth Berthnasol am Gydraddoldeb | 9 |
| Ymgysylltu, ymgynghori a chasglu tystiolaeth | 10 |
| Hyrwyddo cydraddoldeb | 11 |
| Asesu effaith | 13 |
| Cydweithio | 13 |
| Ein hamcanion cydraddoldeb ar gyfer 2020-2024 | 14 |
| Monitro Cynnydd | 42 |

DRAFFT


Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg / This document is also available in English.

## Deddf Cydraddoldeb 2010

Pwrpas Deddf Cydraddoldeb 2010 yw sicrhau tegwch ac mae'n diogelu'r nodweddion canlynol (sy'n cael eu galw hefyd yn 'grŵpiau gwarchodedig'):

- Oed
- Anabledd
- Rhyw
- Newid rhyw
- Beichiogrwydd a mamolaeth
- Hil
- Crefydd neu gred, gan gynnwys diffyg cred
- Cyfeiriadedd rhywiol
- Priodas a phartneriaeth sifil

Nid yw hyrwyddo a defnyddio'r iaith Gymraeg wedi'i gynnwys yn Neddf Cydraddoldeb 2010 gan fod gofynion **Mesur yr Iaith Gymraeg (Cymru) 2011** yn rhoi sylw i hyn. O dan y Mesur, rhaid i gyrff cyhoeddus gydymffurfio â'r Safonau Iaith Gymraeg. Egwyddorion sylfaenol y Safonau yw na ddylid trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg ac y dylid hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o'r iaith Gymraeg, gan ei gwneud yn haws i bobl ddefnyddio'r Gymraeg yn eu bywydau bob dydd.

Mae'n bwysig cynnwys yr iaith Gymraeg ochr yn ochr â'r nodweddion gwarchodedig uchod er mwyn annog ymagwedd holistaidd tuag at anghenion pob cymuned wrth gynllunio a darparu gwasanaethau.

### Y Ddyletswydd Cydraddoldeb Cyffredinol

Mae'r Ddeddf yn gosod Dyletswydd Gyffredinol ar gyrff cyhoeddus i roi sylw dyledus i'r canlynol wrth weithredu eu swyddogaethau:

- Diddymu gwahaniaethu, aflonyddu ac erledigaeth anghyfreithlon ac ymddygiad arall sydd wedi ei wahardd gan y Ddeddf.
- Hyrwyddo cyfle cyfartal rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig berthnasol a'r rhai nad ydynt.
- Meithrin perthynas dda rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig a'r rhai nad ydynt.

### Dyletswyddau Penodol

Cyflwynodd Llywodraeth Cymru ddyletswyddau penodol i helpu cyrff cyhoeddus yng Nghymru i gyfarfod â'r ddyletswydd gyffredinol. Mae'r dyletswyddau penodol hyn yn cynnwys gofyniad i ddatblygu a chyhoeddi **amcanion cydraddoldeb** a **Chynlluniau Cydraddoldeb Strategol** o leiaf unwaith bob pedair blynedd. Hefyd, rhaid cynhyrchu **adroddiadau blynyddol ar gydraddoldeb** erbyn 31 Mawrth bob blwyddyn. Mae'r adroddiadau hyn yn dangos sut yr ydym wedi cwrdd gyda'n dyletswyddau cyffredinol a phenodol o ran cydraddoldeb.



DRAFT

## Ein Cyngor

**Strwythur Gwleidyddol –** Mae trigolion Ynys Môn yn cael eu cynrychioli gan 30 o aelodau etholedig (a elwir hefyd yn Gynghorwyr). Prif gorff gwneud penderfyniadau'r Cyngor yw Pwyllgor Gwaith o naw aelod, a gadeirir gan Arweinydd y Cyngor. Mae'r Pwyllgor Gwaith yn atebol dros ei benderfyniadau i ddau Bwyllgor Sgriwtini. Ceir rhagor o wybodaeth am drefniadau gwleidyddol y Cyngor, gan gynnwys manylion am ein pwyllgorau a dyddiadau cyfarfodydd, ar wefan y Cyngor.

**Strwythur Rheoli –** Daeth strwythur rheoli strategol newydd i rym ym mis Awst 2019, gydag Uwch Dîm Arweinyddiaeth sy'n cynnwys y Prif Weithredwr, y Dirprwy Brif Weithredwr a phum Cyfarwyddwr sydd â chyfrifoldeb am:

- Busnes y Cyngor
- Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc
- Lle a Llesiant Cymunedol
- Adnoddau
- Gwasanaethau Cymdeithasol

Mae pedwar Pennaeth Gwasanaeth yn gyfrifol am:

- Plant a Theuluoedd
- Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo
- Tai
- Trawsnewid ac Adnoddau Dynol

## Blaenoriaethau'r Cyngor

### Cynllun y Cyngor 2017-2022

Nod y Cyngor, fel y nodir yn ein Cynllun y Cyngor, yw y byddwn yn gweithio tuag at Ynys Môn sy'n iach ac yn llewyrchus ble gall teuluoedd ffynnu. Er mwyn diwallu'r nod hwn, amcanion y Cyngor ar gyfer 2017-2022 yw:

(1) Sicrhau y gall pobl Ynys Môn ffynnu a chyflawni eu potensial tymor hir.
(2) Cefnogi oedolion a theuluoedd bregus er mwyn eu cadw'n ddiogel, yn iach ac mor annibynnol â phosib.
(3) Gweithio mewn partneriaeth gyda'n cymunedau i'w galluogi i ymdopi'n effeithiol â newid a datblygiadau wrth warchod ein hamgylchedd naturiol.

Mae'r Cyngor hefyd yn cyhoeddi:

- **Dogfen Gyflawni Flynyddol** sy'n rhoi sylw i'r gwaith a wneir gennym i wireddu'r targedau a nodir yng Nghynllun y Cyngor

- **Adroddiad Perfformiad Blynyddol** sy'n edrych ar berfformiad yn ystod y flwyddyn ariannol ddiwethaf yn erbyn y gwelliannau a'r blaenoriaethau a nodir yn y Ddogfen Gyflawni Flynyddol ar gyfer yr un flwyddyn.

### Cynllun Llesiant Ynys Môn a Gwynedd 2018

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 wedi sefydlu Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC) i sicrhau fod cyrff cyhoeddus yn cydweithio i greu gwell dyfodol i bobl Cymru. Hefyd, roedd y Ddeddf yn gosod cyfrifoldeb ar y Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus i gyhoeddi Cynlluniau Llesiant yn amlinellu sut roeddent yn bwriadu gwella llesiant trigolion yr ardal. Mae Cynllun Llesiant Ynys Môn a Gwynedd wedi'i seilio ar ddau amcan, gyda chwech o flaenoriaethau y bydd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn canolbwyntio arnynt i wireddu'r amcanion hyn:

(1) Cymunedau sy'n ffynnu ac yn llewyrchus yn y tymor hir
- Yr iaith Gymraeg
- Cartrefi ar gyfer pobl leol
- Effaith tlodi ar lesiant ein cymunedau
- Effaith newid hinsawdd ar lesiant ein cymunedau

(2) Trigolion sydd yn iach ac yn annibynnol gyda safon bywyd da
- Iechyd a gofal oedolion
- Lles a llwyddiant plant a phobl ifanc.

Bydd yr amcanion a'r blaenoriaethau uchod yn cyfrannu tuag at daclo anghydraddoldeb ac anfantais er mwyn cau'r bwlch rhwng y cymunedau mwyaf breintiedig a'r rhai difreintiedig.

### Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2020-2024

Hwn yw trydydd Cynllun Cydraddoldeb Strategol y Cyngor ac mae'n dangos ein hymrwymiad parhaus i gydraddoldeb. Mae'n nodi ein hamcanion cydraddoldeb strategol, ein rhesymau dros eu dewis a sut rydym yn bwriadu eu cyflawni.

Er mwyn dangos ein hymrwymiad i brif ffrydio cydraddoldeb o fewn y Cyngor ac yn unol â'n ymagwedd 'Un Cyngor' tuag at ddarparu gwasanaethau, rydym wedi ceisio cynnal cysylltiadau agos rhwng y Cynllun hwn a **Chynllun y Cyngor 2017-2022**, sydd yn llywio'r broses gwneud penderfyniadau ar bob lefel yn y Cyngor.


Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg / This document is also available in English.

DRAFT

## Ein Staff

### Gwybodaeth am gyflogaeth a gwahaniaeth rhwng cyflogau

Mae’r Cyngor yn ymrwymedig i’r egwyddor o gyfle cyfartal a thrin pob aelod o staff yn gyfartal. Mae ganddo bolisi clir o dalu tâl cyfartal i weithwyr am yr un gwaith, neu waith cyfatebol, ac mae’n arfarnu swyddi a graddfeydd cyflog yn ôl yr angen er mwyn sicrhau strwythur teg.

Mae’r Cyngor yn ymdrechu’n barhaus i gasglu gwybodaeth gywir am y gwahanol nodweddion gwarchodedig. Er bod hawl unigolion i beidio â datgelu gwybodaeth bersonol yn cael ei dderbyn, mae angen darlun mwy cyflawn i’n helpu i nodi unrhyw anghyfartaledd rhwng pobl sydd â gwahanol nodweddion. Yn 2018, cyflwynodd yr Awdurdod nifer o newidiadau yn y ffordd y mae’n casglu data, mewn ymgais i gael mwy o ddata am staff presennol a gychwynnodd eu swyddi cyn i’r system hunanwasanaeth gael ei chyflwyno.

Byddwn yn parhau i roi sylw i hyn trwy’r gweithredoedd yr ydym wedi eu nodi dan amcan cydraddoldeb 2 – Byddwn yn cymryd camau i sicrhau ein bod yn gyflogwr teg ac yn lleihau’r bwlch cyflog (tudalen 19).

Mae’r wybodaeth gyflogaeth sydd ar gael i’r Cyngor ar hyn o bryd, gan gynnwys adroddiad Bwlch Cyflog Rhwng y Rhywiau 2019, yn cael ei amlinellu yn ein Hadroddiad Cydraddoldeb Blynyddol am 2018/19.

### Hyrwyddo gwybodaeth a dealltwriaeth ymysg ein gweithlu

Mae’r Cyngor wedi ymrwymo i ddarparu cyfleoedd i staff ddysgu a datblygu er mwyn eu galluogi i berfformio i’w llawn botensial. Rydym hefyd yn cydnabod pwysigrwydd bod pobl ar draws y Cyngor yn gwybod am y dyletswyddau cydraddoldeb cyffredinol a phenodol. Rydym wedi mynd i’r afael â hyn trwy ein maes blaenoriaeth ‘mae rhaglen hyfforddiant staff yn ei lle i sicrhau bod gan y staff iawn y sgiliau iawn i ddarparu gwelliannau cydraddoldeb’ (Blaenoriaeth 8.1 – tudalen 38).

DRAFT

## Gwybodaeth Berthnasol am Gydraddoldeb

Mae’r Cyngor yn cyhoeddi gwybodaeth berthnasol am gydraddoldeb o fewn ystod eang o gynlluniau a strategaethau corfforaethol a gwasanaeth, sydd ar gael ar ein gwefan. Mae copïau papur neu gopïau mewn fformatau eraill ar gael hefyd ar gais – defnyddiwch y manylion cysylltu ar dudalen 2 i gysylltu â ni.

Gellir gweld gwybodaeth cydraddoldeb perthnasol o dan pob amcan cydraddoldeb yn y Cynllun hwn, yn ogystal â’r data rhanbarthol ac adroddiad tystiolaeth – Cydraddoldeb yng Ngogledd Cymru (gweler yr adran ar ymgysylltu, ymgynghori a chasglu tystiolaeth ar y dudalen nesaf am ragor o fanylion).

Mae’n rhaid i gasglu gwybodaeth berthnasol fod yn broses barhaus. Byddwn yn parhau i wneud hyn trwy ymgysylltu lle bynnag y bydd yn bosibl er mwyn cael gwell dealltwriaeth o faint, natur a chymhlethdod yr holl grwpiau gwarchodedig yn Ynys Môn.

Rhoddir gwybodaeth allweddol am boblogaeth Ynys Môn isod.

- Yn ôl yr amcangyfrifon ar 30 Mehefin 2018, roedd poblogaeth Ynys Môn yn 69,961.

- Yn y pum mlynedd diwethaf, gwelwyd gostyngiad o 0.3% (180 o bobl) ym mhoblogaeth Ynys Môn.

Ar 30 Mehefin 2018:

- Roedd 49.2% yn wrywaidd a 50.8% yn fenywaidd.

- Roedd 25.7% dros 65, o gymharu â 20.8% ar draws Cymru.

- Roedd 17.2% yn blant 0-15 oed, o gymharu â 17.9% ar draws Cymru.

Yn ôl Cyfrifiad 2011:

- Roedd 98.2% yn wyn o gymharu â 95.6% ar draws Cymru

- Roedd 0.7% yn perthyn i grŵp ethnig cymysg/aml-ethnig, o gymharu â 1.0% ar draws Cymru

- Roedd 0.7% yn Asiaidd/Asiaidd Prydeinig, o gymharu â 2.3% ar draws Cymru

- Roedd 0.1% yn Ddu/Affricanaidd/Caribïaidd/Du Prydeinig, o gymharu â 0.6% ar draws Cymru

- Roedd 0.3% o grŵp ethnig arall, o gymharu â 0.5% ar draws Cymru

- Roedd 57.2% o bobl yn gallu siarad Cymraeg, o gymharu â 19.0% ar draws Cymru.

*Ffynhonnell: Y Swyddfa Ystadegol Gwladol* (Infobase Cymru).



DRAFT

## Ymgysylltu, ymgynghori a chasglu tystiolaeth

Er mwyn datblygu'r Cynllun hwn a dewis amcanion cydraddoldeb a blaenoriaethau newydd, mae'r Cyngor wedi rhoi sylw dyledus i wybodaeth berthnasol a gasglwyd o nifer o wahanol ffynonellau, gan gynnwys:

- Digwyddiad ymgysylltu rhanbarthol a gynhaliwyd ar 28 Mai 2018 gan Rhwydwaith Cydraddoldeb Sector Cyhoeddus Gogledd Cymru (y Rhwydwaith*)

- Gweithdy swyddogion y Rhwydwaith a gynhaliwyd ar 7 Mehefin 2019 i adolygu'r amcanion cydraddoldeb rhanbarthol – gweler 'cydweithio' ar dudalen 13 am fwy o fanylion

*Grŵp o swyddogion cydraddoldeb yw'r Rhwydwaith, o'r chwe Awdurdod Lleol yng Ngogledd Cymru, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru, Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru, Awdurdod y Parc Cenedlaethol, Heddlu Gogledd Cymru a Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd. Mae'r grŵp wedi bod yn cydweithio ers 2010 pan ddaeth y Ddeddf Cyfraddoldeb i rym.

- Ymgysylltu lleol yn ystod cyfarfod o'r Rhwydwaith Llesiant a gynhaliwyd gan Medrwn Môn ar 25 Medi 2019

- Dadansoddiad o ddata lleol a rhanbarthol, gan gynnwys *A yw Cymru'n Decach? 2018* ac adroddiad data a thystiolaeth ranbarthol - *Cydraddoldeb yng Ngogledd Cymru*.

Comisiynwyd yr adroddiad *Cydraddoldeb yng Ngogledd Cymru* gan rwydwaith Swyddogion Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gogledd Cymru er mwyn cael dealltwriaeth fwy trylwyr o ddata cydraddoldeb ar lefel leol. Mae'n ychwanegu at y data a'r canfyddiadau yn "A yw Cymru'n Decach?" ac yn canolbwyntio ar wybodaeth fwy manwl sydd ar gael ar lefel Gogledd Cymru ac ar lefel mwy lleol, os yw ar gael.

Fe rannwyd ein hamcanion drafft gydag aelodau Rhwydwaith Llesiant Ynys Môn, ynghyd â rhanddeiliad eraill, am sylwadau. I'r dyfodol, y gobaith yw adeiladu ar y model ymgysylltu hwn er mwyn cael gwell dealltwriaeth o anghenion lleol.


Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg / This document is also available in English.

## Hyrwyddo cydraddoldeb

Mae'r paragraffau a ganlyn yn rhoi rhai enghreifftiau o faterion a godwyd yn ystod ein gweithgareddau ymgysylltu lleol yn ddiweddar a'r hyn yr oeddem eisoes yn ei wneud i hyrwyddo cydraddoldeb yn y meysydd hyn:

Amlygwyd pwysigrwydd **cludiant hygyrch** i'r rhai sydd â nam corfforol neu nam ar y synhwyrau yn ystod yr ymgysylltu rhanbarthol a lleol. Mae'r Cyngor, ei bartneriaid a grwpiau cymunedol yn cynnig gwasanaethau cludiant gyda chymorth ar draws Ynys Môn. Mae enghreifftiau'n cynnwys:

- Cludiant Cymunedol Môn – maent yn darparu cludiant ar gyfer pobl anabl na allant ddefnyddio cludiant cyhoeddus
- Y Groes Goch Brydeinig – maent yn darparu cludiant a gwasanaeth i gynorthwyo pobl na allant ddefnyddio cludiant cyhoeddus confensiynol
- Medrwn Môn – maent yn gweithredu Car Linc Môn, cynllun cludiant cymdeithasol gwirfoddol ar gyfer teithiau hanfodol
- Cynlluniau Tro Da – cynlluniau cludiant cymunedol lleol sy'n cael eu rhedeg gan wirfoddolwyr sydd yn defnyddio eu ceir eu hunain i gludo pobl nad oes ganddynt gludiant arall ar deithiau byr a chanolig

Mae 'Cyfeiriadur Cludiant Cymunedol Môn' defnyddiol ar gael ar wefan Medrwn Môn yn https://cy.medrwnmon.org/cyfeiriadur-cludiant-cymunedol

Cafodd yr angen i greu **cyfleoedd gwaith** i bobl sydd ag anawsterau dysgu – a phwysigrwydd canolbwyntio ar sgiliau yn hytrach nag anawsterau'r unigolyn – ei grybwyll yn ystod yr ymgysylltu lleol. Sefydlwyd grŵp prosiect mewnol yn y Cyngor i nodi cyfleoedd addas ac i geisio paru'r cyfleoedd hyn gydag unigolion sydd wedi mynegi diddordeb mewn gwaith gwirfoddol.

Mae'r Cyngor hefyd yn cymryd rhan mewn prosiect ar gyfer pobl ifanc â namau dysgu i'w paratoi ar gyfer gwaith drwy roi ystod o sgiliau trosglwyddadwy iddynt a darparu cyfleoedd profiad gwaith. Mae'r Prosiect SEARCH yn raglen genedlaethol a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr oedd y darparwr GIG cyntaf yng Nghymru i gynnal y prosiect, gyda lleoliadau yn Ysbyty Gwynedd, Bangor. Y nod cyffredinol yw sicrhau swyddi gyda thâl i'r rhai sy'n cwblhau'r prosiect ac mae nifer ohonynt wedi bod yn llwyddiannus.



DRAFT

Yn lleol tynnwyd ein sylw at bwysigrwydd dod â chymunedau ynghyd er mwyn mynd i'r afael ag unigrwydd ac arwahanrwydd a sicrhau bod pobl yn gwybod am yr help sydd ar gael iddynt. Mae sicrhau bod **hybiau cymunedol** ar gael ar draws yr ynys i gynorthwyo oedolion hŷn i aros yn annibynnol, lleihau arwahanrwydd, aros yn actif a gwella llesiant personol yn flaenoriaeth yng **Nghynllun y Cyngor 2017-2022**. Mae'r Cyngor yn gweithio mewn partneriaeth gyda Medrwn Môn i hwyluso Cynllunio Lle o fewn cymunedau Ynys Môn. Y nod yw galluogi cymunedau i gymryd mwy o gyfrifoldeb a pherchnogaeth o'u hardaloedd eu hunain. Mae cynnydd yn erbyn blaenoriaethau Cynllun y Cyngor wedi'i gynnwys yn ein Hadroddiadau Perfformiad Blynyddol (gweler tudalen 7).

Cafodd yr angen **i ddarparu cefnogaeth addas i ofalwyr** a sicrhau eu bod yn ymwybodol o'r help sydd ar gael iddynt – ei godi ar draws themâu y rhoddwyd sylw iddynt yn ystod gweithgareddau ymgysylltu lleol a rhanbarthol mwy diweddar. Yng Nghyfrifiad 2011 dywedodd ychydig dros 8,000 (12%) o drigolion Ynys Môn eu bod yn darparu gofal yn ddi-dâl bob wythnos.

Mae Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru yn cydnabod bod angen cefnogi gofalwyr yn y rôl hanfodol hon. Mae hyn wedi arwain at sefydlu Grŵp Strategol Gofalwyr Gogledd Cymru sydd wedi datblygu Strategaeth Gofalwyr Gogledd Cymru. Mae'r strategaeth yn cydnabod pwysigrwydd gweithio mewn partneriaeth gyda gofalwyr drwy gydol eu cyswllt gyda gwasanaethau. Yn lleol, sefydlwyd is-grŵp ar gyfer Ynys Môn a Gwynedd i ddatblygu cynllun gweithredu i symud y strategaeth ymlaen.

DRAFT


Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg / This document is also available in English.

## Asesu effaith

Mae’r Cyngor yn cydnabod y gofyniad statudol i gynnal asesiadau effaith ar gydraddoldeb a bod cynnal asesiadau cadarn yn ffordd effeithiol o sicrhau bod unrhyw feysydd posib o anghydraddoldeb yn cael eu nodi ac yn cael sylw prydlon.

Cafodd sicrhau ymagwedd gyson ar draws yr awdurdod o ran cwblhau asesiadau effaith (EIA) effeithiol ei nodi fel blaenoriaeth yn ôl yn 2011/12. Drwy gydol yr amser hwn, rydym wedi bod yn datblygu ein trefniadau’n barhaus, gyda’r nod o brif ffrydio’r broses hon i’r gwaith dydd i ddydd a wneir gan y Cyngor. Fodd bynnag, mae lle i wella o hyd o ran sicrhau cysondeb ar draws y Cyngor. Mae blaenoriaeth 8.2 ar dudalen 40 yn nodi’r hyn yr ydym yn bwriadu ei wneud i ddatblygu ein prosesau corfforaethol ymhellach.

## Cydweithio

Mae swyddogion Cydraddoldeb yn y chwe Awdurdod Lleol yng Ngogledd Cymru, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru, Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru, Awdurdod y Parc Cenedlaethol, Heddlu Gogledd Cymru a Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd wedi bod yn rhannu arfer dda ers nifer o flynyddoedd. Yn ystod 2011/12, datblygodd Rhwydwaith Cydraddoldeb Sector Cyhoeddus Gogledd Cymru set o amcanion ar y cyd a gytunwyd gan yr holl bartneriaid. Adolygwyd yr amcanion i gyd-fynd â pharatoi Cynlluniau Cydraddoldeb Strategol ar gyfer 2016-20 a chynhaliwyd adolygiad pellach yn ddiweddar fel sail i’n Cynlluniau ar gyfer 2020-2024.

O ganlyniad i’r adolygiad diweddar, daeth Rhwydwaith Cydraddoldeb Sector Cyhoeddus Gogledd Cymru i’r casgliad bod nifer o’r rhwystrau y mae pobl â nodweddion gwarchodedig yn eu hwynebu yn rhai sy’n bodoli ers tro byd ac wedi hen sefydlu ac fe gymer gryn amser i roi sylw llawn iddynt. Felly, yn fras, mae ein hamcanion newydd yn dilyn yr un themâu ag a ddewiswyd ar gyfer 2016-2020.

Er mwyn sicrhau cysylltiad clir rhwng ein hamcanion rhanbarthol newydd a’r heriau a nodir yn adroddiad y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, ‘A yw Cymru’n Decach?’ 2018, mae geiriad amcanion Rhwydwaith Cydraddoldeb Sector Cyhoeddus Gogledd Cymru ar gyfer 2020-2024 yn seiliedig ar y chwech thema bywyd a nodwyd yn adroddiad y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, sef:

- Addysg
- Gwaith
- Safonau Byw
- Iechyd
- Diogelwch personol a mynediad at gyfiawnder
- Cyfranogiad

Dewiswyd amcan rhanbarthol ychwanegol i fynd i’r afael â chynnig Llywodraeth Cymru i weithredu’r ddyletswydd gymdeithasol-economaidd maes o law.

## Ein hamcanion cydraddoldeb ar gyfer 2020-2024

Yn yr un modd â'n dau Gynllun cyntaf, rydym wedi dewis mabwysiadu'r amcanion rhanbarthol yn ogystal ag un amcan lleol ychwanegol i 'wella gweithdrefnau'r Cyngor i sicrhau tegwch i bawb'. Nodir isod ein hamcanion ar gyfer y pedair blynedd nesaf:

| | |
|---|---|
| Amcan 1: | Bydd canlyniadau o ran cyrhaeddiad **addysgol** a llesiant mewn ysgolion yn gwella |
| Amcan 2: | Byddwn yn cymryd camau i sicrhau ein bod yn **gyflogwr teg** ac yn lleihau unrhyw **fwlch mewn cyflogau** |
| Amcan 3: | Byddwn yn cymryd camau i wella **safonau byw** pobl sydd a gwahanol nodweddion gwarchodedig |
| Amcan 4: | Byddwn yn gwella canlyniadau **iechyd, llesiant a gofal cymdeithasol** |
| Amcan 5: | Byddwn yn gwella **diogelwch personol a mynediad at gyfiawnder** |
| Amcan 6: | Byddwn yn cynyddu mynediad at **gyfranogiad** er mwyn gwella amrywiaeth ein **penderfyniadau** |
| Amcan 7: | Byddwn yn datblygu ein gwybodaeth a'n dealltwriaeth o'r **ddyletswydd gymdeithasol-economaidd** (pan fydd canllawiau ar gael) i nodi'r prif feysydd effaith i roi sylw iddynt o dan bob un o'n hamcanion. |
| Amcan 8: | Byddwn yn gwella **gweithdrefnau'r Cyngor** i sicrhau tegwch i bawb |

Mae'r tudalennau a ganlyn yn esbonio pa flaenoriaethau rydym wedi'u dewis, pam y'u dewiswyd a sut yr ydym yn bwriadu gweithio tuag at eu cyflawni.

Mae'n bwysig nodi, fodd bynnag, nad yw ein hymrwymiad i gydraddoldeb wedi'i gyfyngu i'r blaenoriaethau sydd yn y Cynllun hwn. Byddwn yn manteisio ar bob cyfle i symud cydraddoldeb ymlaen trwy ein gwaith ar bob lefel yn y Cyngor er mwyn ein cynorthwyo i adeiladu cymdeithas decach i'n holl ddinasyddion.


Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg / This document is also available in English.


DRAFT

## **Amcan 1:** Mae canlyniadau o ran **cyrhaeddiad Addysgol a llesiant mewn ysgolion** yn gwella

### **Blaenoriaeth 1.1**: Byddwn yn lleihau'r **bwlch sydd rhwng y gwahanol grwpiau o ran cyrhaeddiad addysgol**

**Pam rydym ni wedi dewis hyn fel blaenoriaeth?**

Yn ôl *A yw Cymru'n Decach? 2018* , mae bylchau cyrhaeddiad, ar lefel TGAU, yn parhau mewn perthynas â disgyblion sy'n derbyn prydau ysgol am ddim a phlant sydd ag anghenion dysgu ychwanegol.

Mae data ar gyrhaeddiad plant oedran gadael ysgol yng Ngogledd Cymru (*Cydraddoldeb yng Ngogledd Cymru*: adroddiad data a thystiolaeth) yn nodi:

- Yn ôl rhyw, cyflawnodd 58.5% o ferched yng Ngogledd Cymru y Trothwy Cynhwysol Lefel 2[1] o gymharu â 45.9% o fechgyn. Mae canlyniadau ar gyfer 2017/18 yn dangos mai Ynys Môn oedd â'r bwlch mwyaf rhwng y rhywiau yng Ngogledd Cymru, sef 19.2%.

- Yn ôl grŵp economaidd-gymdeithasol, cyflawnodd 57.9% o ddisgyblion Gogledd Cymru nad oeddent yn hawlio Prydau Ysgol Am Ddim (FSM) y Trothwy o gymharu â 27.8% o'r rhai a oedd yn derbyn prydau ysgol am ddim. Ar 23.8%, Ynys Môn oedd â'r bwlch isaf yng Ngogledd Cymru ond mae dael angen ei wella.

Dylid nodi y bydd mesur newydd yn cymryd lle'r Trothwy Cynhwysol Lefel 2 o'r flwyddyn nesaf ymlaen, sef Sgôr 9 wedi'i gapio.

| Sut rydym ni'n bwriadu gwneud hyn? | Erbyn pryd? |
|---|---|
| Cynnal perfformiad disgyblion sydd â gofynion dysgu ychwanegol ar lefel TGAU fel nad oes unrhyw fwlch sylweddol mewn cyrhaeddiad addysgol. | Parhaus |
| Lleihau'r bwlch cyrhaeddiad addysgol rhwng bechgyn a merched sy'n cyflawni Sgôr 9 wedi'i gapio ar adeg gadael ysgol, lle mae'n fwy na 10% a pharhau i fynd i'r afael â'r mater hwn ar draws pob ysgol. | Parhaus |
| Gweithredu cynlluniau i leihau'r gwahaniaeth ym mherfformiad disgyblion sy'n derbyn prydau ysgol am ddim a'r rhai nad ydynt. | Parhaus trwy ddefnyddio cyllid Grant Datblygu Disgyblion yn effeithiol ar lefel ysgol unigol. |

**Pa nodweddion gwarchodedig mae hyn yn effeithio arnynt?** Oed (gan gynnwys plant a phobl ifanc o gefndiroedd difreintiedig), Anabledd, Rhyw.

[1] Mae Trothwy Cynhwysol Lefel 2 yn golygu 5 TGAU graddfa A* - C yn cynnwys Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf a Mathemateg neu gymwyster cyfatebol.



Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg / This document is also available in English.



DRAFT

**Sut dylai llwyddiant edrych?**

Camau wedi’u cymryd i fynd i'r afael â'r bylchau mewn cyrhaeddiad addysgol rhwng gwahanol grwpiau gwarchodedig, gan gynnwys bylchau sy'n codi oherwydd anfantais economaidd-gymdeithasol.

**Gwasanaeth Arweiniol:** Dysgu (gyda chefnogaeth gan y Gwasanaethau Cymdeithasol

DRAFFT


Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg / This document is also available in English.

## **Amcan 1:** Mae canlyniadau o ran **cyrhaeddiad Addysgol a llesiant mewn ysgolion yn** gwella

### **Blaenoriaeth 1.2**: Byddwn yn lleihau **bwlio yn seiliedig ar hunaniaeth mewn addysg**

**Pam rydym ni wedi dewis hyn fel blaenoriaeth?**

Yn ôl *A yw Cymru'n Decach? 2018*, mae'r rheini sydd ag anghenion arbennig neu anabledd, disgyblion lesbiaidd, hoyw, deurywiol a thrawsrywiol (LHDT) a'r rheini o leiafrif ethnig neu gefndir crefyddol mewn perygl penodol o gael eu bwlio; mae seiberfwlio hefyd ar gynnydd.

Roedd bwlio ar sail hunaniaeth yn nodwedd amlwg iawn yn ystod ymgysylltiad ar lefel ranbarthol a lleol ac mae hyn wedi bod yn wir ers ein Cynllun cyntaf yn 2012. Yn rhanbarthol, pryder a godwyd yn gyffredinol oedd nad oedd ysgolion efallai'n ymwybodol o dueddiadau diweddar ac efallai nad oes ganddynt yr adnoddau i nodi a mynd i'r afael â phroblemau. Yn lleol, dywedwyd wrthym fod bwlio ar-lein yn broblem benodol a bod bwlio hefyd yn digwydd i blant ifanc iawn, ond nid yw bob amser yn cael ei gydnabod felly.

Yn ein Cynlluniau blaenorol, dywedasom y byddem yn datblygu gweithgareddau gwrth-fwlio yn seiliedig ar ganllaw gwrth-fwlio Llywodraeth Cymru yn 2011, *Parchu Eraill* , ac adroddiad 2014 Estyn, *Gweithredu ar Fwlio.* Fodd bynnag, mae'n amlwg bod y broblem yn bell o fod wedi'i datrys. Yn ddiweddar, cafodd canllawiau Llywodraeth Cymru i herio bwlio mewn ysgolion, *Parchu Eraill,* eu diwygio ac mae'r canllawiau newydd – *Hawliau, Parch, Cydraddoldeb* – ar gael ers 6 Tachwedd 2019.

| Sut rydym ni'n bwriadu gwneud hyn? | Erbyn pryd |
|---|---|
| Cynorthwyo ysgolion i weithredu argymhellion canllawiau Llywodraeth Cymru, *Hawliau, Parch, Cydraddoldeb.* | Parhaus |
| Cylchredeg gwybodaeth i ysgolion yn ystod Wythnos Ymwybyddiaeth Troseddau Casineb Cymru Gyfan a gynhelir yn flynyddol. | Bob blwyddyn – mis Hydref |

**Pa nodweddion gwarchodedig mae hyn yn effeithio arnynt?** Pob nodwedd.

**Sut dylai llwyddiant edrych?**

Mae'r Cyngor wedi cael sicrwydd bod ysgolion yn gallu dangos eu bod yn cymryd camau i herio bwlio a throseddau casineb, mynd i'r afael ag ymddygiad annerbyniol a gwella llesiant.

**Gwasanaeth Arweiniol:** Dysgu (gyda chefnogaeth gan y Gwasanaethau Cymdeithasol)

## **Amcan 2:** Byddwn yn cymryd camau i sicrhau ein bod yn **gyflogwr teg a'n bod yn lleihau bylchau o ran cyflogau**

### **Blaenoriaeth 2.1**: Byddwn yn nodi a mynd i'r afael ag anghydraddoldebau o ran **prosesau recriwtio, cadw staff, hyfforddiant a dyrchafiadau.**

**Pam rydym ni wedi dewis hyn fel blaenoriaeth?**

Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i sicrhau nad oes unrhyw ymgeisydd am swydd na gweithwyr a gyflogir yn derbyn triniaeth llai ffafriol ar sail unrhyw nodwedd a ddiogelir na'u bod dan anfantais ychwaith oherwydd amodau neu ofynion nad oes modd eu cyfiawnhau. Rydym yn cydnabod fod glynu wrth ein polisïau a'n harferion cyflogaeth yn gwneud y defnydd gorau o unigolion er budd gorau'r sefydliad a gweithwyr.

Un enghraifft yw ein polisi ynghylch yr hawl i wneud cais i weithio'n hyblyg. Cafodd hyn ei nodi fel blaenoriaeth o'r cychwyn cyntaf yn ein Cynlluniau blaenorol ac atgyfnerthwyd ei bwysigrwydd yn ystod ein sesiwn ymgysylltu leol yn ddiweddar, pan ddywedwyd wrthym fod trefniadau gweithio hyblyg yn hanfodol i chwalu'r hyn sy'n rhwystro pobl rhag cael gwaith.

| **Sut rydym ni'n bwriadu gwneud hyn?** | **Erbyn pryd?** |
|---|---|
| Ymdrechu'n barhaus i ddatblygu strategaethau pellach i gynorthwyo staff i weithio'n hyblyg a pholisïau eraill sy'n gyfeillgar i deuluoedd. | Parhaus |

**Pa nodweddion gwarchodedig mae hyn yn effeithio arnynt?** Pob nodwedd.

**Sut dylai llwyddiant edrych?**

Mae patrymau gwaith gweithwyr, ble bynnag y mae hynny'n bosibl, yn cael eu haddasu i'w cynorthwyo i gyfuno gwaith a blaenoriaethau eraill tra'n rhoi i'r Cyngor yr hyblygrwydd i ddarparu gwasanaeth sy'n fwy integredig ac ymatebol.

**Gwasanaeth Arweiniol:** Trawsnewid Corfforaethol – Adnoddau Dynol.

## **Amcan 2:** Byddwn yn cymryd camau i sicrhau ein bod yn **gyflogwr teg a'n bod yn lleihau bylchau o ran cyflogau**

### **Blaenoriaeth 2.2**: Byddwn yn nodi a mynd i'r afael ag unrhyw **fylchau cyflog rhwng pobl â nodweddion gwarchodedig gwahanol**

**Pam rydym ni wedi dewis hyn fel blaenoriaeth?**

Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i'r egwyddor o gyfleoedd cyfartal a thriniaeth gyfartal i'r holl weithwyr. Mae ganddo bolisi clir o dalu'r un cyflog i weithwyr am yr un gwaith neu waith cyfatebol ac mae'n gwerthuso rolau swyddi a graddfeydd cyflog fel sy'n angenrheidiol er mwyn sicrhau strwythur teg.

O ran y bwlch cyflog **rhwng y rhywiau** , roedd bwlch cyflog rhyw cymedrig y Cyngor o 10.2% yn 2018 yn welliant o gymharu â 2017 (12.7%) ac roedd yn is na chyfartaledd y DU ar gyfer yr economi gyfan, sef 17.1% (SYG 2018). Mae'r Cyngor yn parhau i fod yn ymrwymedig i leihau'r bwlch hwn a bydd yn parhau i adrodd yn flynyddol ar yr hyn y mae'n ei wneud i leihau'r bwlch cyflog rhwng y rhywiau ac unrhyw gynnydd pellach.

Mae'r Cyngor yn ymdrechu'n gyson i gasglu gwybodaeth gywir sy'n ymwneud â **gwahanol nodweddion gwarchodedig**. Tra'n derbyn hawliau unigolion i beidio â datgelu gwybodaeth bersonol, mae angen darlun llawnach i'n helpu i nodi unrhyw anghydraddoldebau rhwng pobl â nodweddion gwahanol. Rydym eisoes wedi nodi ar dudalen 8 ein bod eisoes wedi cyflwyno newidiadau i fynd i'r afael â'r mater hwn. Byddwn yn parhau i weithio tuag at gael gwybodaeth fwy cyflawn er mwyn gwella ein dealltwriaeth o'n staff ar sail y dystiolaeth a gasglwyd.

| **Sut rydym ni'n bwriadu gwneud hyn?** | **Erbyn pryd?** |
|---|---|
| Parhau i annog mwy o staff i ddarparu gwybodaeth bersonol fel y gall yr Awdurdod gael darlun mwy cyflawn o'r nifer o weithwyr y Cyngor fesul nodwedd a ddiogelir. | Parhaus. |
| Dadansoddi'r data gweithlu blwyddyn ar ôl blwyddyn a darparu adroddiadau blynyddol yn cynnwys y wybodaeth a ddadansoddwyd. | Rhaid i adroddiadau ar fylchau cyflog rhwng y rhywiau a gwybodaeth ynghylch cyflogaeth gael eu cyhoeddi erbyn 31 Mawrth bob blwyddyn (gan adrodd ar ddata fel yr oedd ar 31 Mawrth y flwyddyn flaenorol). |

**Pa nodweddion gwarchodedig mae hyn yn effeithio arnynt?** Pob nodwedd.


Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg / This document is also available in English.

**Sut dylai llwyddiant edrych?**

Mae'r Cyngor fel mater o drefn yn casglu ac yn defnyddio data monitro gweithwyr o ran yr holl grwpiau gwarchodedig er mwyn nodi a lleihau bylchau rhwng cyflogau ac unrhyw anghydraddoldebau eraill.

**Gwasanaeth Arweiniol:** Trawsnewid Corfforaethol – Adnoddau Dynol.

DRAFFT

**Amcan 3:** Byddwn yn gweithredu i wella **safonau byw** pobl â nodweddion gwarchodedig gwahanol

## **Blaenoriaeth 3.1**: Byddwn yn gwella **mynediad ffisegol at wasanaethau, trafnidiaeth, yr amgylchedd adeiledig a mannau agored**

### Pam rydym ni wedi dewis hyn fel blaenoriaeth?

Nodwyd gwella mynediad ffisegol fel blaenoriaeth yn ôl yn 2011/12, pan wnaethom ddatblygu ein Cynllun cyntaf. Mae pwysigrwydd **trafnidiaeth gyhoeddus hygyrch** yn benodol wedi bod yn nodwedd amlwg mewn gweithgareddau ymgysylltu o'r cychwyn cyntaf a phwysleisiwyd yr angen am welliannau eto yn ystod ein gweithgareddau ymgysylltu rhanbarthol a lleol diweddaraf. Roedd yr angen am **gyrbinau isel** hefyd wedi'i nodi fel blaenoriaeth yn y gorffennol ac fe'i codwyd eto yn ein digwyddiad ymgysylltu lleol.

Er ein bod wedi gwneud gwelliannau yn y meysydd a nodwyd uchod, mae mwy i'w wneud o hyd. Roedd 187 o gyrbinau isel a hygyrch ar gael yn Medi 2015, o'i gymharu â 169 ar adeg datblygu ein Cynllun cyntaf yn 2011/12. Fodd bynnag, ychydig iawn o newidiadau a gynlluniwyd a wnaed i arosfannau bysus ers 2015 a hynny oherwydd cyfyngiadau ariannol a phrinder grantiau.

Yn ogystal â gwneud popeth o fewn ein gallu i wneud gwelliannau pellach, mae angen i ni hefyd sicrhau bod cyn lleied o rwystrau â phosibl. Nid yw gyrwyr sy'n defnyddio'r palmant i barcio neu sy'n parcio yn ymyl mannau croesi yn sylweddoli'r effaith y gall y ffaith bod eu cerbyd yn rhwystro'r llwybr troed ei chael. Yn aml nid oes digon o le i gerddwyr fynd heibio ac fe'u gorfodir i gerdded allan i'r ffordd. Mae hyn yn rhoi pobl ddall a rhannol ddall yn enwedig mewn mwy o berygl oherwydd traffig.

| Sut rydym ni'n bwriadu gwneud hyn? | Erbyn pryd? |
|---|---|
| Parhau, lle mae hynny'n bosibl, i wella arosfannau bysus ar yr ynys i'w gwneud yn hygyrch. | Parhaus - bydd gwaith yn cael ei wneud fel rhan o gynlluniau adnewyddu troedffyrdd a wneir gan y Gwasanaeth Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo a thrwy ddefnyddio unrhyw arian grant newydd a dderbynnir. |
| Parhau i ddarparu cyrbinau isel a chyfleusterau croesi cyffyrddol addas fel rhan o gynlluniau gwella troedffyrdd. | |
| Ymateb fel y bo'n briodol i gwynion a dderbynnir gan aelodau o'r cyhoedd trwy ddefnyddio ein pwerau o dan ddeddfwriaeth rheoli traffig i gadw palmentydd a chroesfannau yn glir rhag rhwystrau a achosir gan geir wedi'u parcio. | Mewn ymateb i unrhyw gwynion penodol a dderbynnir. |

DRAFT

**Pa nodweddion gwarchodedig y mae hyn effeithio arnynt?**

Oed; Anabledd; Beichiogrwydd a Mamolaeth.

Mae cyrbinau isel ac arosfannau bysus hygyrch nid yn unig yn hanfodol i ddefnyddwyr cadeiriau olwyn a sgwteri symudedd, ond hefyd yn ddefnyddiol ar gyfer croestoriad eang o bobl, o rieni â phramiau i bobl hŷn a thwristiaid â bagiau trwm.

**Sut dylai llwyddiant edrych?**

Mae nifer yr arosfannau bysus hygyrch, cyrbinau isel addas a chyfleusterau croesi cyffyrddol ar yr ynys yn cynyddu.

Mae cwynion a dderbynnir ynghylch cerbydau sydd wedi'u parcio ar balmentydd neu ger mannau croesi yn cael sylw ac yn cael eu datrys, lle bynnag y mae hynny'n bosibl.

**Gwasanaeth Arweiniol:** Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo – Traffic a Pharcio.

DRAFT

## **Amcan 3:** Byddwn yn gweithredu i wella **safonau byw** pobl â nodweddion gwarchodedig gwahanol

### **Blaenoriaeth 3.2:** Byddwn yn parhau i weithio tuag at sicrhau **cartrefi mwy addas a fforddiadwy** yn y llefydd iawn i gwrdd ag anghenion lleol

**Pam rydym ni wedi dewis hyn fel blaenoriaeth?**

Yn ôl *A yw Cymru'n Decach? 2018* , mae pobl anabl yng Nghymru yn wynebu prinder cartrefi hygyrch y mae modd eu haddasu ac oedi hir wrth wneud cartrefi presennol yn hygyrch.

Y Cyngor yw'r landlord cymdeithasol mwyaf yn Ynys Môn. Ar ddiwedd mis Ionawr 2019, roedd 4,733 uned o dai cymdeithasol yn Ynys Môn, ac o'r rheiny, roedd 3,819 yn eiddo i'r Cyngor ac yn cael eu rheoli ganddo. Dros oes y Cynllun Busnes, bwriedir i'r stoc gynyddu i dros 5,000 o unedau.

Mae Strategaeth Dai'r Cyngor yn nodi amcanion y Cyngor sy'n ymwneud â phob tŷ ar yr ynys, er mwyn sicrhau bod anghenion tai a nodwyd yn cael eu diwallu yn y ffordd orau ac er mwyn sicrhau safonau tai uchel i'r holl ddinasyddion. Mae Cynllun Busnes y Cyfrif Refeniw Tai (CRT) yn ffordd bwysig o gyflawni'r amcanion cyffredinol hyn ac mae'n cynnwys addasu cartrefi i wella annibyniaeth ac ansawdd bywyd pobl.

| Sut rydym ni'n bwriadu gwneud hyn? | Erbyn pryd? |
|---|---|
| Parhau i asesu eiddo presennol y Cyngor ac eiddo landlordiaid cymdeithasol cofrestredig er mwyn sicrhau eu bod yn hygyrch i bobl anabl. | Yn mynd rhagddo - datblygiad parhaus. |
| Parhau i fuddsoddi mewn mân waith addasu a gwaith addasu mawr ar gyfer eiddo cyngor - tai cymdeithasol - trwy'r Cyfrif Refeniw Tai (CRT) | Yn unol â Chynllun Busnes y CRT a chyllideb flynyddol y CRT. |
| Parhau i fonitro lefelau perfformiad o ran y nifer o ddiwrnodau a gymerir i gwblhau Ceisiadau Grant Cyfleusterau i'r Anabl ar gyfer gwelliant parhaus. | Chwarterol |

**Pa nodweddion gwarchodedig mae hyn yn effeithio arnynt?** Pob nodwedd, ond Anabledd ac Oed yn benodol. Bydd y ddyletswydd gymdeithasol-economaidd hefyd yn berthnasol yma.

**Sut dylai llwyddiant edrych?**

Mwy o gartrefi o ansawdd uchel sy'n diwallu anghenion ein trigolion.

**Gwasanaeth Arweiniol**: Tai (gyda chefnogaeth gan y Gwasanaethau Cymdeithasol)

## **Amcan 4**: Byddwn yn gwella canlyniadau o ran **iechyd, llesiant a gofal cymdeithasol**

### **Blaenoriaeth 4.1:** Byddwn yn cynyddu'r nifer o bobl ym mhob sector o'r gymuned, yn enwedig pobl nad ydynt yn cael eu cynrychioli'n llawn, sy'n dewis **ffyrdd iach o fyw.**

**Pam rydym ni wedi dewis hyn fel blaenoriaeth?**

Nodwyd hyrwyddo ffyrdd iach o fyw fel blaenoriaeth o'r dechrau yn 2011/12. Trwy gydol yr amser hwn, mae cynlluniau wedi bod ar waith yn Ynys Môn i annog grwpiau penodol i ddod yn fwy actif. Amlinellwyd cyflawniadau dros yr wyth mlynedd diwethaf yn ein hadroddiadau cydraddoldeb blynyddol ond mae mwy i'w wneud o hyd. Byddwn yn parhau i annog ein cymunedau i ddod yn fwy egnïol fel rhan o ystod eang o fentrau cyfredol a newydd. Amlinellir dwy enghraifft o'n mentrau cyfredol isod:

Nod y Rhaglen **Datblygu Insport** , dan arweiniad Chwaraeon Anabledd Cymru, yw hwyluso a sicrhau newid diwylliannol o ran agwedd, dull gweithredu a darparu gweithgareddau corfforol (gan gynnwys chwaraeon) a chyfleoedd ehangach i bobl anabl. Mae Ynys Môn wedi cyflawni safon arian Insport ac mae'n gweithio tuag at y safon aur. Rôl awdurdod lleol ar y lefel aur yw sicrhau ei fod yn naturiol yn meddwl am bobl anabl wrth baratoi a chynllunio, cyflawni a gweithredu, ac adolygu a mireinio. Hyd yma, nid oes yr un awdurdod yng Nghymru wedi cyflawni'r safon aur. Trwy gydol ein taith tuag at y safon aur, mae'n hanfodol bod pawb yn gweithio gyda'i gilydd - hamdden, addysg, iechyd, gwasanaethau cymdeithasol, ein cymunedau ac elusennau lleol - i gynnig darpariaeth ac agwedd sy'n cyfleu bod unrhyw beth yn bosibl i drigolion (neu ymwelwyr) anabl yn Ynys Môn. Er mwyn i ni ddatblygu gwasanaethau, bydd arolwg yn cael ei ddefnyddio i ymgynghori â'n preswylwyr ar Ynys Môn. Trwy wneud hyn, byddwn yn gallu nodi lle mae angen cefnogaeth i gynnig mwy o gyfleoedd.

Mae'r **Cynllun Cyfeirio Ymarfer Corff Cenedlaethol** (NERS) yn gynllun a ariennir gan Iechyd Cyhoeddus Cymru ac mae wedi bod yn cael ei ddatblygu ers 2007. Mae'r Cynllun yn targedu cleientiaid 16 oed a hŷn sydd â chlefyd cronig, neu sydd mewn perygl o ddatblygu clefyd o'r fath. Byddwn yn parhau i gynnig Cynllun Cyfeirio Ynys Môn a byddwn yn gweithio tuag at gyflawni targedau cenedlaethol NERS.

Yn ein Hadroddiadau Cydraddoldeb Blynyddol, byddwn yn adrodd ar gynnydd yn erbyn y mentrau uchod yn ogystal ag unrhyw ddatblygiadau newydd eraill.

| **Sut rydym ni'n bwriadu gwneud hyn?** | **Erbyn pryd?** |
|---|---|
| Symud ymlaen i sicrhau Dyfarniad Aur Insport | Ebrill 2021 |
| Parhau i gynnig Cynllun Cyfeirio Ynys Môn, gan weithio tuag at y targedau NERS cenedlaethol isod: | Parhaus |


Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg / This document is also available in English.

DRAFT

| Sut rydym ni'n bwriadu gwneud hyn? | Erbyn pryd? |
|---|---|
| - Canran y cleientiaid NERS sy'n cwblhau'r rhaglen ymarfer corff (50% ac uwch)<br><br>- Canran y cleientiaid NERS y mae eu hiechyd wedi gwella ar ôl cwblhau'r rhaglen ymarfer corff (80% ac uwch) | |

**Pa nodweddion gwarchodedig y mae hyn effeithio arnynt?**

Oed; Anabledd.

**Sut dylai llwyddiant edrych?**

Mwy o gyfleoedd ar gael a phobl o bob sector o'r gymuned, yn enwedig y rheiny grwpiau hynny nad ydynt yn cael eu cynrychioli'n llawn, yn dewis ffyrdd iach o fyw drwy fod yn fwy actif.

**Gwasanaeth Arweiniol:** Rheoleiddio a Datblygu Economaidd – Hamdden (gyda chefnogaeth gan y Gwasanaethau Cymdeithasol)


Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg / This document is also available in English.

## **Amcan 4**: Byddwn yn gwella canlyniadau o ran **iechyd, llesiant a gofal cymdeithasol**

### **Blaenoriaeth 4.2:** Byddwn yn creu'r amodau i unigolion wella eu **hiechyd a'u llesiant**

**Pam rydym ni wedi dewis hyn fel blaenoriaeth?**

Rydym yn cydnabod pwysigrwydd sicrhau bod gan bawb fynediad amserol at ofal iechyd a gwybodaeth am iechyd heb wahaniaethu a bod llesiant meddyliol yr un mor bwysig â llesiant corfforol.

Yn ôl *A yw Cymru'n Decach? 2018* (EHRC) , nid yw canlyniadau iechyd ymhlith y grwpiau mwyaf agored i niwed yn ddigon da. Mae'r adroddiad yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru gynyddu cyfraddau derbyn a lleihau'r amrywiadau o ranbarth i ranbarth o ran y bobl ag anableddau dysgu sy'n manteisio ar eu hawl i gael gwiriad iechyd blynyddol. Yn lleol, dywedwyd wrthym yn ystod ymgysylltiad yn ddiweddar, mai dim ond tua 20% oedd yn derbyn archwiliadau iechyd blynyddol yn Ynys Môn. Felly mae'n bwysig bod gwaith yn cael ei wneud i godi ymwybyddiaeth o'r gwasanaeth hwn.

Yn ystod yr ymgysylltu wrth baratoi ein Cynllun blaenorol bedair blynedd yn ôl, dywedwyd wrthym y dylai pobl allu mynegi eu hunain yn yr iaith y maent fwyaf hyderus ynddi er mwyn osgoi unrhyw gamddealltwriaeth. Codwyd hyn eto yn ddiweddar yn ein digwyddiad ymgysylltu lleol, gan gyfeirio'n benodol at blant ifanc a phobl â namau gwybyddol sydd â'r Gymraeg yn iaith gyntaf iddynt. Mae'r cynnig rhagweithiol o wasanaethau iaith Gymraeg eisoes yn cael ei weithredu trwy'r Cyngor fel rhan o'i ymrwymiad i gydymffurfio â'i Safonau Iaith Gymraeg (gweler tudalen 5) mae safon benodol y mae'n rhaid ei chyrraedd pan fydd cyfarfodydd yn gysylltiedig â llesiant unigolyn. Yn ogystal, fel y nodwyd yn ein Cynllun blaenorol, mae'r Gwasanaethau Cymdeithasol hefyd yn gweithio'n unol â ' *Mwy na Geiriau'* sy'n fframwaith strategol a ddatblygwyd gan Lywodraeth Cymru ar gyfer gwasanaethau Cymraeg mewn Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Gofal Cymdeithasol.

| **Sut rydym ni'n bwriadu gwneud hyn?** | **Erbyn pryd?** |
|---|---|
| Gweithio mewn partneriaeth gyda darparwyr iechyd sylfaenol yn Ynys Môn fel rhan o gynllun peilot i godi ymwybyddiaeth o'r gwasanaeth gwiriad iechyd blynyddol ar gyfer pobl a chanddynt namau dysgu. | Yn unol â chynllun gweithredu'r cynllun peilot |
| Parhau i hyrwyddo'r cynnig rhagweithiol o wasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg. | Parhaus |

**Pa nodweddion gwarchodedig y mae hyn yn effeithio arnynt?**

Oed, Anabledd.

**Sut dylai llwyddiant edrych?**

- Cynnydd yn nifer y bobl â namau dysgu sy'n manteisio ar y cynnig i gael gwiriad iechyd blynyddol.

- Bod yr holl unigolion sy'n cysylltu â'r Cyngor yn cael cynnig gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg.

**Gwasanaeth arweiniol**: Gwasanaethau Cymdeithasol.

DRAFFT

## **Amcan 5:** Byddwn yn gwella **diogelwch personol a mynediad i gyfiawnder**

**Blaenoriaeth 5.1**: Byddwn yn cynyddu nifer y troseddau casineb ac aflonyddu sy’n cael eu riportio a chymryd camau i **leihau achosion o droseddau casineb ac aflonyddu,** yn cynnwys camdriniaeth a bwlio ar-lein.

**Pam rydym ni wedi dewis hyn fel blaenoriaeth?**

Yn ôl *A Yw Cymru’n Decach? 2018*, mae nifer y troseddau casineb a gofnodwyd wedi cynyddu ar draws yr holl nodweddion gwarchodedig yng Nghymru. Yng ngogledd Cymru, mae nifer y troseddau a gofnodwyd fel troseddau casineb wedi cynyddu dros y blynyddoedd diweddar; yn enwedig rhwng 2016/17 (465 trosedd) a 2017/18 (681 trosedd) – cynnydd o 46% (dogfen ymchwil NWPSEN). Nododd cyfranogwyr yn ein digwyddiad ymgysylltu rhanbarthol gynnydd diweddar yn nifer troseddau casineb a riportiwyd hefyd. Roeddent yn priodoli hyn i fwy o ymwybyddiaeth a gwell gweithdrefnau riportio.

Cafodd y maes hwn ei adnabod fel blaenoriaeth yn ein Cynllun cyntaf ac mae’r Cyngor eisoes yn gweithio â phartneriaid ledled gogledd Cymru er mwyn tynnu sylw at faterion trosedd casineb ac annog pobl i hysbysu Heddlu Gogledd Cymru neu Cymorth i Ddioddefwyr am unrhyw achosion. Yn ogystal, mae gweithgor aml-asiantaeth wedi’i sefydlu er mwyn mynd i’r afael â throseddau casineb ar lefel leol. Mae’r grŵp yn cynnwys cynrychiolwyr o Heddlu Gogledd Cymru a Cymorth i Ddioddefwyr, Cydlynydd Cydlyniant Cymunedol Rhanbarthol Gogledd Orllewin Cymru a Swyddogion o’r Gwasanaeth Tai. Ar lefel rhanbarthol, mae Grŵp Tactegol Troseddau Casineb Gogledd Cymru yn sgriwtineiddio’n chwarterol.

| Sut rydym ni’n bwriadu gwneud hyn? | Erbyn pryd? |
|---|---|
| Parhau i weithio â phartneriaid ledled gogledd Cymru er mwyn dwyn sylw at y broblem o droseddau casineb ac annog pobl i hysbysu Heddlu Gogledd Cymru neu Cymorth i Ddioddefwyr yn ystod yr Wythnos Ymwybyddiaeth Troseddau Casineb Cymru Gyfan a gynhelir yn flynyddol. | Blynyddol – Mis Hydref. |
| Y Gweithgor Troseddau Casineb aml-asiantaeth i ddatblygu a gweithredu cynllun gweithredu troseddau casineb er mwyn gwella dulliau riportio a chefnogi unigolion sy’n ddioddefwyr troseddau casineb. | Yn unol â’r amserlenni a nodir yn y cynllun gweithredu ar gyfer atal troseddau casineb. |

**Pa nodweddion gwarchodedig y mae hyn yn effeithio arnynt?** Pob nodwedd.

**Sut dylai llwyddiant edrych?**

Mwy o bobl yn ymwybodol o’r ffaith bod cymorth ar gael i ddioddefwyr ynghyd â sut i riportio troseddau casineb.

**Gwasanaethau Arweiniol:**

Busnes y Cyngor – Gwasanaethau Democrataidd (fel aelod o NWPSEN lle ceir cefnogaeth gan Heddlu Gogledd Cymru a Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu.

Tai (gyda chefnogaeth gan Heddlu Gogledd Cymru, Cymorth i Ddioddefwyr a Chydlynydd Cydlyniant Cymunedol Rhanbarthol Gogledd Orllewin Cymru).

| |
|---|
| **Caiff dioddefwyr eu hannog i roi gwybod am unrhyw droseddau drwy ffonio Heddlu Gogledd Cymru ar 101 (neu 999 mewn argyfwng). Fel dewis arall, gellir cysylltu â Cymorth i Ddioddefwyr drwy ffonio 0300 30 31 982 (mae'r rhif yn un am ddim ac ar gael bob amser) neu ar-lein yn https://www.reporthate.victimsupport.org.uk/cy/cartref/** |

DRAFFT

## **Amcan 5:** Byddwn yn gwella **diogelwch personol a mynediad i gyfiawnder**

### **Blaenoriaeth 5.2**: Byddwn yn sicrhau bod gan Aelodau a Swyddogion y Cyngor y gallu i gyflawni eu **dyletswyddau diogelu** yn effeithiol, drwy hyfforddiant diogelu ar lefel sy'n gymesur â'u rolau a'u cyfrifoldebau.

**Pam rydym ni wedi dewis hyn fel blaenoriaeth?**

Codwyd pryderon yn ystod ymgysylltiad lleol mewn perthynas ag ecsploetiaeth plant a phobl fregus drwy *Linellau Sirol (County Lines), **Cogio (Cuckooing) a ***chaethwasiaeth fodern. Mae cefnogi plant, oedolion mewn perygl a theuluoedd er mwyn eu cadw'n ddiogel, yn iach ac mor annibynnol â phosibl yn flaenoriaeth yng Nghynllun y Cyngor 2017-2022. Fel Cyngor, credwn yn gryf fod gan bob plentyn ac oedolyn yr hawl i fod yn ddiogel rhag niwed. Er mai Gwasanaethau Cymdeithasol yw'r prif wasanaeth o ran delio â honiadau neu bryderon y gallai plant neu oedolion fod yn dioddef niwed sylweddol, mae cyfrifoldeb ar bawb i ddiogelu lles plant, pobl ifanc ac oedolion, beth bynnag yw rôl yr unigolyn.

Mae **Polisi Diogelu Corfforaethol** y Cyngor yn darparu fframwaith ar gyfer pob gwasanaeth, gan osod cyfrifoldebau mewn perthynas â diogelu ynghyd â dulliau a fydd yn rhoi sicrwydd i'r Cyngor ei fod yn cyflawni ei ddyletswyddau. Mae'r polisi hwn wedi'i gynnwys yn y gyfres graidd o naw polisi allweddol o fewn system rheoli polisïau electronig y Cyngor (y Porth Polisi) yn mae'n rhaid i bob aelod o staff sydd â chyfrif e-bost o fewn y Cyngor eu derbyn. Mae'r polisi hwn wedi bod ar gael i staff i'w dderbyn ers Rhagfyr 2018. (Mae'n bwysig nodi, oherwydd dibyniaeth y Porth Polisi ar Gyfeiriadur Actif y Cyngor, nid oes modd i staff gymryd rhan os nad oes ganddynt fynediad i gyfrifiadur fel rhan o'u gwaith. Rydym ar hyn o bryd yn edrych ar drefniadau gwahanol i'r aelodau o staff hyn allu derbyn y gyfres graidd o bolisïau).

Mae cyfrifoldeb ar gyfer monitro effeithlonrwydd trefniadau diogelu ar draws y Cyngor yn gorwedd gyda'r **Bwrdd Diogelu Corfforaethol**. Mae'r Bwrdd wedi datblygu Cynllun Gweithredu Diogelu sy'n rhoi amlinelliad clir o'r camau sydd i'w cymryd gan y Cyngor, a'r rhai sy'n gweithredu ar ei ran, er mwyn sicrhau gweithrediad llawn y Polisi Diogelu. Mae hyn hefyd yn cynnwys cynlluniau'r Cyngor mewn perthynas â'i gyfrifoldebau o ran Caethwasiaeth Fodern, Prevent a Thrais yn erbyn Merched, Camdriniaeth Rywiol a Thrais Domestig.

| Sut rydym ni'n ydym yn bwriadu gwneud hyn? | Erbyn pryd? |
|---|---|
| Defnyddio'r Porth Polisi er mwyn sicrhau bod yr holl staff presennol a staff newydd (y mae ganddynt gyfrifon e-bost) wedi darllen, deall a derbyn y Polisi Diogelu Corfforaethol. | Parhaus |
| Sicrhau bod Staff ac Aelodau yn derbyn gwybodaeth a hyfforddiant am agweddau perthnasol o'r Polisi Diogelu Corfforaethol, yn unol â chyfarwyddyd y Bwrdd Diogelu Corfforaethol. | Parhaus |

**Pa nodweddion gwarchodedig mae hyn yn effeithio arnynt?** Yr holl grwpiau bregus.

**Sut dylai llwyddiant edrych?**

Holl aelodau o staff ac Aelodau yn glir am y disgwyliadau a osodir arnynt o ran ymateb mewn modd priodol i bryderon sy'n cael eu riportio; gweithdrefnau effeithiol ar gyfer cofnodi ac ymateb i achosion ac unrhyw honiadau neu amheuon o niwed neu gam-drin.

**Gwasanaeth Arweiniol**: Gwasanaethau Cymdeithasol – Diogelu (gyda chefnogaeth gan Busnes y Cyngor – Gwasanaethau Democrataidd gyda'r Porth Polisi)

*'Llinellau Sirol' yw'r term a ddefnyddir i ddisgrifio gangiau a rhwydweithiau o droseddwyr sydd ynghlwm ag allforio cyffuriau anghyfreithlon i un neu fwy o ardaloedd o fewn y DU. Maent yn defnyddio llinellau ffôn symudol ymroddedig neu ffurf arall o "linell werthu". Maent yn debygol o ddefnyddio plant ac oedolion bregus i symud a storio'r cyffuriau a'r arian. Yn aml, ddefnyddir gorfodaeth, bygythiadau, trais (gan gynnwys trais rhywiol) ac arfau.

**'Cogio' (cuckooing) yw'r arfer lle mae gwerthwyr cyffuriau yn meddiannu eiddo unigolyn bregus a'i ddefnyddio fel lle i redeg eu busnes. Mae dioddefwyr yn aml ag ofn mynd at yr Heddlu ac yn poeni y byddant ynghlwm â'r drosedd

***Caethwasiaeth Fodern – mae'r term yma'n cwmpasu ystod eang o wahanol fathau o ecsbloetiaeth, ac mae nifer o'r rhain yn aml yn digwydd gyda'i gilydd. Mae rhywun mewn caethwasiaeth os yw:

- Yn cael ei orfodi i weithio – trwy fygythiadau meddyliol neu gorfforol
- Yn berchen i neu'n cael ei reoli gan 'gyflogwr', fel arfer trwy gamdriniaeth feddyliol neu gorfforol neu'r bygythiad o gamdriniaeth
- Yn cael i drin fel pe na bai'n fod dynol, yn cael ei drin fel nwydd neu'n cael ei brynu neu ei werthu fel 'eiddo'
- Wedi'i gyfyngu'n gorfforol neu bod rhywun yn gosod cyfyngiadau ar ei ryddid i symud.

DRAFT

## **Amcan 5:** Byddwn yn gwella **diogelwch personol a mynediad i gyfiawnder**

### **Blaenoriaeth 5.3**: Byddwn yn cynyddu ymwybyddiaeth am **dwyll** mewn cymunedau sy'n agored i niwed

**Pam rydym ni wedi dewis hyn fel blaenoriaeth?**

Cafodd hyn ei adnabod fel blaenoriaeth bedair blynedd yn ôl pan roedd sgamiau, twyll a throseddau hunaniaeth ymysg y materion a godwyd yn ystod ymgysylltiad rhanbarthol. Mae wedi'i amlygu eto yn ystod ein digwyddiad ymgysylltu rhanbarthol mwyaf diweddar, lle cododd cyfranogwyr bryderon am dwyll ymysg pobl hŷn ynghyd â thwyll dros y ffôn a throseddau seiber, sy'n gallu digwydd i unrhyw grŵp oedran.

Yn ystod y blynyddoedd diweddar, gweithiodd adran Safonau Masnach Ynys Môn â nifer o bartneriaid gan gynnwys CAB Ynys Môn, Heddlu Gogledd Cymru a Thîm Atal Sgamiau'r Safonau Masnach Cenedlaethol. Yn benodol, mae Safonau Masnach wedi gweithio â Phobl yn Gyntaf Ynys Môn er mwyn datblygu fersiynau hawdd eu darllen o ganllawiau troseddau stepen drws a sgamiau ar gyfer unigolion ag anawsterau dysgu neu lefelau isel o lythrennedd er mwyn eu cefnogi i allu byw'n annibynnol.

Rydym wedi nodi manylion yn ein Hadroddiadau Cydraddoldeb Blynyddol ers 2016 am yr hyn y byddwn yn ei wneud er mwyn codi ymwybyddiaeth ac i ddarparu addysg mewn cymunedau. Byddwn yn parhau i wneud hynny dros y pedair blynedd nesaf.

| Sut yr ydym yn bwriadu gwneud hyn? | Erbyn Pryd? |
|---|---|
| Parhau i weithio â phartneriaid er mwyn codi ymwybyddiaeth a darparu addysg i gymunedau lleol ar sut i ddelio â galwyr digroeso, troseddau stepen drws, twyll wyneb yn wyneb ac anghydfodau cyffredinol cwsmeriaid. | Parhaus |

**Pa nodweddion gwarchodedig mae hyn yn effeithio arnynt?**

Yr holl nodweddion ond Oed (pobl hŷn) ac Anabledd yn benodol.

**Sut dylai llwyddiant edrych?**

Mwy o bobl yn ymwybodol o'r mathau mwyaf cyffredin o dwyll a sut i ddelio â nhw.

**Gwasanaeth Arweiniol**: Rheoleiddio a Datblygu Economaidd – Safonau Masnach.

## **Amcan 6:** Cynyddu mynediad **i gyfranogiad** er mwyn gwella amrywiaeth o ran gwneud penderfyniadau

### **Blaenoriaeth 6.1:** Mae cyrff gwneud penderfyniadau yn dod yn **fwy cynrychiadol** o'r cymunedau y maent yn eu gwasanaethu

**Pam rydym ni wedi dewis hyn fel blaenoriaeth?**

Mae merched yn parhau i gael eu tangynrychioli ymysg ymgeiswyr etholiadol lleol yng Nghymru ac mewn apwyntiadau lleol (*A Yw Cymru'n Decach?* 2018). Bu arolwg o ymgeiswyr etholiad llywodraeth leol yng Nghymru ar gyfer etholiadau Mai 2017 ddarganfod bod 34% yn ferched. Yn dilyn yr etholiad, roedd 26% o **gynghorwyr** yn ferched, gydag amrywiadau sylweddol ar draws y 22 awdurdod lleol (*A Yw Cymru'n Decach?* 2018). Roedd y ganran ar draws y chwe awdurdod lleol yng ngogledd Cymru yn 22.9%, gydag Ynys Môn ar 10%, â'r canran isaf un (*Cydraddoldeb yng Ngogledd Cymru*: adroddiad data a thystiolaeth).

Dim ond rhan o fater ehangach sy'n ymwneud ag amrywiaeth yw tangynrychiolaeth merched mewn llywodraeth leol. Mae pobl ifanc yn benodol wedi eu tangynrychioli ar y Cyngor hwn.

Yn ôl adroddiad gan Bwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau Llywodraeth Cymru, 'Amrywiaeth mewn Llywodraeth Leol (Ebrill 2019), mae argaeledd gwybodaeth am rôl y cynghorwyr yn amlwg yn faes sydd angen ei wella. Mae'r adroddiad yn gwneud 22 o argymhellion i Lywodraeth Cymru, yn cynnwys argymhelliad bod *"Llywodraeth Cymru a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yn dechrau gweithio ar ymgyrch gadarnhaol er mwyn gwella amrywiaeth ymysg ymgeiswyr sy'n sefyll yn yr etholiadau llywodraeth leol erbyn haf 2019."*

Mae pedwar o bwyllgorau'r Cyngor hefyd yn cynnwys **aelodau cyfetholedig**. Mae'r cynrychiolwyr hyn yn cael eu recriwtio am gyfnodau penodol er mwyn cynrychioli maes penodol o ddiddordeb neu fater penodol i'w ystyried. Nid aelodau etholedig mohonynt ond byddant yn cael eu penodi oherwydd eu lefel o wybodaeth o phrofiad. Ar hyn o bryd, mae'r proffil rhyw yn gytbwys, gyda 45% (5) o'r un ar ddeg o aelodau cyfetholedig yn ferched.

| Sut rydym ni'n bwriadu gwneud hyn? | Erbyn pryd? |
|---|---|
| Cymryd yr holl gamau angenrheidiol yn lleol er mwyn cefnogi'r ymgyrch genedlaethol i ehangu cyfranogiad yn etholiadau lleol 2022. | Mai 2022 |
| Gwneud defnydd o weithredu cadarnhaol fel rhan o'r broses o recriwtio aelodau cyfetholedig. | Fel y bydd swyddi gwag yn codi. |

**Pa nodweddion gwarchodedig mae hyn yn effeithio arnynt?** Yr holl nodweddion ond Oed (pobl ifanc) a Rhyw (merched) yn benodol.

**Sut dylai llwyddiant edrych?**

Cynnydd mewn amrywiaeth ymysg unigolion sy’n sefyll yn etholiadau llywodraeth leol 2022 ac unigolion sy’n ymgeisio i fod yn aelodau cyfetholedig fel rhan o brosesau recriwtio yn y dyfodol.

**Gwasanaeth Arweiniol**: Busnes y Cyngor

DRAFFT


Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg / This document is also available in English.

## **Amcan 6:** Cynyddu mynediad **i gyfranogiad** er mwyn gwella amrywiaeth o ran gwneud penderfyniadau

### **Blaenoriaeth 6.2:** Mae **ymgynghori ac ymgysylltu** yn cael ei wella drwy gryfhau cysylltiadau rhwng y sector cyhoeddus a grwpiau lleol a chenedlaethol sy'n cynrychioli pobl o'r holl grwpiau gwarchodedig

**Pam rydym ni wedi dewis hyn fel blaenoriaeth?**

Mae'r Cyngor yn cydnabod fod yna le i wella bob amser o ran ehangu'r cohort o ddinasyddion sy'n mynd ati'n egnïol i ymgysylltu, yn enwedig o ran grwpiau anodd eu cyrraedd. O ganlyniad, achubwyd ar y cyfle i greu proses safonol a syml ar gyfer ymgysylltu ar draws y sector cyhoeddus a'r trydydd sector.

Defnyddir y **model ymgysylltu cymunedol** er mwyn gwella'r ymagwedd gorfforaethol tuag at ymgysylltiad cymunedol. Mae'r model hwn yn hanfodol er mwyn adnabod y cymunedau a'r grwpiau hynny a fydd â diddordeb cymryd drosodd y cyfrifoldebau am ddarparu ar gyfer gwahanol fathau o anghenion yn eu cymunedau. Ers ei ddechrau, mae'r model wedi ei deilwra ar gyfer ei ddefnyddio mewn gwahanol waith ymgysylltu ac ymgynghori. Mae'r model wedi ei gadarnhau gan y **Bwrdd Ymgysylltu ac Ymgynghori ar y Cyd** a arweinir gan aelod o'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth ac a fynychir gan gynrychiolwyr o'r trydydd sector. Mae'r Bwrdd ar y Cyd yn darparu agwedd gytbwys ar draws y Cyngor tuag at ymgysylltiad a chyfranogiad rhanddeiliaid sy'n lleihau dyblygu, yn sicrhau agwedd ar y cyd tuag at ymgysylltu ac sy'n gwella gwybodaeth yn seiliedig ar ardal i ni fel Cyngor.

Un maes ar gyfer gwella a nodwyd yn ddiweddar gan y Bwrdd yw datblygu rhestr wirio fel y gall rheolwyr adnabod y wybodaeth a'r camau angenrheidiol er mwyn gallu cefnogi ymgysylltiad ac ymgynghoriad effeithiol yn lleol. Mae'r rhestr wirio hon yn ychwanegol at yr Egwyddorion Cenedlaethol Ymgysylltu Cyhoeddus (a fabwysiadwyd ar 5 Medi 2011 fel rhan o Strategaeth Ymgysylltu Cymunedol y Cyngor) a'i nod yw sicrhau cysondeb a darparu sicrwydd bod y Cyngor yn bodloni ei rwymedigaethau cyfreithiol.

Ar lefel ranbarthol, byddwn yn parhau i weithio ar ymgysylltiad fel rhan o NWPSEN (gweler tudalen 13) er mwyn rhannu arfer dda a gwneud y mwyaf o'r adnoddau sydd ar gael i ni.

| Sut rydym ni'n bwriadu gwneud hyn? | Erbyn pryd? |
|---|---|
| Gweithio mewn partneriaeth â'r trydydd sector er mwyn codi ymwybyddiaeth o'r cyfleoedd ymgysylltu ac ymgynghori perthnasol ymysg cynrychiolwyr o'r holl nodweddion gwarchodedig. | Parhaus |
| Y Bwrdd Ymgysylltu ac Ymgynghori ar y Cyd i fabwysiadu Rhestr Wirio Ymgysylltu ac Ymgynghori a sicrhau eu bod yn cael eu defnyddio'n effeithiol gan wasanaethau. | Parhaus |


Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg / This document is also available in English.


DRAFT

| Sut rydym ni'n bwriadu gwneud hyn? | Erbyn pryd? |
|---|---|
| Parhau i weithio ar ymgysylltu gyda'n partneriaid rhanbarthol (fel aelodau o NWPSEN) drwy wneud y mwyaf o'r adnoddau sydd ar gael i ni. | Parhaus |

**Pa nodweddion gwarchodedig mae hyn yn effeithio arnynt?** Bob un

**Sut dylai llwyddiant edrych?**

Ymgynghori ac ymgysylltu yn cael ei gyflawni i safon uchel yn gyson ar draws y Cyngor.

Cynnydd yn nifer y sylwadau a dderbyniwyd gan grwpiau anodd eu cyrraedd mewn ymateb i ymgysylltu ac ymgynghori.

**Gwasanaethau Arweiniol:**

Trawsnewid Corfforaethol
Busnes y Cyngor – Gwasanaethau Democrataidd (fel rhan o NWPSEN)

DRAFFT


Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg / This document is also available in English.

## **Amcan 7:** Byddwn yn datblygu ein gwybodaeth a'n dealltwriaeth o'r **ddyletswydd gymdeithasol economaidd** (pan fydd arweiniad ar gael) er mwyn adnabod y meysydd allweddol o effaith sydd angen mynd i'r afael â nhw o dan bob amcan

**Pam rydym ni wedi dewis hyn fel amcan?**

Yn ei adroddiad '*A Yw Cymru'n Decach*? 2018' mae EHRC yn argymell y dylid *"sicrhau bod cyrff cyhoeddus yn cydweithio er mwyn lleihau'r anghydraddoldebau cysylltiedig ag anfantais cymdeithasol-economaidd, dylai'r dyletswydd cymdeithasol-economaidd yn y Ddeddf Cydraddoldebau gael ei weithredu yng Nghymru gan Lywodraeth Cymru fel mater o flaenoriaeth."*

Yn ddiweddar, mae Llywodraeth Cymru wedi cadarnhau y bydd y ddyletswydd cymdeithasol-economaidd yn dod i rym er mwyn gorfodi cyrff cyhoeddus i ystyried effaith eu penderfyniadau strategol ar y bobl a'r grwpiau tlotaf. Bydd arweiniad pellach yn cael ei roi yn y man ond ar adeg ysgrifennu'r Cynllun hwn, rhagwelir y bydd y ddyletswydd yn dechrau ar 1 Ebrill 2020.

Rydym eisoes wedi dechrau mynd i'r afael â'r ddyletswydd newydd yn y Cynllun hwn drwy gynnwys blaenoriaethau sydd â'r nod o leihau'r anghydraddoldebau sy'n gysylltiedig ag anfantais cymdeithasol-economaidd – adolygu ein proses gorfforaethol ar gyfer ymgymryd ag asesiadau effaith (Blaenoriaeth 8.2) a mynd i'r afael â bylchau mewn cyrhaeddiad addysgol (Blaenoriaeth 1.2).

| **Sut rydym ni'n bwriadu gwneud hyn?** | **Erbyn pryd?** |
|---|---|
| Datblygu ein gwybodaeth a'n dealltwriaeth o'r ddyletswydd cymdeithasol economaidd a sicrhau bod y ddyletswydd yn dod yn rhan annatod o'n busnes o ddydd i ddydd. | Unwaith y bydd arweiniad pellach ar gael. |
| Adolygu canllawiau a thempledi corfforaethol er mwyn sicrhau bod ystyriaeth ddigonol yn cael ei rhoi i'r angen i leihau anfanteision cymdeithasol-economaidd – gweler hefyd Blaenoriaeth 8.2. | Parhaus |
| Defnyddio ein Adroddiadau Cydraddoldeb Blynyddol er mwyn adrodd ar ddatblygiadau a dangos sut yr ydym yn cydymffurfio â'r ddyletswydd cymdeithasol-economaidd. | 31 Mawrth bob blwyddyn. |

**Pa nodweddion gwarchodedig mae hyn yn effeithio arnynt?** Yr holl nodweddion, yng nghyd-destun y ddyletswydd gymdeithasol-economaidd.

**Sut ddylai llwyddiant edrych?**

Mae anghydraddoldebau cysylltiedig ag anfanteision cymdeithasol economaidd yn cael eu nodi ac yn cael ystyriaeth ddigonol yng nghynlluniau, polisïau a gweithdrefnau'r Cyngor.

**Gwasanaeth Arweiniol**: Busnes y Cyngor – Gwasanaethau Democrataidd



DRAFT

## **Amcan 8:** Byddwn yn gwella **gweithdrefnau'r Cyngor** er mwyn sicrhau tegwch i bawb

### **Blaenoriaeth 8.1:** Mae **rhaglen hyfforddiant staff** wedi cael ei sefydlu er mwyn sicrhau bod gan y staff cywir y sgiliau cywir er mwyn darparu gwelliannau o ran amrywiaeth

**Pam rydym ni wedi dewis hyn fel blaenoriaeth?**

Mae hon wedi bod yn flaenoriaeth o'r dechrau, i ddangos ymrwymiad y Cyngor tuag at sicrhau bod y rhai hynny sy'n cael eu cyflogi gan y Cyngor ac yn gweithio iddo yn fedrus, wedi'u hyfforddi a'u hysgogi i allu cwrdd ag anghenion heriol ac amrywiol y gymuned.

Cydnabyddir ei bod hi'n bwysig fod pobl ar draws y Cyngor yn ymwybodol o'r dyletswyddau cydraddoldeb cyffredinol a phenodol er mwyn sicrhau bod hyn yn cael ystyriaeth lawn yn y gwaith maent yn ei wneud. Yn ogystal â chodi ymwybyddiaeth yn ystod sesiynau cynefino corfforaethol, bellach mae gan y Cyngor system reoli polisi electronig – y Porth Polisi – sy'n gosod disgwyliadau ar staff sydd â chyfrifon e-bost y Cyngor i dderbyn polisïau corfforaethol allweddol. Mae Polisi Cydraddoldeb ac Amrywiaeth y Cyngor wedi'i gynnwys yn y gyfres graidd o naw polisi corfforaethol y mae'n rhaid eu derbyn ac mae'r polisi wedi bod ar gael i'w dderbyn ers Gorffennaf 2019. (Mae'n bwysig nodi, oherwydd dibyniaeth y Porth Polisi ar Gyfeiriadur Actif y Cyngor, nid oes modd i staff gymryd rhan os nad oes ganddynt fynediad i gyfrifiadur fel rhan o'u gwaith. Rydym ar hyn o bryd yn edrych ar drefniadau gwahanol i'r aelodau o staff hyn allu derbyn y gyfres graidd o bolisïau).

Yn ogystal, petai'n dod i'r amlwg bod unrhyw feysydd sydd angen sylw fel rhan o'n trefniadau gofal cwsmer, byddwn yn ymateb yn y modd priodol i'r materion sy'n cael eu hadnabod.

| Sut rydym ni'n bwriadu gwneud hyn? | Erbyn pryd? |
|---|---|
| Parhau i godi ymwybyddiaeth am gydraddoldeb ac amrywiaeth ymysg staff y Cyngor yn ystod sesiynau cynefino corfforaethol a drwy hysbysu staff sydd â chyfrifon e-bost y Cyngor bod angen iddynt ddarllen, deall a derbyn y Polisi Cydraddoldeb ac Amrywiaeth. | Parhaus |
| Parhau i hyrwyddo hyfforddiant cydraddoldeb ac amrywiaeth ar gyfer yr holl staff ac ymateb yn y modd priodol lle mae anghenion penodol wedi eu hadnabod. | Parhaus (fel rhan o'r Rhaglen Hyfforddiant Corfforaethol ac mewn ymateb i unrhyw anghenion sy'n cael eu hadnabod). |

**Pa nodweddion gwarchodedig mae hyn yn effeithio arnynt?** Yr holl nodweddion

DRAFT

**Sut ddylai llwyddiant edrych?**

Lefel uchel o ymwybyddiaeth a gwell dealltwriaeth o ddyletswyddau cydraddoldeb ac amrywiaeth ar draws y Cyngor.

**Gwasanaeth Arweiniol:** Trawsnewid Corfforaethol – Adnoddau Dynol (gyda chefnogaeth Busnes y Cyngor – Gwasanaethau Democrataidd gyda'r Porth Polisi)

DRAFFT



Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg / This document is also available in English.

**Amcan 8:** Byddwn yn gwella **gweithdrefnau'r Cyngor** er mwyn sicrhau tegwch i bawb

## **Blaenoriaeth 8.2**: Mae proses gorfforaethol effeithiol wedi'i sefydlu er mwyn sicrhau bod **effaith yn cael ei asesu'n** barhaus ar draws y gwasanaethau

**Pam rydym ni wedi dewis hyn fel blaenoriaeth?**

Cafodd sicrhau agwedd gyson ar draws yr awdurdod o ran cwblhau asesiadau effaith effeithiol ei adnabod fel blaenoriaeth yn ôl yn 2011/12. Drwy gydol yr amser hwn, rydym wedi bod yn datblygu ein trefniadau yn barhaus, gyda'r nod o brif ffrydio'r broses hon yn y gwaith o ddydd i ddydd a gyflawnir o fewn y Cyngor. Fodd bynnag, mae lle i wella o hyd o ran sicrhau cysondeb ar draws y Cyngor. Mae hefyd angen i ni sicrhau bod yna aliniad cliriach rhwng ein trefniadau corfforaethol a:

**Deddf Llesiant a Chenedlaethau'r Dyfodol** – sy'n dweud bod angen i gyrff cyhoeddus weithio mewn ffordd sy'n gwella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru drwy fodloni anghenion y presennol tra'n gwarchod anghenion y dyfodol.

Y **dyletswydd gymdeithasol-economaidd** yn y Ddeddf Cydraddoldeb – a fydd yn dod i rym yng Nghymru er mwyn lleihau anghydraddoldebau cysylltiedig ag anfanteision cymdeithasol-economaidd (gweler Amcan 7).

| Sut rydym ni'n bwriadu gwneud hyn? | Erbyn Pryd? |
|---|---|
| Parhau i ddarparu cyfleoedd o ran cefnogi a datblygu aelodau a swyddogion er mwyn sicrhau bod ganddynt wybodaeth ddigonol am eu dyletswyddau tuag at bobl â nodweddion gwarchodedig. | Yn unol â'r Cynllun Datblygu a'r Cynllun Hyfforddiant, y Rhaglen Datblygu Aelodau Sgriwtini a'r Rhaglen Hyfforddi Staff Corfforaethol |
| Adolygu'r templedi canlynol er mwyn cryfhau'r cyswllt â'r Ddeddf Llesiant a Chenedlaethau'r Dyfodol a'r ddyletswydd cymdeithasol-economaidd:<br><br>- Templedi adroddiadau Sgriwtini<br>- Templed ac arweiniad AEC corfforaethol<br>- | Haf 2020 |
| Cefnogi penderfyniadau a wneir yng nghyd-destun Deddf Llesiant a Chenedlaethau'r Dyfodol:<br><br>- Adolygu'r Strategaeth Gwestiynu ar gyfer aelodau sgriwtini | Hydref 2020 |

DRAFT

| Sut rydym ni'n bwriadu gwneud hyn? | Erbyn Pryd? |
|---|---|
| - Datblygu cyfres stoc o gwestiynau ar gyfer aelodau sgriwtini, yn seiliedig ar Fframwaith Cenedlaethau'r Dyfodol ar gyfer Sgriwtini a gynhyrchwyd gan Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru (Ionawr 2019) | Rhagfyr 2020 |

**Pa nodweddion gwarchodedig mae hyn yn effeithio arnynt?** Yr holl nodweddion.

**Sut dylai llwyddiant edrych?**

Asesiadau effaith yn cael eu cynnal i safon uchel yn rheolaidd a byddant wedi dod yn rhan annatod o fusnes o ddydd i ddydd.

**Gwasanaeth Arweiniol:** Busnes y Cyngor – Gwasanaethau Democrataidd

DRAFFT



Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg / This document is also available in English.

## Monitro cynnydd

Er mwyn rhoi gwybod i chi am gynnydd wrth gyflawni ein hamcanion cydraddoldeb, byddwn yn cynhyrchu adroddiadau cydraddoldeb blynyddol. Yn ogystal, bydd cynnydd yn erbyn cyflawni blaenoriaethau Cynllun y Cyngor yn cael ei gynnwys yn ein Hadroddiadau Perfformiad Blynyddol.

**Mawrth 2020**

DRAFFT

# Cyngor Sir Ynys Môn - **Templed ar gyfer Asesu'r Effaith ar Gydraddoldeb**

| **Hanes adolygu:** | | |
|---|---|---|
| **Fersiwn** | **Dyddiad** | **Crynodeb o'r newidiadau** |
| 1.0 | 11-12-19 | Drafft cyntaf. |
| | | |
| | | |

| **Cam 1: Y Cefndir** | |
|---|---|
| **1 - Beth sy'n cael ei asesu?** | Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2020-2024 |
| **2 - Ydy'r cynnig yma'n un newydd neu un sy'n bodoli eisoes?** | Fe roddodd Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011 ddyletswydd benodol i bob awdurdod cyhoeddus ddatblygu amcanion cydraddoldeb a chynhyrchu Cynllun Cydraddoldeb Strategol erbyn 2 Ebrill 2012. Rhaid adolygu'r Cynllun a'i amcanion o leiaf pob pedair blynedd. Mae'r Cynllun cyfredol, ar gyfer 2016-2020, yn dod i ben ar 31 Mawrth 2020, pryd y bydd rhaid cyhoeddi Cynllun newydd. |
| **3 - Beth yw nodau a phwrpas y cynnig yma?** | Pwrpas y Cynllun yw gosod allan y camau y mae'r Cyngor yn eu cymryd i gyflawni ei ddyletswyddau penodol o ran cydraddoldeb.<br><br>Mae swyddogion Cydraddoldeb ym mhob un o'r chwe Awdurdod Lleol yng Ngogledd Cymru, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru, Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaeth Ambiwlans Cymru, Awdurdod y Parc Cenedlaethol a Heddlu Gogledd Cymru wedi rhannu arferion da ers blynyddoedd lawer. Yn ystod 2011/12, datblygodd Rhwydwaith Cydraddoldeb Sector Cyhoeddus Gogledd Cymru gyfres o gydamcanion a gytunwyd gan bob partner ac fe adolygwyd yr amcanion hyn i gyd-fynd â pharatoi Cynlluniau Cydraddoldeb Strategol diwygiedig ar gyfer 2016-20. Cynhaliwyd adolygiad arall yn ddiweddar er mwyn llywio ein Cynlluniau ar gyfer 2020-2024. Er mwyn sicrhau bod ein amcanion newydd yn anelu at roi sylw i'r |

| Cam 1: Y Cefndir | |
|---|---|
| | heriadau a osodir allan yn adroddiad y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol '*A yw Cymru'n Decach? 2018'*, mae amcanion rhanbarthol y rhwydwaith yn seiliedig ar y chwe thema bywyd a nodir yn adroddiad y Comisiwn, sef:<br><br>1 - Mae canlyniadau o ran cyrhaeddiad **addysgo**l a llesiant mewn ysgolion yn gwella<br>2 - Byddwn yn cymryd camau i sicrhau ein bod yn **gyflogwr teg a'n bod yn lleihau bylchau o ran cyflogau**<br>3 - Byddwn yn gweithredu i wella **safonau byw** pobl â nodweddion gwarchodedig gwahanol<br>4 - Byddwn yn gwella canlyniadau o ran **iechyd, llesiant a gofal cymdeithasol**<br>5 - Byddwn yn gwella diogelwch personol a mynediad i gyfiawnder<br>6 - Byddwn yn cynyddu mynediad i **gyfranogiad** er mwyn gwella amrywiaeth o ran gwneud penderfyniadau<br><br>Yn ychwanegol, er mwyn rhoi sylw i fwriad Llywodraeth Cymru i roi'r ddyletswydd gymdeithasol economaidd ar waith, fe gytunwyd hefyd yr amcan rhanbarthol canlynol:<br><br>7 - Byddwn yn datblygu ein gwybodaeth a'n dealltwriaeth o'r **ddyletswydd gymdeithasol economaidd** (pan fydd arweiniad ar gael) er mwyn adnabod y meysydd allweddol o effaith sydd angen mynd i'r afael â nhw o dan bob amcan.<br><br>Er cysondeb ac yn yr un modd â'r ddau gynllun blaenorol, rydym wedi dewis mabwysiadu'r amcanion rhanbarthol, ynghyd ag un amcan lleol ychwanegol:<br><br>8 - Byddwn yn gwella **gweithdrefnau'r Cyngor** er mwyn sicrhau tegwch i bawb.<br><br>Mae **blaenoriaethau drafft** wedi'u hadnabod o dan pob un o'r amcanion uchod a ddylai, ochr yn ochr a gweithrediadau gwella eraill sydd wedi'u hamlygu mewn cynlluniau corfforaethol a gwasanaethau, ein helpu i adeiladu cymdeithas decach i bob un o ddinasyddion Ynys Môn. |
| **4 - Pwy sydd yn gyfrifol am y cynnig sy'n cael ei asesu?** | Y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol sy'n arwain yn gorfforaethol ar gydraddoldeb ac amrywiaeth. |

| Cam 1: Y Cefndir | |
|---|---|
| **5 - Pwy yw'r swyddog arweiniol ar gyfer cynnal yr asesiad yma?** | Carol Wyn Owen, Rheolwr Polisi a Strategaeth. |
| **6 - Pwy arall sy'n cymryd rhan yn yr asesiad yma?** | Rhian Wyn Jones, Swyddog Polisi.<br>Tony Wyn Jones, Cydlynydd Cydlyniant Cymunedol Rhanbarthol.<br>Daron Owens, Swyddog Cydlyniant Cymunedol Rhanbarthol. |
| **7 - Oes yna gyswllt rhwng y cynnig yma a meysydd gwaith eraill?**<br><br>Er enghraifft, oes una unrhyw gynigion neu bolisiau eraill y dylid eu cymryd i ystyriaeth wrth asesu'r effaith? | Nid yw'r Cynllun yma'n ddogfen sy'n sefyll 'ar ei ben ei hun'. Mae'r blaenoriaethau o fewn y Cynllun hwn wedi'u dewis i ategu Cynllun y Cyngor 2017-2022 a chynlluniau allweddol corfforaethol a gwasanaethau eraill. |
| **8 - Pwy fyddai'n cael eu heffeithio gan y cynnig/ion (yn negyddol neu'n gadarnhaol, yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol)?** | - Preswylwyr Ynys Môn.<br>- Pobl â nodweddion gwarchodedig sydd yn byw yn, yn ymweld â, neu'n gweithio yn Ynys Môn.<br>- Aelodau etholedig a gweithwyr Cyngor Sir Ynys Môn. |

| 9 - Ydy’r cynnig yn berthnasol i sut mae’r Awdurdod yn cydymffurfio â dyletswydd cyffredinol y sector gyhoeddus mewn perthynas â phobl sy’n cael eu gwarchod gan y Ddeddf Cydraddoldeb 2010? | Ydy’ | Nac ydy’ |
|---|---|---|
| **Dileu gwahaniaethu ac aflonyddu** | ✓ | |
| **Hyrwyddo cyfleoedd cyfartal** | ✓ | |
| **Meithrin perthynas dda** | ✓ | |
| **Diogelu a hyrwyddo hawliau dynol** | ✓ | |
| Noder: Fel rheol, mae unrhyw cynnig sy’n cael effaith ar bobl yn debygol o fod yn berthnasol ar draws pob grwp a warchodir. | | |

| **Cam 2: Casglu gwybodaeth** | |
|---|---|
| **10 - A yw'r cynnig yma'n sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg yn unol â Pholisi Iaith Gymraeg y Cyngor Sir?** | Ydy. Mae'r Cyngor wedi mabwysiadu'r egwyddorion:<br><br>- Ni ddylid trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg yng Nghymru<br>- Y dylai personau yng Nghymru allu byw eu bywydau drwy gyfrwng y Gymraeg os ydynt yn dymuno gwneud hynny<br><br>Bydd gwaith y Cyngor ar y Cynllun, ynghyd â'i holl waith ar draws y gwasanaethau, yn cael ei wneud yn unol â'r egwyddorion uchod. |
| **11 - Oes cyfle yma i gynnig mwy o gyfleoedd i bobl ddysgu a / neu ddefnyddio'r Gymraeg yn eu bywydau bob dydd?** | Oes. Mae blaenoriaeth 4.2 – byddwn yn creu'r amodau i unigolion wella eu hiechyd a'u llesiant – yn cyfeirio at y cynnig rhagweithiol o wasanaethau iaith Gymraeg a bod Gwasanaethau Cymdeithasol y Cyngor yn gweithio'n unol a fframwaith strategol Llywodraeth Cymru 'Mwy na Geiriau'. Nod y fframwaith yw cryfhau gwasanaethau iaith Gymraeg yn y meysydd iechyd, gwasanaethau a gofal cymdeithasol. |
| **12 – A fydd y maes gwaith hwn yn gwneud cynnig rhagweithiol i ddarparu gwasanaethau yn Gymraeg i ddefnyddwyr?** | Gweler 11 uchod. |
| **13 – A fydd y cynnig hwn yn debygol o warchod a hyrwyddo'r Gymraeg o fewn y gymuned?** | Gweler 11 uchod. |
| Mae **Atodiad 1** i'r Canllawiau Asesu Effaith yn rhestru cyfres o gwestiynau y dylid eu hystyried wrth edrych sut bydd cynigion yn effeithio ar yr iaith Gymraeg yn gyffredinol. Bydd y graddau mae'r cwestiynau hyn yn berthnasol yn dibynnu ar y cynnig dan sylw. Y bwriad yw gwneud i chi feddwl am effaith neu gyfraniad ehangach posibl ac mae modd eu defnyddio fel sail ar gyfer ystyried cwestiynau 10 - 13 uchod.<br><br>Fodd bynnag, wrth edrych ar sut fyddai **prif** bolisïau a strategaethau'r Cyngor yn effeithio ar y Gymraeg, argymhellir y dylid ystyried y cwestiynau hyn yn fwy manwl er mwyn cynnal asesiad cynhwysfawr – **mae templed ar wahân ar gael gyda'r papurau hyn ar MonITor, i chi gwblhau os fyddai hynny'n briodol.** | |

| Cam 2: Casglu gwybodaeth | | |
|---|---|---|
| **14 - Oes yna unrhyw faterion sydd angen ystyriaeth o ran Hawliau Dynol? Os oes, beth yw'r materion yma?**<br>(Er enghraifft, a fyddai'r cynnig yn arwain at fethu a diogelu'r hawl i breifatrwydd?)<br>(Mae'r 16 hawl sylfaenol wedi'u rhestru yn Atodiad 1). | Dim sy'n hysbys. | |
| **15 - Ydi cynnig yn cyflawni unrhyw rai o'r saith nod llesiant cenedlaethol a amlinellir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015?**<br><br>(Mae disgrifiadau o'r nodau llesiant wedi'u rhestru yn Atodiad 2) | Cymru lewyrchus | |
| | Cymru gydnerth | |
| | Cymru iachach | ✓ |
| | Cymru sy'n fwy cyfartal | ✓ |
| | Cymru o gymunedau cydlynus | ✓ |
| | Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu | ✓ |
| | Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang | |
| **16 - Beth sydd wedi cael ei wneud hyd yn hyn o ran cyfranogiad ac ymgynghoriad mewn perthynas â'r cynnig yma?** | Rhoddwyd sylw dyledus i wybodaeth berthnasol a gasglwyd o ddigwyddiad ymgysylltu rhanbarthol (Gogledd Cymru) a gynhaliwyd ar 24 Mai 2018 ac ymgysylltiad lleol mewn cyfarfod o Rwydwaith Llesiant Ynys Môn ar 25 Medi 2019. Yn dilyn hyn, fe rannwyd ein hamcanion drafft gydag aelodau Rhwydwaith Llesiant Ynys Môn ynghyd â rhanddeiliad eraill, am sylwadau. I'r dyfodol, y gobaith yw adeiladu ar y model ymgysylltu hwn er mwyn cael gwell dealltwriaeth o anghenion lleol. | |
| **17 – Ydych chi wedi defnyddio unrhyw wybodaeth arall sy'n berthnasol i'r cynnig fel rhan o'ch asesiad? Os hynny, rhowch y manylion yma ogydda.** | *A yw Cymru'n Decach? 2018*; Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol<br><br>*Cydraddoldeb yng Ngogledd Cymru*: adroddiad data a thystiolaeth; Cyngor Gwynedd. Fe gomisiynwyd yr adroddiad yma gan y Rhwydwaith Swyddogion Bwrdd Gwasanaethau Lleol Gogledd Cymru er mwyn cael gwell dealltwriaeth o ddata cydraddoldeb ar lefel leol – yn arbennig o ran y materion sydd yn yr adroddiad A yw Cymru'n Decach. Rhannwyd yr adroddiad yma gydag aelodau NWPSEN er mwyn llywio eu gwaith ar ddatblygu amcanion rhanbarthol.<br><br>Mae gwybodaeth berthnasol hefyd wedi'i chynnwys fel gwybodaeth gefndirol o dan pob un o'r amcanion cydraddoldeb er mwyn cyfiawnhau'r blaenoriaethau yr ydym wedi'u dewis. | |

| **Cam 2: Casglu gwybodaeth** | |
|---|---|
| **18 - Oes yna unrhyw fylchau yn y wybodaeth a gasglwyd hyd yma?**<br>**Os oes, sut fydd y rhain yn cael sylw?** | Mae'r adroddiad data a thystiolaeth *Cydraddoldeb yng Ngogledd Cymru* yn tynnu sylw at y bylchau o ran data a gwybodaeth ar lefelau lleol ac yn awgrymu rhai blaenoriaethau ar gyfer gwella.  I'r dyfodol, y gobaith yw adeiladu ar y model ymgysylltu hwn er mwyn cael gwell dealltwriaeth o anghenion lleol. |

## Cam 3: Asesu'r effaith debygol ac adnabod camau lliniaru

**19 - Nodwch isod unrhyw effaith debygol o safbwynt cydraddoldeb ar y grwpiau unigol, ynghyd ag adnabod pa gamau gellir eu cymryd i leihau neu wella'r effeithiau yma.**
*Er mwyn penderfynu natur yr effaith debygol, dewisiwch un o'r canlynol os gwelwch yn dda – **Negyddol / Cadarnhaol / Dim effaith**



| Y grwp a warchodir | *Yr effaith debygol | Manylion am yr effaith | Camau i liniaru effaith negyddol |
|---|---|---|---|
| **Oed** | **Cadarnhaol** | Bydd y cynllun hwn o gymorth tuag at gael effaith gadarnaol ar bobl o bob oedran. Bydd yr amcanion yn y cynllun yn helpu i:<br><br>Roi sylw i'r rhwystrau i blant a phobl ifanc gyrraedd eu llawn botensial (blaenoriaeth 1.1)<br><br>Ddiogelu pobl hŷn a bregus trwy godi ymwybyddiaeth ymysg cymunedau lleol am y gwahanol fathau o dwyll (blaenoriaeth 5.3)<br><br>Roi sylw i'r rhwystrau i bobl o bob oed rhag cymryd rhan mewn bywyd cyhoeddus trwy gymryd rhan yn yr ymgyrch i ledaenu cyfranogiad o ran etholiadau 2022 (blaenoriaeth 6.1). Mae parhau i ddatblygu hybiau cymunedol a chynllunio lle yn berthnasol yma hefyd (hyrwyddo cydraddoldeb – tud. 12 yn y Cynllun). | Dim effaith negyddol wedi'i adnabod hyd yn hyn. |
| **Anabledd** | **Cadarnhaol** | Bydd y cynllun hwn o gymorth tuag at gael effaith gadarnaol ar bobl anabl. Bydd yr amcanion yn y cynllun yn helpu i:<br><br>Roi sylw i'r rhwystrau i blant a phobl ifanc gydag anghenion dysgu ychwanegol gyrraedd eu llawn botensial (blaenoriaeth 1.1) | Dim effaith negyddol wedi'i adnabod hyd yn hyn. |

| Y grwp a warchodir | *Yr effaith debygol | Manylion am yr effaith | Camau i liniaru effaith negyddol |
|---|---|---|---|
| | | Daclo bwlio sy’n seiliedig ar hunaniaeth a throseddau casineb mewn ysgolion (blaenoriaeth 1.2)<br><br>Sicrhau bod mwy o eiddo a chyfleusterau megis arosfannau bysus, llwybrau a chroesfannau troed yn hygyrch ac yn cwrdd ag anghenion preswylwyr anabl (blaenoriaethau 3.1 a 3.2)<br><br>Cynyddu cyfleoedd i bobl anabl gymryd rhan mewn chwaraeon (blaenoriaeth 4.1)<br><br>Codi ymwybyddiaeth am y gwasanaeth gwiriad iechyd sydd ar gael i bobl ag anableddau dysgu (blaenoriaeth 4.2)<br><br>Gefnogi pobl anabl sy’n ddioddef troseddau casineb (blaenoriaeth 5.1)<br><br>Hefyd, mae’r Cynllun yn cyfeirio at yr hyn yn ei wneud yn barod i greu cyfleoedd gwaith i bobl ag anableddau dysgu (gweler Hyrwyddo Cydraddoldeb ar dudalen 11) | |
| **Rhyw** | **Cadarnhaol** | Bydd y cynllun o gymorth i sicrhau na fydd unrhyw un o weithwyr y Cyngor yn cael eu trin yn llai ffafriol ar sail rhyw. Bydd yr amcanion sydd yn y cynllun yn helpu i:<br><br>Sicrhau bod gweithwyr yn cael addasiad i’w patrymau gwaith, lle mae hynny’n bosibl, i’w cynorthwyo i gyfuno gwaith a chyfrifoldebau eraill (blaenoriaeth 2.1) | Dim effaith negyddol wedi’i adnabod hyd yn hyn. |

| Y grwp a warchodir | *Yr effaith debygol | Manylion am yr effaith | Camau i liniaru effaith negyddol |
|---|---|---|---|
| | | Adnabod a lleihau bylchau o ran cyflogau ar sail rhyw ac anghydraddoldebau eraill (blaenoriaeth 2.2)<br><br>Annog mwy o ferched i sefyll yn yr etholiadau llywodraeth leol yn 2022 (blaenoriaeth 6.1) | |
| **Newid Rhyw** | Cadarnhaol | Bydd y cynllun o gymorth i gael effaith gadarnhaol ar bobl trawsryweddol. Bydd yr amcanion sydd yn y cynllun yn helpu i:<br><br>Daclo bwlio sy'n seiliedig ar hunaniaeth a throseddau casineb mewn ysgolion (blaenoriaeth 1.2)<br><br>Gefnogi bobl trawsryweddol sydd yn dioddef troseddau casineb (blaenoriaeth 5.1)<br><br>Sicrhau bod y Cyngor yn parchu ac yn cyfathrebu gyda phobl trawsryweddol yn unol â'r rhyw yr arddelir ganddynt (blaenoriaeth 8.1) | Dim effaith negyddol wedi'i adnabod hyd yn hyn. |
| **Beichiogrwydd a Mamolaeth** | Cadarnhaol | Bydd y cynllun o gymorth i gael effaith gadarnhaol ar unrhyw un sydd yn feichiog neu o fewn eu cyfnod mamolaeth. | Dim effaith negyddol wedi'i adnabod hyd yn hyn.<br><br>Bydd blaenoriaeth 2.1 yn y Cynllun yn rhoi sylw i unrhyw rwystrau ar sail beichiogrwydd a mamolaeth. |
| **Hil / Ethnigrwydd / Cenedligrwydd** | Cadarnhaol | Bydd y cynllun o gymorth i alluogi'r Cyngor i gwrdd â'r ddyletswydd gyffredinol o ran gwahardd camwahaniaethu, hyrwyddo cyfle cyfartal a meithrin perthynas dda rhwng pawb. | Dim effaith negyddol wedi'i adnabod hyd yn hyn. |

| Y grwp a warchodir | *Yr effaith debygol | Manylion am yr effaith | Camau i liniaru effaith negyddol |
|---|---|---|---|
| | | Bydd blaenoriaeth 1.2 yn helpu i daclo bwlio sy'n seiliedig ar hunaniaeth a throseddau casineb mewn ysgolion<br><br>Bydd blaenoriaeth 5.1 yn y cynllun o gymorth i gefnogi uniogolion sy'n dioddef troseddau casineb. | |
| **Crefydd neu Gred** | Cadarnhaol | Bydd y cynllun o gymorth i alluogi'r Cyngor i gwrdd â'r ddyletswydd gyffredinol o ran gwahardd camwahaniaethu, hyrwyddo cyfle cyfartal a meithrin perthynas dda rhwng pawb.<br><br>Bydd blaenoriaeth 1.2 yn helpu i daclo bwlio sy'n seiliedig ar hunaniaeth a throseddau casineb mewn ysgolion<br><br>Bydd blaenoriaeth 5.1 yn y cynllun o gymorth i gefnogi uniogolion sy'n dioddef troseddau casineb. | Dim effaith negyddol wedi'i adnabod hyd yn hyn. |
| **Cyfeiriadedd Rhywiol** | Cadarnhaol | Bydd y cynllun o gymorth i alluogi'r Cyngor i gwrdd â'r ddyletswydd gyffredinol o ran gwahardd camwahaniaethu, hyrwyddo cyfle cyfartal a meithrin perthynas dda rhwng pawb.<br><br>Bydd blaenoriaeth 1.2 yn helpu i daclo bwlio sy'n seiliedig ar hunaniaeth a throseddau casineb mewn ysgolion<br><br>Bydd blaenoriaeth 5.1 yn y cynllun o gymorth i gefnogi uniogolion sy'n dioddef troseddau casineb. | Dim effaith negyddol wedi'i adnabod hyd yn hyn. |
| **Yr iaith Gymraeg** | Cadarnhaol | Gweler cwestiynau 10-13. | Dim effaith negyddol wedi'i adnabod hyd yn hyn. |

| Y grwp a warchodir | *Yr effaith debygol | Manylion am yr effaith | Camau i liniaru effaith negyddol |
|---|---|---|---|
| **Hawliau Dynol** | Dim effaith | Bydd gwaith y Cyngor yn parhau i gael ei gynnal gan set o werthoedd sy'n cynnwys sicrhau bod hawliau dynol sylfaenol unigolion yn cael eu diogelu bob amser. | Dim effaith negyddol wedi'i adnabod hyd yn hyn. |
| **Priodas neu bartneriaeth sifil** (gwahardd camwahaniaethu yn unig) | Dim effaith | Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i ddiddymu camwahaniaethu o bob math a bydd yn diogelu hawliau pobl sy'n briod neu mewn partneriaeth sifil. | Dim effaith negyddol wedi'i adnabod hyd yn hyn. |
| **Arall – tlodi** | Cadarnhaol | Ar adeg ysgrifennu, rhagwelwyd y byddai'r **ddyletswydd gymdeithasol economaidd** yn dod i rym ar 1 Ebrill 2020. Bydd y ddyletswydd yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus ystyried effaith eu penderfyniadau strategol ar y bobl a'r cymunedau tlotaf.<br>Rydym wedi cychwyn eisoes i roi sylw i'r ddyletswydd newydd trwy gynnwys blaenoriaethau sy'n anelu at leihau anghydraddoldeb sy'n cysylltiedig ac anfantais cymdeithasol economaidd, sef:<br><br>Adolygu ein preses gorfforaethol ar gyfer cynnal asesiadau effaith (blaenoriaeth 8.2)<br><br>Rhoi sylw i'r bylchau o ran cyrhaeddiad addysgol (blaenoriaeth 1.1)<br><br>Byddwn yn datblygu ein gwybodaeth a'n dealltwriaeth o'r ddyletswydd gymdeithasol economaidd pan fydd arweiniad ar gael (amcan 7) ac yn sicrhau y bydd y ddyletswydd yn dod yn rhan annatod o'n busnes dydd i ddydd. | Dim effaith negyddol wedi'i adnabod hyd yn hyn. |

| Y grwp a warchodir | *Yr effaith debygol | Manylion am yr effaith | Camau i liniaru effaith negyddol |
|---|---|---|---|
| | | Byddwn yn defnyddio ein hadroddiadau blynyddol i adrodd ar ddatblygiadau a dangos sut yr ydym yn cydymffurfio gyda'r ddyletswydd gymdeithasol economaidd maes o law. | |

| Cam 4: Canlyniad yr asesiad | |
|---|---|
| **20 - Nodwch y prif effeithiau sydd wedi cael eu hadnabod a sut y bwriedir lliniaru'r effeithiau negyddol** (sef crynodeb o'r tabl uchod). | Dim effaith negyddol wedi'i adnabod hyd yn hyn. Pwrpas yr amcanion a blaenoriaethau cydraddoldeb o fewn y Cynllun yw i gynorthwyo'r Cyngor i gwrdd â thair nod y ddyletswydd gyffredinol i roi sylw dyledus i'r angen i:<br><br>- ddiddymu gwahaniaethu, aflonyddu ac erledigaeth anghyfreithlon ac ymddygiad arall sydd wedi ei wahardd gan y Ddeddf<br><br>- hyrwyddo cyfle cyfartal rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig berthnasol a'r rhai nad ydynt<br><br>- meithrin perthynas dda rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig a'r rhai nad ydynt<br><br>Yn ychwanegol i'r blaenoriaethau a mentrau eraill sydd yn y cynllun, bydd y Cyngor yn cryfhau egwyddorion cyfleoedd cyfartal i bobl o bob cefndir ac amgylchiadau yn ei holl gynlluniau a'i weithdrefnau. |
| **21 – Oes yna strategaeth ar gyfer delio gydag unrhyw effeithiau sydd ddim yn anghyfreithlon ond nid oes modd eu hosgoi nag eu lliniaru?** | Dim effaith negyddol wedi'i adnabod hyd yn hyn. |
| **22 - Disgrifiwch unrhyw weithredu a wnaed neu a fwriedir i wneud y mwyaf o'r cyfle i hyrwyddo cydraddoldeb a/neu nodau'r Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (cynaliadwyedd).**<br>**(**Rhestrir y saith nod llesiant yn Atodiad 2) | **Cymru sy'n fwy cyfartal –** Bydd yr holl flaenoriaethau sydd yn y Cynllun yn cyfrannu tuag at y nod o ddatblygu cymdeithas sy'n galluogi pobl i gyflawni eu potensial ni waeth beth fo'u cefndir neu eu hamgylchiadau.<br><br>Yn benodol, bydd ein amcan i ddatblygu ein dealltwriaeth o'r ddyletswydd gymdeithasol economaidd yn sicrhau y bydd anghydraddoldeb sy'n gysylltiedig ag anfantais gymdeithasol-economaidd yn cael eu hadnabod ac yn cael sylw dyledus o fewn ein holl gynlluniau, polisiau a gweithdrefnau. |
| **23 - A oes angen ail-ystyried y cynnig o ganlyniad i gynnal yr asesiad yma?** | Na. Fodd bynnag, mae'n bwysig nodi nad yw ein hymrwymiad tuag at gydraddoldeb wedi'i gyfyngu i'r blaenoriaethau sydd yn y cynllun. Bydd y |

| Cam 4: Canlyniad yr asesiad | |
|---|---|
| (Gallai tystiolaeth o effaith negyddol wneud y cynnig yn anghyfreithlon. Os rydych chi wedi adnabod effaith negyddol, dylid ystyried os oes modd cario 'mlaen gyda'r cynnig ar yr adeg yma). | Cyngor yn cymryd mantais o unrhyw gyfleoedd newydd i hyrwyddo cydraddoldeb ymhellach fel y daw ystyrieaethau o'r fath yn fwy creiddiol yng ngwaith dydd i ddydd y Cyngor. |
| **24 - A fydd y cynnig yn cael ei fabwysiadu / anfon ymlaen am gymeradwyaeth? Pwy fydd yn gwneud y penderfyniad?** | Bydd y Cynllun Cydraddoldeb Strategol yn mynd drwy'r broses ganlynol i'w gymeradwyo:<br><br>Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio – 4 Chwefror 2020<br>Pwyllgor Gwaith – 17 Chwefror 2020<br>Cyngor llawn – 10 Mawrth 2020 |
| **25 - Oes yna drefniadau monitro mewn lle? Beth yw'r trefniadau hynny?** | Byddwn yn adrodd yn ein Hadroddiadau Blynyddol ar Cydraddoldeb ar gynnydd o ran cyflawni ein blaenoriaethau |



## Cam 5 – Cynllun Gweithredu

**Rhowch fanylion yma am unrhyw weithrediadau sydd wedi'u cynllunio yn dilyn cwblhau'r asesiad. Dylid cynnwys unrhyw newidiadau a wnaed i leihau neu ddileu effaith negyddol tebygol neu wirioneddol, ynghyd ag unrhyw drefniadau i gasglu data neu wneud gwaith ymchwil pellach**

| Cyf | Gweithrediadau arfaethedig | Swyddog arweiniol | Amserlen |
|---|---|---|---|
| | | | |
| | | | |
| | | | |

## Atodiad 1 – Hawliau Dynol

Hawliau a rhyddid i bob unigolyn yw hawliau dynol, gwaeth beth yw eu cenedligrwydd nag eu dinasyddiaeth. Mae yna 16 o hawliau sylfaenol yn y Ddeddf Hawliau Dynol - i gyd wedi'u cymryd o'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol. At bwrpas y Ddeddf, fe gyfeirir atynt fel 'Hawliau'r Confensiwn'. Fe'u rhestrir isod:

(Cyflwyniad yw Erthygl 1 – nid yw wedi'i ymgorffori yn y Ddeddf Hawliau Dynol)
Erthygl 2: Yr hawl i fywyd
Erthygl 3: Gwahardd artaith
Erthygl 4: Gwahardd caethwasiaeth a llafur gorfodol
Erthygl 5: Yr hawl i ryddid a diogelwch
Erthygl 6: Yr hawl i dreial teg
Erthygl 7: Dim cosb heb gyfraith
Erthygl 8: Hawl i barch at fywyd preifat a theuluol
Erthygl 9: Rhyddid meddwl, cydwybod a chrefydd
Erthygl 10: Rhyddid mynegiant
Erthygl 11: Rhyddid cymdeithasiad ac ymgynnull
Erthygl 12: Yr hawl i briodi
Erthygl 14: Gwahardd gwahaniaethu
Erthygl 1 o Brotocol 1: Diogelu eiddo
Erthygl 2 o Brotocol 1: Hawl i gael addysg
Erthygl 3 o Brotocol 1: Hawl i etholiadau rhydd
Erthygl 1 o Brotocol 13: Diddymu'r gosb eithaf

## Atodiad 2 – Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

Mae'r Ddeddf hon yn ymwneud â gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae angen i gyrff cyhoeddus wneud yn siŵr eu bod yn ystyried yr effaith a gaiff eu penderfyniadau ar bobl sy'n byw eu bywydau yng Nghymru yn y dyfodol. Mae'r ddeddf yn pennu saith o nodau llesiant:

| Nod | Disgrifiad o'r nod |
|---|---|
| **Cymru lewyrchus** | Cymdeithas arloesol, gynhyrchiol, carbon isel sy'n cydnabod y terfynau sydd ar yr amgylchedd byd-eang ac sydd, o ganlyniad, yn defnyddio adnoddau mewn modd effeithlon a chymesur (gan gynnwys gweithredu ar newid yn yr hinsawdd); ac sy'n datblygu poblogaeth fedrus ac addysgedig mewn economi sy'n cynhyrchu cyfoeth ac yn cynnig cyfleoedd cyflogaeth, gan ganiatáu i bobl fanteisio ar y cyfoeth a gynhyrchir drwy gael gafael ar waith addas. |
| **Cymru gydnerth** | Cenedl sy'n cynnal ac yn gwella amgylchedd naturiol bioamrywiol gydag ecosystemau iach gweithredol sy'n cynnal cydnerthedd cymdeithasol, economaidd ac ecolegol ynghyd â'r gallu i addasu i newid (er enghraifft newid yn yr hinsawdd). |
| **Cymru iachach** | Cymdeithas lle mae llesiant corfforol a meddyliol pobl cystal â phosibl a lle deellir dewisiadau ac ymddygiadau sydd o fudd i iechyd yn y dyfodol. |
| **Cymru sy'n fwy cyfartal** | Cymdeithas sy'n galluogi pobl i gyflawni eu potensial ni waeth beth fo'u cefndir neu eu hamgylchiadau (gan gynnwys eu cefndir a'u hamgylchiadau cymdeithasol-economaidd). |
| **Cymru o gymunedau cydlynus** | Cymunedau atyniadol, hyfyw a diogel sydd â chysylltiadau da. |
| **Cymru â diwylliant bywiog le mae'r Gymraeg yn ffynnu** | Cymdeithas sy'n hyrwyddo ac yn gwarchod diwylliant, treftadaeth a'r Gymraeg ac sy'n annog pobl i gyfranogi yn y celfyddydau, a chwaraeon a gweithgareddau hamdden. |
| **Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang** | Cenedl sydd, wrth iddi wneud unrhyw beth i wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru, yn ystyried a allai gwneud peth o'r fath gyfrannu'n gadarnhaol at lesiant byd-eang. |

This page is intentionally left blank

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **PWYLLGOR:** | **PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD** |
| **DYDDIAD:** | **30 IONAWR 2020** |
| **TEITL ADRODDIAD:** | **Adolygiad o Ranbarthau Pleidleisio a Lleoliad Pleidleisio** |
| **ADRODDIAD GAN:** | **Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd ar ran y Swyddog Canlyniadau Gweithredol** |
| **SWYDDOG CYSWLLT:** | **Huw Jones** |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD:** | **Adrodd ar ganlyniad yr adolygiad** |

## 1.0 CEFNDIR

1.1 Mae'n ddyletswydd ar y Cyngor o dan adran 18 (1) ac Atodlen A1 Deddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983 ('Deddf 1983') i rannu ei ardal yn ddosbarthau pleidleisio at ddibenion etholiadau, i ddynodi mannau pleidleisio ar gyfer pob un dosbarth pleidleisio ac i adolygu'r dosbarthau hynny yn unol ag adran 18 (2) Deddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983. Hefyd, cyflwynodd Deddf Cofrestru a Gweinyddu Etholiadol 2013 newid i amseriad adolygiadau gorfodol o ran dosbarthau pleidleisio a mannau pleidleisio Senedd y Deyrnas Unedig.

1.2 Cynhaliodd y Cyngor adolygiad o ddosbarthau pleidleisio, mannau pleidleisio a gorsafoedd pleidleisio ddiwethaf yn 2014 pan na wnaed unrhyw newidiadau. Rhaid i'r Cyngor yn ystod pob cyfnod adolygu gorfodol gynnal a chwblhau adolygiad o'r holl ddosbarthau a mannau pleidleisio yn ei etholaeth seneddol a'i ardal. Nid yw'r darpariaethau hyn yn atal awdurdod perthnasol rhag cynnal adolygiad o rai neu'r cyfan o'r dosbarthau pleidleisio neu'r mannau pleidleisio yn ei ardal ar adegau eraill. Yn unol â'r darpariaethau statudol, rhaid cynnal yr adolygiad erbyn diwedd mis Ionawr 2020.

## 2.0 Materion Allweddol i'w Hystyried

2.1 Cynhaliwyd adolygiad rhagarweiniol gan Swyddog Canlyniadau Gweithredol y dosbarthau pleidleisio, y mannau pleidleisio a'r gorsafoedd pleidleisio presennol yn ardal Ynys Môn ac mewn perthynas â'r etholaeth seneddol, gyda'r bwriad o brofi eu haddasrwydd, a nodi unrhyw ddewisiadau eraill posibl lle bernir eu bod yn addas.

2.2 Wrth asesu'r trefniadau cyfredol, rhoddwyd ystyriaeth i leoliad, maint, argaeledd a hygyrchedd mannau a gorsafoedd pleidleisio. Yn ogystal, ystyriwyd pa mor addas oedd rhai gorsafoedd pleidleisio a ddefnyddiwyd ar gyfer etholiadau a gynhaliwyd yn 2019.

2.3 Fel rhan o'r broses adolygu rhaid i'r Cyngor hefyd geisio ystyried y canlynol:

- Sylwadau a dderbyniwyd hyd yma;
- O ran Dosbarthau Pleidleisio, bydd gan bob etholwr yn yr etholaeth y fath gyfleusterau pleidleisio rhesymol ag sy'n ymarferol yn yr amgylchiad oni bai bod amgylchiadau arbennig;
- Dynodir man pleidleisio ar gyfer pob dosbarth pleidleisio oni bai bod maint neu amgylchiadau eraill dosbarth pleidleisio yn golygu nad yw sefyllfa'r gorsafoedd pleidleisio yn effeithio'n sylweddol ar gyfleustra'r etholwyr nac unrhyw un ohonynt, a bod gan bob etholwr gyfleusterau rhesymol ar gyfer pleidleisio fel sy'n ymarferol o dan yr amgylchiadau;
- Mae mannau pleidleisio yn hygyrch i bob etholwr cyn belled ag sy'n ymarferol, ac wrth ystyried dynodi gorsafoedd pleidleisio, yn rhoi sylw i anghenion hygyrchedd pobl anabl;
- Rhaid i'r man pleidleisio ar gyfer dosbarth pleidleisio fod yn ardal yn y dosbarth, oni bai bod amgylchiadau arbennig yn ei gwneud hi'n ddymunol dynodi ardal yn gyfan gwbl neu'n rhannol y tu allan i'r dosbarth; ac yn ddigon bach i ddangos i etholwyr mewn gwahanol rannau o'r dosbarth sut y byddant yn gallu cyrraedd yr orsaf bleidleisio; ac

2.4 Yn unol â Chanllawiau'r Comisiwn Etholiadol, rhoddwyd ystyriaeth i'r canlynol:

- Ran dosbarthau pleidleisio - a yw'r ffiniau'n glir, cysylltiadau trafnidiaeth a rhwystrau i bleidleiswyr; ac
- Ran mannau pleidleisio - lleoliad, maint, argaeledd a hygyrchedd.

2.5 Dechreuodd yr adolygiad ar 5 Mehefin 2019 a gorffen ar 20 Ionawr 2020, a chyfle i ran-ddeiliaid wneud sylwadau ar argymhellion y Swyddog Canlyniadau Gweithredol - manylion yn **Atodiad 1.**

## 3.0 Ymatebion i'r Ymgynghoriad

3.1 Tra'n paratoi'r adroddiad derbyniwyd sylw gan Gyngor Tref Porthaethwy ynghylch y posibilrwydd o ddefnyddio Ganolfan Coed Cyrnol, Ffordd Mona, Porthaethwy fel lleoliad o bosib ar gyfer gorsaf bleidleisio yn y dref. Os cyfyd yr angen am leoliad arall yn y ward berthnasol, gall fod yn opsiwn i'w ystyried yn y dyfodol.

## 4.0 Argymhelliad

4.1 Gofynnir i'r Pwyllgor felly gadarnhau manylion fel y nodir yn **Atodiad 1,** uchod ac argymell bod hyn yn cael ei dderbyn gan y Cyngor Sir.

**Huw Jones**
**Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd**
**21/1/2020**

# Atodiad 1/Appendix 1

# AROLWG LLEFYDD PLEIDLEISIO 2019 – ARGYMHELLION Y SWYDDOG CANLYNIADAU GWEITHREDOL / POLLING PLACES REVIEW 2019 -RECOMMENDATIONS OF ACTING RETURNING OFFICER.

| *Dosbarth Pleidleisio / Polling District* | | *Gorsaf Bleidleisio ( ar ddechrau'r arolwg) / Polling Station( start of Review)* | *Wardiau / Wards* | *Etholwyr / Electorate* | *Argymhellion y Swyddog Canlyniadu/Recommendations of the Returning Of* |
|---|---|---|---|---|---|
| BIWMARES/BEAUMARIS | 1 | CANOLFAN GYMUNED DAVID HUGHES BIWMARES / DAVID HUGHES COMMUNITY CENTRE BEAUMARIS | BIWMARES/BEAUMARIS | 1308 | Dim newid/no change |
| AMLWCH (rhan)(part) | 2 | NEUADD GOFFA AMLWCH MEMORIAL HALL | AMLWCH (WARD WLEDIG/RURAL WARD) | 1006 | Dim newid/no change |
| AMLWCH (rhan)(part) | 3 | NEUADD GOFFA AMLWCH MEMORIAL HALL | AMLWCH (WARD Y DREF/TOWN WARD) | 887 | Dim newid/no change |
| AMLWCH (rhan)(part) | 4 | HEN YSGOL, PORTH AMLWCH / OLD SCHOOL, AMLWCH PORT | AMLWCH (WARD Y BORTH/PORT WARD) | 859 | Dim newid/no change |
| CAERGYBI (rhan) / HOLYHEAD (part) | 5 | NEUADD GYMUNED LLAINGOCH COMMUNITY HALL | WARD PARC A'R MYNYDD WARD | 984 | Dim newid/no change |
| CAERGYBI (rhan) / HOLYHEAD (part) | 6 | NEUADD Y DREF, CAERGYBI / TOWN HALL, HOLYHEAD | WARD PORTHYFELIN WARD | 1526 | Dim newid/no change |
| CAERGYBI (rhan) / HOLYHEAD (part) | 7 | YSGOL GYNRADD Y SANTES FAIR / ST. MARY'S PRIMARY SCHOOL. | WARD Y DREF/TOWN WARD | 731 | Dim newid/no change |
| CAERGYBI (rhan) / HOLYHEAD (part) | 8 | CLWB HENOED FFORDD LLUNDAIN / OLD PEOPLE'S CLUB LONDON ROAD | WARD FFORDD LLUNDAIN / LONDON ROAD WARD | 1003 | Dim newid/no change |
| CAERGYBI (rhan) / HOLYHEAD (part) | 9 | NEUADD GYMUNEDOL DEWI SANT / ST DAVID'S COMMUNITY CENTRE | WARD MORAWELON WARD | 1062 | Dim newid/no change |
| CAERGYBI (rhan) / HOLYHEAD (part) | 10 | CANOLFAN UCHELDRE CENTRE | WARD MAESHYFRYD WARD | 1510 | Canolfan Millbank Centre |
| CAERGYBI (rhan) / HOLYHEAD (part) | 11 | CANOLFAN GYMUNED KINGSLAND COMMUNITY CENTRE | WARD KINGSLAND WARD | 1106 | Dim newid/no change |
| LLANGEFNI (rhan)(part) | 12 | NEUADD T.C. SIMPSON HALL, LLANGEFNI | WARD CEFNI WARD | 1182 | Dim newid/no change |
| LLANGEFNI (rhan)(part) | 13 | NEUADD EGLWYS CYNGAR CHURCH HALL, LLANGEFNI | WARD CYNGAR WARD | 1528 | Dim newid/no change |
| LLANGEFNI (rhan)(part) | 14 | NEUADD T.C. SIMPSON HALL, LLANGEFNI | WARD TUDUR WARD | 963 | Dim newid –oherwydd cyfleusterau parcio gerllaw /no change due to parking facilities nearby |
| PORTHAETHWY (rhan) / MENAI BRIDGE (part) | 15 | CANOLFAN GOFFA GYMDEITHASOL PORTHAETHWY/MENAI BRIDGE WAR MEMORIAL COMMUNITY CENTRE | PORTHAETHWY (CADNANT) MENAI BRIDGE | 822 | Dim newid/no change |
| PORTHAETHWY (rhan) / MENAI BRIDGE (part) | 16 | YSGOL Y BORTH PORTHAETHWY / MENAI BRIDGE PRIMARY SCHOOL | PORTHAETHWY (TYSILIO) MENAI BRIDGE | 1488 | Dim newid/no change |
| CYLCH Y GARN (rhan)(part) | 17 | CANOLFAN LLANFAIRYNGHORNWY CENTRE | WARD LLANRHUDDLAD WARD | 390 | Dim newid/no change |
| CYLCH Y GARN (rhan)(part) | 18 | CANOLFAN LLANFAIRYNGHORNWY CENTRE | WARD LLANFAIRYNGORNWY WARD | 179 | Dim newid/no change |
| LLANFAETHLU | 19 | NEUADD GRIFFITH READE HALL, LLANFAETHLU | WARD LLANFAETHLU WARD<br>WARD LLANFWROG WARD | 415 | Dim newid/no change |
| TREF ALAW (rhan)(part) | 20 | NEUADD BENTREF LLANDDEUSANT VILLAGE HALL | WARD LLANDDEUSANT WARD<br>WARD LLANTRISANT WARD | 308 | Dim newid/no change |
| TREF ALAW (rhan)(part)<br>LLANNERCHYMEDD (rhan)(part) | 21 | YSGOLDY CAPEL M.C. CARMEL M.C. CHAPEL SCHOOL ROOM | WARD LLECHCYNFARWY WARD<br>WARD RHODOGEIDIO WARD (rhan/part) | 162 | Dim newid/no change |
| LLANFACHRAETH | 22 | NEUADD BENTREF LLANFACHRAETH VILLAGE HALL | LLANFACHRAETH | 452 | Dim newid/no change |
| Y FALI - VALLEY | 23 | YSGOL GYMUNED Y FALI / VALLEY COMMUNITY SCHOOL | Y FALI - VALLEY | 1810 | Dim newid/no change |
| RHOSCOLYN | 24 | NEUADD EGLWYS ST GWENFAEN CHURCH HALL | RHOSCOLYN | 415 | Dim newid/no change |
| TREARDDUR | 25 | NEUADD GYMUNED TREARDDUR COMMUNITY HALL | TREARDDUR | 1305 | Dim newid/no change |
| LLANFAIR-YN-NEUBWLL | 26 | Y NEUADD CAERGEILIOG HALL | LLANFAIR-YN-NEUBWLL | 1003 | Dim newid/no change |
| BODEDERN | 27 | NEUADD BENTREF BODEDERN VILLAGE HALL | BODEDERN | 810 | Dim newid/no change |
| LLANFAELOG (rhan)(part) | 28 | NEUADD BENTREF RHOSNEIGR VILLAGE HALL | WARD RHOSNEIGR WARD | 653 | Dim newid/no change |
| LLANFAELOG (rhan)(part) | 29 | CANOLFAN GYMUNED LLANFAELOG COMMUNITY CENTRE | WARD LLANFAELOG WARD | 557 | Dim newid/no change |
| BRYNGWRAN | 30 | CANOLFAN GYMUNED BRYNGWRAN COMMUNITY CENTRE | WARD BRYNGWRAN WARD<br>WARD LLANBEULAN WARD | 649 | Dim newid/no change |
| BODFFORDD (rhan)(part) | 31 | CANOLFAN GYMUNED BODFFORDD COMMUNITY CENTRE | WARD HENEGLWYS WARD | 412 | Dim newid/no change |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| BODFFORDD (rhan)(part) | 32<br>33 | NEUADD GOFFA BODWROG MEMORIAL HALL | WARD BODWROG WARD<br>WARD LLANDRYGARN WARD | 355 | Dim newid/no change |
| TREWALCHMAI | 34 | CANOLFAN HENOED GWALCHMAI OAP CENTRE | TREWALCHMAI | 708 | Dim newid/no change |
| LLANGRISTIOLUS (rhan)(part) | 35 | NEUADD YR HENOED LLANGRISTIOLUS OLD PEOPLE HALL | WARD LLANGRISTIOLUS WARD | 656 | Dim newid/no change |
| LLANGRISTIOLUS (rhan/part) | 36 | YSGOLDY CAPEL PISGAH CHAPEL ROOM, RHOSTREHWFA | WARD CERRIGCEINWEN WARD | 467 | Dim newid/no change |
| ABERFFRAW (rhan/part) | 37 | NEUADD GLANNAU FFRAW HALL, ABERFFRAW | WARD DDEHEUOL / SOUTHERN WARD<br>WARD LLANGWYFAN WARD<br>WARD OGLEDDOL / NORTHERN WARD | 488 | Dim newid/no change |
| LLANBADRIG | 38 | NEUADD BENTREF CEMAES VILLAGE HALL | WARD CEMAES WARD<br>WARD PADRIG WARD | 892 | Dim newid/no change |
| MECHELL (rhan/part) | 39 | YSGOL GYMUNED LLANFECHELL COMMUNITY SCHOOL | WARD LLANFECHELL WARD | 769 | Dim newid/no change |
| MECHELL (rhan/part)<br>TREF ALAW (rhan/part) | 40 | YSGOL GYNRADD CARREGLEFN PRIMARY SCHOOL | WARD CARREGLEFN WARD<br>WARD LLANBABO WARD | 270 | Dim newid/no change |
| RHOSYBOL (rhan/part) | 41 | CANOLFAN GYMUNED RHOSYBOL COMMUNITY CENTRE | WARD RHOSYBOL WARD | 588 | Dim newid/no change |
| RHOSYBOL (rhan/part) | 42 | YSGOLDY CAPEL M.C. PARC LLANDYFRYDOG M.C. CHAPEL SCHOOL ROOM | WARD LLANDYFRYDOG WARD | 249 | Dim newid/no change |
| LLANEILIAN | 43 | NEUADD BENTREF PENYSARN VILLAGE HALL | WARD EILIAN WARD<br>WARD LLWYFO WARD | 912 | Dim newid/no change |
| MOELFRE (rhan/part) | 44 | CANOLFAN GYMUNED PENRHOSLLIGWY COMMUNITY CENTRE | WARD PENRHOSLLIGWY WARD | 192 | Dim newid/no change |
| MOELFRE (rhan/part) | 45 | YSGOL GYMUNED MOELFRE COMMUNITY SCHOOL | WARD LLANALLGO WARD | 547 | Dim newid/no change |
| LLANEUGRAD | 46 | HEN YSGOL MARIANGLAS OLD SCHOOL | LLANEUGRAD | 205 | Dim newid/no change |
| LLANFAIR-MATHAFARN-EITHAF (rhan/part) | 47 | NEUADD BENTREF BRYNTEG VILLAGE HALL | WARD BRYNTEG WARD | 364 | Dim newid/no change |
| LLANFAIR-MATHAFARN-EITHAF (rhan/part) | 48 | Y GANOLFAN | WARD LLANBEDRGOCH WARD | 386 | Dim newid/no change |
| LLANFAIR-MATHAFARN-EITHAF (rhan/part) | 49 | LLYFRGELL BENLLECH LIBRARY | WARD 'BENLLECH A' WARD | 724 | Dim newid/no change |
| LLANFAIR-MATHAFARN-EITHAF (rhan/part) | 50 | NEUADD GYMUNEDOL A CHYN-FILWYR BENLLECH COMMUNITY EX-SERVICEMEN'S HALL | WARD 'BENLLECH B' WARD | 1195 | Dim newid/no change |
| LLANDDYFNAN (rhan/part) | 51 | NEUADD BENTREF TALWRN VILLAGE HALL | WARD LLANDDYFNAN WARD | 501 | Dim newid/no change |
| LLANDDYFNAN (rhan/part) | 52 | YSGOLDY CAPEL TY MAWR, CAPEL COCH | WARD LLANFIHANGEL TRE'R BEIRDD WARD | 207 | Dim newid/no change |
| LLANDDYFNAN (rhan/part) | 53 | YSGOLDY CAPEL M.C. LLANGWYLLOG M.C. CHAPEL SCHOOL ROOM | WARD TREGAIAN WARD<br>WARD LLANGWYLLOG WARD | 143 | Dim newid/no change |
| LLANNERCHYMEDD | 54 | HEN STESION LLANNERCHYMEDD | WARD COEDANA WARD<br>WARD RHODOGEIDIO WARD(rhan/part)<br>WARD LLANNERCHYMEDD WARD | 926 | Dim newid/no change |
| PENTRAETH | 55 | NEUADD GOFFA PENTRAETH MEMORIAL HALL | PENTRAETH | 929 | Dim newid/no change |
| LLANDDONA | 56 | HEN YSGOL LLANDDONA OLD SCHOOL | WARD LLANDDONA WARD<br>WARD LLANIESTYN WARD | 551 | Dim newid/no change |
| LLANGOED | 57 | NEUADD BENTREF LLANGOED VILLAGE HALL | WARD LLANGOED WARD<br>WARD PENMON WARD | 1010 | Dim newid/no change |
| CWM CADNANT (rhan/part) | 58<br>59 | NEUADD Y PLWYF LLANDEGFAN PARISH HALL | LLANDEGFAN | 1721 | Dim newid/no change |
| LLANFAIRPWLL (rhan/part) | 60 | NEUADD GOFFA LLANFAIRPWLL MEMORIAL HALL | WARD BRAINT WARD | 1145 | Dim newid/no change |
| LLANFAIRPWLL (rhan/part) | 61 | YSGOLDY CAPEL EBENESER CHAPEL SCHOOL ROOM, LLANFAIRPWLL | WARD GWYNGYLL WARD | 1215 | Dim newid/no change |
| LLA NFIHANGEL ESCEIFIOG | 62 | NEUADD BENTREF GAERWEN VILLAGE HALL | LLANFIHANGEL ESCEIFIOG | 1269 | Dim newid/no change |
| LLANDDANIEL FAB | 63 | YSGOL PARC Y BONT SCHOOL | LLANDDANIEL FAB | 637 | Yr Efail |
| PENMYNYDD | 64 | HEN YSGOL PENMYNYDD OLD SCHOOL | PENMYNYDD | 386 | Dim newid/no change |
| LLANIDAN | 65 | CANOLFAN GYMUNED BRYNSIENCYN COMMUNITY CENTRE | LLANIDAN | 797 | Dim newid/no change |
| RHOSYR (rhan/part) | 66 | CANOLFAN PRICHARD JONES NIWBWRCH / PRICHARD JONES INSTITUTE NEWBOROUGH | WARD NIWBWRCH/NEWBOROUGH WARD | 765 | Dim newid/no change |
| RHOSYR (rhan/part) | 67 | YR HEN FECWS / THE OLD BAKEHOUSE | WARD LLANGEINWEN WARD | 703 | Dim newid/no change |
| RHOSYR (rhan/part) | 68 | NEUADD BENTREF LLANGAFFO VILLAGE HALL | WARD LLANGAFFO WARD | 275 | Dim newid/no change |
| BODORGAN | 69 | YSGOL GYNRADD BODORGAN PRIMARY SCHOOL | WARD TREFDRAETH WARD<br>WARD LLANGADWALADR WARD | 755 | Dim newid/no change |
| | | | CYFANSWM / TOTAL = | 51,387 | |

Annwen Morgan
Swyddog Canlyniadau Gweithredol/Acting Returning Officer 13/12/2019

This page is intentionally left blank

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | **Pwyllgor Gwaith a Cyngor Llawn** |
| **Dyddiad:** | **16.12.2019 a 10.03.2020** |
| **Pwnc:** | **Diwygio Cyfansoddiad y Cyngor i adlewyrchu'r ailstrwythuriad mewnol i'r model staffio.** |
| **Aelod(au) Portffolio:** | **Cynghorydd Dafydd Rhys Thomas** |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | **Lynn Ball** |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>Rhif Ffôn:<br>E-bost: | **Lynn Ball (Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro)** |
| **Aelodau Lleol:** | **Ddim yn fater i ward benodol** |

**A – Argymhelliad/Argymhellion a'r Rheswm/Rhesymau**

<u>Cefndir</u>

1. Mae penderfyniad wedi'i wneud gan y Prif Weithredwr i newid strwythur staffio'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth a'r Penaethiaid Gwasanaeth. Mae'r Pwyllgor Penodiadau wedi gwneud penodiadau'n unol â'r newidiadau hynny.

2. Mae'r strwythur staffio diwygiedig i gael ei adlewyrchu yng Nghyfansoddiad y Cyngor a'r ddirprwyaeth a roddwyd i bob aelod o'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth i gael ei ddiweddaru yn unol â hynny.

<u>Trosolwg</u>

3. Mae'r newidiadau i'r strwythur staffio yn cynnwys:

   (a) Newid i deitlau swyddi a manylebau aelodau o'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth / Penaethiaid Gwasanaeth;

   (b) Diddymu dwy rôl Prif Weithredwr Cynorthwyol;

   (c) Creu un rôl Dirprwy Brif Weithredwr;

   (d) Diddymu dwy rôl Pennaeth Swyddogaeth;

   (e) Creu pum rôl Cyfarwyddwr newydd; a

   (f) Newid y llinellau adrodd ar gyfer rhai aelodau o'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth a'r Penaethiaid Gwasanaeth.

4. Mae'r Cyfansoddiad, yn Rhan 7, yn cynnwys fformat strwythur. Mae'r hyn a ymddengys yn y Cyfansoddiad ar hyn o bryd yn adlewyrchu'r fformat blaenorol. Mae hyn wedi'i gynnwys fel **Atodiad 1** i'r adroddiad hwn.

5. Paratowyd fformat diwygiedig i adlewyrchu'r newidiadau uchod ac mae hyn wedi'i gynnwys fel **Atodiad 2** i'r adroddiad hwn. Argymhellir bod **Atodiad 2** yn cael ei gynnwys yn Rhan 7 o'r cyfansoddiad (yn hytrach nag Atodiad 1).

<u>Diwygiadau posibl i'r Cyfansoddiad heb gymeradwyaeth y Cyngor Sir.</u>

6. Yn unol â pharagraff 3.5.2.11 o'r Cyfansoddiad: "*Bydd gan y Prif Weithredwr awdurdod i ddiwygio teitlau swyddi, a meysydd cyfrifoldeb yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth, Penaethiaid Swyddogaeth a'r Penaethiaid Gwasanaeth fel y bydd ef / hi yn ei ystyried yn angenrheidiol er mwyn darparu swyddogaethau'r Cyngor, gweledigaeth a blaenoriaethau ac o ganlyniad i ad-drefnu staff, mewn ymgynghoriad â'r Swyddog Adran 151, Swyddog Monitro, Pennaeth Proffesiwn / AD a'r Deilydd(ion) Portffolio perthnasol. Bydd unrhyw newidiadau o'r fath o fewn cyllideb ac yn cydymffurfio â pholisïau a phrosesau AD y Cyngor...*"

7. Yn unol â pharagraff 3.5.3.6.6 y Cyfansoddiad, fel Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro, mae gennyf y ddirprwyaeth i: "*adolygu a diweddaru Cyfansoddiad y Cyngor o bryd i'w gilydd, i gynnwys unrhyw newidiadau achlysurol sy'n deillio o ddeddfwriaeth ddiwygiedig, deddfwriaeth sy'n cymryd lle un arall neu ddeddfwriaeth newydd; unrhyw ailstrwythuro o'r sefydliad sydd eisoes wedi ei awdurdodi fel bo'r angen ac i gynnwys dirprwyaethau newydd i swyddogion, sef y Pennaeth Gwasanaeth sydd â chyfrifoldeb am y gwasanaeth perthnasol, i gael awdurdod dirprwyedig llawn i gyflawni'r swyddogaeth ar ran y Cyngor, oni bai ei bod yn fater sydd wedi ei neilltuo i'r Cyngor, Pwyllgor Gwaith neu Bwyllgor.*"

8. Yn unol â'r ddirprwyaeth ym mharagraff 3.5.2.11, mae gan y Prif Weithredwr yr awdurdod wedi'i ddirprwyo felly i addasu teitlau a chyfrifoldebau swyddi ar gyfer yr UDA a Phenaethiaid Swyddogaeth a Gwasanaethau (yn amodol ar ymgynghoriad).

9. Fel rhan o'r ymgynghoriad, mae'r Prif Weithredwr wedi cyflwyno adroddiad i'r Pwyllgor Penodiadau, er nad yw ymgynghoriad o'r fath yn orfodol. Does gan y Pwyllgor Penodiadau ddim awdurdod i gytuno ar y newidiadau strwythurol, dim ond i argymell / penodi unigolion i rolau newydd / diwygiedig.

10. Mae'r newidiadau canlynol o fewn dirprwyaeth y Prif Weithredwr i'w gwneud ac mae awdurdod wedi'i ddirprwyo i'r Swyddog Monitro i weithredu unrhyw newidiadau o'r fath i'r Cyfansoddiad ei hun (sef, addasu teitlau swyddi a'r cyfrifoldebau a'r dirprwyaethau ar gyfer y rolau diwygiedig hynny):

| Teitl Blaenorol | Teitl Newydd | Paragraff Perthnasol yn y Cyfansoddiad ar gyfer awdurdod dirprwyedig |
|---|---|---|
| Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) /Swyddog a151 | Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog a151 | 3.5.3.5 |
| Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro | Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro | 3.5.3.6 |
| Pennaeth Gwasanaeth (Gwasanaethau Oedolion) | Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol | 3.5.3.7 |
| Pennaeth Gwasanaeth (Gwasanaethau Plant) | Pennaeth Gwasanaeth: Plant a Theuluoedd a Dirprwy Gyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol | 3.5.3.8 |
| Pennaeth Proffesiwn, AD a Gwasanaeth Trawsnewid Corfforaethol | Pennaeth Proffesiwn AD a Gwasanaeth Trawsnewid | 3.5.3.9 |
| Pennaeth Gwasanaeth (Rheoleiddio a Datblygu Economaidd) | Cyfarwyddwr Lle a Llesiant Cymunedol | 3.5.3.10 |
| Pennaeth Gwasanaeth (Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo) | Pennaeth Gwasanaeth: Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo | 3.5.3.11 |
| Pennaeth Gwasanaeth (Tai) | Pennaeth Gwasanaeth: Tai | 3.5.3.12 |
| Pennaeth Gwasanaeth (Dysgu) | Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc | 3.5.3.13 |

Newidiadau i’r Cyfansoddiad yn dilyn cymeradwyaeth y Cyngor.

11. Mae’r Cyfansoddiad yn nodi’n glir o dan paragraff 2.15.2.1 “*Ni fydd y Cyngor llawn yn cymeradwyo newidiadau i’r Cyfansoddiad hyd oni fydd y Pwyllgor Gwaith wedi ystyried y cynnig....”* Dyma’r sail ar gyfer yr adroddiad hwn sy’n gofyn am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith a’r Cyngor Llawn i’r newidiadau eraill i strwythur y Cyngor.

12. Yn y strwythur blaenorol, roedd hierarchaeth a oedd yn cynnwys y Prif Weithredwr a dau Brif Weithredwr Cynorthwyol ac wedi’u cynnwys gyda nhw o fewn yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth roedd Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog a151 a’r Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro. Roedd yna hefyd 7 Pennaeth Gwasanaeth (nad oeddent yn aelodau o’r Uwch Dîm Arweinyddiaeth). (Gellir gweld hyn yn **Atodiad 1**.)

13. Yn y strwythur newydd (**Atodiad 2**), mae’r ddwy rôl Dirprwy Brif Weithredwr Cynorthwyol yn cael eu diddymu ac mae un rôl newydd sef Dirprwy Brif Weithredwr yn cael ei chreu:

| **Teitl Blaenorol** | **Teitl Newydd** | **Paragraff Perthnasol yn y Cyfansoddiad ar gyfer yr awdurdod dirprwyedig** |
|---|---|---|
| Prif Weithredwr Cynorthwyol (Llywodraethiant a Thrawsnewid Prosesau Busnes) | *Dileu* | 3.5.3.2 |
| Prif Weithredwr Cynorthwyol (Partneriaeth, Cymuned a Gwella Gwasanaeth) | *Dileu* | 3.5.3.3 |
| *Dim* | Dirprwy Brif Weithredwr | 3.5.3.2 |

14. Mae’r strwythur newydd hefyd yn addasu’r llinellau adrodd rhwng y Penaethiaid Gwasanaeth a’r Uwch Dîm Arweinyddiaeth; mae’r newid hwn yn digwydd o ganlyniad i gyflwyno Cyfarwyddwyr. Yn ogystal, er y bydd Tai yn parhau i fod yn Wasanaeth annibynnol, bydd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151 yn rheolwr llinell i’r Pennaeth Gwasanaeth: Tai.

15. Mae cyfanswm o bum rôl Cyfarwyddwyr wedi eu creu. Tra bo’r rolau yn rhai newydd, maent yn ddiwygiad i’r strwythur ar gyfer unigolion sydd eisoes yn y swyddi fel Pennaeth Swyddogaeth/Gwasanaeth. Bydd y pum Cyfarwyddwr ynghyd â’r Dirprwy Brif Weithredwr a’r Prif Weithredwr yn ffurfio’r Uwch Dîm Arweinyddiaeth.

16. Mae yna bellach bedwar Pennaeth Gwasanaeth ac mae eu rolau'n aros fel y maent, er bod y Pennaeth Gwasanaeth Plant a Theuluoedd wedi'i benodi yn Ddirprwy Gyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol. Mae'r teitlau wedi'u diwygio ychydig bach.

17. Mae **Atodiad 3** yn cynnwys crynodeb o'r prif newidiadau a wnaed i awdurdod dirprwyedig rhai o'r swyddogaethau uchod dan y Cyfansoddiad. Nid yw pob swyddogaeth a/neu newidiadau wedi'u cynnwys (e.e. ble mae terminoleg wedi cael ei newid / ychwanegiadau wedi eu gwneud er mwyn cael cysondeb ar draws holl swyddogaethau'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth / Penaethiaid Gwasanaeth, ni chawsant eu cynnwys).

18. O ganlyniad i'r haen newydd o Gyfarwyddwyr, mae angen penderfyniad o ran rôl y Pwyllgor Penodiadau pan fydd angen gwneud penodiadau ar lefel Cyfarwyddwr. Mae cylch gwaith y Pwyllgor Penodiadau wedi'i gynnwys o dan baragraff 3.4.9 o'r Cyfansoddiad. Ar y sail bod yr haen ar yr un lefel â'r Swyddog a 151 a'r Swyddog Monitro, gwneir rhagdybiaeth y bydd penodiadau Cyfarwyddwyr yn y dyfodol yn cael eu gwneud o dan y ddarpariaeth a nodir yn 3.4.9.2 h.y. bydd y Pwyllgor Penodiadau yn cyfweld ac yn penodi unigolion i'r swydd.

<u>ARGYMHELLIAD:</u>

19. Bod y Cyngor llawn:

19.1 Yn nodi'r newidiadau ac yn cadarnhau ei fod yn cytuno â'r strwythur newydd fel y mae yn **Atodiad 2** sydd yn dangos:-

- newid i deitlau swyddi a manylebau aelodau o'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth / Penaethiaid Gwasanaeth;
- diddymu dwy rôl y Prif Weithredwyr Cynorthwyol;
- creu un rôl Dirprwy Brif Weithredwr;
- diddymu dwy rôl Pennaeth Swyddogaeth;
- creu pum rôl Cyfarwyddwr newydd; a
- newid y llinellau adrodd ar gyfer rhai aelodau o'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth a'r Penaethiaid Gwasanaeth.

19.2 Cadarnhau ei fod yn cymeradwyo cynnwys **Atodiad 2** yng Nghyfansoddiad y Cyngor.

19.3 Cadarnhau ei fod yn cymeradwyo'r newidiadau i'r awdurdod dirprwyedig yn **Atodiad 3**; a

19.4 Cadarnhau ei fod yn cymeradwyo unrhyw benodiadau i swydd Cyfarwyddwr yn y dyfodol gael eu gwneud gan y Panel Penodiadau; a

19.5 Cadarnhau ei fod yn cymeradwyo i unrhyw newidiadau ôl-ddilynol eraill gael eu gwneud i'r Cyfansoddiad er mwyn adlewyrchu'r argymhellion uchod.

| B – Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd eich rhesymau dros eu gwrthod ac/neu ddewis yr opsiwn hwn? |
|---|
| Mae gan y Prif Weithredwr yr awdurdod dirprwyedig i ddiwygio teitlau swyddi a meysydd o gyfrifoldeb. Tra bo rhai o'r newidiadau arfaethedig i'r strwythur staffio yn disgyn o fewn yr awdurdod dirprwyedig – ac awdurdod dirprwyedig y Swyddog Monitro i ddiwygio'r Cyfansoddiad er mwyn adlewyrchu'r penderfyniadau hynny – mae angen cymeradwyaeth y Cyngor llawn i wneud rhai newidiadau eraill.<br>Cyflwynir yr adroddiad i'r Cyngor ar gyfer cymeradwyo'r Cyfansoddiad i adlewyrchu'r newidiadau a wnaed i'r Strwythur Uwch Reolwyr gan gynnwys:<br>- diddymu'r ddwy swydd Prif Weithredwr Cynorthwyol a chreu un Swydd Dirprwy Brif Weithredwr;<br>- cyflwyno haen newydd o Gyfarwyddwyr; a<br>- diwygio'r llinellau cyfrifoldeb o ganlyniad i'r categori newydd o Gyfarwyddwyr ar yr Uwch Dîm Rheoli.<br>Dylid diweddaru'r Cyfansoddiad er mwyn adlewyrchu strwythur presennol y Cyngor. |

| C – Am ba reswm y mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith? |
|---|
| Mae paragraff 2.15.2.1 o'r Cyfansoddiad yn nodi "*Ni fydd y Cyngor llawn yn cymeradwyo newidiadau i'r Cyfansoddiad hyd oni fydd y Pwyllgor Gwaith wedi ystyried y cynnig...*" |

| CH – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn? |
|---|
| Amh |

| D – A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor? |
|---|
| Ailstrwythurwyd y Tîm Rheoli Corfforaethol yn 2015/16 pan gytunodd CSYM i gael Prif Weithredwr a dau Brif Weithredwr Cynorthwyol. Y gyllideb yn 2014/15 oedd £961k. Yn dilyn yr ailstrwythuro, bu gostyngiad yn y gyllideb i £682k.<br><br>Yn unol â'r ailstrwythuro presennol h.y. Prif Weithredwr, un Dirprwy Brif Weithredwr a phum Cyfarwyddwr, mae'r gyllideb ddrafft ar gyfer 2020/21wedi gostwng i £568k.<br><br>Mae'r gyllideb yn newid bob blwyddyn i ganiatáu ar gyfer y dyfarniad cyflog. Os ystyrir cyllideb 2014/15 yn ôl prisiau 2020/21, mae'r ffigwr hwn yn £1.08m. Mae hyn 90% yn uwch na'r gyllideb wirioneddol ar gyfer 2020/21 (£568k).<br><br>O ganlyniad, mae'r ailstrwythuro presennol yn golygu y bydd CSYM yn arbed arian. |

| DD – Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori? | | Beth oedd eu sylwadau? |
|---|---|---|
| 1 | **Prif Weithredwr / Uwch Dim Arweinyddiaeth (UDA)** (mandadol) | Penderfyniad i ddiwygio'r Strwythur Uwch Reolwyr wedi'i wneud gan y Prif Weithredwr blaenorol. Ymgynghorwyd ag Aelodau'r UDA fel rhan o'r broses ymgynghori AD ar y pryd. |
| 2 | **Cyllid / Adran 151** (mandadol) | Cwblhawyd Adran D yr adroddiad hwn gan y Swyddog Adran 151. |
| 3 | **Cyfreithiol / Swyddog Monitro** (mandadol) | Awdur yr adroddiad hwn. |
| 4 | **Adnoddau Dynol (AD)** | Sylwadau wedi'u cynnwys fel rhan o'r adroddiad hwn. |
| 5 | **Eiddo** | Amh |
| 6 | **Technoleg Gwybodaeth Cyfathrebu (TGCh)** | Amh |
| 7 | **Caffael** | Amh |
| 8 | **Sgriwtini** | Amh |
| 9 | **Aelodau Lleol** | Amh |
| 10 | **Unrhyw gyrff allanol eraill** | Amh |


| E – Risgiau ac unrhyw gamau lliniaru (os yn berthnasol) | | |
|---|---|---|
| 1 | **Economaidd** | |
| 2 | **Gwrthdlodi** | |
| 3 | **Trosedd ac Anhrefn** | |
| 4 | **Amgylcheddol** | |
| 5 | **Cydraddoldebau** | |
| 6 | **Cytundebau Canlyniad** | |
| 7 | **Arall** | |

**F - Atodiadau:**

| | |
|---|---|
| **Atodiad 1** | Strwythur Presennol yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth – i'w ddiddymu o'r Cyfansoddiad |
| **Atodiad 2** | Strwythur Arfaethedig yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth – i'w gynnwys yn y Cyfansoddiad |
| **Atodiad 3** | Crynodeb o'r prif newidiadau Cyfansoddiadol i awdurdod dirprwyedig aelodau penodol o'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth / Penaethiaid Gwasanaeth |

| FF - Papurau Cefndir (cysylltwch os gwelwch yn dda gydag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach): |
|---|
| |

# Strwythur Uwch Dim Arwain a Phenaethiaid Gwasanaeth
# Cyngor Sir Ynys Môn






**Mai 2016**


Atodiad 2

**Swyddogol-sensitif**

**01/07/2019**

## Cyngor Sir Ynys Môn

## Strwythur yr Uwch Dîm Rheoli / Penaethiaid Gwasanaeth



| **Teitl Blaenorol** | **Teitl Newydd** | **Newidiadau i'r Cyfansoddiad** |
|---|---|---|
| x2 rôl Prif Weithredwr Cynorthwyol | ---- | • Mae'r ddwy rôl wedi eu dileu<br>• Mae'r awdurdod dirprwyedig ym mharagraffau 3.5.3.2 a 3.5.3.3 wedi ei ddileu |
| ---- | Dirprwy Brif Weithredwr | • Mae un rôl ar gyfer Diprwy Brif Weithredwr yn cael ei greu.<br>• Mae'r rôl newydd yn cyfuno rhai o gyfrifoldebau / awdurdod dirprwyedig y ddau Brif Weithredwr Cynorthwyol blaenorol ac yn cynnwys mwy o gyfrifoldebau (yn unol â'r swydd ddisgrifiad) ac eraill er mwyn sicrhau cysondeb rhwng gwahanol aelodau'r UDA. Fe'i crëir dan baragraff 3.5.3.2 y Cyfansoddiad.<br>*3.5.3.2.1 ymgymryd â swyddogaethau aelod o'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth a chydweithio â'r Prif Weithredwr i gyflawni gweledigaeth, gwerthoedd a strategaethau'r Cyngor; cynllunio strategol a busnes, perfformiad a pholisi, sicrhau llywodraethiant corfforaethol a democrataidd da, a hyrwyddo gwelliant parhaus.*<br>*3.5.3.2.2 cydweithio â'r Prif Weithredwr gan gynghori a rhoi arweiniad i'r Cyngor a'i Bwyllgor Gwaith ar opsiynau strategol a pholisi o bwys; gweithredu fel llysgennad i'r Cyngor a bod yn gyfrifol am feithrin a chynnal perthnasau gyda budd-ddeiliaid mewnol ac allanol pan fo gofyn; sicrhau bod llywodraethiant a gwasanaethau allweddol y Cyngor yn gwella'n barhaus.*<br>*3.5.3.2.3 cyflawni'r swyddogaethau o ddarparu arweinyddiaeth strategol, cyfarwyddyd a chyngor proffesiynol ar faterion strategol a gweithredol ac ymdrechu'n gyson am ragoriaeth yn y sefydliad.*<br>*3.5.3.2.4 gweithredu fel yr aelod cyswllt o'r UDA i wasanaethau penodol (mae'n bosib y bydd hyn yn amrywio o bryd i'w gilydd) er mwyn darparu her, mentoriaeth a rheolaeth perfformiad i'r Cyfarwyddwyr a'r Penaethiaid Gwasanaeth a bydd hynny'n cynnwys defnyddio adnoddau, cysoni'r cynllun gwasanaeth a'i amcanion gyda blaenoriaethau corfforaethol, ac ymdrechu'n gyson am ragoriaeth yn y sefydliad.*<br>*3.5.3.2.5 trwy fentora a bod yn fodel rôl, ysgogi'r staff i wireddu gweledigaeth y sefydliad a'r newid diwylliant sydd ei angen.*<br>*3.5.3.2.6 mewn ymgynghoriad, ble mae hynny'n briodol, â'r aelodau portffolio perthnasol ar y pwyllgor gwaith, arwain ar a chyflawni rhaglen drawsnewid allweddol y Cyngor o bryd i'w gilydd (e.e. arferion busnes mewnol, cynllunio lle, moderneiddio ysgolion, trawsnewid gwasanaethau cymdeithasol i blant ac oedolion, hamdden ac ati) (nid yw'r rhestr hon yn hollgynhwysol)*<br>*3.5.3.2.7 mewn ymgynghoriad, ble mae hynny'n briodol, â'r aelodau portffolio perthnasol ar y pwyllgor gwaith, arwain a chyflawni partneriaethau ehangach y Cyngor megis y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol, Cymunedau Diogelach, GwE a mentrau gwasanaeth rhanbarthol eraill, Cynghorau Tref a Chymuned, Heddlu Gogledd Cymru (e.e. camdriniaeth ddomestig, llinellau cyffuriau, Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod (ACE) ac ati (nid yw'r rhestr hon yn holl-gynhwysol)*<br>*3.5.3.2.8 arwain ar y blaenoriaethau Cyngor-gyfan canlynol e.e. safonau Iaith Gymraeg; datblygiad economaidd ac ymdeimlad o le; prosiectau seilwaith mawr; moderneiddio ysgolion; sipsiwn a theithwyr; strategaeth atal; diogelwch cymunedol; iechyd a diogelwch; caethwasiaeth fodern (nid yw'r rhestr hon yn holl-gynhwysol)*<br>*3.5.3.2.9 Gweithio gyda'r Prif Weithredwr i ymgysylltu â rhaglenni rhanbarthol/cenedlaethol tra'n chwilio am ffyrdd o gynnal gallu'r sefydliad i siapio a dylanwadu ar ddatblygiadau allweddol y tu draw i ffiniau Ynys Môn*<br>*3.5.3.2.10 yn absenoldeb y Prif Weithredwr ac fel y Dirprwy enwebedig i'r Prif Weithredwr, gweithredu'r pwerau sydd wedi'u dirprwyo i'r Prif Weithredwr*<br>*3.5.3.2.11 gan gydweithio â'r Cyfarwyddwr, Pennaeth Gwasanaeth a/neu'r Pennaeth Swyddogaeth perthnasol, arwain ar ddatblygu a* |

| | | |
|---|---|---|
| | | *chyflawni strategaeth gyfreithiol, cyllid ac adnoddau dynol gyffredinol y Cyngor; gan sicrhau bod gwasanaethau'n cydymffurfio â safonau cyrff rheoleiddio Cymru a'r DU.*<br>*3.5.3.2.12 goruchwylio'r gwaith o greu a gweithredu fframweithiau rheoli perfformiad cadarn ar draws y Cyngor fel bod y canlyniadau i ddinasyddion yn cael eu monitro a'u gwella a bod gweithwyr yn cael sesiynau hunanwerthuso rheolaidd, datblygiadol.*<br>*3.5.3.2.13 arwain ar ddatblygu lle er mwyn adeiladu ar yr ymgysylltiad gyda chydranddeiliaid a fydd yn cyflawni'r fenter strategol hon sy'n cysylltu'r sectorau cyhoeddus, preifat a chymunedol i drawsnewid yr Ynys yn un o'r prif lefydd i fyw, gweithio, buddsoddi ynddi ac ymweld â hi.*<br>*3.5.3.2.14 diffinio a datblygu'r ymagwedd amlasiantaethol tuag at ymgysylltiad gyda busnesau a chymunedau a'r rhwydweithiau proffesiynol sydd eu hangen. Bydd y swydd hon yn arwain ar y goblygiadau allanol.*<br>*3.5.3.2.15 gwneud unrhyw ddyletswyddau sydd wedi'u nodi yn y disgrifiad swydd perthnasol fel caiff ei ddiwygio o bryd i'w gilydd ac fel sy'n ofynnol gan y Prif Weithredwr.* |
| Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog 151 | Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog 151 | • Newid teitl (O Bennaeth i Gyfarwyddwr)<br>• Dau gymal ychwanegol er mwyn adlewyrchu'r swydd ddisgrifiad / beth sydd eisoes yn ymddangos o fewn dirprwyaeth aelodau eraill yr UDA:<br>*3.5.3.5.21 fel aelod o'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth sicrhau fod arweinyddiaeth Gorfforaethol yn effeithiol a bod gwasanaethau cyfreithiol, cyllidol ac adnoddau dynol yn cydymffurfio â safonau cyrff rheoleiddio Cymru a'r DU.*<br>*3.5.3.5.22 gweithredu fel rheolwr llinell ar gyfer Pennaeth Gwasanaeth: Tai* |
| Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro | Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro | • Newid teitl (O Bennaeth i Gyfarwyddwr)<br>• Yr un peth â'r uchod – mae'r un cymalau yn cael eu mewnbynnu – ar gyfer unffurfiaeth:<br>*3.5.3.6.7 fel aelod o'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth sicrhau fod arweinyddiaeth Gorfforaethol yn effeithiol a bod gwasanaethau cyfreithiol, cyllidol ac adnoddau dynol yn cydymffurfio â safonau cyrff rheoleiddio Cymru a'r DU.* |
| Pennaeth Gwasanaeth (Gwasanaethau Oedolion) | Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol | • Newid teitl (O Bennaeth i Gyfarwyddwr)<br>• Deg cymal newydd wedi eu mewnbynnu er mwyn adlewyrchu'r cyfrifoldebau ychwanegol fel Cyfarwyddwr (yn unol â'r swydd ddisgrifiad) ac er mwyn sicrhau cysondeb efo eraill ar lefel Cyfarwyddwr:<br>*3.5.3.7.29 ymarfer y swyddogaethau fel aelod o'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth gan ddarparu arweinyddiaeth, gweledigaeth a chyfeiriad strategol ar gyfer y Cyngor er mwyn cyflawni blaenoriaethau ac amcanion corfforaethol y Cyngor.*<br>*3.5.3.7.30 arwain ar ddatblygu ymateb y Cyngor i Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 drwy gefnogi plant, pobl ifanc ac oedolion sydd "mewn perygl" a strategaethau sy'n caniatáu i oedolion hŷn fod mor annibynnol â phosibl (mae hyn yn cynnwys gweithio mewn partneriaeth ag amrediad o bartneriaid mewnol ac allanol gan gynnwys y Bwrdd Iechyd Lleol, y trydydd sector, y sector annibynnol, Cynghorau Tref a Chymuned ac ati (nid yw'r rhestr hon yn holl-gynhwysol).*<br>*3.5.3.7.31 fel aelod o'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth sicrhau fod arweinyddiaeth Gorfforaethol yn effeithiol a bod gwasanaethau cyfreithiol, cyllidol ac adnoddau dynol yn cydymffurfio â safonau cyrff rheoleiddio Cymru a'r DU.*<br>*3.5.3.7.32 yn atebol am ansawdd a darparu gwasanaethau ar gyfer cyflawni swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol (gan gynnwys sicrhau trefniadau diogelu effeithiol; meithrin perthnasau cydweithio effeithiol y tu mewn a'r tu allan i'r awdurdod lleol a gyrru'r gwaith i sicrhau gwell canlyniadau (nid yw'r rhestr hon yn holl-gynhwysol)) ac arwain ar ddatblygu gweledigaeth glir ar gyfer y Gwasanaethau Cymdeithasol sydd* |

| | | |
|---|---|---|
| | | *wedi'i dylunio i ddarparu gwasanaethau o ansawdd uchel*<br>*3.5.3.7.33 arwain ar ddatblygu strategaeth Atal sydd wedi'i dylunio i gefnogi pobl o bob oedran er mwyn gwneud cymunedau a theuluoedd yn fwy gwydn gyda hynny'n cyfrannu'n sylweddol at raglen atal a rheoli galw'r Cyngor;*<br>*3.5.3.7.34 bod â chyfrifoldeb holl-gynhwysfawr am y strategaeth ar gyfer cefnogi Sipsiwn a Theithwyr;*<br>*3.5.3.7.35 fel aelod o'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth, cyfrannu tuag at ddatblygu strategaethau a datblygiadau ar gyfer Cymunedau Diogelach;*<br>*3.5.3.7.36 gweithredu fel yr aelod cyswllt o'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth gyda gwasanaethau penodol (a all amrywio o dro i dro) er mwyn darparu her, cymorth mentora ac, yn y pen draw, rheoli perfformiad i Benaethiaid Gwasanaeth gan gynnwys y defnydd o adnoddau, aliniad y cynllun gwasanaeth ac amcanion gyda blaenoriaethau corfforaethol gan anelu'n gyson tuag at sicrhau rhagoriaeth sefydliadol.*<br>*3.5.3.7.37 i gynrychioli'r Cyngor ar y Bwrdd Partneriaethau Rhanbarthol*<br>*3.5.3.7.38 sicrhau bod y gwasanaeth Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth (IAA) yn effeithiol o ran cefnogi pobl i gyflawni eu canlyniadau llesiant.* |
| Pennaeth Gwasanaeth (Gwasanaethau Plant) | Pennaeth Gwasanaeth: Plant a Theuluoedd a Dirprwy Gyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol | • Newid teitl (I gynnwys rôl Dirprwy Gyfarwyddwr)<br>• Un cymal newydd wedi ei gynnwys er mwyn adlewyrchu'r cyfrifoldeb ychwanegol fel Dirprwy Gyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol:<br>*3.5.3.8.11 Bydd yn ymgymryd â rôl statudol y Cyfarwyddwr Gwasanaeth Cymdeithasol yn absenoldeb y Cyfarwyddwr Gwasanaeth Cymdeithasol, fel y cânt eu cynnwys mewn unrhyw Brotocol a all gael ei ddiwygio o bryd i'w gilydd yn unol â deddfwriaeth ac/neu ddewis lleol.* |
| Pennaeth Proffesiwn, AD a Gwasanaeth Trawsnewid Corfforaethol | Pennaeth Proffesiwn AD a Gwasanaeth Trawsnewid | • Newid teitl (rhywfaint) yn unol â'r swydd ddisgrifiad ac i sicrhau cysondeb yn fformat teitlau swyddi pawb sydd â'r un rôl o ran swyddi |
| Pennaeth Gwasanaeth (Rheoleiddio a Datblygu Economaidd) | Cyfarwyddwr Lle a Llesiant Cymunedol | • Newid teitl (O Bennaeth i Gyfarwyddwr)<br>• Saith cymal newydd wedi eu mewnbynnu er mwyn adlewyrchu'r cyfrifoldebau ychwanegol fel Cyfarwyddwr (yn unol â'r swydd ddisgrifiad) ac er mwyn sicrhau cysondeb efo eraill ar lefel Cyfarwyddwr:<br>*3.5.3.10.36 darparu cyngor ac arweinyddiaeth broffesiynol i'r Cyngor a'i Bwyllgorau, yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth, gan sicrhau gwelliant parhaus a gyrru'r rhaglen foderneiddio yn y Gwasanaeth*<br>*3.5.3.10.37 ymarfer y swyddogaethau fel aelod o'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth gan ddarparu arweinyddiaeth, gweledigaeth a chyfeiriad strategol ar gyfer y Cyngor er mwyn cyflawni blaenoriaethau ac amcanion corfforaethol y Cyngor ac arwain ar faterion Lle a Llesiant Cymunedol.*<br>*3.5.3.10.38 arwain ar y rhaglen cynllunio lle drwy gydlynu'r swyddogaethau economaidd, amgylcheddol, twristiaeth a llesiant cymunedol, ysbrydoli llesiant, gwydnwch ac ymgysylltiad cymunedol er mwyn datblygu cynlluniau llesiant sy'n alinio ag egwyddorion Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.*<br>*3.5.3.10.39 gweithredu fel yr aelod cyswllt o'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth gyda gwasanaethau penodol (a all amrywio o dro i dro) er mwyn darparu her, cymorth mentora ac, yn y pen draw, rheoli perfformiad i Benaethiaid Gwasanaeth gan gynnwys y defnydd o adnoddau, aliniad y cynllun gwasanaeth ac amcanion gyda blaenoriaethau corfforaethol gan anelu'n gyson tuag at sicrhau rhagoriaeth sefydliadol.*<br>*3.5.3.10.40 arwain ar gydymffurfiaeth o ran Iechyd a Diogelwch ac fel aelod o'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth, cyfrannu at strategaethau a datblygiadau mewn perthynas â Chymunedau Diogelach;*<br>*3.5.3.10.41 fel aelod o'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth sicrhau fod arweinyddiaeth Gorfforaethol yn effeithiol a bod gwasanaethau cyfreithiol, cyllidol ac adnoddau dynol yn cydymffurfio â safonau cyrff rheoleiddio Cymru a'r DU.* |

| | | |
|---|---|---|
| | | *3.5.3.10.42 gweithredu fel llysgennad arweiniol y Cyngor drwy gynrychioli a hyrwyddo'r ardal ar lefelau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol a chodi proffil yr Ynys a datblygu cydweithrediad gyda phartneriaid allanol gan gynnwys Cynghorau Tref a Chymuned* |
| Pennaeth Gwasanaeth (Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo) | Pennaeth Gwasanaeth: Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo | • Newid teitl (rhywfaint) yn unol â'r swydd ddisgrifiad ac i sicrhau cysondeb yn fformat teitlau swyddi ar gyfer pawb o fewn yr un swyddi |
| Pennaeth Gwasanaeth (Tai) | Pennaeth Gwasanaeth: Tai | • Newid tetil (rhywfaint) yn unol efo'r swydd ddisgrifiad ac i sicrhau cysondeb yn fformat teitlau swyddi ar gyfer pawb sydd â'r un rôl o ran swyddi |
| Pennaeth Gwasanaeth (Dysgu) | Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc | • Newid teitl (O Bennaeth i Gyfarwyddwr)<br>• Newid cylch gorchwyl cyfredol y rôl i gynnwys:<br>*3.5.3.13.1 Darparu arweinyddiaeth ar draws yr holl agweddau ar waith y Gwasanaeth. Mae hyn yn cynnwys <u>arwain ar hyrwyddo hawliau plant, cydlynu trefniadau i wella sgiliau, llesiant a gwydnwch pobl ifanc, cydweithio ac integreiddio; gweithio gydag amrediad o bartneriaid er mwyn sicrhau fod sgiliau'n cael eu datblygu'n effeithiol ar bob lefel, e.e. cyn-ysgol, ysgolion, colegau, prifysgolion a darparwyr hyfforddiant, Cynghorau Tref a Chymuned</u>, i wella safonau a chanlyniadau ar gyfer yr holl ddysgwyr; gwasanaethau arbenigol ac ataliol; sicrhau bod rhaglenni cyfalaf a grantiau yn gyson â chynlluniau cyflawni'r gwasanaeth a'r gorfforaeth, a datblygu dysgu gydol oes ar draws llyfrgelloedd, amgueddfeydd ac archifau (nid yw'r rhestr yn holl-gynhwysol)*<br>• Chwe chymal newydd wedi eu mewnbynnu er mwyn adlewyrchu'r cyfrifoldebau ychwanegol fel Cyfarwyddwr (yn unol â'r swydd ddisgrifiad) ac er mwyn sicrhau cysondeb efo eraill ar lefel Cyfarwyddwr:<br>*3.5.3.13.60 ymarfer y swyddogaethau fel aelod o'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth gan ddarparu arweinyddiaeth, gweledigaeth a chyfeiriad strategol i'r Cyngor er mwyn cyflawni blaenoriaethau ac amcanion corfforaethol y Cyngor ac arwain ar Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc*<br>*3.5.3.13.61 gweithredu fel yr aelod cyswllt o'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth gyda gwasanaethau penodol (a all amrywio o dro i dro) er mwyn darparu her, cymorth mentora ac, yn y pen draw, rheoli perfformiad i Benaethiaid Gwasanaeth gan gynnwys y defnydd o adnoddau, aliniad y cynllun gwasanaeth ac amcanion gyda blaenoriaethau corfforaethol gan anelu'n gyson tuag at sicrhau rhagoriaeth sefydliadol.*<br>*3.5.3.13.62 gweithio gyda'r Bwrdd Diogelu Plant er mwyn sicrhau fod yr holl gyfrifoldebau a disgwyliadau'n cael eu diwallu'n llawn ac er mwyn cyfrannu at strategaethau a datblygiadau mewn perthynas â Chymunedau Diogelach*<br>*3.5.3.13.63 fel aelod o'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth sicrhau fod arweinyddiaeth Gorfforaethol yn effeithiol a bod gwasanaethau cyfreithiol, cyllidol ac adnoddau dynol yn cydymffurfio â safonau cyrff rheoleiddio Cymru a'r DU.*<br>*3.5.3.13.64 arwain ar sefydlu perthnasau gweithio cryf gyda darparwyr addysgol eraill gan gynnwys blynyddoedd cynnar, addysg bellach ac uwch, darparwyr hyfforddiant (nid yw'r rhestr hon yn holl-gynhwysol)*<br>*3.5.3.13.65 gyrru'r strategaeth gorfforaethol ar gyfer moderneiddio ysgolion a'r rheoli newid yn y Gwasanaeth*<br>*3.5.3.13.66 gweithredu fel llysgennad arweiniol ar gyfer y Cyngor drwy gynrychioli a hyrwyddo'r Awdurdod ar lefelau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol a chodi proffil yr Ynys a gweithio gydag amrediad o bartneriaid gan gynnwys Cynghorau Tref a Chymuned er mwyn gwella llesiant a gwydnwch personol pobl ifanc* |

This page is intentionally left blank

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| CYFARFOD: | Cyngor Sir |
| DYDDIAD: | 10/03/2020 |
| TEITL YR ADRODDIAD: | Datganiad Polisi Tâl 2020 |
| ADRODDIAD GAN: | Cynghorydd Dafydd Rhys Thomas |
| PWRPAS YR ADRODDIAD: | Sicrhau bod yr Awdurdod yn cwrdd â'i gyfrifoldebau statudol dan Ddeddf Lleoliaeth 2011 i gyhoeddi Polisi Tâl erbyn 31.3.20 |

RHAGARWEINIAD

Dan Adran 112 Deddf Llywodraeth Leol 1972, mae gan y Cyngor "power to appoint officers on such reasonable terms and conditions as the authority thinks fit". Yn unol ag Adran 38 Deddf Lleoliaeth 2011, rhaid i awdurdodau lleol yn Lloegr a Chymru gynhyrchu a chyhoeddi datganiad polisi tâl ar gyfer bob blwyddyn ariannol.

SGÔP Y POLISI

Yn unol â Deddf Lleoliaeth Act 2011, rhaid i awdurdodau ddatblygu a chyhoeddi eu polisi tâl ar bob agwedd o Gydnabyddiaeth i Brif Swyddogion. Er budd tryloywder ac atebolrwydd, mae'r Cyngor wedi dewis dull mwy cyffredinol a bydd yn cynhyrchu datganiad polisi sy'n cynnwys yr holl grwpiau o weithwyr ac eithrio athrawon ysgolion oherwydd nid yw'r gydnabyddiaeth a roddir iddynt hwy o fewn rheolaeth yr awdurdod lleol. Mae canllawiau Llywodraeth Cymru wedi eu cynnwys yn y datganiad.

ARGYMHELLIAD

Argymhellir bod y Cyngor yn cymeradwyo'r Datganiad Polisi Tâl sydd ynghlwm wrth yr adroddiad hwn fel ei Ddatganiad Polisi Tâl ar gyfer 2020/21.

Atodiad 1 Datganiad Polisi Tâl

**CYNGOR SIR YNYS MÔN**

**DATGANIAD POLISI TÂL**

**CHWEFROR 2020**

## 1. Rhagarweiniad a Phwrpas

Yn unol ag adran 112 Deddf Llywodraeth Leol 1972, mae gan y Cyngor “power to appoint officers on such reasonable terms and conditions as the authority thinks fit”. Mae’r Datganiad Polisi Tâl hwn (y ‘datganiad’) yn nodi dull gweithredu’r Cyngor o ran y polisi tâl yn unol â gofynion Adran 38 Deddf Lleoliaeth 2011, sy’n rhoi dyletswydd ar awdurdodau lleol yng Nghymru a Lloegr i gynhyrchu a chyhoeddi datganiad polisi tâl ar gyfer pob blwyddyn ariannol. Pwrpas y datganiad yw darparu tryloywder mewn perthynas â dull y Cyngor o bennu tâl ei weithwyr (ac eithrio’r rheini sy’n dysgu yn ysgolion yr awdurdod lleol) trwy nodi;

- dulliau ar gyfer penderfynu cyflogau gweithwyr;
- lefel ac elfennau y gydnabyddiaeth ariannol a roddir i’w prif swyddogion, fel y diffinnir hynny gan y ddeddfwriaeth berthnasol;
- lefel tâl gweithwyr ar y cyflogau isaf;

Mae awdurdodau lleol yn sefydliadau cymhleth, mawr gyda chyllidebau o filiynau o bunnau. Mae ganddynt amrediad eang iawn o swyddogaethau ac maent yn darparu ac/neu’n comisiynu ystod eang o wasanaethau hanfodol. O’r herwydd, gall y dull gweithredu cyffredinol o ran lefelau cydnabyddiaeth wahaniaethu o un grŵp o weithwyr i’r llall i adlewyrchu anghenion penodol ar lefel leol, lefel Cymru neu lefel y Deyrnas Gyfunol. Rhaid iddo hefyd fod yn hyblyg, pan fo angen, i roi sylw i amrywiaeth o amgylchiadau sy'n newid a rhaid iddo fod yn gyson â’r amcanion busnes.

## 2. Y Fframwaith Deddfwriaethol

Wrth benderfynu tâl a chydnabyddiaeth ei weithwyr, bydd y Cyngor yn cydymffurfio gyda’r holl ddeddfwriaeth berthnasol o ran cyflogaeth. Mae hyn yn cynnwys Deddf Cydraddoldebau 2010, Rheoliadau Cyflogaeth Rhan Amser (Rhwystro Triniaeth Llai Ffafriol) 2000, Rheoliadau Gweithwyr Asiantaeth 2010 a lle mae hynny'n berthnasol, Reoliadau Trosglwyddo Ymgymeriadau (Diogelu Cyflogaeth) 2006. (Nid yw’r rhestr hon yn hollgynhwysol).

## 3. Sgôp y Datganiad Polisi Tâl

Yn unol â Deddf Lleoliaeth 2011, rhaid i awdurdodau ddatblygu a chyhoeddi eu polisi tâl ynghylch pob agwedd ar y Gydnabyddiaeth Ariannol i Brif Swyddogion (gan gynnwys cytundebau terfynu) ac i’r rheini yn yr awdurdod sy’n cael y ‘tâl isaf’, gan esbonio eu polisi ar y berthynas rhwng y gydnabyddiaeth ariannol i Brif Swyddogion a grwpiau eraill. Fodd bynnag, er budd tryloywder ac atebolrwydd, mae’r Cyngor wedi penderfynu cymryd agwedd ehangach a chynhyrchu datganiad polisi sy’n ymwneud â’r holl grwpiau o weithwyr, ac eithrio athrawon ysgol oherwydd bod eu cydnabyddiaeth ariannol nhw y tu allan i reolaeth yr awdurdod lleol.

Nid oes dim o fewn darpariaethau Deddf Lleoliaeth 2011 yn tynnu oddi wrth y grym sydd gan gynghorau i wneud penderfyniadau ar dâl sy'n briodol i amgylchiadau lleol ac sy'n darparu gwerth am arian ar gyfer trethdalwyr lleol.  Fodd bynnag, cydymffurfir gyda'r datganiad polisi hwn wrth bennu lefelau cydnabyddiaeth ariannol ar gyfer yr holl grwpiau o fewn ei sgôp.

## 4. Datblygu Strategaeth Tâl a Gwobrwyo

Prif nod y strategaeth wobrwyo yw denu, cadw a chymell staff sydd â'r sgiliau addas fel y gall yr awdurdod berfformio ar ei orau. Un o'r heriau mwyaf i'r Cyngor yw sicrhau'r effeithlonrwydd a'r cynhyrchedd mwyaf posib o fewn yr adnoddau sydd ar gael.  Mae'r polisi tâl yn fater o daro cydbwysedd anodd weithiau rhwng pennu cydnabyddiaeth ariannol ar lefelau priodol i hwyluso cyflenwad digonol o unigolion gyda'r sgiliau priodol i lenwi'r ystod eang iawn o swyddi yn yr awdurdod, a sicrhau nad yw'r baich ar y trethdalwyr yn fwy na'r hyn y gellir ei gyfiawnhau'n llawn ac yn wrthrychol.

Yn y cyd-destun hwn, mae'n rhaid cydnabod bod rhaid i lefelau cydnabyddiaeth ariannol, ar y lefelau uwch yn arbennig, fedru denu ymgeiswyr gydag ystod eang o ddoniau gan sicrhau hefyd y gellir cadw unigolion cymwys a chanddynt sgiliau addas unwaith y maent yn eu swyddi.  Dylid cydnabod y bydd y Cyngor yn aml yn ceisio recriwtio mewn cystadleuaeth gyda chyflogwyr da eraill yn y sectorau cyhoeddus a phreifat.

Mae'r Cyngor yn gyflogwr mawr yn yr ardal a, gan hynny, rhaid iddo gadw mewn cof ei rôl o ran gwella lles economaidd pobl Ynys Môn.  Mae argaeledd cyflogaeth o safon dda ar delerau ac amodau rhesymol ac am dâl teg yn cael effaith lesol ar ansawdd bywyd yn y gymuned yn ogystal ag ar yr economi leol.  Mae gan y Cyngor rôl o ran pennu enghraifft meincnod o ran telerau ac amodau i gyflogwyr eraill yn yr ardal am yr un rhesymau.

Wrth ddylunio, datblygu ac adolygu'r strategaeth tâl a gwobrwyo, bydd y Cyngor yn ceisio cydbwyso'r ffactorau hyn yn briodol i sicrhau'r canlyniadau gorau ar gyfer yr awdurdod a'r gymuned y mae'n ei gwasanaethu, tra'n rheoli costau yn briodol a sicrhau digon o hyblygrwydd i gwrdd ag anghenion y dyfodol.  Caiff y Datganiad Polisi Tâl hwn ei adolygu a'i gymeradwyo bob blwyddyn gan y Cyngor Llawn.

## 5. Y Strwythur Tâl

Mae'r Cyngor yn defnyddio'r graddfeydd tâl NJC a drafodwyd yn genedlaethol fel sail ar gyfer ei strwythur tâl lleol.  Hwn sy'n penderfynu'r cyflogau ar gyfer y mwyafrif llethol o'r gweithwyr nad ydynt yn athrawon, ynghyd â defnydd o'r cyfraddau cenedlaethol diffiniedig eraill lle mae hynny'n berthnasol.  Cytunwyd cynnydd yn y strwythur tâl cenedlaethol i staff ar y raddfa NJC ar gyfer y cyfnod 1 Ebrill 2018 hyd at 31 Mawrth 2020. Ar hyn o bryd rydym yn aros am gytundeb cenedlaethol ar ddyfarniad cyflog 2020 ac ymlaen.  Mae'r Cyngor yn parhau i fod yn ymrwymedig i gydymffurfio gyda gweithdrefnau bargeinio tâl cenedlaethol mewn perthynas â'r strwythur tâl cenedlaethol ac unrhyw gynnydd blynyddol ar gyfer costau byw a drafodir yn y strwythur tâl.  Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i bennu cyflogau'n deg yn unol â deddfwriaeth tâl gyfartal a chytundeb 'statws sengl' llywodraeth leol 1997 ac, ers 1 Rhagfyr 2015, wedi gweithredu strwythur tâl a graddfeydd Statws Sengl.  Mae strwythur graddau NJC y Cyngor yn rhedeg o Raddfa 1 (pwynt 10) hyd at Raddfa 10 (pwynt uchaf 50) gyda'r isafswm ac uchafswm cyflog fesul awr ar hyn o bryd yn £9.36 a £28.17 yn y drefn honno.

Unwaith bydd swydd yn cael ei gwerthuso, bydd y sgôr yn penderfynu i ba raddfa neu fand tâl bydd y swydd yn cael ei gymhathu. Fel arfer, penodir i swyddi newydd ar waelod y raddfa berthnasol, er bod modd amrywio hynny lle bo angen i sicrhau y gellir penodi'r ymgeiswyr gorau, gyda chytundeb y Pennaeth Gwasanaeth – Trawsnewid ac Adnoddau Dynol.

Mae'r holl lwfansau eraill sy'n gysylltiedig â thâl yn ddarostyngedig i gyfraddau a drafodwyd yn genedlaethol neu'n lleol, a benderfynwyd o bryd i'w gilydd yn unol â'r gweithdrefnau bargeinio ar y cyd ac/neu fel y penderfynir gan Bolisi'r Cyngor.

Yn hanesyddol, nid yw'r Cyngor wedi defnyddio ychwanegiadau marchnad i gymryd y farchnad dâl allanol i ystyriaeth wrth ddenu a chadw gweithwyr gyda phrofiad, sgiliau a chapasiti penodol. Fodd bynnag, mabwysiadwyd Polisi Ychwanegiad Marchnad ac, wrth weithredu'r polisi, bydd y Cyngor yn sicrhau fod unrhyw ychwanegiad marchnad yn cael ei gyfiawnhau yn wrthrychol trwy gyfeirio at dystiolaeth glir a thryloyw o fethiant yn olynol i recriwtio i swydd, a thystiolaeth o gymaryddion perthnasol yn y farchnad, gan ddefnyddio ffynonellau data priodol sydd ar gael y tu mewn a'r tu allan i'r sector llywodraeth leol. Mae'r Cyngor, drwy ei Bolisi ar Secondiadau a Honoraria, hefyd yn gallu rhoi "honoraria" dros dro i aelodau staff sydd, oherwydd amryw reswm, yn gweithredu ar lefel uwch o gyfrifoldeb am gyfnod o amser.

Mae'r Cyngor yn disgwyl lefelau uchel o berfformiad gan bob gweithiwr ac mae ganddo Gynllun Arfarnu Blynyddol ar waith i fonitro, gwerthuso a rheoli perfformiad yn barhaus.

## 6. Buddion Eraill

Yn amodol ar amodau cymhwyso, mae gan weithwyr hawl i ymuno â Chynllun Pensiwn Llywodraeth Leol. Mae cyfraddau cyfraniad y gweithwyr, a ddiffinnir gan statud, ar hyn o bryd yn amrywio rhwng 5.8% a 11.4% o'u cyflog, gan ddibynnu ar y bandiau tâl sy'n ymwneud â'r cyflog cyfwerth ag amser llawn cyfatebol. Caiff cyfraddau'r cyflogwr eu pennu gan Actiwarïaid sy'n cynghori Cronfa Bensiwn Gwynedd a chânt eu hadolygu bob tair blynedd er mwyn sicrhau bod y cynllun wedi ei gyllido'n briodol. Y gyfradd o 1.4.2020 fydd 21.4% ac yn weithredol hyd at 31.3.2023.

Mae gan y Cyngor ystod o delerau ac amodau eraill sy'n berthnasol i'w weithwyr, yn seiliedig yn bennaf ar delerau ac amodau'r Cydgyngor Cenedlaethol, ynghyd ag amodau a pholisïau a drafodwyd yn lleol. Mae rhai o'r telerau a'r amodau hyn yn golygu tâl ariannol, gan gynnwys benthyciadau car, talu ffioedd proffesiynol a thaliadau honoraria ar gyfer ymgymryd â dyletswyddau ychwanegol. Ar gyfer 'ychwanegiadau i gyflogau Prif Swyddogion', gweler paragraff 10 isod. Mae telerau ac amodau staff yn cael eu hadolygu yn rheolaidd mewn ymgynghoriad a negydu gyda'n undebau llafur cydnabyddedig.

## 7. Cydnabyddiaeth Ariannol i Uwch Reolwyr

I ddibenion y datganiad hwn, mae uwch reolwyr yn golygu 'prif swyddogion' fel y diffinnir hynny yn Adran 43 y Ddeddf Lleoliaeth. Mae'r swyddi dilynol yn disgyn o fewn y diffiniad statudol o 'uwch reolwyr' yng nghyd-destun y datganiad hwn:-

a) Prif Weithredwr/Pennaeth Gwasanaeth Cyflogedig

b) Uwch Dim Arweinyddiaeth (Dirprwy Brif Weithredwr, Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151, Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro), Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol, Addysg, Sgiliau a Phobl Ifainc & Lle a Llesiant Cymunedol
c) Penaethiaid Gwasnaeth – Plant a Theuluoedd, Adnoddau & Thrawsnewid, Tai, a Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo.

Yn 2019 cafodd yr holl ddisgrifiadau swydd o fewn y strwythur Uwch Reolwyr eu gwerthuso yn unol â Chynllun Gwerthuso Swyddi'r Gymdeithas Llywodraeth Leol (CLlL) ar gyfer uwch swyddogion a'u dilysu'n allanol gan yr CLlL. Yna troswyd y sgorau i strwythur cyflog (a adolygwyd eto gan y CLlL ac a ddangosir isod) cyn eu cyflwyno i Banel Annibynnol Cydnabyddiaeth Ariannol Cymru (IRP) a gadarnhaodd eu cefnogaeth lawn i'r strwythur graddio a chyflog arfaethedig.

**Strwythur Cyflog CLlL yr Uwch Dîm Rheoli –**

| Graddfa CLlL | Swydd | Cyflog 01/07/2019 |
|---|---|---|
| LGA 1 | | |
| LGA 2 | Penaethiaid Gwasanaeth | 76,990 |
| LGA 2A | Pennaeth Swyddogaeth | 78,380 |
| LGA 3 | Cyfarwyddwyr / Pennaeth Swyddogaeth Swyddog A151 | 86,700 |
| LGA 4 | Dirprwy Brif Weithredwr | 96,900 |
| LGA 5 | Prif Weithredwr | 117,300 |

Felly bydd tâl sylfaenol uwch reolwyr ar 1 Ebrill 2020 (yn ddarostyngedig i unrhyw ddyfarniadau cyflog i Brif Weithredwyr a Phrif Swyddogion sydd ar ddod) fel a ganlyn: -

| Uwch Swyddog | Tâl |
|---|---|
| Prif Weithredwr – CLlLGA5 | £117,300 y flwyddyn (ddim yn gynyddrannol). Mae'n ofynnol i'r swyddog weithredu fel Pennaeth Gwasanaeth Cyflogedig a bydd hefyd yn derbyn ffioedd ychwanegol ar gyfer dyletswyddau fel Swyddog Canlyniadau. |
| Arweinyddiaeth Uwch – CLlL2A-CLlL4 - | £78,380 - £96,900 y flwyddyn |
| Penaethiaid Gwasanaeth – CLlL2 | £76,990 y flwyddyn |

Nid yw’r trefniadau cydnabyddiaeth yn cynnwys unrhyw lwfansau arbennig neu incrementau eraill.

Mae Panel Penodi'r Cyngor yn cyfarfod i ystyried a darparu argymhellion i'r Cyngor ar lefelau cyflog a gwobr am y tair haen uchod o uwch swyddogion. Cwmpas y Panel yw: -

- Gwneud argymhellion ar faterion cyflog a gwobr uwch i'r Cyngor, gan sicrhau cysondeb, tryloywder a hygyrchedd.
- Gwneud argymhellion ar reoli a strwythur tâl a gwobr uwch, a sail ar gyfer dilyniant tâl.

Mae Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013 yn rhoi i’r Panel Cydnabyddiaeth Ariannol Annibynnol dros Gymru (yr IRP”) pwerau i wneud argymhellion mewn perthynas â chyflog y Pennaeth y Gwasanaeth Cyflogedig, neu unrhyw newidiadau arfaethedig i gyflog Pennaeth y Gwasanaeth Cyflogedig. Bydd yr Awdurdod yn ystyried unrhyw argymhelliad a dderbyniwyd gan yr IRP mewn perthynas â thâl i’w Bennaeth Gwasanaeth Cyflogedig.

## 8. Recriwtio Prif Swyddogion

Mae polisi a gweithdrefnau’r Cyngor mewn perthynas â recriwtio prif swyddogion wedi eu hamlinellu o fewn y Rheolau Gweithdrefn Cyflogi Swyddogion yn Rhan 4.10 y Cyfansoddiad. Wrth recriwtio i bob swydd, bydd y Cyngor yn cymryd ystyriaeth lawn a phriodol o'i Bolisïau ar gyfer Cyfleon Cyfartal, Recriwtio a Dewis, ac Adleoli. Bydd y penderfyniad ynghylch y cyflog a gynigir i unrhyw brif swyddog a benodir o’r newydd yn cael ei wneud yn unol â'r strwythur tâl a’r polisïau perthnasol sydd mewn grym ar adeg y recriwtio.

Lle na all y Cyngor recriwtio prif swyddogion dan gontract gwasanaeth, neu lle mae angen cymorth dros dro i gyflawni dyletswyddau swydd prif swyddog sy’n wag, bydd y Cyngor, lle bo raid, yn ystyried ac yn gweithredu trefniadau i gyflogi unigolion dan gontractau gwasanaeth. Gwneir hynny trwy broses bwrcasu berthnasol, gan sicrhau bod y Cyngor yn gallu dangos y gwerth gorau am arian o gystadleuaeth, wrth sicrhau gwasanaethau perthnasol.

Yn unol â rheoliadau Llywodraeth Cymru, mae’n bolisi gan y Cyngor bod y Cyngor llawn yn cael y cyfle i bleidleisio ar dâl ac unrhyw ailstrwythuro ar lefel uwch rheolwyr gwaeth beth yw lefelau cyflog. Mae rheoliadau Llywodraeth Gymru hefyd yn nodi fod rhaid hysbysebu’n allanol unrhyw swyddi gyda chyflog o £100,000 neu fwy os oes disgwyl i’r swydd fod am gyfnod o 12 mis neu fwy.

## 9. Gwobrau Cyflog

Mae’r Cyngor yn cyflogi Prif Swyddogion dan delerau ac amodau JNC wedi eu hymgorffori yn eu contractau. Mae’r JNC ac gyfer Prif Swyddogion yn negydu codiadau tâl i gwrdd â chostau byw cynyddol ar ran y grŵp hwn ar lefel cenedlaethol, ac mae unrhyw ddyfarniad yn cael ei bennu ar y sail hon. Mae Prif Swyddogion a gyflogir dan delerau ac amodau’r JNC gyda’r hawl cytundebol i unrhyw wobrau cyflog a benderfynwyd yn genedlaethol gan y JNC a bydd y Cyngor hwn felly yn talu’r codiadau cyflog hyn fel a phan eu penderfynwyd yn unol â gofynion cytundebol cyfredol.

## 10. Ychwanegiadau i Gyflogau Prif Swyddogion

Mae'r un meini prawf cymhwyso a'r un trefniadau yn berthnasol i Brif Swyddogion ag sy'n berthnasol i weithwyr eraill mewn perthynas â thelerau ac amodau ychwanegol sy'n denu tâl, gan gynnwys taliadau costau teithio ac ad-dalu ffioedd proffesiynol.

## 11. Taliadau Terfynu

Mae dull y Cyngor o drin taliadau dewisol a statudol ar adeg terfynu cyflogaeth prif swyddogion a gweithwyr sydd o fewn sgôp y datganiad hwn, cyn iddynt gyrraedd oed ymddeol arferol, wedi ei nodi yn ei ddatganiad polisi yn unol â rheoliadau 5 a 6 Rheoliadau Llywodraeth Leol (Terfynu Cyflogaeth yn Fuan) (Iawndal Dewisol) 2006 a Rheoliadau 12 a 13 Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (Buddion, Aelodaeth a Chyfraniad) 2007. Mae unrhyw ychwanegiadau a ddarperir o fewn polisi'r Cyngor yn berthnasol i bob aelod o staff, waeth beth fo'u graddfa a'u statws.

Mae'r Cyngor yn aros am reoliadau Llywodraeth Cymru mewn perthynas â chap posib ar daliadau gadael y sector cyhoeddus yn y dyfodol. Yn y cyfamser bydd y Cyngor llawn yn cael cyfle i bleidleisio ar becynnau diswyddo sydd dros £100,000, y cyfanswm i gynnwys tâl diswyddo, tâl yn lle rhybudd a'r gost i'r awdurdod o'r straen ar y gronfa bensiwn sy'n codi o ddarparu mynediad cynnar i bensiwn. Yn achos yr holl daliadau eraill sy'n disgyn y tu allan i dermau contractyddol, bydd angen i'r Cyngor llawn neu aelodau etholedig perthnasol, pwyllgor neu banel o aelodau etholedig gydag awdurdod dirprwyol wneud penderfyniad ffurfiol i gymeradwyo'r fath daliadau.

Ar hyn o bryd, nid yw'r Cyngor wedi ailgyflogi Prif Swyddogion sydd wedi ymddeol. Pe bai amgylchiadau yn codi lle byddai angen ystyried gwneud hynny am resymau busnes pwysig, byddai unrhyw benderfyniad o'r fath yn cael ei wneud gan y Cyngor llawn neu aelodau etholedig perthnasol, pwyllgor neu banel o aelodau etholedig gydag awdurdod dirprwyol i gymeradwyo trefniadau o'r fath, yn unol â pholisi Ailstrwythuro a Diswyddo'r Cyngor fel y noder isod.

Mae Polisi Ailstrwythuro a Diswyddo'r Cyngor yn nodi na fydd unrhyw weithiwr sy'n gadael cyflogaeth y Cyngor ar delerau diswyddo gwirfoddol yn cael ei ail-gyflogi gan y Cyngor am gyfnod y taliad iawndal dileu swydd a dderbyniwyd, e.e. os bydd aelod o staff yn derbyn 45 wythnos o dâl dileu swydd, ni ellir ail-gyflogi gan y Cyngor am 45 wythnos ar ôl y dyddiad terfynu. Bydd y cyfnod hwn yn cael ei ymestyn i 12 mis os yw'r gweithiwr hefyd yn derbyn pensiwn y mae'r Cyngor wedi talu costau ychwanegol iddi. Byddai'n rhaid i unrhyw ail-gyflogaeth gynt na'r hyn a nodir uchod fod gydag awdurdodiad penodol yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth a'r Pennaeth Gwasanaeth - Trawsnewid ac Adnoddau Dynol a fyddai'n ystyried pob achos yn ôl ei rinweddau.

## 12. Gweithwyr ar y Cyflogau Isaf

Mae'r gweithwyr sy'n cael y tâl isaf ac a gyflogir dan gontract cyflogaeth gyda'r Cyngor yn cael eu cyflogi ar gyflogau sy'n gyfwerth ag amser llawn 37 awr yn unol â'r pwynt cyflog isaf a ddefnyddir ar hyn o bryd yn strwythur graddfeydd y Cyngor. Ar 1 Ebrill 2020, ac hyd nes y cytunir yn genedlaethol ar unrhyw ddyfarniad tâl arfaethedig, y pwynt hwnnw yw'r pwynt graddfa 3 a gytunwyd yn genedlaethol, sy'n £18,065 y flwyddyn, neu £9.36 yr awr,

sy’n uwch na’r Tâl Byw Cenedlaethol o £8.72 yr awr o 1 Ebrill 2020 a’r Cyflog Byw Iawn o £9.30 yr awr. Gall gwerthoedd cyflog y Cyngor newid yn 2020 os cytunir ar y dyfarniad cyflog cenedlaethol arfaethedig sy'n cael ei drafod ar hyn o bryd.

Mae'r berthynas rhwng y gyfradd tâl ar gyfer y rheini sydd ar y cyflogau isaf a chyflogau prif swyddogion yn cael ei phenderfynu gan y prosesau a ddefnyddir i benderfynu’r strwythurau tâl a graddfeydd fel y dangosir yn gynharach yn y datganiad polisi hwn.

Mae'r canllawiau statudol dan y Ddeddf Lleoliaeth yn argymell defnyddio lluosyddion tâl fel ffordd o fesur y berthynas rhwng cyfraddau tâl ar draws y gweithlu a thâl uwch reolwyr, fel sydd wedi ei gynnwys yn Adolygiad Hutton o Dâl Teg yn y Sector Cyhoeddus (2010). Gofynnodd y Llywodraeth i’r adroddiad Hutton ymchwilio i’r achos ar gyfer sefydlu terfyn sefydlog o ran yr ystod tâl, trwy fynnu na all unrhyw reolydd yn y sector cyhoeddus ennill mwy nag 20 gwaith yr hyn a delir i’r sawl sydd ar y cyflog isaf yn y sefydliad. Daeth yr adroddiad i'r casgliad bod y berthynas gyda chyflog cyfartalog yn fesur mwy perthnasol ac mae Côd Arferion y Llywodraeth ar Dryloywder Data yn argymell y dylid cyhoeddi’r gymhareb rhwng y cyflog uchaf a’r cyflog cyfartalog ar gyfer y cyfan o weithlu'r awdurdod.

Fel rhan o’i drefniadau monitro parhaus o ran aliniad gyda marchnadoedd tâl allanol, y tu mewn i’r sector a’r tu allan iddo, bydd y Cyngor yn defnyddio gwybodaeth meincnodi sydd ar gael fel sy’n briodol. O’i fynegi fel lluosydd o gyflog, bydd cyflog y Prif Weithredwr yn 6.5:1 yn fwy nag enillydd isaf y Cyngor.

## 13. Contractwyr Allanol

Bydd y Cyngor yn defnyddio ei brosesau pwrcasu i sicrhau y mabwysiedir arferion tâl teg a moesegol gan gontractwyr allanol a gomisiynwyd i ddarparu gwasanaethau.

## 14. Cyhoeddi

Ar ôl i’r Cyngor llawn ei gymeradwyo, cyhoeddir y datganiad hwn ar Wefan y Cyngor. Yn ogystal, ar gyfer swyddi lle mae’r cyflog cyfwerth ag amser llawn cyfatebol yn o leiaf £60,000, bydd Datganiad Cyfrifon Blynyddol y Cyngor (http://www.ynysmon.gov.uk/cyngor-a-democratiaeth/cyllideb-a-gwariant/datganiad-or-cyfrifon/datganiad-or-cyfrifon-2018-2019?redirect=false) yn cynnwys nodyn yn amlinellu cyfanswm

- cyflogau, ffioedd neu lwfansau a dalwyd i’r unigolyn yn y flwyddyn gyfredol a’r flwyddyn flaenorol neu yr oedd modd i’r unigolyn eu derbyn;
- unrhyw symiau sy’n daladwy ar ffurf lwfans treuliau sy’n denu treth incwm yn y Deyrnas Gyfunol.
- unrhyw iawndal am golli cyflogaeth ac unrhyw daliadau eraill sy’n gysylltiedig â therfynu cyflogaeth;
- unrhyw fuddion a dderbyniwyd nad ydynt o fewn sgôp yr uchod.

## 15. Atebolrwydd a Gwneud Penderfyniadau

Dywed Paragraff 10 y canllawiau statudol “The provisions in the Act ……require Councillors to take a greater role in determining pay, ensuring that these decisions (no definition) are taken by those who are directly accountable to local people”.

Yn unol â Chyfansoddiad y Cyngor, y Panel Tâl a Graddfeydd sy’n gyfrifol am wneud penderfyniadau mewn perthynas â recriwtio, tâl, telerau ac amodau a threfniadau diswyddo mewn perthynas â gweithwyr y Cyngor.

Bydd y Datganiad Polisi Tâl yn cael ei adolygu’n flynyddol a’i chyflwyno i gyfarfod o’r Cyngor llawn bob blwyddyn naill ai ym mis Chwefror neu mis Mawrth; yn dilyn hyn bydd yn cael ei gyhoeddi ar wefan yr Awdurdod.

Mae’r Cyngor wedi ystyried y canllawiau presennol yn natblygiad y polisi tâl hwn, ond os derbynnir canllawiau diwygiedig pellach gall y Cyngor benderfynu diwygio’r polisi gyda chymeradwyaeth y Cyngor llawn. Bydd y fersiwn diwygiedig yn cael ei gyhoeddi ar y wefan.

*Chwefror 2020*

This page is intentionally left blank